# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 21AIN HYDREF, 2021**

***NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB***

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 14/10/21)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Aled Ll. Evans | Steve Collings |
| E. Selwyn Griffiths | Judith Mary Humphreys |
| Gareth Tudor Morris Jones | Huw Gruffydd Wyn Jones |
| Olaf Cai Larsen | Rheinallt Puw |
| Mair Rowlands | Paul John Rowlinson |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Beth Lawton |
| Dewi Wyn Roberts | Elfed Powell Roberts |
| Mike Stevens | |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

## Y Blaid Genedlaethol (1)

[sedd wag]

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| Ruth Roe | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Manon Williams | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Dilwyn Elis Hughes | UCAC |
| Dylan Huw Jones | NASUWT |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2021 fel rhai cywir.

**5. PENDERFYNIAD Y CABINET - 28-09-21 - EITEM 8 - YSGOL ABERSOCH** 10 - 233

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**6. YR ECONOMI A CHEFNOGAETH I FUSNESAU** 234 - 239

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

**7. GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD** 240 - 269

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

**8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG 2021-22** 270 - 271

Cyflwyno rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 10 MEHEFIN 2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Steve Collings, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Dewi Owen, Elfed Powell Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson a Mike Stevens.

**Aelodau Cyfetholedig:** Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru), Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Swyddogion yn bresennol:**
Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon
Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)
Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd, GwE)
Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd, GwE)
Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2021/22.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2021/22.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rheinallt Puw a Dewi Roberts.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5 MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Ebrill, 2021 fel rhai cywir.

## 7. ADDYSG A'R GYMRAEG: GWELEDIGAETH NEWYDD AR GYFER CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI TUAG AT 2032 A THU HWNT

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg, ynghyd â swyddogion yr Adran Addysg i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn gwahodd y craffwyr i gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth arfaethedig ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, gan nodi mai bwriad y weledigaeth newydd oedd adeiladu ar y gwaith da a gyflawnwyd gan y canolfannau iaith dros y degawdau diwethaf, cydnabod gwaith caled y staff, a chyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth.

Nododd y Pennaeth Addysg:-

- Y credai fod hon yn weledigaeth gyffrous, oedd yn gosod seiliau i wasanaeth sydd wedi'i glodfori i fod yn gwneud rhagor o waith da, gan gyfoesi'r gwasanaeth i fod yn rhan o gyfundrefn yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer ysgolion.
- Bod yr Adran a staff y canolfannau iaith yn awyddus i beidio colli gafael ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil ail-bwrpasu'r gwasanaeth a chyrraedd mwy o blant mewn ffordd wahanol yn ystod cyfnod y pandemig, ac y dymunid adeiladu ymhellach ar y cryfderau a'r dulliau gweithredu hynny.
- Bod yr aelodau eisoes wedi derbyn copi o lythyr Estyn at y Prif Weithredwr oedd yn amlygu gwaith yr Awdurdod yn cefnogi ysgolion a phlant yn ystod cyfnod y pandemig, ac yn rhoi canmoliaeth arbennig i waith y canolfannau iaith wrth iddynt fynd ati i ail-bwrpasu'r gwasanaeth.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Rhoddwyd cydnabyddiaeth i lwyddiant y canolfannau iaith dros y blynyddoedd i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.
- Cytunwyd gyda'r bwriad i gryfhau'r atebolrwydd fel rhan o'r weledigaeth newydd.
- Cefnogwyd y bwriad i arfogi gweithlu'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr i wneud cynnydd pellach i feithrin hyder a chaffael y Gymraeg.
- Cefnogwyd y bwriad i sefydlu darpariaeth addysg drochi ym Mangor.
- Gofynnwyd i'r Adran Addysg gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.
- Cafwyd amrywiaeth barn ar ffynhonnell gyllido'r gyfundrefn addysg drochi, gyda rhai aelodau yn gefnogol i'r bwriad y byddai ysgolion yn cyfrannu gan gynyddu atebolrwydd a chydberchnogaeth o'r gyfundrefn rhwng yr Adran Addysg a'r ysgolion, ond mynegwyd hefyd ddymuniad i'r Cyngor yn gorfforaethol fod yn ariannu'r bwlch cyllidol yn sgil y ffaith fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O safbwynt mewnbwn a chyfraniad yr ysgolion i'r weledigaeth a'r gwasanaeth ar ei newydd wedd, y bwriedid ymgysylltu'n anffurfiol â phenaethiaid yr ysgolion ar y weledigaeth newydd. Hefyd, petai'r gyfundrefn newydd yn dod i rym, roedd yn debygol y byddai bwrdd rheoli yn cael ei sefydlu ar gyfer y gyfundrefn newydd, fyddai'n cynnwys cynrychiolaeth o blith y gyfundrefn ysgolion. Golygai hynny y gallai'r ysgolion gyfrannu a chyd-berchnogi a siapio'r ddarpariaeth, er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn ymateb i anghenion yr ysgolion, ac yn cyfoesi ar yr un pryd â datblygiadau addysgol sy'n digwydd ar lawr dosbarth.
- O safbwynt addysg gydol oes, a'r cyfleoedd allai godi o ran cynnig gwasanaethau i'r gymuned, bod bwriad i edrych ar gyfleoedd y tu hwnt i addysg drochi yn unig, megis gofal plant a chyfleoedd i rieni ac oedolion ddysgu Cymraeg, wrth i fwy o fanylder ynglŷn â'r safleoedd newydd ddod i fodolaeth.
- O safbwynt mesurau llwyddiant, bod y targed i bob plentyn 5 oed dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i osod ar bob awdurdod fel mesurydd, a dyna'r cyfrwng yn y cyfnod sylfaen yn yr ysgolion yng Ngwynedd. Cytunid y gallai plant gael eu colli wrth fynd o un cyfnod allweddol i'r llall, ond byddai'r ffocws ar ddilyniant yn cael sylw penodol o fewn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd, yn ogystal â'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg a chyfleoedd y tu hwnt i'r gyfundrefn addysg i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yna hefyd fesurau penodol ar gyfer mesur cynnydd y dysgwyr dros eu cyfnod o 8-10 wythnos ar safle'r gyfundrefn drochi, ac roedd angen sicrhau bod y cynnydd yma'n parhau wedi i'r disgyblion drosglwyddo'n ôl i'r gyfundrefn ysgolion.
- O ran atebolrwydd, byddai'r ysgolion yn ganolog i'r gyfundrefn newydd hon. Roedd yr adborth gan y penaethiaid yn ystod y cyfnod clo yn clodfori'r cyswllt agosach fu rhwng y canolfannau a'r ysgolion, ac wrth i'r sector ysgolion gyfrannu tuag at gyllido'r weledigaeth drochi newydd, byddai'r atebolrwydd, ynghyd â llais yr ysgolion yn rhediad a chyfeiriad strategol y gwasanaeth yn cynyddu. Golygai hefyd fod y gwasanaeth yn gallu bod yn fwy ymatebol wrth i sefyllfaoedd lleol o ran proffil iaith ein cymunedau newid. Dymunid sefydlu cyfundrefn lle byddai'r plant yn cael y manteision gorau o'r system drochi ac arbenigedd y staff, ond bod hynny'n digwydd fwy ar y cyd hefo'r ysgolion, a bod y plant yn cael y cyfle yn ystod y cyfnod yma i ddychwelyd i'r ysgol o bryd i'w gilydd, ac i gymhathu a defnyddio'u sgiliau iaith newydd gyda'u cyfoedion. Credid y byddai'r penaethiaid yn gafael yn y cyfrifoldebau hyn a'r atebolrwydd yma, ac wrth symud ymlaen, y gellid sefydlu cyfundrefn o lywodraethiant gyda phennaeth y gwasanaeth trochi newydd, yr Adran Addysg a'r ysgolion yn bartneriaid allweddol yn hynny.
- Ei bod yn gynamserol i ddod i gasgliad ynglŷn â phwy fydd yn cyfrannu at gyllido'r ddarpariaeth. Gellid dadlau y byddai system lle byddai'r holl gyfundrefn yn cyfrannu yn gytbwys ar draws y gwasanaeth, ond gellid hefyd gweld mantais o gael cyswllt ariannol agosach gyda'r ysgolion hynny sydd â phlant yn mynychu'r gyfundrefn drochi, gan fod hynny'n sicrhau mwy o atebolrwydd a mwy o gyfrifoldeb gwirioneddol gan yr ysgolion hynny tuag at lwyddiant y system drochi. Fodd bynnag, y cam cyntaf ar hyn o bryd oedd sefydlu'r weledigaeth, cael cydsyniad gwleidyddol a chorfforaethol ar hynny, a chael cydsyniad y Cabinet maes o law. Yn dilyn hynny, gellid symud ymlaen i weithio drwy'r manylder, a phwysleisiwyd y byddai'r Adran yn hapus iawn i gynnwys yr aelodau etholedig yn y drafodaeth ar hyd y daith.
- Nad gweddnewid y gyfundrefn yn llwyr oedd y nod, eithr adeiladu ar y cryfderau presennol, gan anelu tuag at ragoriaeth a chyrraedd mwy o blant.
- Er y deellid y ddadl y gallai dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol leol am un diwrnod bob wythnos newid iaith yr ysgol honno, bod gan yr Awdurdod ddyletswydd gofal tuag at y plant yma, a rhan annatod a phwysig o'r gwasanaeth newydd fyddai sicrhau bod y

plant hynny'n gallu dychwelyd i'r fam ysgol ar y pumed diwrnod, ac yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yno.

- Na ellid ymhelaethu ar y materion staffio ar hyn o bryd oherwydd yr angen i ymgynghori yn y lle cyntaf ar y weledigaeth, a derbyn sêl bendith gwleidyddol ar hynny. Nid oedd gan y Cabinet rôl uniongyrchol mewn materion o gyflogaeth, a byddai'n rhaid i'r Adran ystyried ac ymgynghori ar y materion staffio maes o law. Gan ei bod yn debygol y byddai'r staff fyddai'n gweithredu'r weledigaeth newydd yn perthyn i un endid, yn hytrach na chanolfannau unigol, byddai angen mwy o hyblygrwydd yn y system staffio fel bod modd dargyfeirio staff, o bosib', er mwyn targedu union anghenion y plant.
- Y derbynnid y sylw bod angen athrawon sy'n arbenigwyr ar gaffael iaith ymhob un o'r canolfannau, ac y byddai'r Adran yn sicrhau staffio priodol.
- Bod y pwysau ar y gwasanaeth trochi wedi cynyddu yn ystod cyfnod y pandemig wrth i fwy o bobl o'r tu allan symud i Wynedd, a bod rhaid darparu system drochi sy'n ein galluogi i gyrraedd y plant ychwanegol yma sydd wedi symud i mewn i'r sir, ac a fydd yn symud i mewn yn y dyfodol. Deellid y pryder ynglŷn â diffyg parhad y ganolfan iaith ym Mhenrhyndeudraeth, ond yr hyn oedd yn allweddol oedd bod yna ddarpariaeth ar gael o hyd i blant yr ardal honno, ac ardaloedd newydd yn derbyn buddsoddiad o'r newydd, sef Tywyn a Bangor, sef lleoliadau strategol lle'r oedd yr Adran yn rhagweld y byddai rhai o'r anghenion mwyaf i'r dyfodol.
- O ran y rhesymeg dros ffurfio canolfannau blynyddoedd 5-9, gan adael y rhai cynradd yn flynyddoedd 2-4 yn unig, y ceisid targedu'r gwasanaeth a'r arbenigedd staff a'r dull o ddysgu tuag at adrannau penodol. Roedd anghenion y plant ieuengaf yn dra gwahanol i anghenion y plant hŷn, a'r dulliau o ddysgu a mewnoli gwybodaeth, cymhathu sgiliau ayb, yn dra gwahanol wrth i ddatblygiad niwrolegol plentyn symud yn ei flaen. Y bwriad yma oedd ceisio atgyfnerthu'r cysyniad o'r datblygiad sy'n digwydd o ganol yr oedran cynradd tuag at ganol yr oedran uwchradd. Roedd yr Adran yn grediniol bod targedu'r oedran canol yma yn ffordd effeithiol o bontio i'r addysg mwy ffurfiol y tu hwnt i flwyddyn 9, ac hefyd yn fodd o gynyddu'r nifer o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd sy'n parhau i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at TGAU, Lefel A a thu hwnt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Adran a'r Aelod Cabinet Addysg gymryd sylw o sylwadau'r pwyllgor, a bod y pwyllgor craffu yn derbyn adroddiad pellach ar hyn pan fydd mwy o fanylder ar gael.**

## 8. GRANTIAU COVID I FYD ADDYSG I GYNORTHWYO DISGYBLION

Croesawyd swyddogion yr Adran Addysg a GwE i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar y Grant Rhaglen Dysgu Carlam a dderbyniwyd gan ysgolion i gynorthwyo disgyblion yn sgil Covid.

Manylodd yr Uwch Reolwr Ysgolion ar gefndir ac amodau'r grant, gan nodi bod cyfanswm yr arian a neilltuwyd i ysgolion Gwynedd tua £2,220,440.

Cyfeiriodd Arweinydd Craidd – Cynradd, GwE at y Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol a luniwyd gan GwE er mwyn cefnogi ysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwario'r grantiau, gan hefyd roi trosolwg o'r cynlluniau ysgolion cynradd. Yna rhoddodd Arweinydd Craidd – Uwchradd, GwE drosolwg o'r cynlluniau ysgolion uwchradd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau.

Awgrymwyd, unwaith y bydd yr ysgolion wedi cael cyfle i ddefnyddio'r grant yn llawn, y byddai'n fuddiol derbyn crynodeb o farn penaethiaid, athrawon a disgyblion sydd wedi elwa o'r gefnogaeth ychwanegol, fel bod modd mesur effaith y grant. Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol cael crynodeb o'r arferion da a danlinellwyd gan Arweinyddion Craidd – GwE.

Mewn ymateb, eglurwyd bod disgwyl i'r penaethiaid gyflwyno gwybodaeth i'r Adran Addysg a GwE yn nhymor yr hydref am effaith y grantiau, a gellid dod â hynny gerbron y craffwyr ar yr adeg hynny. Nodwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael enghreifftiau o'r arferion da y cyfeiriwyd atynt fel bod modd eu rhannu'n genedlaethol.

I gloi, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Addysg bwysigrwydd sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth ar draws y sir. Mynegodd ei werthfawrogiad o'r gwaith a gyflawnwyd, ond cytunodd nad oedd GwE na'r Adran mewn sefyllfa i roi diweddariad llawn ar hyn o bryd. Nododd ymhellach ei fod yn ymwybodol o'r gweithgareddau sydd wedi mynd ymlaen, a bod rhannu arferion da yn elfen bwysig iawn o hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a godwyd, gan hefyd obeithio cael diweddariad ar hyn ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.**

## 9. RHAGLEN WAITH DDRAFFT CRAFFU 2021/22

Cyflwynwyd rhaglen waith ddrafft craffu 2021/22 i'w mabwysiadu.

Nodwyd bod un eitem wedi llithro o'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu rhaglen waith craffu 2021/22.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.35 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 21ain Hydref 2021 |
| **PWNC** | Penderfyniad Cabinet 28/09/2021.<br>Eitem 8 – Ysgol Abersoch. |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae'r penderfyniad a ganlyn wedi ei alw i mewn i'w graffu yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor: –

   **<u>Eitem 8: Ysgol Abersoch, cyfarfod Cabinet 28/09/2021</u>**

   "**Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018**."

2. Gwnaethpwyd y cais i alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu gan y Cynghorwyr Beth Lawton (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu), Alwyn Gruffydd ac Elwyn Jones o fewn y gofynion a'r amserlen angenrheidiol.

3. Mae'r rhesymau am alw mewn, hynny yw'r agweddau o'r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu ac sydd o fewn gofynion Cyfansoddiadol, wedi eu nodi fel a ganlyn:

   " 1. Mae'r Adroddiad yn anghywir ac yn gamarweiniol rhan effaith ar y Cymuned, er enghraifft iaith a diwylliant Cymraeg - yn y tabl ar dudalen 714 mae yn dweud nad oes dim effaith ar yr Iaith.

   2.Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref

   (a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.
   (b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.
   Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.
   Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn.

3.Mae pryder wedi ei ddatgan rhan y ffordd droed rhwng Abersoch a Sarn Bach mae yr Adran addysg yn dweud fod cyswllt wedi bod gyda'r Adran Ffyrdd ond nid oes dim byd pendant wedi ei gyflwyno rhan datrys y risg yma sydd yn rhoi disgyblion mewn peryg. Mae'r Adran Addysg yn sôn am drefniadau cludiant sydd wrth gwrs yn ychwanegu at hinsawdd ac yn enghraifft ddrwg i'r plant ar sut mae'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth effaith ar hinsawdd.

4. Mae un plentyn yn disgyn allan o'r cynnig i gael cludiant oherwydd polisïau oed - yn y dyfodol pan fydd rhifau plant yn cynyddu oherwydd (a) a (b) mae'n debyg bydd plant eraill yn cael gwrthod y cludiant yma ac felly yn dioddef rhan eu haddysg.

5.Y penderfyniad ydi i gau yr ysgol yn ganol y flwyddyn ysgol a does dim amheuaeth fod hyn am fod yn dryslyd i'r plant ac eto mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu haddysg does dim eglurhad pam a beth ydi y rhesymeg yn fan hyn. ".

4. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Craffu i graffu ar y mater yn unol â'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrir y dylid eu craffu amgaeir y dogfennau isod gyda'r adroddiad hwn.

- Atodiad 1 – ymateb yr adran addysg i'r agweddau o'r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu
- Atodiad 2 – Taflen penderfyniad y Cabinet (Eitem 8, 28/09/2021)
- Atodiad 3 – adroddiad y Cabinet (Eitem 8, 28/09/2021)

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Ysgol Abersoch |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Hydref 2021 |
| **Swyddog Perthnasol** | Gwern ap Rhisiart, Swyddog Addysg Ardal |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1. Penderfyniad Y Cabinet, 28 Medi 2021**

Yn dilyn penderfyniad gan y Cabinet ar 15 Mehefin 2021, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 25 Mehefin 2021 o'r bwriad i weithredu cynnig i gau Ysgol Abersoch, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

I atgoffa aelodau, dyma'n gryno yw elfennau statudol y broses sydd ynghlwm â chynnig ( yn yr achos yma) i gau ysgol:

1. Cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig
2. Ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynnig
3. Cyhoeddi rhybudd statudol o'r bwriad i weithredu cynnig gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod
4. Ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a phenderfynu os dylid gweithredu'r cynnig ai peidio.

Ar 28 Medi 2021, ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a wnaeth y Cabinet (cam 4). Dylid cadw mewn cof bod y camau statudol blaenorol wedi eu cwblhau, a'r penderfyniadau hynny yn rhai terfynol bellach. Ni ellir felly ail ymweld â'r cynnig a'i addasu, ac mae'r Pwyllgor yn craffu ar benderfyniad y Cabinet i weithredu'r cynnig yn dilyn ei ystyriaeth o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Yn benodol bydd yn ystyried y materion hynny a roddir fel rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn.

Fe nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion:
*"Os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law i gynigion awdurdod lleol, a bod angen penderfyniad o dan adran 53 o Ddeddf 2013, rhaid i'r awdurdod lleol beidio ag ystyried y cynigion hynny gyda meddwl caeedig. Rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1.3 – 1.14 o'r Cod hwn."*

**2 Ymateb y Cyngor i'r Gwrthwynebiadau**

Mae'r Adran Addysg yn hyderus fod yr adroddiad ar y gwrthwynebiadau yn ymdrin ag yn ymateb i'r gwrthwynebiadau yn unol â gofynion y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod cysylltiedig. Cyfeirir yn benodol yn adroddiad Cabinet 28 Medi at wrthwynebiadau yn ymwneud â'r yr effaith ar y gymuned a'r iaith Gymraeg, datblygiadau posib yn yr ardal, cludiant a theithio a dyddiad gweithredu'r cynnig. Mae ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny wedi eu nodi isod.

Dylid nodi'n ogystal fod y gwrthwynebiadau a gyfeiriwyd at yr effaith ar y Gymuned a'r iaith Gymraeg, cludiant a theithio a dyddiad gweithredu'r cynnig wedi eu hamlygu a'u trafod ymhellach yn ystod y cyfarfod Cabinet – gellir gwylio'r gwe-ddarllediad y cyfarfod yma.

**i. Yr effaith ar y Gymuned a'r Iaith Gymraeg**

| |
|---|
| ***"Mae yr Adroddiad yn anghywir ac yn gamarweiniol rhan effaith ar y Cymuned er enghraifft iaith a diwylliant Cymraeg yn y tabl ar tudalen 714 mae yn dweud nad oes dim effaith ar yr Iaith."*** |

**Fe amlygir mai tudalen 714 o adroddiad Cabinet 15 Mehefin 2021, sydd eisoes wedi ei weithredu, a gyfeirir ato uchod. Serch hynny, nodir isod grynodeb o ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau yn ymwneud a'r effaith ar y gymuned a'r iaith, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 28 Medi 2021.**

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn cyfeirio at ddylanwad yr ysgol ar iaith a diwylliant Abersoch ac o golli'r ysgol, byddai hynny'n cael effaith negyddol ar faint o Gymraeg fyddai'n cael ei siarad mewn amgylchiadau bob dydd ym mhentref Abersoch.

Mewn ymateb i'r sylwadau hynny, bu i'r Awdurdod gydnabod ymdrechion Ysgol Abersoch i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn ehangach yn y gymuned, gan gyfleu gwerthfawrogiad o gefnogaeth y gymuned i'r ysgol ac i'r iaith Gymraeg yn sgil hynny. Nodwyd fod y Cyngor hefyd yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg. Er hynny, disgwyliad yr Awdurdod yw bod holl ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ac iaith gymdeithasol disgyblion, gan mai'r un yw'r disgwyliadau ieithyddol ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd.

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad o ardrawiad cymunedol yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. Yn ogystal, nododd y Cyngor fod yr asesiad effaith ar y gymuned yn nodi y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.

*Cadarnheir fod y mater uchod wedi bod yn destun trafodaeth yn ystod cyfarfod y Cabinet ar 28 Medi 2021.*

**ii. Datblygiadau yn yr ardal e.e. tai a gwesty**

| |
|---|
| ***"Nid yw yr Adroddiad yn cymeryd i ystyriad dyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod ir rîm yn y Pentref (a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr ai Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.***<br><br>***(b) Mae Llywodraeth Cymru yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Cymdeithas Tai (sydd yn berchen ar tir yn y pentref) ar hyn o brud yn edrych i godi fwy o dai mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi bosib 15 o dai.***<br><br>***Mae y Cymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi wneud yn barod ar safle Bryn Garmon.***<br><br>***Nid yw yr adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref a felly nid yw yr Adran Addysg wedi ymateb i gofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau y Dyfodol wrth peidio gwneud hyn."*** |

**Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw sylwad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu oedd yn cyfeirio'n benodol at gynlluniau i ddatblygu 15 o dai ym mhentref Abersoch, na'r bwriad i ddatblygu safle Bryn Garmon.**

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu mynegwyd anfodlonrwydd gan rhai nad oedd unrhyw sôn yn yr adroddiad am y 150 o swyddi newydd pan fydd gwesty'n cael ei adeiladu a'i agor yn Abersoch, gan annog teuluoedd lleol i aros yn yr ardal a chreu cyfle i deuluoedd newydd ddod i'r ardal.

Mewn ymateb i'r sylwad, nodwyd nad oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol a chynnydd yn nifer y swyddi'n lleol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Byddai plant y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch.

Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi'r broblem ail-gartrefi sydd yn Abersoch a'r effaith mae hyn wedi ei gael ar yr ysgol. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi mai un o'r rhesymau nad yw nifer y disgyblion wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf yw'r diffyg tai fforddiadwy.

Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, nodwyd fod y Cyngor yn nodi'r sylwadau/gwrthwynebiadau, fodd bynnag, dymuna'r Cyngor nodi nad oes ganddo reolaeth dros y farchnad dai agored. Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy fydd ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu hanghenion tai.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio.

**iii. Cludiant a theithio**

> **"Mae pryder wedi ei datgan rhan y ffordd droed rhwng Abersoch a Sarn Bach mae yr Adran addysg yn dweud fod cyswllt wedi bod gyda yr Adran Ffyrdd ond nid oes dim byd pendant wedi ei gyflwyno rhan datrys y risg yma sydd yn rhoi disgyblion mewn peryg. Mae yr Adran Addysg yn sôn am trefniadau cludiant sydd wrth gwrs yn ychwanegu at hinsawdd ac yn enghraifft drwg ir plant ar sut maer cyngor yn cymryd i estyriad effaith ar hinsawdd."**

*Cadarnheir fod y gwrthwynebiadau yn ymwneud â chludiant a theithio wedi eu trafod yn ystod cyfarfod y Cabinet ar 28 Medi 2021.*

Derbyniwyd rhai gwrthwynebiadau oedd yn nodi pryderon am yr effaith posib ar drefniadau teithio i'r ysgol, gan amlygu fod y llwybr cerdded o Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn beryglus.

Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny, nodwyd fod Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch.

Gan fod y llwybr o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn cael ei hystyried fel un peryglus, byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir.

Bu i rai gwrthwynebwyr hefyd nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith ar yr amgylchedd gan y byddai angen teithio ymhellach i'r ysgol. Mewn ymateb i'r sylwadau hynny, gan fod bws eisoes yn cludo plant cyfnod allweddol 2 o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, ac ein bod yn rhagweld y bydd digon o le ar y bws hwnnw (neu fws mwy) ar gyfer plant dalgylch Ysgol Abersoch, ni ragwelir y bydd cynnydd arwyddocaol yn allyriadau $CO_2$.

> **"Mae un plentyn yn disgyn allan or cynnig i gael cludiant oherwydd polisïau oed - yn y dyfodol pam fydd rhifau plant yn cynyddu oherwydd (a) a (b) mae debyg fydd plant eraill yn cael gwrthod y cludiant yma a felly yn dioddef rhan ei addysg."**

Derbyniwyd rhai gwrthwynebiadau oedd yn nodi anfodlonrwydd am y diffyg cynnig o gludiant i ddisgyblion oed meithrin. Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny, nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd ac sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).Yn unol â Pholisi Cludiant Gwynedd, cyfrifoldeb rhieni yw gwneud trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin.

Yn dilyn y cyfarfod Cabinet bu i'r Adran Addysg gysylltu â rhiant yr unig ddisgybl o oed meithrin sydd yn mynychu Ysgol Abersoch y tymor yma. Daeth yn amlwg, yn dilyn trafod nifer o opsiynau, nad oedd ffordd ymarferol i'r rhiant nol ei phlentyn o'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol amgen ac y byddai peidio ag ymateb yn gwar afu'r disgybl o weddill ei addysg feithrin.

Cytunwyd i fod yn addasu'r polisi cludiant i nodi y byddwn yn darparu cludiant i ddisgyblion meithrin lle bo'r ysgol y maent wedi cychwyn ynddi yn cau yn ystod blwyddyn ysgol. O ganlyniad i hyn bydd y disgybl yn cael cludiant nol a mlaen o'r ysgol amgen am weddill y flwyddyn addysgol.

**iv. Dyddiad gweithredu'r cynnig**

> **"Y penderfyniad ydi i gau yr ysgol yn ganol y flwyddyn ysgol ac does dim amheuaeth fod hyn am fod yn dryslyd ir plant ac eto mae hyn yn cael effaith negyddol ar ei addysg does dim eglurhad pam a beth ydi y rhesymeg yn fan hyn."**

*Cadarnheir fod y mater uchod wedi bod yn destun trafodaeth yn ystod cyfarfod y Cabinet ar 28 Medi 2021.*

Derbyniwyd gwrthwynebiadau oedd yn cwestiynu'r bwriad i weithredu'r cynnig yng nghanol blwyddyn ysgol. Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny, er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol yma, penderfynwyd y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.

Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, rhagwelir bydd hyn yn caniatáu digon o amser i'r Adran Addysg gydweithio gyda'r 2 ysgol i roi'r holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle cyn trosglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach ddechrau Ionawr 2022.

Gyda chydweithrediad staff Ysgol Abersoch rhagwelir y byddai modd cychwyn y broses bontio i'r ysgol amgen yn raddol dros amser.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Medi 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Hydref 2021 |

**PWNC**

Eitem 8:YSGOL ABERSOCH

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ôl ym Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer ei dyfodol yn dilyn lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb i'r prif heriau mae'r ysgol yn ei wynebu.

Ym Medi 2020, bu i'r Cabinet benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar 1 Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Bu i'r Adran addysg gychwyn yr ymgynghoriad ar 5 Ionawr 2021 yn wreiddiol, ond gan na wnaeth yr un plentyn fynychu safle'r Ysgol ar y diwrnod hwnnw o ganlyniad i ofyniadau diweddaraf Covid-19, roedd anfodlonrwydd yn lleol nad oedd yr awdurdod wedi cyd-fynd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyhoeddi'r ymgynghoriad ar "ddiwrnod ysgol". Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi addasiad dros dro i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a phenderfynwyd ail gyhoeddi'r ymgynghoriad yn dilyn yr 8fed o Ionawr 2021, a'i gynnal rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021.

Derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad statudol a bu i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb i'r sylwadau hynny cyn gwneud eu penderfyniad i :

i. Gymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a

darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol sarn Bach o 1 Ionawr 2022

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Yn unol a'r penderfyniad hwn cyhoeddwyd rhybudd statudol, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod trefniadaeth Ysgolion 011/2018 gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod.

Derbyniwyd 211 gwrthwynebiad a 2 ddeiseb, ac yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol ar y gwrthwynebiadau ac ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbynwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dewi Roberts gan ei fod yn aelod o lywodraethwyr Ysgol Abersoch.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Statudol a derbyniwyd sylwadau'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **28 Medi 2021** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ysgol Abersoch** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd â'r ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny, a phenderfynu os dylid:

i. Cadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, gan ofyn iddynt gymeradwyo gweithredu'r cynnig yn derfynol. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar y 25$^{ain}$ o Fehefin 2021, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar y 23$^{ain}$ o Orffennaf 2021 a derbyniwyd 211 o wrthwynebiadau a 2 ddeiseb.

## 3. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

3.1 Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth addysgol yn y dalgylch i'r dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.

3.2 Yn dilyn cynnal y cyfarfodydd hyn, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 15 Medi 2020, lle cefnogwyd yr argymhelliad i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar 1 Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

3.3 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Medi 2020 yn amlinellu'r prif heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu, yn benodol:

i. niferoedd yn yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.
ii. maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.
iii. rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023.

iv. data Medi 2020 yn dangos bod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.

v. Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) oedd £52,582.

vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £17,404, o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod o £4,198

vii. Nifer o lefydd gweigion – mae 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)

## 4. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

4.1 Yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 11/2018, a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 12 Ionawr 2021 a 23 Chwefror 2021.

4.2 Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 a dosbarthwyd copi electroneg o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol. Yn ogystal, anfonwyd copïau caled o'r holl ddogfennau yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r holl ddogfennau cefndir i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

4.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiynau "galw heibio" rhithwir oedd wedi eu cynnal dros feddalwedd Microsoft Teams, lle anfonwyd gwahoddiadau i lywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, rhieni/gwarchodwyr disgyblion Ysgol Abersoch ac unrhyw ran-ddeiliaid cymuned Llanengan oedd yn dymuno gofyn cwestiynau yn ymwneud â'r cynnig. Yn ystod y sesiynau roedd swyddogion o adrannau perthnasol ar gael i egluro ac ymateb i ymholiadau, a fyddai'n galluogi i'r unigolion gyfrannu tuag at yr ymgynghoriad. Mynychodd 7 o bobl y sesiynau galw heibio rhithwir.

4.4 Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gydag holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir gyda'r 2 ysgol oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn canfod barn y disgyblion ar y cynnig.

4.5 Derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad statudol oedd yn manylu ar y materion a ganlyn:

- Gwrthwynebiadau i'r cynnig
- Sylwadau am y broses statudol
- Opsiynau amgen
- Materion Addysgol
- Materion Cyllidol
- Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant
- Ôl-ddefnydd Safle'r Ysgol
- Ysgolion cyfagos
- Cludiant a theithio
- Y gymuned
- Yr iaith Gymraeg
- Cylch Meithrin a Ti a Fi Abersoch
- Arall

4.6 Yn ogystal, derbyniwyd ymateb gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori oedd yn nodi bod y cynnig yn "debygol o gynnal o leiaf y safonau presennol o addysg gynradd yn yr ardal".

**4.7 <u>Opsiynau amgen eraill a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol</u>**

4.7.1 Mae Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn nodi y gall ymgynghorai awgrymu opsiynau amgen eraill yn ogystal â sylwadau ar y cynnig penodol yn ystod yr ymgynghoriad.

4.7.2 Cynigwyd 5 opsiwn amgen arall yn ystod yr ymgynghoriad. (Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ogystal). Serch hynny, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' (gan roi ystyriaeth i'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 01/2018, ac ystyriaethau perthnasol eraill) daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a darparu lle i holl blant dalgylch Ysgol Abersoch yn Ysgol Sarn Bach oedd yn parhau yr opsiwn mwyaf priodol i ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol (am y rhesymau a nodwyd yn adran 4.1 a 4.7 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg).

**4.8 Newid y dyddiad gweithredu**

4.8.1 Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad a oedd yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol, argymhellwyd addasu'r dyddiad gweithredu. Ystyriwyd y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.

4.8.2 Yn dilyn yr ymgynghoriad, adroddwyd yn ôl i Gabinet ar 15 Mehefin 2021, a bu i'r Cabinet ystyried adroddiad yr ymgynghoriad, y sylwadau a'r opsiynau amgen a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, a phenderfynu:

i. Cymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## 5. CYFNOD GWRTHWYNEBU STATUDOL

5.1 Yn unol â phenderfyniad Cabinet 15 Mehefin 2021 cyhoeddwyd rhybudd statudol, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021.

5.2 Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 25 Mehefin a'i osod ar giatiau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg . Dosbarthwyd copïau electroneg o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, a bu i'r rhan-ddeiliaid perthnasol dderbyn e-bost gyda linc i'r wefan i'w hysbysu o'r cyfnod a threfn gwrthwynebu. Gwnaethpwyd yn glir yn y rhybudd bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

5.3 Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 23 Gorffennaf 2021 a derbyniwyd 211 gwrthwynebiad a 2 ddeiseb. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol ar y gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio. Mae **Atodiad A** yn cynnwys dadansoddiad o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

## 6. GWRTHWYNEBIADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y CYFNOD GWRTHWYNEBU

Pwrpas y rhan hon o'r adroddiad yw cyflwyno crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ynghyd ag ymateb y Cyngor. Mae'r holl wrthwynebiadau a sylwadau gyda ymateb y Cyngor iddynt wedi eu nodi yn **Atodiad A** yr adroddiad hwn.

### 6.1 Y Gwrthwynebiadau

| Gohebiaeth (Llythyr neu e-bost) | Deiseb | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 211 | 2 (1 Ar-lein + 1 Cyfeillion Ysgol Abersoch) | 213 |

6.1.1 Derbyniwyd cyfanswm o 211 o wrthwynebiadau drwy gyfrwng e-bost neu lythyr. Mae'n werth nodi bod nifer o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ac wedi eu hail-gyflwyno fel rhan o'r cyfnod gwrthwynebu.

6.1.2 Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau unigol derbyniwyd 2 ddeiseb:

- Deiseb ar-lein gyda 1,884 wedi ei arwyddo yn datgan "*Agorwyd Ysgol Abersoch ym 1924. Yn anffodus, mae'r ysgol o dan fygythiad o gau. Mae'r staff yn angerddol iawn dros gadw'r ysgol hon ar agor ac i ddathlu ei chanmlwyddiant yn 2024! Mae'r ysgol wrth galon pentref Abersoch, Gogledd Cymru, ac yn agos iawn at galonnau holl ddisgyblion presennol, y gorffennol a'r dyfodol, y rhieni a'r bobl leol. Plîs arwyddwch y ddeiseb hon i ddangos eich cefnogaeth i'r ysgol hon ac i atal ei chau. Plîs arwyddwch i ddangos eich cefnogaeth i'r gymuned leol, plîs!*"

- Deiseb gan Gyfeillion Ysgol Abersoch gyda 1,115 llofnod yn datgan "*Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar gynnig i gau'r ysgol o 31 Awst 2021. Llofnodwch y deiseb hon i gefnogi Ysgol Abersoch, sy'n darparu addysg ragorol a sy'n hanfodol i ddiogelu'r iaith a diwylliant Cymraeg yng nghanol ein cymuned*."

6.1.3 Yn dilyn dyddiad cau'r cyfnod gwrthwynebu dadansoddwyd y sylwadau gwrthwynebu a dderbyniwyd gan gynnig ymateb y Cyngor iddynt o dan y penawdau canlynol:

- Gwrthwynebiadau i'r cynnig heb sylw
- Y gymuned
- Materion addysgol
- Yr iaith Gymraeg
- Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi
- Sylwadau am y broses statudol
- Cludiant a theithio
- Effaith ar ddysgwyr
- Staff
- Ysgolion cyfagos
- Materion cyllidol
- Opsiynau amgen
- Deddf llesiant
- Ôl-ddefnydd safle'r ysgol
- Dyddiad gweithredu'r cynnig
- Arall

6.1.4 Gellir gweld y dadansoddiad yn llawn yn **Atodiad A** ond rhoddir crynodeb o'r prif sylwadau gwrthwynebu a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt isod.

### 6.2 Gwrthwynebiadau i'r cynnig heb sylwadau

6.2.1 Roedd 63 yn datgan gwrthwynebiad i'r cynnig yn unig heb gynnwys unrhyw sylw na rheswm pam e.e "Rwy'n gwrthwynebu cau Ysgol Abersoch.", "Dwi yn erbyn yr ysgol ma yn cau!!" a "Nad wyf yn cytuno y dylid cau'r ysgol hon ac rwy'n gwrthod unrhyw ymgais i'w chau lawr."

### 6.3 Y Gymuned

6.3.1 Roedd y prif sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu am effaith y cynnig ar y gymuned yn ymwneud â'r materion canlynol:

- **Yr ysgol ydi calon y pentref**
- **Mae'r ysgol yn cefnogi bywyd pentref ac yn ran allweddol o'r pentref**
- **Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r iaith Gymraeg**
- **Diffyg perthynas efo cymuned Ysgol Sarn Bach**

6.3.2 Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau parthed pwysigrwydd yr ysgol ym mywyd pentref a chymuned Abersoch.

6.3.3 Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.

6.3.4 Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhawyd asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau a ystyriwyd er mwyn mesur yr effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

6.3.5 Mae'r asesiad yn nodi y byddai cau Ysgol Abersoch yn effeithio ar rai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin – blwyddyn 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.

6.3.6 I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

6.3.7 O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.

### 6.4 Materion Addysgol

Roedd y prif sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn ymwneud â'r materion canlynol:

6.4.1 **Niferoedd – derbyniwyd sylwadau a oedd yn datgan fod posibilrwydd y byddai niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch yn gallu cynyddu i'r dyfodol**

6.4.2 Mae'r Awdurdod wedi blaenoriaethu Ysgol Abersoch ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.

6.4.3 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, a bod rhagolygon yn rhagweld y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Abersoch am y pum mlynedd nesaf, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol.

6.4.4 Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, o ystyried maint y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir, mae'n debygol y bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.

6.4.5 Er bod 2 ddisgybl meithrin a 3 disgybl derbyn wedi cychwyn ym mis Medi 2020, yn anffodus nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd.

6.4.6 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl rhan amser oedd ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi 2020, i gymharu â 2 ddisgybl rhan amser a 7 disgybl llawn amser ym mis Medi 2019.

6.4.7 O ganlyniad i'r niferoedd isel o ddisgyblion, mae nifer o lefydd gweigion yn Ysgol Abersoch (Derbyn – Bl.3) yn 26 (76%).

6.4.8 Nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 "Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gost-effeithiol. Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â'r adnoddau addysg: pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd sydd dros ben yn yr ardal; Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen."

6.4.9 **Rhagamcanion - Derbyniwyd sylwadau oedd yn cwestiynu cywirdeb y rhagamcanion oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori gan awgrymu o bosib y bydda niferoedd yn cynyddu i'r dyfodol.**

6.4.10 Yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, gofynnir i'r cynigwyr nodi "rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd)".

6.4.11 Crëwyd rhagolygon pum mlynedd y disgyblion drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau'r gorffennol. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr Awdurdod.

6.4.12 Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae'n debygol y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae'r Adran Addysg o'r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd flaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Abersoch y bum mlynedd nesaf:

**Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch**

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2021 | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2022 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2023 | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2024 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2025 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | **11** |

6.4.13 Ym Medi 2020, o'r 26 disgybl (3-8 oed) oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o'r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i'r sylwadau sy'n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i'r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai'r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.

**6.4.14 Maint dosbarthiadau – Roedd rhai ymatebion yn cwestiynu maint dosbarthiadau cymysg oedd yn bodoli yn Ysgol Sarn Bach. Nodwyd pryderon fod ysgolion cyfagos eisoes dros 20, sydd yn groes i Strategaeth yr Adran Addysg, ac y byddai gweithredu'r cynnig yn gwaethygu'r sefyllfa. Nodwyd y pryder y byddai'r cynnig yn golygu bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gorlawn.**

6.4.15 Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.

6.4.16 Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Byddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Byddai'r cynnydd yn eu cyllideb flynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.

6.4.17 Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn achos cynnig i ad-drefnu ysgolion, roedd rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys manylion am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt. O ganlyniad, roedd manylion Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Foel Gron wedi eu cynnwys yn y ddogfen yn ychwanegol i'r manylion am Ysgol Abersoch.

6.4.18 Pwysleisir mai'r cynnig a oedd yn destun i'r drefn statudol oedd cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, *"Dim ond gydag Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig ble y'i disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod."* Ni ystyrir felly fod maint dosbarthiadau'r ysgolion cyfagos (Ysgol Foel Gron ac Ysgol Llanbedrog) yn berthnasol i'r cynnig.

**6.4.19 Manteision ysgolion bach – derbyniwyd sylw yn awgrymu bod y ffaith fod Ysgol Abersoch gyda nifer isel o ddisgyblion wedi bod yn fanteisiol yn ystod cyfnod Covid-19**

6.4.20 Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi dilyn gweithdrefnau priodol o ran cadw disgyblion a staff yn ddiogel yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod.

**6.4.21 Ansawdd yr addysg - roedd rhai sylwadau yn nodi bod yr addysg yn Ysgol Abersoch yn rhagorol. Roedd eraill o'r farn na fyddai'r cynnig yn cryfhau'r addysg, ac yn credu nad oedd y ddogfennaeth yn nodi llwyddiannau a chryfderau'r ysgol.**

6.4.22 Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, daethpwyd i'r casgliad bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Roedd yr wybodaeth yn yr asesiad yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw ac yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru.

6.4.23 Crynodeb o adroddiadau diweddaraf Estyn:

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| Abersoch | Mehefin 2017 | Da | Da | Da |

* *(Noder fod Estyn wedi cyflwyno 5 maes i'w harchwilio erbyn Hydref 2017).*

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sarn Bach | Hydref 2017 | Da | Da | Da | Da | Da |

6.4.24 Wrth gynnal asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu Estyn, yng nghyd-destun 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth, nododd yr Awdurdod mai niwtral fyddai'r effaith tebygol o weithredu'r cynnig, yn sgil y ffaith bod Estyn wedi dyfarnu safon yr arweinyddiaeth yn Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach gystal â'i gilydd.

6.4.25 Yn ogystal, nododd Estyn yn eu hymateb i'r ymgynghoriad statudol eu bod *"o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal o leiaf y safonau presennol o addysg gynradd yn yr ardal."*

6.4.26 Byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod. Manylir ymhellach ar ansawdd a safonau addysg yn Adran 7.2 o'r ddogfen ymgynghori a gweler yr asesiad llawn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

**6.5 <u>Yr Iaith Gymraeg</u>**

**6.5.1 Cafwyd nifer o sylwadau a oedd yn cyfeirio at ddylanwad yr ysgol ar iaith a diwylliant Abersoch ac o golli'r ysgol, byddai hynny'n cael effaith negyddol ar faint o Gymraeg fyddai'n cael ei siarad mewn amgylchiadau bob dydd ym mhentref Abersoch.**

**6.5.2 Cafwyd sylwadau a oedd yn nodi fod trigolion a busnesau Abersoch yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu, gyda nifer o siopau yn arddangos arwyddion dwyieithog yn sgil hynny.**

6.5.3 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, cydnabyddir ymdrechion Ysgol Abersoch i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn ehangach yn y gymuned, gan gyfleu gwerthfawrogiad o gefnogaeth y gymuned i'r ysgol ac i'r iaith Gymraeg yn sgil hynny. Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y Cyngor hefyd yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg. Er hynny, disgwyliad yr Awdurdod yw bod holl ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ac iaith gymdeithasol disgyblion, gan mai'r un yw'r disgwyliadau ieithyddol ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd.

6.5.4 Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad o ardrawiad ieithyddol yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. Yn ogystal, nododd y Cyngor fod yr asesiad effaith ar y gymuned yn nodi y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.

**6.5.5 Cafwyd cyfeiriadau hefyd at lwyddiant Ysgol Abersoch i ennill gwobr aur y Siarter Iaith am ei hymdrechion i hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan felly wireddu un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, ynghyd â Llywodraeth Cymru.**

6.5.6 Cydnabyddir fod Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg a bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn.

**6.5.7 Cyfeiria nifer o'r ymatebwyr yn benodol hefyd at ddyhead uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o hybu addysg cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a bod y cynnig o gau'r ysgol yn mynd yn groes i'r nod cenedlaethol hwn.**

6.5.8 Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori wedi nodi bod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag ad-drefnu angen cydnabod ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd yn ogystal fod y Cyngor yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg ac wedi cwblhau asesiad o ardrawiad ieithyddol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Yn yr asesiad, deuir i gasgliad na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a hynny'n bennaf yn sgil disgwyliadau'r Polisi Iaith, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. At hyn, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg, o gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.

## 6.6 Cylch Meithrin Ti a Fi

**6.6.1 Teimlwyd fod yr ysgol yn gynaliadwy oherwydd effaith y Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi.**

6.6.2 Mae'r Awdurdod yn cydnabod dylanwad Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin ar niferoedd disgyblion mewn ysgolion ble y'i lleolir. Fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai'n deillio o'r Cylch Meithrin, mae'n debygol bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.

6.6.3 Mae'r rhagamcanion oedd yn y ddogfen ymgynghori wedi ei seilio ar ragamcanion 3 blynedd a gyflwynwyd gan benaethiaid yr ysgolion. Amcangyfrif y rhagamcanion 5 mlynedd ar sail cyfartaledd niferoedd derbyn yr ysgol dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn sgil hynny, mae'r Adran Addysg o'r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd flaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Abersoch am y bum mlynedd nesaf:

**Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch**

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2021 | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2022 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2023 | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2024 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2025 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | **11** |

6.6.4 Dylid nodi fod y rhagamcanion uchod wedi eu cyfrifo ar sail niferoedd yn y mis Medi yn dilyn sefydlu'r Cylch Meithrin.

6.6.5 At hyn, ym Medi 2020, o'r 26 disgybl (3-8 oed) sy'n byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o'r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i'r sylwadau sy'n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020 a thueddiadau blaenorol, deuir i'r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai'r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.

6.6.6 Fel gwelir yn y tabl uchod, rydym yn nodi rhagamcan o gynnydd o 2 yn y niferoedd erbyn Medi 2022. Er mwyn i unrhyw opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd yn y niferoedd fod yn sylweddol. Nid yw'r Awdurdod o'r farn bod cynnydd o 2 ddisgybl yn gynnydd digonol i gyfarch heriau'r ysgol.

**6.6.7 Dyfodol y Cylch Meithrin - roedd nifer o'r sylwadau yn nodi pryderon ynglŷn â dyfodol y Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn Abersoch pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu ac y dylai'r Cyngor fod wedi cychwyn trafod opsiynau ar gyfer ei ddyfodol cyn rŵan.**

6.6.8 Mewn ymateb i'r sylwadau, nodir nad ydi cau'r Cylch Meithrin yn rhan o'r cynnig sydd dan ystyriaeth a bod y Cyngor yn awyddus i weld parhad y Cylch yn Abersoch. Fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol *"Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd."*

6.6.9 Pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau efo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.

6.6.10 Byddai trafod y posibiliadau hyn gyda'r Cylch cyn i'r Cabinet wneud y penderfyniad terfynol ar ddyfodol Ysgol Abersoch, wedi bod yn gynamserol ac wedi creu risg y bydda'r Cyngor yn cael ei weld yn rhagfarnu'r broses.

**6.7 <u>Y Broses Statudol</u>**

**6.7.1 Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi anfodlonrwydd â'r penderfyniad i gynnal yr ymgynghoriad, yn benodol o safbwynt y cyfyngiadau yn sgil Covid-19. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion yn datgan anfodlonrwydd â'r penderfyniad i gynnal cyfarfodydd rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd cyhoeddus.**

6.7.2 Mae'r Adran Addysg yn hyderus fod y broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn cydymffurfio â gofynion a chanllawiau'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol:

- Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori, a'r dogfennau cefndirol perthnasol, ar ffurf copi electroneg ar wefan y Cyngor (gyda chopïau caled ar gael ar gais)
- Dosbarthwyd copïau electroneg o'r ddogfen i'r rhan-ddeiliaid perthnasol
- Derbyniwyd sylwadau/ymatebion ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.

6.7.3 Nid yw'r Côd yn gosod gofyniad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus/ymgynghori. Yn hytrach, fe nodir yn y Côd "gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgyngoreion, fel sy'n briodol yn eu barn hwy".

6.7.4 Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau bod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "galw heibio" dros gyfrwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Gosodwyd uchafswm o 3 ar gyfer pob sesiwn rhithwir er mwyn sicrhau fod pawb sy'n mynychu yn elwa ar drafodaeth gynhwysfawr a theg. Cynigiwyd 9 sesiwn dros 4 noson, a mynychodd 7 o bobl y sesiynau galw heibio rhithwir.

6.7.5 Yn ychwanegol i hynny, rhoddwyd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig drwy e-bost i'r Adran Addysg.

6.7.6 Cydymdeimlir â'r pryderon o gynnal ymgynghoriad yn ystod y pandemig, serch hynny, pwysleisir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ag ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Yn ychwanegol i hynny, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad ar 8 Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor.

6.7.7 Credir fod niferoedd y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn dystiolaeth nad oedd ei gynnal yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amharu'n ormodol ar allu'r ymgyngoreion i gymryd rhan.

**6.7.8 Bu i rai ymatebwyr nodi anfodlonrwydd â'r broses o ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.**

6.7.9 Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae'n ofynnol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad er mwyn darganfod eu teimladau am y cynnig.

6.7.10 Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd oedd yn destun yr ymgynghoriad. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir ag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn canfod barn y disgyblion.

6.7.11 Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach, a threfnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda'r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig. Roedd rhieni Ysgol Abersoch yn bresennol ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau'r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai'r ysgol yn cau.

6.7.12 Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i'w gwblhau a rhannwyd y disgyblion yn dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd y sesiwn yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a'u teimladau.

**6.7.13 Cafwyd rhai sylwadau oedd yn nodi'r farn bod yr asesiadau effaith a'r manylion a nodwyd yn y ffurflen ymateb yn annigonol.**

6.7.14 Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiadau yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rydym o'r farn bod yr asesiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Yn yr un modd, mae'r Awdurdod yn hyderus fod ein prosesau a'r ffurflen ymateb yn cyfarch gofynion y Côd.

**6.7.15 Derbyniwyd gwrthwynebiadau oedd yn nodi nad oedd y Cylch Meithrin wedi eu cynnwys yn y broses ymgynghori.**

6.7.16 Bu i ni dderbyn ymateb gan y Mudiad Ysgolion Meithrin a gan Gylch Meithrin Abersoch fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn anffodus, yn dilyn dyddiad cau'r ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn copi o'r e-bost i'w hysbysu am yr ymgynghoriad statudol. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer rhannu'r wybodaeth am yr ymgynghoriad, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir ac felly ni dderbyniwyd y wybodaeth. Hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma.

6.7.17 Er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr y Cylch Meithrin yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Côd Trefniadaeth 011/2018, rhoddwyd cyfle i'r Cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn 1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021. Ni dderbyniwyd ymateb pellach gan gynrychiolwyr y Cylch yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig.

**6.7.18 Bu i rai nodi fod gwallau yn y ddogfen ymgynghori, a bod hynny'n tanseilio'u hyder yn yr ymgynghoriad.**

6.7.19 Mae'r Cyngor yn hyderus yng nghywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r Cyngor yn derbyn fod lleoliad Ysgol Sarn Bach ar fap yn y ddogfen yn anghywir ond na wnaeth hyn effeithio'r ymgynghoriad.

**6.7.20 Derbyniwyd sylwadau yn honni fod y penderfyniad wedi ei wneud ac nad oedd y Cyngor wedi talu digon o sylw i'r sylwadau a dderbyniwyd gan rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol**

6.7.21 Mewn ymateb i'r sylwadau fod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud, pwysleisir fod ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach wedi ei gynnal rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn rhoi cyfle i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad terfynol ar ddyfodol Ysgol Abersoch. Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir nad ydi'r penderfyniad wedi ei wneud ac fod prosesau'r awdurdod yn sicrhau fod sylw teg yn cael ei roi i sylwadau a gwrthwynebiadau rhan-ddeiliaid cyn gwneud penderfyniad.

**6.7.22 Derbyniwyd sylwadau yn holi pam na gyhoeddwyd un ymateb i'r ymgynghoriad statudol yn yr adroddiad Cabinet ar 15 Mehefin 2021**

6.7.23 Roedd yna un ymateb a dderbyniwyd oedd yn cyfeirio at drefniadau a safon cyflwyniad a roddwyd mewn cyfarfod ymgysylltu (Panel Adolygu Ysgol) a gynhaliwyd gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch gan nodi pryderon am ddiffyg cynwysoldeb gan nad oedd posib i bawb ddilyn y cyflwyniad.

6.7.24 Gan nad oedd rhan yma o'r ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig, ac yn cynnwys gwybodaeth bersonol awdur y sylwad yn ogystal ag unigolyn arall oedd yn bresennol yn y cyfarfod, teimlwyd ni fyddai'n briodol cyhoeddi'r ymateb yn llawn. Oherwydd hyn penderfynwyd ymateb i'r mater a'r gwyn dan sylw drwy gysylltu yn uniongyrchol gyda'r unigolyn gan nodi:

*"Gallwn gadarnhau bod rhan o'ch ymateb wedi ei olygu oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth bersonol ac fe'i hystyriwyd yn gŵyn ynglŷn â threfniadau cyfarfod penodol a gynhaliwyd cyn yr ymgynghoriad statudol ac nad oedd y sylwadau a godwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad ei hun.*

*Teimlwyd mai'r modd priodol o ymateb i'r mater penodol hwn oedd anfon yr ymateb atoch chi yn uniongyrchol. Hoffwn, felly, ymddiheuro'n ddidwyll bod fformat ein cyfarfodydd wedi peri pryder i chi. Mewn ymateb i'ch pryderon, wrth drefnu cyfarfodydd yn y dyfodol, rhoir sylw penodol i fformat y cyflwyniadau, ac fe'ch sicrhawn y bydd gwahoddiadau i'r cyfarfodydd yn cynnwys cynnig i'r cyfranogwyr i nodi unrhyw ofynion pellach."*

6.7.25 Cyhoeddwyd gweddill y llythyr, gan ymateb i'r pwyntiau perthnasol eraill, fel rhan o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Mehefin 2021.

**6.8 Cludiant a Theithio**

**6.8.1 Roedd rhai sylwadau yn nodi pa mor gyfleus yw Ysgol Abersoch gan fod posib cerdded i'r ysgol a byddai mynd a phlant i Ysgol Sarn Bach yn anghyfleus i rieni. Roedd eraill yn nodi pryderon am yr effaith posib ar drefniadau teithio i'r ysgol, gan amlygu fod y llwybr cerdded o Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn beryglus.**

6.8.2 Mae Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch.

6.8.3 Wrth symud i'r ysgol amgen, ni ragwelir y bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle presennol Ysgol Sarn Bach a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws.

6.8.4 Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

6.8.5 Gan fod y llwybr o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn cael ei hystyried fel un peryglus, byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir.

**6.8.6 Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r cynnydd yn y costau cludiant pe gweithredir y cynnig, a sut y cyfrifwyd amcan gostau cludiant.**

6.8.7 Mae bws ysgol gynradd eisoes yn rhedeg rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch - felly ni ragwelir costau cludiant ychwanegol yn deillio o weithredu'r cynnig arfaethedig.

6.8.8. Serch hynny, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch, gan gynnwys y disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol Ysgol Sarn Bach.

6.8.9 Y gost bresennol o gludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yw £16,500. Pe byddai angen addasu'r trefniadau presennol, amcangyfrifir y byddai angen bws 49 sedd, a rhagwelir y byddai darparu cludiant ar gyfer holl ddisgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 y dalgylch yn costio £30,500. Byddai hyn felly yn arwain at gost uwch o £14,000.

**6.8.10 Roedd rhai sylwadau yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith ar yr amgylchedd gan y byddai angen teithio ymhellach i'r ysgol**

6.8.11 Gan fod bws eisoes yn cludo plant cyfnod allweddol 2 o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, ac ein bod yn rhagweld bydd digon o le ar y bws hwnnw (neu un mwy) ar gyfer plant dalgylch Ysgol Abersoch, ni ragwelir y bydd cynnydd yn allyriadau CO2.

**6.8.12 Gofynnwyd faint o blant fydd angen cludiant i Ysgol Sarn Bach**

6.8.13 Os gweithredir y cynnig, byddwn yn trefnu arolwg gyda rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn canfod faint o ddisgyblion fydd angen cludiant am ddim o Abersoch. Bydd hyn yn rhoi niferoedd pendant i'r Awdurdod benderfynu a fydd angen bws mwy ai peidio.

**6.8.14 Gofynnwyd faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y cynllun seddi gweigion, ac os yw'r disgyblion rheiny yn talu am y cludiant yn unol â'r polisi.**

6.8.15 Fel rhan o'r Cynllun Seddi Gwag, mae'r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sy'n mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw ysgol (neu safle ysgol y dalgylch) ar gyfer manteisio ar unrhyw seddi gwag ar gerbydau cytundeb trwy dalu ffi gyfredol tu allan i'r dalgylch. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:

- Bod seddi gwag ar gael
- Nid oedd angen i’r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol
- Dim costau ychwanegol i’r Cyngor
- Dalu’r ffi gyfredol am seddi gwag.

6.8.16 Byddai’r holl ddysgwyr a wnaeth gais am gludiant wedi talu am gynllun sedd wag i deithio ar y bws ysgol ddynodedig. Mae rhwng 3 a 6 o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynllun hwn ers 2017.

**6.8.17 Nodwyd anfodlonrwydd am y diffyg cynnig o gludiant i ddisgyblion oed meithrin.**

6.8.18 Yn unol â Pholisi Cludiant Gwynedd, cyfrifoldeb rhieni yw gwneud trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin.

**6.9 <u>Effaith ar ddysgwyr</u>**

**6.9.1 Derbyniwyd sylwadau y byddai plant yn dioddef pe bai Ysgol Abersoch yn cau gan y byddai'n rhaid iddynt ddechrau eto mewn ysgol newydd.**

6.9.2 Mewn ymateb i’r sylwadau hyn, mae’r Awdurdod yn cydnabod fod y cyfnod yma yn un o ansicrwydd a allai arwain at straen ac effaith ar ddysgwyr. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai’r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo’r dysgwyr i drosglwyddo a setlo yn eu hysgol newydd.

6.9.3 Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn arwain at:

- Leihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion
- Cynnig profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion
- Addysgu’r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas
- Lleihau’r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir
- Sicrhau bod plant yn trosglwyddo un waith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith

6.9.4 Yn ogystal, mae’r ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i’r disgyblion gydweithio a chymdeithasu gyda’u cyfoedion, ac yn galluogi’r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

**6.10 <u>Effaith ar staff</u>**

**6.10.1 Derbyniwyd gwrthwynebiad a oedd yn holi beth fyddai’n digwydd i staff yr ysgol pe byddai penderfyniad i weithredu’r cynnig**

6.10.2 Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Abersoch yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai’r swyddi yn dod i ben pan fyddai’r ysgol yn cau. Ymgynghorwyd yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o’r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy’n deillio o’r cynnig gydymffurfio â’r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu ar unrhyw gynnig.

6.10.3 Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio rhithwir lle'r oedd posib trefnu i swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor fod yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu

sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.

6.10.4 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad Cabinet, bydd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn dilyn prosesau penodol gyda staff yr ysgol yn unol â chyfraith cyflogaeth.

**6.11 Ysgolion cyfagos**

**6.11.1 Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau yn nodi fod Ysgol Llanbedrog dros ei chapasiti.**

6.11.2 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae'r polisi mynediad yn cyd-fynd â gofynion y Côd Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru.

6.11.3 Nid yw'r Awdurdod o'r farn bod sefyllfa niferoedd Ysgol Llanbedrog yn berthnasol i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

**6.11.4 Derbyniwyd gwrthwynebiad oedd yn cwestiynu os oedd digon o le yn Ysgol Sarn Bach ar gyfer plant Abersoch.**

6.11.5 Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y pum mlynedd nesaf.

**6.11.6 Cyfeiriodd un neu ddau at effaith adeiladu estyniad yn Ysgol Llanbedrog ar addysg y disgyblion***.*

**6**.11.7 Mewn ymateb i hyn eglurwyd nad oes bwriad rhoi estyniad ar Ysgol Llanbedrog fel rhan o'r cynnig a oedd yn destun yr ymgynghoriad. Er eglurder, y cynnig arfaethedig yw cau Ysgol Abersoch, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

**6.11.8 Nodwyd gan un gwrthwynebwr fod cynlluniau ar y gweill i ddarparu tai newydd ar safle Pwyliaid Penrhos fydd yn creu rhwng 70-100 uned dros y 3-4 blynedd nesaf a chwestiynwyd doethineb cau Ysgol Abersoch gan na fyddai lle iddynt yn Ysgol Llanbedrog.**

6.11.9 Mewn ymateb i'r gwrthwynebiad, nodir fod safle Pwyliaid Penrhos yn syrthio o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Llanbedrog felly byddai unrhyw blant yn y tai newydd yn cael cynnig lle yn yr ysgol honno.

**6.12 Materion Cyllidol**

**6.12.1 Roedd sawl gwrthwynebydd yn teimlo bod y cynnig yn canolbwyntio gormod ar feini prawf ariannol.**

6.12.2 Pwysleisir na benderfynwyd ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar sail materion cyllidol yn unig.

6.12.3 Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)

- Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae oddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)
- Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.
- Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).
- Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.

**6.12.4 Derbyniwyd sylw fod cost yn ôl y disgybl yn gysyniad ffaeledig. Fel arfer, mewn ysgol fach lle bo niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, bydd y gost ddamcaniaethol yn ôl disgybl yn mynd i fyny ac i lawr yn gyfatebol, ond bydd yr arian real sy'n cael ei wario yn aros yr un fath.**

6.12.5 Oherwydd niferoedd disgyblion isel mae Ysgol Abersoch wedi bod yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion) ers rhai blynyddoedd.

6.12.6 Oherwydd hyn roedd cost y disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yn £17,404 sy'n swm sylweddol uwch na chyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl ar gyfer yr un flwyddyn o £4,198.

6.12.7 Mae rhagolygon yn awgrymu y bydd niferoedd isel yn parhau a'n golygu bydd yr angen am gyllid ychwanegol hefyd yn parhau.

**6.12.8 Derbyniwyd cais am eglurder ar sut y cyfrifwyd yr amcan arbedion**

6.12.9 Roedd dyraniad 2020/21 Ysgol Abersoch yn £137,140, ac mi fyddai trosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch yn golygu dyraniad ychwanegol i Ysgol Sarn Bach o £27,078. O'r gweddill o £110,062 bydd costau cludiant ychwanegol posib o £14,000, mae hyn yn gadael arbedion tebygol o £96,062.

**6.12.10 Gofynnwyd a yw'r costau diswyddo, ymgynghoriad a chynnal a chadw wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrif hwnnw.**

6.12.11 Nid yw'r ffigyrau yn cymryd unrhyw gostau cynnal a chadw ar safle Ysgol Abersoch nac Ysgol Sarn Bach i ystyriaeth. Pe byddwn wedi ystyried y costau hyn mi fyddai'n golygu mwy o arbedion gan na fydda unrhyw gostau cynnal a chadw i Ysgol Abersoch i'r dyfodol.

6.12.12 Bydd unrhyw gostau diswyddo yn cael eu hariannu o'r arbedion hyn.

6.12.13 Nid yw costau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys wrth gyfrifo arbedion gan eu bod yn annibynnol o gostau rhedeg gwirioneddol yr ysgolion dan sylw.

**6.12.14 Gofynnwyd, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, a fyddai angen adnodd ychwanegol ar Ysgol Sarn Bach, ac a fyddai plant yn cael grant gwisg ysgol?**

6.12.15 Mae gan Ysgol Sarn Bach wisg ysgol swyddogol ac mae'r ysgol yn annog pawb i'w gwisgo. Mae disgwyliad ar rieni disgyblion blwyddyn 3 brynu gwisg ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach beth bynnag. Gall plant sydd yn trosglwyddo o Ysgol Abersoch barhau i wisgo ei gwisg (Ysgol Abersoch) hyd at ddiwedd blwyddyn 3 os mai dyma ddymuniad y rhieni.

**6.13 <u>Opsiynau Amgen</u>**

**6.13.1 Derbyniwyd gwrthwynebiadau yn gofyn i'r Cyngor oedi'r broses a rhoi cyfle i'r ysgol gynyddu'r niferoedd a rhoi cyfle i'r Cylch Meithrin ffynnu.**

6.13.2 Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau hyn, nodir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Abersoch wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Mae'r Awdurdod o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:

- Dosbarthiadau bychan iawn.
- Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion.
- Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 11 disgybl yn mynychu erbyn 2025.

6.13.3 Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi wedi agor ar safle'r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai heriau'r ysgol yn parhau.

6.13.4 Yn ychwanegol, nodir fod Ysgol Abersoch eisoes yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl o £4,198.

6.13.5 Nid yw hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd bod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.

6.13.6 Fel nodwyd yn ystod y broses ymgynghori, bu i'r Awdurdod ystyried 10 opsiwn gwahanol yn dilyn trafodaethau gydag Ysgol Abersoch. Ni ragwelir y byddai caniatáu mwy o amser i wneud gwaith pellach yn cynnig unrhyw ddatrysiad i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

**6.13.7 Roedd rhai yn gofyn pam na ystyriwyd opsiynau *o newid oedran i 3-9 ar gyfer dyfodol yr ysgol***

6.13.8 Mewn unrhyw drefn fel hon, mae'n allweddol rhoi ystyriaeth fanwl a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw fodel a dyna geir yn y Gwerthusiad Opsiynau (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

6.13.9 Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ac yna yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).

6.13.10 Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau a ganlyn:

- Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.

- Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.

6.13.11 Ym mis Medi 2020, roedd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Bl.3) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020 oedd 24.

6.13.12 Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020.

| Ysgol | Meithrin | Derbyn | Bl 1 | Bl2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm | Nifer y dosbarthiadau | Dosbarth mwyaf | Dosbarth lleiaf | Maint dosbarth ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch | 2 | 3 | 2 | - | 3 | - | - | - | 10 | 1 | 10 | 10 | 10 |
| Sarn Bach | 3 | 2 | 5 | 4 | 8 | 5 | 10 | 11 | 48 | 2 | 34 | 14 | 24 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020*

6.13.13 Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.

6.13.14 Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.

6.13.15 Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.

6.13.16 Yn dilyn ystyriaeth, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol. Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. Rhagwelir y byddai niferoedd a'r rhagamcanion yn parhau'n isel, dosbarthiadau yn parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.

**6.13.17 Roedd rhai yn gofyn pam na ystyriwyd opsiynau o ffederaleiddio ar gyfer dyfodol yr ysgol.**

6.13.18 Mewn unrhyw drefn fel hon, mae'n allweddol rhoi ystyriaeth fanwl a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw fodel, a dyna geir yn y Gwerthusiad Opsiynau (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

6.13.19 Trafodwyd ac ystyriwyd 3 fersiwn gwahanol o'r opsiwn ffederaleiddio fel rhan o'r ymgynghoriad statudol. Yn ogystal, awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad y dylid rhoi ystyriaeth i 2 fersiwn pellach o'r opsiwn, sef:

i. Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron

ii. Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)

6.13.20 Bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i ddiweddaru penaethiaid a'r cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib gallai rhai o'r opsiynau gael ar eu hysgol. Ni fu i unrhyw un o'r ddwy ysgol ddatgan diddordeb mewn ymchwilio ymhellach i fodel ffederal.

6.13.21 Noder, er mwyn cael y gorau o fodel ffederal mae'n arferol, ond nid yn rheidrwydd, y byddai'r ysgolion yn rhannu Pennaeth. Gan fod Pennaeth ymhob un o'r ysgolion mae'r Cyngor o'r farn y gall model ffederal mwyaf effeithiol arwain at ddiswyddiadau gorfodol.

6.13.22 Er bod manteision i ffederaleiddio, mae'r awdurdod o'r farn y byddai'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.

6.13.23 Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

**6.13.24 Derbyniwyd dau wrthwynebiad oedd yn argymell ystyried opsiwn i sefydlu Ysgol Aml-Safle rhwng Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach.**

6.13.25 Yn ystod y cyfarfodydd Adolygu Ysgol Lleol cynigwyd a thrafodwyd nifer o fodelau posibl yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Yn achos model Ysgol Ardal Aml-safle, mae'r ysgol yn un ysgol ac un endid cyfreithiol sy'n gwasanaethu ardal eang. Fodd bynnag, mae ysgol ardal aml-safle yn rhoi darpariaeth addysgol ar nifer o safleoedd.

6.13.26 Budd y math hwn o fodel yw'r gallu i ail-strwythuro'r drefniadaeth reolaethol, tra ar yr un pryd gadw presenoldeb addysg mewn mwy nag un gymuned. Mae'n fodel all weithio'n dda mewn ardaloedd gwledig iawn lle mae pellteroedd teithio hir nes cyrraedd ysgol amgen. Hefyd golyga nad yw safleoedd ysgolion bach yn cael eu gadael yn ynysig ond yn hytrach yn rhan o sefydliad addysg mwy. Gellir felly wneud gwell defnydd o adnoddau e.e. un pennaeth ar gyfer mwy nag un safle, rhannu adnoddau a staff rhwng safleoedd a dod a disgyblion safleoedd at ei gilydd i gynnal gweithgareddau gyda niferoedd uwch o ddisgyblion.

6.13.27 Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai Ysgol Aml-safle yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai'n arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad Ysgol Aml-safle yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

**6.13.28 Roedd nifer o wrthwynebiadau yn argymell datblygiadau posib i'r ysgol e.e. Ysgol Draeth, Canolfan Ddiwylliannol, Addysg Gyflawn ac Adnabod Bro.**

6.13.29 Mae'r Cyngor yn nodi'r opsiynau i ddatblygu yr ysgol.

6.13.30 Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol.

6.13.31 Cydnabyddir gall yr opsiynau yma wneud defnydd gwell o adeilad yr ysgol. Serch hynny, wrth ystyried opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiynau yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu e.e. niferoedd disgyblion isel, maint dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau a chost y pen uchel.

**6.13.32 Derbyniwyd rhai gwrthwynebiadau oedd yn cwestiynu pam nad ystyriwyd adolygiad dalgylchol.**

6.13.33 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019 wedi rhoi caniatâd i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gydag Ysgol Abersoch i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yr ysgol a phryderon ynglŷn â'r rhagamcanion oedd yn rhagweld y niferoedd yn parhau'n isel.

6.13.34 Mae'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd yn nodi:

"Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth).

Bydd sefyllfa argyfyngus ysgolion unigol a amlygir ar sail gwybodaeth broffesiynol berthnasol gan gynnwys ceisiadau penodol gan ysgolion unigol yn ystyriaeth wrth adnabod ardaloedd sydd angen sylw pellach."

6.13.35 Pwysleisir nad yw'r adolygiad o sefyllfa Ysgol Abersoch yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer addysg yn yr ardal, ond yn hytrach, yn ymateb i sefyllfa argyfyngus ysgol unigol.

**6.13.36 Roedd rhai sylwadau yn honni nad oedd opsiynau amgen a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu hystyried yn llawn a'u trafod yn ddigon trwyadl**

6.13.37 Mae Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn nodi y gall ymgynghorai awgrymu opsiynau amgen eraill yn ogystal â sylwadau ar y cynnig penodol yn ystod yr ymgynghoriad.

6.13.38 Cynigwyd 5 opsiwn amgen arall yn ystod yr ymgynghoriad. (Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ogystal). Serch hynny, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' (gan roi ystyriaeth i'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill) daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig o gau Ysgol Abersoch a darparu lle i holl blant dalgylch Ysgol Abersoch yn Ysgol Sarn Bach oedd yn parhau fel yr opsiwn mwyaf priodol i ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol (am y rhesymau a nodir yn adran 4.1 a 4.7 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg).

## 6.14 Deddf Llesiant

**6.14.1 Derbyniwyd gwrthwynebiad oedd yn nodi nad ystyriwyd saith nod y Ddeddf Llesiant yn llawn.**

6.14.2 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

"Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi."

6.14.3 Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol - yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad bod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

## 6.15 Ôl-ddefnydd Safle

**6.15.1 Bu i rai gwestiynu lle fydd gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol yn cael eu darparu os yw'r ysgol ar gau, yn ogystal, a beth fydd yn digwydd i dir ac adeiladau'r ysgol os yw'r ysgol yn cau? Bu i rai amlygu mai rhodd i'r gymuned oedd y tir a'r adeilad yn ogystal.**

6.15.2 Pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Abersoch mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle.

6.15.3 Byddai angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai safle'r ysgol yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.

6.15.4 Rydym yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Ti a Fi yn cael ei gynnal ar safle'r ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai'n rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan ystyried y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

6.15.5 Felly, o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau gyda'r cynrychiolwyr perthnasol. Ymysg y posibiliadau i'w trafod fyddai aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.

**6.16 <u>Dyddiad gweithredu'r cynnig</u>**

**6.16.1 Derbyniwyd gwrthwynebiadau oedd yn cwestiynu'r bwriad i weithredu'r cynnig yng nghanol blwyddyn ysgol.**

6.16.2 Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol yma, penderfynwyd y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.

6.16.3 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, rhagwelir bydd hyn yn caniatáu digon o amser i'r Adran Addysg gydweithio gyda'r 2 ysgol i roi'r holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle cyn trosglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach ddechrau Ionawr 2022.

**6.17 <u>Arall</u>**

**6.17.1 Cyflwynodd Merched y Wawr yn eu gwrthwynebiad y dylid ystyried ei egwyddorion "I hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru, ac yn arbennig i rymuso addysg gyhoeddus ac i hyrwyddo diwylliant Cymreig, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg" wrth ystyried y cynnig.**

6.17.2 Ein disgwyliad yw bod ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion.

6.17.3 Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.

6.17.4 Yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

6.17.5 Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion

cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.

**6.17.6 Nododd eraill ei fod yn fanteisiol i blant gael eu haddysgu yn agos i adref**

6.17.7 Pe gweithredir y cynnig, byddai plant y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch.

**6.17.8 Roedd rhai yn nodi fod Plwyf Llanengan yn cyfrannu dros 4% o'r dreth a gesglir yng Ngwynedd ac y gellid dyrannu cyfran fach o'r arian a gynhyrchir gan yr ail gartrefi hyn i gefnogi ysgol y pentref.**

6.17.9 Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau/gwrthwynebiadau ac yn nodi fod yr ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl yn £4,198. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd bod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.

**6.17.10 Bu i un gwrthwynebydd nodi anfodlonrwydd nad oedd unrhyw sôn yn yr adroddiad am y 150 o swyddi newydd pan fydd gwesty'n cael ei adeiladu a'i agor yn Abersoch, gan annog teuluoedd lleol i aros yn yr ardal a chreu cyfle i deuluoedd newydd ddod i'r ardal.**

6.17.11 Mewn ymateb, nodir nad oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol a chynnydd yn nifer y swyddi'n lleol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Byddai plant y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch.

**6.17.12 Derbyniwyd rhai gwrthwynebiadau oedd yn cwestiynu penderfyniadau pwyllgorau Cyngor Gwynedd, ac yn cwestiynu a fydd gwrandawiad teg yn cael ei gynnal yn achos Ysgol Abersoch**

6.17.13 Galwyd penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 15 Medi 2020 i mewn i'w graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020, rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a'r 1 Medi 2021.

6.17.14 Yn dilyn ystyriaeth fanwl, penderfynodd y Pwyllgor ei fod yn parhau i bryderu am y sefyllfa ac y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried.

6.17.15 Yn dilyn ystyriaeth ofalus a thrafodaeth fanwl o farn y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, penderfynodd Cabinet y Cyngor, na ddylid addasu ei benderfyniad gwreiddiol a wnaethpwyd ar 15 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig, a mabwysiadu hyn fel y penderfyniad terfynol.

**6.17.16 Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi'r broblem ail-gartrefi sydd yn Abersoch a'r effaith mae hyn wedi ei gael ar yr ysgol. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi mai un o'r rhesymau nad yw nifer y disgyblion wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf yw'r diffyg tai fforddiadwy.**

6.17.17 *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau/gwrthwynebiadau, fodd bynnag, dymuna'r Cyngor nodi nad oes ganddo reolaeth dros y farchnad dai agored*. Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy fydd ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent

fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu hanghenion tai.

6.17.18 Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio.

## 7. ASESIADAU EFFAITH

7.1 Cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 gan gynnwys:

- *Asesiad o'r Effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio*
- *Asesiad o'r Effaith debygol ar y gymuned*
- *Asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg*

7.2 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd, ac fe gafwyd eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Mehefin 2021. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

7.3 Nodir casgliadau'r asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio y byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddisgyblion Ysgol Abersoch deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch, a rhagwelir fod y daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws, sydd o fewn y pellter rhesymol y disgwylir i blant cynradd ei deithio i'w hysgol yn unol â'r '*Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd*' o 30 munud bob ffordd. Bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

7.4 Yn ogystal, noda'r asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned y byddai peth effaith negyddol o ran cau'r ysgol. Yn ogystal, nodir bod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi pwysleisio y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned leol. Serch hynny, noda'r awdurdod fod 35% o'r disgyblion (M-Bl.3) sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, ac o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cysylltiad rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes yn bodoli. I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe gweithredir y cynnig, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

7.5 Yn asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach.

7.6 Y mae’r Adran Addysg yn parhau i fod o’r farn, a hynny ar ôl cynnal y cyfnod gwrthwynebu, na fyddai'r un o’r opsiynau eraill, gan gynnwys ffederaleiddio, ac ymestyn ystod oed yr ysgol yn mynd i’r afael a’r prif heriau sydd yn wynebu’r ysgol sef

- niferoedd isel o ddisgyblion
- rhagamcanion yn dangos gostyngiad pellach dros y pum mlynedd nesaf,
- disgyblion presennol yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn fychan mewn niferoedd gydag ystod oed eang o fewn y dosbarthiadau hynny.

## 8. YSTYRIAETHAU PELLACH

8.1 Yn ogystal â’r asesiadau effaith a nodwyd uchod, cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn ystod y broses. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel atodiad i’r adroddiad hwn **(Atodiad C)** ac i’r adroddiad gyflwynwyd i’r Cabinet ar 15 Mehefin 2021 a chrynhoir eu casgliadau isod.

**8.2 Asesiad Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015)**

8.2.1 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015), ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir I'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â’r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i’r Cyngor ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i’r dyfodol.

8.2.2 Cydnabyddir, pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda’r cynnig hwn, gall arwain at gau ysgol yng nghymuned Abersoch, fodd bynnag mae nifer helaeth o’r plant sy’n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai’r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Sarn Bach yn cynnwys cymuned Abersoch, lle’n briodol.

8.2.3 Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy’n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion. Gellir gweld yr asesiadau llawn yn **Atodiad C**.

**8.3 Asesiad Cydraddoldeb**

8.3.1 Mae polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal.

8.3.2 Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

8.3.3 Bu i’r asesiad cydraddoldeb nodi pwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu’r sefyllfa. Gellir gweld yr asesiadau llawn yn **Atodiad C**.

**8.4 Asesiad Ardrawiad Ieithyddol**

8.4.1 Ni ragwelir y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith negyddol ar allu ieithyddol y plant. Byddai’r opsiwn yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn

parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Sarn Bach (57%), o'i gymharu ag Ysgol Abersoch (33%). Wrth drosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai'r canran o ddisgyblion sydd yn dod o gartrefi Cymraeg oddeutu 54%. Ar sail hynny, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Abersoch ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Mae'n bwysig felly bod y cynnig i symud y plant yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau gyda'r gwaith hwn.

## 9. CASGLIAD

9.1 Er i'r awdurdod dderbyn cyfanswm o 211 o wrthwynebiadau a 2 ddeiseb yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, yn dilyn ystyried yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai'r cynnig hwn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

9.2 Mae dadansoddiad o'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn *Adran 6* o'r adroddiad yma ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn yn **Atodiad A**.

9.3 Rhagwelir y bydd y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn ymateb i'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch (amlinellir yn adran 3.2) ac yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, drwy anelu at ddyheadau strategol Cyngor Gwynedd i '*gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn*'. Byddai hyn yn cyd-fynd â thargedau Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' :

- Maint Dosbarthiadau (ac amrediad oedran) - disgyblion i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas na'r sefyllfa bresennol. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal.
- Poblogaeth a Niferoedd disgyblion - disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a lleihau'r gyfradd o lefydd gweigion yn ysgolion yr ardal.
- Arweinyddiaeth - arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn mewn ysgol sydd â niferoedd yn caniatáu i Bennaeth gael tegwch i arwain a rheoli yn broffesiynol yn yr ysgol.
- Y Gymuned – I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau y byddai cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch.
- Adnoddau Ariannol - Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion a fyddai'n lleihau'r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd. Amcangyfrifir y bydd gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul disgybl o £4,683 yn Ysgol Sarn Bach o gymharu â'r £17,404 y disgybl presennol yn Ysgol Abersoch. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £4,198 y disgybl. Amcangyfrifir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (£14,000) – sef oddeutu £96,062 y flwyddyn.
- Yr Iaith Gymraeg – disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y sefyllfa bresennol, ac mewn ysgol ble mae defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryf.
- Ffactorau Daearyddol - byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.

## 10. ARGYMHELLIAD

10.1 Yn dilyn ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd, argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle I'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

## 11. CAMAU NESAF

11.1 Yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet, yn unol ag adran 54 o'r Ddeddf 2013, gall y cyrff canlynol at-gyfeirio'r cynnig, cyn pen 28 diwrnod o ddiwrnod y penderfyniad, i Weinidogion Cymru ei ystyried:

i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.

11.2 Bydd angen i'r corff sy'n at-gyfeirio nodi pam eu bod yn credu bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynigion yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion.

11.3 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu'n derfynol i gweithredu'r cynnig, ac os na fyddai'r cynnig yn cael ei at-gyfeirio, amlinellir y camau nesaf a'r amserlen isod:

| | |
|---|---|
| **Tachwedd – Rhagfyr 2021** | Adran Addysg i gydweithio gyda'r 2 ysgol i roi'r holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle cyn trosglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach ddechrau Ionawr 2022.<br><br>Gwasanaeth Adnoddau Dynol i ddilyn prosesau penodol gyda staff yr ysgol yn unol â chyfraith cyflogaeth. |
| **31 Rhagfyr 2021** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Abersoch yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet. |

## 12. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol dim sylwadau I'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 3.3 (v) a (vi), 6.12, 6.13, 6.17 a 9 o'r adroddiad, ac hefyd y ffigyrau yn ymateb Cyngor Gwynedd o fewn Rhan (Ng) o Atodiad A, yn adlewyrchu gwir gost neu amcangyfrif teg (lle'n briodol) wedi ystyried cost cludiant.

Mae rhesymau amlwg yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, gan gynnwys rhesymau ariannol fel arbediad blynyddol o £96,062 mewn costau refeniw, a chost y disgybl o £17,404 yn Ysgol Abersoch o'i gymharu â chyfartaledd sirol o £4,198. Felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

**Yr Aelod Lleol:**

"... mae fy ymateb dyddiedig 22/07/21 sydd yn gwrthwynebu cau yr ysgol a mae y rhesymau ar sylwadau sydd yn dal mor perthnasol a nid oes dim wedi newid.

Yn ychwanegol ir adroddiad sydd yn pwysleisio yr effaith negyddol ar yr Iaith a diwylliant Cymraeg yn y pentref – yr effaith negyddol ar addysg y plant. Yr colled o adnodd hanesyddol o bwysig ir pentref a mor bwysig mewn llawer ffordd ir ardal hoffwn rhoi sylwadau yma ymlaen.

Yn ddiweddar rwyf wedi derbyn gwybodaeth gan yr Adran Tai ac Eiddio fod yna edrych ar datblygiad o codi tai yn y pentref a fod cymdeithas tai sydd yn barod yn berchen ar tir a sydd yn gorwedd oddi fewn ir ffin datblygu yn obeithiol drwy cais grant Llywodraeth Cymru i codi cartrefi i bobl lleol.

Mae yn amlwg pam fydd y datblygiad yma yn dod i rîm ni fydd adnoddau addysg yr ardal yn cyfarch ar gofynion – nid oes gair oddi fewn ir adroddiad ynglŷn ar gallu i ymateb i fath yma o datblygiad. Mae rhaid adnabod fod capasiti ysgolion yr ardal yn orlawn ac nid yw y gallu yma i dderbyn fwy o blant.

Yn ddiweddar roeddwn yn gwrando ar y Pwyllgor Cynllunio yn trafod codi 12 tŷ yn ardal Penygroes a fod y gofyn yn lleol am y fath yma o ddatblygiad rhan cartrefi ein pobol. Un or pryderon gafodd ei godi oedd capasiti ysgolion lleol i dderbyn plant a fydd yn debyg i fod drwy datblygiad fel hyn.

Mae hun yn amlygu y ffaith fod adnoddau oddi fewn i cymdeithas yn llwyr bwysig ran y cynlluniau sydd o phosib yn dod ir golwg ac yn wir fel sydd yn yr achos yma mae Ysgolion yn llwyr bwysig rhan or cynllun ar uchelgais o cartrefi ein pobol lleol. Mae y penderfyniad yma yn llwyr groes ir cynlluniau ar uchelgais y Cyngor.

Mae rhaid ddweud fod y penderfyniad o gau yr Ysgol yn un annoeth ond i gau yr ysgol yn ganol Blwyddyn yr Ysgol a symud plan t i ysgol arall yn hollol groes i synnwyr cyffredin ac am cael effaith negyddol ar addysg y plant, os bydd cau pam ddim gohirio hyn dan diwedd y flwyddyn Ysgol.

Siomedig yw fy mod eto yn y sefyllfa o gorfod ymateb i adroddiad oddi fewn i ddau ddiwrnod er fy mod wedi cwyno yn y gorffennol fod hyn yn annheg rhan rhoi amser priodol i mi cael cyfathrebu gyda Llywodraethwyr Rhieni ar cymdeithas yn gyfan bron fod rhywun yn gallu dod ir canlyniad fod hyn yn fwriadol oherwydd fod hyn wedi digwydd tro ar ôl tro yn ystod y broses

Oherwydd y rhesymau hyn ofynnaf ir Cabinet ail ystyried ei penderfyniad a cadw yr adnodd yma yn agored neu beth bynnag dan fod yr Flwyddyn Ysgol wedi darfod."

---

**Atodiadau:**

**Atodiad A:** Dadansoddiad o sylwadau gwrthwynebu

**Atodiad B:** Rhybudd statudol

**Atodiad C:** Asesiadau Cydraddoldeb a Llesiant

**DOGFENNAU CEFNDIR** – Gellir weld holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

# Gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.

## (Cyfnod Gwrthwynebu 25 Mehefin – 23 Gorffennaf 2021)

Derbyniwyd 211 o wrthwynebiadau a 2 ddeiseb ac fe'u didolwyd o dan y penawdau canlynol:

**A) Gwrthwynebiadau heb sylw**
**B) Y Gymuned**
**C) Materion Addysgol**
**Ch) Yr Iaith Gymraeg**
**D) Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi**
**Dd) Sylwadau am y broses statudol**
**E) Cludiant a theithio**
**F) Effaith ar y dysgwyr**
**Ff) Staff**
**G) Ysgolion cyfagos**
**Ng) Materion cyllidol**
**H) Opsiynau Amgen**
**I) Deddf Llesiant**
**J) Ôl-ddefnydd safle'r ysgol**
**L) Dyddiad gweithredu'r cynnig**
**Ll) Arall**
**M) Deisebau**

| | Sylwadau | | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **A** | **Gwrthwynebiadau heb sylw** | | |
| 1 | E-byst a dderbyniwyd yn datgan gwrthwynebiad i'r cynnig ond oedd ddim yn nodi unrhyw sylw yn egluro pam roeddent yn gwrthwynebu. | 63 | Mae'r gwrthwynebiadau wedi eu nodi. |
| **B** | **Y Gymuned** | | |
| 2 | Mae Ysgol Abersoch yn galon i'r gymuned a'r plant sydd yn ddigon ffodus i gael eu haddysg blaenorol cyntaf o fewn ei muriau gofalus yn hyderus a hapus drwy weddill eu blynyddoedd o addysg. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau parthed pwysigrwydd yr ysgol ym mywyd pentref a chymuned Abersoch.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn |
| 3 | Mae Ysgol Abersoch hefyd yn gweithredu fel pont werthfawr, gan groesawu ac integreiddio teuluoedd sydd newydd gyrraedd yng nghalon ein cymuned amrywiol, gan annog a hyrwyddo lles dwyieithrwydd a dathlu diwylliant Cymru. | | |
| 4 | Derbynnir bod ysgolion gwledig yn ôl eu natur bron bob amser yn ysgolion bach, ond nid yw eu maint yn arwydd o'u pwysigrwydd i'w cymuned. | | |
| 5 | Bydda dwyn hyn oddiwrth cenedlaethau'r dyfodol yn amddufadu'r gymuned gyfan. | | |
| 6 | Dwi'n teimlo'n gryf IAWN o blaid parhad yr ysgol a drysorir yn Abersoch, fel bod "Cymuned" a'n plant lleol gwerthfawr yn parhau i gael eu parchu a'u gwasanaethu'n iawn. | | |
| 7 | Mae'n galon i'r pentref bychan. Rydym eisoes wedi colli ein syrjeri doctor lleol sy'n drasiedi i henoed y pentref, ac mi fyddai colli gwasanaeth creiddiol arall yn drasiedi i bobl ifanc y pentref hefyd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned. O dan arweiniad gofalus ein pennaeth, Linda Jones, mae'r disgyblion yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, drwy fentrau llwyddiannus fel annog siopau lleol i gyflwyno arwyddion dwyieithog a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i gyfalafu ar ein cynnig unigryw a hyrwyddo ein treftadaeth i gynulleidfa ehangach. | | nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 9 | I gloi, hoffwn eich atgoffa o'r rôl hollbwysig mae Ysgol Abersoch yn chwarae yn yr ardal. Nid yw hi yn unig yn ysgol, ond sefydliad sydd yn rhoi gobaith i adfywio Cymreictod yr ardal. | | |
| 10 | Os nad yw presenoldeb yr ysgol yn parhau i'w gael ei gynnal, credaf dyma fydd tynged Abersoch. Mae cael y fath addysg yn rhoi gobaith i'r pentref mewn ffordd hollol unigryw na fyddai yn cael ei adlewyrchu gan unrhyw amwynder arall; rhaid hefyd gofio fod addysg yn fuddsoddiad mewn ardal, ac mi fuasai cymeryd hyn i ffwrdd yn goleg digynsail i'r gymuned. | | |
| 11 | Agwedd sydd yn unigol yn Ysgol Abersoch yw'r gymuned sydd yn ei amgylchu. Mae'r disgyblion yn ganol y pentref, ac yn aml weld trigolion Abersoch a fydd hwn yn creu awyrgylch agor a cyffyrddus; dyma gyfle na allwch cael mewn ysgolion arall. | | |
| 12 | Yr ysgol erbyn hyn yw'r adnodd pwysicaf yn y pentref i yrru adfywiad, a byddai penderfyniad i gau'r ysgol gyfystyr â phenderfyniad i gefnu ar y gymuned o ran Cymreictod, ac i gefnu ar y criw gweithgar lleol a allent fod yn bartneriaid gwerthfawr mewn strategaeth adfywio. | | |
| 13 | Pe bai'r ysgol yn cau, yna collir y cysylltiadau a'r ymgysylltiad hwn â'r gymuned leol. | | |
| 14 | Byddai cau ysgol y pentref lleol yn niweidio statws pentref Abersoch yn ddifrifol fel cymuned bentref leol lewyrchus gydag ysgol integredig o flynyddoedd lawer yn sefyll i barhau a chadw'r gallu i ddarparu addysg leol i blant rhwng 3 ac 8 oed i'r Iaith, hanes a diwylliant Cymraeg. Nid oes pentref cyfagos arall yn yr ardal sy'n cael ei ystyried yn bentref mor gymysg ag Abersoch â busnesau lleol, siopau, tafarndai, caffis, traethau, harbwr, swyddfa dwristiaid, garejys, cwrs golff ac ati ac sydd bellach yn ysgol sydd dan fygythiad o gau. Byddai cau'r ysgol yn 'Rhwygo'r galon allan o'r pentref', ni fyddai preswylwyr, perchnogion ail gartref, twristiaid ac ymwelwyr bellach | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn gweld a chlywed lleisiau disgyblion ifanc yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol neu'n eu clywed yn mwynhau chwarae yn yr iard yn ystod amseroedd egwyl. | | |
| 15 | Colled i'r gymuned ac ymgysylltiad y disgyblion yn y gymuned. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal. |
| 16 | Heb yr Ysgol bydd Abersoch yn farw, diflas a di-fywyd, fel Hamelin pan ddenwyd y plant bach i'r mynydd. Ni fydd y pentref a'i amgylchoedd ond chwaraele i "bobl ddŵad" a'r brodorion a'r trigolion, fel brodorion America, mewn gwarchodfâu yma ac acw. | | |
| 17 | Mae'r ysgol yn rhan hanfodol o fywyd y pentref. Dyma le mae'r plant lleol wedi dysgu i gymdeithasu a lle maent wedi datblygu synnwyr o ysbryd cymunedol sy'n hanfodol yn yr ardaloedd gwledig hyn.Nid oes gennym fanc na syrjeri doctor yma mwyach ac mae'r ysgol wedi dod yn hwb i'r pentref - mae'r plant yn cynnal cyngherddau Nadolig, ymweld â Grŵp Paned lleol ac mae'r preswylwyr yn mwynhau eu hymweliadau yn fawr iawn. | | |
| 18 | Mae'r ysgol wrth galon y gymuned ac mae cenedlaethau sydd wedi eu haddysgu yno yn rhannu ymdeimlad o le ac yn cyfrannu at y pentref cyfan. | | |
| 19 | Camgymeriad anferthol cau calon ein pentref, llais ein cymuned, dyfodol ein plant, am be ? £££ sydd yn cael ei treblu a mwy mewn trethi tai haf. | | |
| 20 | Mae'r plant ac ysgol wrth galon y gymuned a'r teuluoedd hynny sy'n cynnal y pentref drwy gydol y flwyddyn. Mi fyddai'n golled enbyd pe bai nhw'n cael eu gwthio allan oherwydd cau'r ysgol anhygoel hon. | | |
| 21 | Fel rhywun sy'n lleol i Abersoch ac wedi fy magu yn y pentref mae'n drist iawn gen i glywed am gau arfaethedig Ysgol Abersoch... Dwi'n cyfaddef bod Abersoch wedi dod yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr dros y blynyddoedd ac o'r herwydd mae llawer o'r tai wedi eu prynu gan ymwelwyr ond mae yma deuluoedd ifanc a lleol o hyd sy'n awyddus I'w plant fynychu'r ysgol, mae'n ymddangos bod y pentref wedi troi'n gyrchfan i dwristiaid ac nad oes gan y cyngor angerdd tuag at ceisio cynnal y bobl lleol yng nghymuned y pentref. Mi fyddai cau'r ysgol yn golled enbyd I'r pentref, dwi wedi gweld 2 genhedlaeth yn mynychu'r ysgol ac hyd yn oed ar ôl gadael roeddem yn dal i fynychu'r gwasanaethau Nadolig a gynhaliwyd gan yr athrawon ar gyfer y pentref a oedd yn dwyn llawer o deuluoedd lleol ynghyd. Mae'r teuluoedd sy'n ddigon ffodus i fyw yn y pentref wedi trio eu gorau glas i godi arian ac ati ac mae'n nhw'n fwy na bodlon i helpu ymhellach yn y dyfodol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | Pa fath o adnoddau sydd ar gael i'r gymuned? Dim banc, dim syrjeri doctor, dim deintydd GIG, ysgol sy ar fin ei chau a gorsaf heddlu sydd wedi ei lleihau sy gan y nesaf peth i ddim staff. Mae fy nau blentyn wedi derbyn addysg ragorol yn Ysgol Abersoch, yn rhugl yn y Gymraeg ac mae'r ddau wedi mynd yn eu blaenau i fynychu prifysgolion. Yn anffodus nid yw'r un o'r ddau wedi gallu dod nôl i fyw i'w pentref genedigol i fagu teuluoedd oherwydd y prisiau tai uchel. Mae'n ymddangos na ystyriwyd ansawdd bywyd y bobl leol na'u dymuniadau pan wnaethpwyd y penderfyniadau. | | Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 23 | Am siom gwirioneddol fyddai colli ysgol gynradd yn Abersoch. Mae wedi bod ac yn parhau i fod yn ran enfawr o'r gymuned ac wedi addysgu llawer iawn o blant lleol yr ardal dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig iawn i blant deimlo bod eu hysgol yn rhan o le mae'n nhw'n byw ac i ddysgu ynghyd â ffrindiau a chymdogion. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch |
| 24 | HOLLOL YN ERBYN CAE YSGOL ABERSOCH!! Dwi mor drist hefo cyngor Gwynedd, wedi gwilltio, wedi synu, wedi upsetio gymaint!! Allai ddim coelio bod Ysgol Bach Cymraeg yn cael ei gau, ar plant yn cael ei symyd allan or ffordd, fel pe bau yn llwch. Be Cymraeg sydd ar ol yn y pentref??? Dim cymuned ar ol, dim meddyg, dim banc a rwan dim Ysgol!! Ond oes mae hotel hull wedi cael y go ahead, llawer o tai haf newydd braf- da iawn chi wedi gwerthu allan I Lloegr unwaith eto! Abersoch = Tryweryn 2!<br>Trist! Trist! Trist!!! | | |
| 25 | Hoffwn fynegi fy ngwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol hon yn, a dylai barhau i fod, wrth galon y gymuned fach ac arbennig iawn yma. | | |
| 26 | Dwi'n gwrthwynebu yn gryf i'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch. Ysgolion yw dyfodol ac sydd wrth galon cymunedau. | | |
| 27 | Nodaf fy mod yn gwrthwynebu i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar sail yr effaith a gaiff ar y gymuned leol. | | |
| 28 | Mi fydd cymryd addysg oddi ar y gymuned leol yn difrodi'r cyfleoedd i blant lleol ac athrawon ac mi fydd yn gwthio'r bobl leol i ffwrdd o'r pentref hyd yn oed yn fwy i ffafrio twristiaid tymhorol, gan ddifrodi unrhyw hanes sydd gan y pentref. | | |
| 29 | Mae'n ganolog i'r pentref a chanddi gysylltiadau agos i'r gymuned a'i gweithgareddau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 30 | Mae hon yn fwy nag ysgol, mae hi'n ran hanfodol o'n cymuned a bydd ei chau yn achosi difrod pellach i galon Abersoch. | | fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 31 | Bydd cymryd addysg oddi ar y gymuned leol yn difrodi'r cyfleoedd i blant lleol ac athrawon a bydd yn gwthio'r bobl leol i ffwrdd o'r pentref i ffafrio twristiaid tymhorol, gan ddifrodi unrhyw hanes neu dreftadaeth sydd gan y pentref. | | |
| 32 | Mae pobl yn tynnu sylw at y ffaith bod cymuned Abersoch yn dirywio, ond os bydd yr ysgol yn cau pa obaith sydd gan Abersoch am blant lleol fydd yn rhan o'r gymuned ac yn gobeithio cymryd drosodd busnesau teuluoedd ac aros yn lleol, beth fydd yr atyniad i deuluoedd newydd? Mae pob plentyn a theulu yn haeddu'r cyfle i addysg hygyrch ac i blant deimlo'n rhan o'u cymuned leol. | | |
| 33 | Bydd y difrod i'r gymuned yn ddinistriol a di-droi'n-ôl i'r bobl leol & ymwelwyr. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |
| 34 | Plis peidiwch â chau ysgol Abersoch, mae hi'n ran mor bwysig o'r gymuned. Mae gan ei phlant feddwl y byd ohoni. | | |
| 35 | Rydych yn tynnu cymaint o gyfleoedd y plant i ddysgu a gwerthfawrogi eu haddysg blynyddoedd cynnar yn y modd unigryw a ddarperir gan yr ysgol hon, yn ogystal â chyswllt cymunedol a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg. | | |
| 36 | Bydd cau ysgol fach mor hyfryd yn cael effaith enfawr a hirdymor ar gymuned Abersoch. | | |
| 37 | Dwi wedi fy ffieiddio gan eich penderfyniad i gau ysgol ein cymuned a'r diffyg cefnogaeth gennych i'n cymuned leol. | | |
| 38 | Dw i'n ysgrifennu pwt yn ffurfiol i ddangos fy ngwrthwynebiad i gau Ysgol Abersoch. Ni fydd y penderfyniad hwn yn un adeiladol i'r gymuned. Mae'n bwysig ei chadw ar agor. | | |
| 39 | Mi fydd cau'r ysgol hon yn y gymuned yn cael effaith dinistriol. | | |
| 40 | Mae hi'n nwydd gwerthfawr o fewn y pentref. Mae fy wyrion wedi mynychu yr ysgol ac wedi cael y cyfleoedd i ddatblygu a gwneud cynnydd. Mae cymaint o bethau a ellir ei wneud i sicrhau bod yr ysgol hon yn fwy hyfyw. | | |
| 41 | Mae pwysigrwydd yr ysgol fel adnodd yn amlwg ond efallai nad ydyw'n cael ei werthfawrogi'n llwyr pan nad ydynt i'w gweld o amgylch y pentref naill ai'n canu carolau dros y Nadolig, yn cynnal dosbarthiadau awyr agored ar y traeth neu'n ymweld â'r henoed mewn boreau coffi. Mewn gwirionedd, mae buddion rhyngweithio rhwng pobl ifanc a'r henoed wedi ei gydnabod yn ddiweddar. Yn wir, gan mai ychydig iawn o Saesneg mae pobl hŷn Gymraeg | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yr ardal yn ei siarad mae'r plant yn fendith. Byddai colli'r ysgol i'w deimlo ledled pentref Abersoch a thu hwnt. Mi fyddwn wir yn gweld colli Llysgenhadol bach yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn ddiweddar dwi wedi derbyn holiadur ail gartrefi. Mae'r holiadur yn ucheloleuo effaith pethau fel hyn ar adnoddau lleol gan gynnwys ysgolion. Mae hyn yn awgrymu bod y cyngor lleol yn cydnabod y byddai cau'r ysgol yn drasiedi ac yn cael effaith negyddol enfawr. | | O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 42 | Mi fyddai ein mab yn mynychu'r ysgol ac rydym yn teimlo ei fod yn gyfraniad hanfodol i'n pentref. Mae yna lawer o deuluoedd ifanc yn symud i'r ardal a fydd angen ysgol leol i ddysgu ein plant. Dwi'n annog fy mab i siarad Cymraeg ac yn dysgu Cymraeg ar gyfer ein busnes yma. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch |
| 43 | Mae pentra Abersoch wedi colli cymaint dros y blynyddoedd dweutha. Rwyn erfyn arnoch chi i beidio gael gwared o Ysgol bach y pentra sydd môr bwysig i'r gymuned hon !!! Heb Ysgol beth fydd dyfodol Abersoch !!<br>Pentra gwyliau i pobol o ffwrdd a neb yn byw yna yn y Gaeaf !!! | | |
| 44 | Yn fy mharn i, mae'n edrych fel rydych yn rhoid i fynu rhy sydyn ar yr ysgol. Os rwyf wedi ddarllen yn iawn, mae'r ysgol mond yn 25% llawn. Fysa'n bosib defnyddio'r ysgol yma fel esiampl o sut mae'n bosib adfeddianu ysgolion a sicrhau fod fyddynt yn rhan o dyfodol ein cymunedau. Rwyf wedi canmol Cyngor Gwynedd sawl tro, ac yn feddwl fod chi'n esiampl o sut ddylsa Cyngor delio hefo'r penderfyniadau sydd yn effeithio cymunedau Cymraeg ; ond mae'n bechod, mae'n tebyg rydych wedi rhoid ffidil yn yr to hefo'r fater hon. | | |
| 45 | Fel eiriolwr angerddol dros ansawdd addysg i flynyddoedd cynnar a phobl ifanc ysgrifennaf atoch heddiw i erfyn arnoch i ail-ystyried eich penderfyniad i gau Ysgol Abersoch sy'n hanfodol i oroesiad cymuned Abersoch ac sy'n ffagl ddisglair wrth ddarparu cyfleoedd dysgu rhagorol i'w blant a'u heffaith ar hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn y pentref a'r gymuned ehangach. | | |
| 46 | Mae'r ysgol yn rhan allweddol o'r pentref yn ei chyfanrwydd. Mae codi arian ar gyfer a gan yr ysgol wastad wedi bod yn hynod llwyddiannus, gan bod y gymuned wedi ymglymu â'r ysgol a llwyddiant ei disgyblion.<br>Mae'r plant yn rhyngweithio â busnesau'r pentref a'r trigolion i wneud y mwyaf o adnoddau naturiol ar garreg y drws. Fe allaf eich sicrhau bod llawer | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o ysgolion yn eiddigeddus o wersi Addysg Gorfforol Ysgol Abersoch ar y traeth! | | fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 47 | Mae'r ysgol yn unigryw ac yn allweddol i gadw diwylliant y pentref anhygoel hwn. Mi fydd ei chau yn dinistrio rhan allweddol o fywyd lleol mewn ardal sydd eisoes dan fygythiad perchnogion ail gartrefi. Mae'r Cyngor yn iawn i leisio ei bryder am golli tai lleol ac yn gwneud beth a allai i annog mwy o bobl i fyw a gweithio yn Llŷn, bydd cau'r ysgol yn atal teuluoedd ifanc rhag gweithio a byw yn y pentref a'i gwneud hi llawer anoddach i gadw diwylliant lleol a'r gymuned yn fyw. Mae'r ysgol yn unigryw ac yn allweddol i gadw diwylliant y pentref anhygoel hwn. Mi fydd ei chau yn dinistrio rhan allweddol o fywyd lleol mewn ardal sydd eisoes dan fygythiad perchnogion ail gartrefi. Mae'r Cyngor yn iawn i leisio ei bryder am golli tai lleol ac yn gwneud beth a allai i annog mwy o bobl i fyw a gweithio yn Llŷn, bydd cau'r ysgol yn atal teuluoedd ifanc rhag gweithio a byw yn y pentref a'i gwneud hi llawer anoddach i gadw diwylliant lleol a'r gymuned yn fyw. Bydd cau ein hysgol yn rhwygo'r calon o'r pentref, a fe ddylai ein cyngor wneud mwy i ail-adeiladu cymuned Abersoch, yn hytrach na thynnu ei sylfaen oddi tani. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl |
| 48 | Dwi'n deall pwysigrwydd Ysgol Abersoch i'r gymuned leol. Heb y pileri hyn mewn cymuned mae pentref yn dlotach lle o'r herwydd. | | |
| 49 | Nid moderneiddio yw rhwygo'r calon o'n cymuned a'n pentref, yn hytrach dyma gymryd cam yn ôl. Moderneiddio fyddai ailadeiladu ein cymuned, gan ddarparu addysg unigryw i deuluoedd ifanc ac atynnu pobl i fyw a gweithio yn Abersoch, lle gwerthfawr ym Mhen Llŷn a Gwynedd. Bydd dinistrio ein cymuned yn gadael Abersoch yn gragen, wedi siapio i dwristiaid gan Gyngor Gwynedd. | | |
| 50 | Dyma gymuned fychan lle mae cyfeillgarwch ac undod yn hanfodol. Mae Ysgol Abersoch yn darparu amgylchedd sy'n meithrin plant y pentref i dyfu yn gorfforol ac emosiynol cyn symud yn eu blaenau i ysgol fwy. Mae nhw'n ran | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mawr o bopeth mae Abersoch yn ei gynrychioli ac mi fyddai ei chau yn warthus. | | ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 51 | Dwi'n gwrthwynebu'n gryf i'r cynnig i gau yr ysgol gan y byddai'n cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned. Er nad wyf yn lleol dwi wedi ymweld ag Abersoch ar wyliau am flynyddoedd lawer ac wedi bod ddigon ffodus i weld yr ysgol hon ar waith a gweld y plant o amgylch y pentref mewn grwpiau ysgol. Am ddiwrnod trist fyddai honno i blant lleol.<br>Mi fyddai gwaredu â gwasanaeth lleol yn drobwynt i Abersoch a'i throi'n gyrchfan poblogaidd yn hytrach na chymuned Gymraeg hardd. Dyma'r pethau sy'n cynnal swyn Abersoch. | | |
| 52 | Ysgrifennaf atoch i roi gwybod fy mod i yn gwrthwynebu'n llwyr i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar ôl gweld yr orymdaith drwy'r pentref. Dwi ddim yn cytuno y dylid cau'r ysgol hon o gwbl, a chredaf y byddai'n siom enbyd i'r gymuned. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |
| 53 | Plis cadwch ysgol Abersoch ar agor.<br>Dyma fyddai orau i addysg y plant a byddai'n dangos bod Abersoch yn gymuned sy'n gofalu dros blant lleol. | | |
| 54 | Dwi'n gwrthwynebu'n llwyr i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Credaf y byddai'n ddinistriol iawn i'r gymuned, ac i'r plant. | | |
| 55 | Mae gan Abersoch gymnuned gryf ac mif yddai'n golled enbyd i golli'r ysgol lleol ac annwyl i bobl. Mi fydd hyn yn atal teuluoedd rhag symud i fyw i'r pentref sy eisoes dan ei sang gan dwristiaid yn ystod y gwyliau. Siawns ei bod yn hanfodol cadw ysgol ragorol a blaengar ar agor a rhoi cyfle i blant ddysgu trwy fynd i'w hysgol leol | | |
| 56 | Dwi'n gwrthwynebu yn llwyr i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol hyfryd wrth galon cymuned sydd angen fynnu drwy'r flwyddyn – yn hytrach na dod yn gyrchfan i dwristiaid yn unig. Gyda chartrefi fforddiadwy wedi eu codi yng nghanol y pentref ac wedi creu cyfle i'r genhedlaeth nesaf o deuluoedd Abersoch – gyda'r potensial i barhau adeiladu'r economi leol ac i fagu plant yn Abersoch, oni ddylai'r plant gael y cyfle i gerdded i'r ysgol?? Plis ail-ystyriwch y cynnig i gau Ysgol Abersoch, mi wyddoch nad yw'n iawn i amddifadu pentref y plant. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 57 | Byddai cymryd cyllid oddi wrth a chau'r ysgol yn Abersoch fel rhwygo'r enaid, hunaniaeth a synnwyr o berthyn oddi ar y plant ifanc hynny sy'n ei mynychu. Y mae'r penderfyniad anghywir i chi wadu'r plant lleol o'r gallu i ddysgu a thyfu yn bobl ifanc cyfrifol, a hynny yn ddiogel o fewn eu cymuned leol, ac ni ddylai hyn gael cefnogaeth. Mae Ysgol Abersoch yn darparu Adnoddau cymdeithasol gwerthfawr i deuluioedd lleol, y plant a'r rhieni, Abersoch yw eu cartref, ac i'r teuluoedd nid cyrchfan wyliau dros dro sydd yma fel y gwelir Abersoch gan y Cyngor yn aml. Mae hon yn ran o strwythr bywyd Abersoch, i'r teuluoedd yma bydd fel petaech yn cefnu arnynt, yn eu hamddifadu o'r addysg lleol y mae pob Cymdeithas Gymraeg yn ei haeddu. Byddai tynnu un o sefydliadau olaf Cymraeg oddi ar y pentref, sy'n rym er daioni yno, yn cydlynnu gwersi a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn trosglwyddo hanes Gogledd Cymru a gwerthoedd y genedl, yn awgrymu eich bod wedi colli Abersoch i weddill Y Deyrnas Unedig. Y mae'n ddyletswydd arnoch i ddarparu addysg leol ac mi fyddai cau'r ysgol gyfystyr â diffeithio eich dyletswydd. | | O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 58 | Teimlaf yn gryf eich bod yn gwneud cam mawr a chymuned wrth gau ysgol Abersoch.<br>Mae'r pentref a'i chymuned yn dioddef yn barod wrth i bobl leol gael eu prisio allan o allu aros a byw yn eu hardal gan brisiau anfforddiadwy y tai yno, a bydd cau yr ysgol yr hoelen olaf i ladd yr iaith Gymraeg yn y pentref.<br>Deallaf yn iawn fod y niferoedd isel sydd ar y funud yn mynychu'r ysgol yn gostus i'r cyngor, ond rwyf hefyd ar ddeall fod nifer o blant lleol a allai fynychu'r ysgol yn mynd i ysgolion eraill fel Llanbedrog er enghraifft, sydd yn 'llawn' i fod!? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moder neiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes. |
| 59 | Mae cymaint o wasg negyddol o amgylch ail gartrefi Abersoch ar hyn o bryd. Os bydd yr ysgol yn cau, beth fydd ar ôl i'r bobl lleol? Mae'r swyddfa bost wedi cau a bellach yn gownter fychan yn Londis. Mae'r siop trin gwallt wedi mynd oherwydd prisiau rent uchel. Does dim banc yma dim ond peiriant arian. Mae siopau stryd fawr wedi mynd. A rŵan yr ysgol.<br>Dwi'n teimlo bod y gymuned wedi dioddef digon a bod yn straen di-angen ar deuluoedd mewn cyfnod ansicr.<br>Ychydig iawn o'r hen Abersoch sydd ar ôl yn y pentref oni bai am yr ysgol ac mi fyddai tynnu hon oddi ar y pentref yn gamgymeriad trasig. Dwi'n hapus i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | barhau i gefnogi'r ysgol hyfryd hon, y rhieni ymroddedig a'r llywodraethwyr sy'n gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r ysgol hon ar agor. | | I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 60 | Bydd cau Ysgol Abersoch yn cael effaith ar lawer o genedlaethau, nid yn unig yr rheiny sy'n mynychu ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.<br>Mae hi yng nghanol ein pentref, ein Cymuned a bywydau llawer ohonom.<br>Mae plant yr ardal angen yr adnodd lleol a bydd ei chau yn cymryd rhan bwysig o strwythr ein cymuned lleol oddi arnom. | | |
| 61 | Mae cenedlaethau o deuluoedd wedi gallu cerdded yn ddiogel i'r ysgol hon lle cawsant ddechrau rhagorol i'w haddysg yng nghalon ein cymuned, a'r hyn sydd ei angen arnom yw cefnogaeth briodol i alluogi teuluoedd i fyw yn y pentref mewn niferoedd cynaliadwy unwaith eto. | | |
| 62 | Plîs peidiwch â chau yr ysgol uchod mae gwir angen ar y plant a'r gymuned yr ysgol.<br>Achubwch Ysgol Abersoch. | | |
| 63 | Mae gan Ysgol Abersoch gymaint i'w gynnig. Wedi ei leoli yng nghanol pentref prysur, y mae o fewn pellter cerdded hawdd i'r traeth, siopau a busnesau lleol. Mae'r capel dros y ffordd a'n neuadd bentref y drws nesaf. Mae'r neuadd bentref ar gael i'w ddefnyddio yn aml, heb gost i'r cyngor. Mae'r caeau chwarae yn agos a diwrnod chwaraeon yr ysgol wedi cael ei gynnal yno yn y gorffennol. Mae hyn oll yn ategu at synnwyr o gymuned, parch a chariad tuag at y pentref i'r disgyblion. | | |
| 64 | Heb galon o ysgol a Chylch Meithrin ni fuasai digon o deuluoedd yn byw a gweithio'n  lleol yma i ddarparu staff heini a galluog i'r criwiau hyn a fyddai'n gadael bwlch peryglus yn narpariaeth yr hyn sy'n wasanaethau brys hanfodol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 65 | Nodaf y bore 'ma fod rhai cyfeiriadau at gyflwr ysgol enwog arall yng Nghymru wedi cael eu hamlygu, sef Ysgol a Phentref Tryweryn, dwi'n siŵr y byddwch chi i gyd yn gyfarwydd â nhw, gan mai dyma oedd y gwir sylfaen ar gyfer ffurfio ac ehangu dilynol o'r blaid wleidyddol rydyn ni i gyd yn ei hadnabod heddiw fel Plaid Cymru.   Roedd dinistr y pentref a'r ysgol gymunedol yn sioc enbyd i Gymru gyfan, a'r un sioc a arweiniai at ffurfio eich plaid sydd i'w deimlo yn Abersoch ar hyn o bryd, ond y tro hwn y mae'n cael ei arwain, nid gan aelodau preifat Saesneg, ond gan yr union blaid y sonnir amdano yma. Eich ethos, fel sydd eisoes wedi ei grybwyll yw cadwraeth yr iaith Gymraeg, diwylliant Cymraeg a chymunedau Cymraeg, ond y mae'n | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymddangos eich bod yn benderfynol o ddinistrio'r ychydig sydd gennym ar ôl a’r ychydig sy’n annwyl iawn i ni. Nid wyf yn awgrymu am eiliad y bydd Abersoch yn diflannu, ond yn araf deg, bydd cymuned Abersoch a’i thrigolion lleol, yn gweld y gymuned yn diflannu. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Abersoch wedi gweld colled ei syrjeri doctor, Swyddfa Bost, Banc, Siop Trin Gwallt, a’r milfeddyg. A rŵan y mae’n debyg y gwelwn gau ysgol gynradd 100 mlwydd oed sy’n ganolbwynt ac yn ddyfodol i gymuned fechan od angerddol, ysgol sy’n ymroddedig i gadwraeth treftadaeth Gymraeg ac, yn anad popeth, yr iaith Gymraeg. Heb ysgol, ni fydd gan Abersoch ganolbwynt, a bydd calon ac enaid y pentref wedi diflannu ynghyd â nifer o anghenrheidiau eraill sydd angen ar gymunedau modern, er na chaiff ei ddinistrio yn yr un modd â Thryweryn, mae arbedion ariannol parhaus Cyngor Gwynedd a Phlaid Cymru yn dinistrio cymunedau, nid arbedion ariannol yw’r datrysiad pob tro gan fod rhai pethau’n fwy gwerthfawr nag arian. | | Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau’r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a’r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, mae’r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle’n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 66 | Mae gen i brofiad personol o’r ysgol a’r disgyblion a gwn faint y gwerthfawrogir yr ysgol heddiw a faint y mae hi’n cyfrannu tuag at fywyd y pentref. | | |
| 67 | Mae’r ysgol hon yn cynnig addysg ragorol i blant Ysgol Abersoch ac mi fyddai ei chau yn cael effaith anfesuradwy ar ein cymuned, iaith a diwylliant. | | |
| 68 | Hoffwn gofrestru fy ngwrthwynebiad i gau’r ysgol yn Abersoch. Mae hi’n rhan mor bwysig o gymuned pentref Abersoch. | | |
| 69 | Plîs peidiwch â dinistrio’r gymuned sy’n byw yn y pentref a’r ardaloedd cyfagos. | | |
| 70 | Mae hi mor bwysig bod gan deuluoedd Abersoch fynediad i ysgol leol – heb hynny bydd Abersoch yn ddim byd ond lle gwyliau i dwristiaid am ychydig fisoedd y flwyddyn ac yn ddim byd am weddill y misoedd. | | |
| 71 | Plîs rydym yn erfyn arnoch Adran Addysg Gwynedd i ail-ystyried y cau oherwydd bydd y pentref yn dioddef colled ased gwerthfawr iawn i’r gymuned bwysig iawn hon. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i’r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o’r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu’r effaith tebygol y byddai’r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, |
| 72 | Nid wyf yn cytuno â’r cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch, mae gan yr ysgol botensial aruthrol ac mae’n anhepgor i’r gymuned.<br><br>Rydym yn byw yn Llanbedrog ac mae gennym blant sydd wedi mynychu “ti a fi” yno ac felly’n ymwybodol pa mor allweddol yw'r angen am lefydd fel hyn i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | deuluoedd â babanod neu blentyn ifanc, mi fyddai cymryd hyn yn cael effaith negyddol enfawr nid yn unig yn Abersoch ond ar y pentrefi cyfagos hefyd. | | |
| 73 | Byddai cau Ysgol Abersoch yn anfon allan arwydd anghywir a damniol o ran amcanion corfforaethol eraill y Cyngor - o ran y Gymraeg, o ran meithrin gofal am yr amgylchedd ac o ran gwrando ar y cyhoedd. Byddai'n rhoi'r argraff fod Cyngior Gwynedd wedi "rhoi i fyny" ar gymuned Abersoch, a dyna gychwyn llethr llithrig iawn o ran dyfodol ein cymunedau Cymraeg sy'n disgwyl arweiniad gan y Cyngor. | | |
| 74 | Plîs peidiwch â chau'r ysgol hon sydd wrth galon y pentref | | |
| 75 | Mae'r ysgol yn darparu addysg ragorol i blant Ysgol Abersoch ac mi gaiff ei chau effaith anfesuradwy ar ein cymuned, iaith a diwylliant. | | |
| 76 | Dwi'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch<br><br>Mae cymunedau gwledig yn y pentrefi bychan Cymreig yn colli pob cyfleuster ac ni ddylai hyn gael caniatâd i ddigwydd | | |
| 77 | Mae'r ysgol yn darparu addysg ragorol i blant Ysgol Abersoch ac mi gaiff ei chau effaith anfesuradwy ar ein cymuned, iaith a diwylliant. | | |
| 78 | Ysgrifennaf atoch i ddatgan fy mhryderon ynglŷn â'r cynnig i gau ysgol Abersoch.<br>Mae ysgolion ei thebyg yn hanfodol i'r gymuned a phlant leol.<br>Mae gallu cael addysg mewn ysgol bentref leol yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn annog teuluoedd i setlo yn Abersoch.<br>Mae prisiau tai'r ardal yn cynyddu oherwydd y masnach twristiaid, mae angen gwneud mwy i annog teuluoedd ifanc i symud i'r ardal. Tai fforddiadwy i deuluoedd lleol ac ysgol sydd wrth graidd hyn. | | |
| 79 | Plîs derbyniwch yr e-bost hwn fel fy ngwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Mae ysgol yn hanfodol i'r gymuned. | | |
| 80 | Gyda chau cyfleusterau lleol a'r sefyllfa dai waharddol, mae ysgol y pentref yn un o'r ychydig sefydliadau sy'n dal i gefnogi hanfod bywyd cymunedol a phentref.<br>Mae cenedlaethau o fy nheulu a chymaint o rai eraill wedi elwa o'r cyfleuster rhagorol ac unigryw hwn, ac y mae ei botensial yn amlwg ac anfesuradwy i gyfoethogi bywydau cymaint o deuluoedd sy'n byw, neu sydd eto i ddod i fyw, yn yr ardal bellach yn bwysicach na erioed.<br>Byddai'n ergyd drasig a niweidiol iawn i bentref Abersoch, yr ardal gyfagos, a'i bobl, pe bai'r adnodd hanfodol hwn yn rhoi'r gorau i ddarparu i'r sawl sy'n | | |

yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.

I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.

Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dibynnu arno; yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, y gymuned yn gyffredinol, a rheini'r dyfodol sydd bellach mewn perygl o gael y cyfle i fwynhau ac elwa o gefnogaeth hynod hanfodol a maethlon yr ysgol bentref hon a'i staff. | | |
| 81 | Anfonaf e-bost i gofnodi fy ngwrthwynebiad i gau Ysgol Abersoch. Mae hi'n rhan allweddol o'r gymuned leol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref. Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 82 | Mae ysgolion fel hyn yn hanfodol i gymunedau bychan. Dwi wedi bod yn yr union yr un sefyllfa yn y gorffennol gyda fy mhlant yn ysgolion yn y Coombs yn Sir Darbi ac fe enillom. Aeth yr ysgol o nerth i nerth ac y mae hi bellach yn boblogaidd iawn ymysg yr ardal ehangach. | | |
| 83 | Nid wyf yn cytuno â chau'r ysgol yn Abersoch.<br>Dwi'n athro fy hun mewn pentref bychan a dwi'n deall pwysigrwydd cymuned, diwylliant a threftadaeth i bawb. Dyma sy'n ein mowldio fel pobl a'n paratoi ar gyfer bywyd ymhellach ymlaen. Yr adegau a gweithgareddau bychan, dinod efallai, sy'n digwydd mewn ysgol sy'n cymysgu hi â'r gymuned a gwneud defnydd naturiol o ddosbarthiadau awyr agored yn cael effaith aruthrol ar bob oed o blant i'r hen oed.<br>Mae'n ymwneud â dathlu cyfalaf diwylliannol pob plentyn yng nghymuned yr ysgol leol.<br>Byddai hyn yn cael ei golli am byth ac yn dod yn ysbryd cymunedol sy'n dirywio gyda cholli'r ysgol sy'n galon pentref Abersoch yn y pentref. | | |
| 84 | Dwi'n methu deall pam bod yr awdurdodau, sy'n cyrraedd penderfyniadau pell gyrhaeddol, yn meddwl ei fod o fudd i'r iaith Gymraeg a'r gymuned lleol, i dynnu eu prif wythïen oddi arnynt. Tynnwch yr ysgol ac ni fydd dyfodol ar gyfer yr iaith, diwylliant na chymuned, gan mai dyma lle mae meithrin yr hadau ers degawdau wrth ymwneud â chymuned y pentref, yn wahanol i'r pentrefannau cyfagos !! Gwyddwn am deulu sy'n y broses o symud i'r pentref ar hyn o bryd ac mae'n hollol anghywir eich bod yn gwrthod dau o'u plant y cyfle i fynychu eu hysgol lleol. | | |
| 85 | Mae'r ysgol hon wedi bod yn ran o'r gymuned ers blynyddoedd lawer. Addysgid fy niweddar daid yma ac mi fyddai yn dorcalonnus o wybod bod pobl ifanc Abersoch yn cael eu hamddifadu o addysg o fewn eu cymuned leol.<br><br>Mae gan Abersoch ddiwydiant twristiaid rhagorol ond i lawer dyma adref, ac mae'r plant yn haeddu cael ysgol wrth galon hynny. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Plîs ystyriwch eu colled nhw cyn dod i benderfyniad. | | |
| 86 | Felly gofynnaf i Bennaeth Addysg i wneud y peth iawn. I newid ei benderfyniad, I Barhau i gefnogi a thyfu Ysgol Abersoch, ynghyd â chefnogaeth ein busnesau lleol, teuluoedd a chyfeillion, a chymuned Abersoch i sicrhau bod yr ysgol hon yn parhau wrth Galon pentref Abersoch a pheidio gadael iddi fod yn ystadegun ariannol yn unig. | | |
| 87 | Mae hi'n rhan hanfodol o'r gymuned leol ac yn sicrhau bod calon Abersoch yn parhau ynghyd â'r twristiaeth sy'n cefnogi'r economi leol. | | |
| 88 | Hoffwn weld y gymuned leol yn cael ei hamddiffyn. Dwi'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch. | | |
| 89 | Gwrthwynebaf i gau Ysgol Abersoch! Mae hi'n golygu cymaint i'r ardal ac mi fyddai'r pentref ar ei cholled hebddi! | | |
| 90 | Plîs derbyniwch yr e-bost hwn fel fy ngwrthwynebiad i gau Ysgol Abersoch... rhan hanfodol o'r gymuned leol. | | |
| | Hoffwn Wrthwynebu i gau Ysgol Abersoch gan bod yr ysgol hon wedi bod yn rhan o'r gymuned am flynyddoedd lawer mi fyddai'n ofnadwy iddi gau. | | |
| 91 | Rwy'n drist ac yn gwrthwynebu i gynnig Ysgol Abersoch. Dylai pobl ifanc gael mynychu ysgol leol. Mae ysgol yn helpu adeiladu cymuned, rhywbeth y dylwn ni i gyd amddiffyn. Nid yw popeth modern o fudd. Dwi wir yn gobeithio y byddwn yn ailystyried ac yn cadw'r ysgol gymunedol Gymreig hyfryd hon ar agor a pheidio ei chau, dim ond i werthu'r tir er mwyn adeiladu tai arno. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes. |
| 92 | Mae'r ysgol hon yn darparu addysg ragorol i blant Ysgol Abersoch a byddai ei chau yn cael effaith anfesuradwy ar gymuned, iaith a diwylliant Abersoch.<br>Ni fydd teuluoedd ifanc yn symud i Abersoch heb ysgol, a nhw yw dyfodol cymuned Abersoch.<br>Mae cyn-ddisgyblion wedi mynd yn eu blaenau i ennill cymhwysterau rhagorol gyda gyrfaoedd ledled y byd, pam cau ased o'r fath? | | |
| 93 | Rwy'n rheoli caffi yn Abersoch, ac rydym yn caru gweld y plant yn dod i mewn a chanu o amgylch y pentref yn ystod y Nadolig. Nid fi yn unig, ond pawb yn y gymuned. Rydym yn cynnal cystadleuaeth addurno ffenestri siopau lle mae'r plant yn cymryd rhan i ddewis yr ennillydd. Nid yn aml mae ysgolion yn ymwneud mor agos â busnesau bach.<br>Mae hi'n dod â phawb ynghyd fel Cymuned fychan, ond sy'n tyfu ar hyn o bryd. Felly, dwi'n gwrthwynebu i'r cau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 94 | A ystyriwyd yr effaith a gaiff cau'r ysgol ar y gymuned a'r iaith, heb sôn am addysg y plant? Ymladdwn yn galed i warchod yr iaith a meithrin mewnfudwyr fod yn ddwyieithog ac o'i chau tynnir y sylfaen honno oddi wrthym. Os na fydd ysgol yma yn Abersoch, ni fydd y plant sy'n byw yma – os bydd rhai – yn ein hadnabod ni na ninnau yn eu hadnabod hwythau ac ni fydd defnydd o'r iaith yn gymdeithasol; collwn dalp arall o'n hiaith a'n hunaniaeth Un o amcanion Merched y Wawr yw:<br>"hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru, yn arbennig i rymuso addysg gyhoeddus a hyrwyddo diwylliant Cymreig, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg".<br>Ceisia Aelodau Cangen Abersoch – y seithfed i'w sefydlu trwy Gymru yn 1967 ag aelodaeth o 110 – lynu at yr amcanion ond, heb ysgol yn y pentref, ni ellir gwneud hynny.<br>Erfyniwn ar Gyngor Gwynedd ailystyried ei benderfyniad a pheidio â darnio cymdeithas bentrefol ymhellach. | | I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 95 | Dwi'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol yn hanfodol i'r gymuned leol,<br>Bydd cau'r ysgol yn golygu llai o bobl lleol â theuluoedd yn gallu byw ym mhentref Abersoch. | | |
| 96 | Dwi'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch, hon yw calon y pentref sy'n brwydro yn erbyn tai haf, plîs peidiwch â chymryd yr ysgol hefyd neu beth fydd ar ôl i'r bobl leol?! | | |
| 97 | Mae'r ysgol hon yn hanfodol i'r gymuned leol gyda llawer o deuluoedd ifanc yn setlo yn y pentref gan bod yr ysgol yn bresennol. Mae gan fy nheulu gartref yn Abersoch ers dros 50 nlynedd ac mae'r ysgol wedi bod yn rhan o galon y gymuned erioed. Byddai cau'r ysgol yn golygu llai o bobl lleol Cymraeg â theuluoedd yn medru byw ym mhentref Abersoch, ac mi allai arwain at dranc y pentref mewn un ffordd neu'r llall. Nid yw cymuned yn gymuned heb ysgol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 98 | Dwi'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol yn hanfodol i'r gymuned leol,<br>Bydd cau'r ysgol yn golygu llai o bobl lleol â theuluoedd yn gallu byw ym mhentref Abersoch. | | |
| 99 | Byddai cau yr Ysgol hon a llawer un ei thebyg, yn cael effaith negyddol iawn ac yn ei gwneud hi'n anodd iawn i deuluoedd sydd eisiau'r gorau i'w plant i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fyw yn Abersoch ac ac felly'n colli'r cyfraniad i'r gymuned leol, ei heconomi a'i diwylliant. | | Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 100 | Byddai cau yr ysgol yn niweidiol i'r gymuned hyfryd hon. Mae hi mor bwysig cadw ysgolion bychan i fynd.<br>Dwi'n aml yn gweld plant ar y Traeth yn dysgu, mae hi'n ysgol mor hyfryd. Plis peidiwch â'i chau...! | | |
| 101 | Dros yr 16 mis diwethaf rydym wedi dysgu bod cymunedau yn bwysicach na dim materyddol fel arian.<br>Rydym oll wedi dibynnu ar ysbryd cymunedol a dod ynghyd i ddod drwy amser anodd iawn.<br>Mae gennych ran hardd o'r wlad yma. Mae'r harddwch yn denu ymwelwyr sy'n dod â busnes i bobl lleol.<br>Nid yw'r "harddwch" yn gyfyngedig i'r tirwedd, traethi, môr, mynyddoedd a chaeau gwyrddion. Mae hefyd yn y cymunedau bychan y cerddwn yn eu mysg, sy'n amlwg yn poeni yn arw am eu cartrefi a'u bywydau. Mae nhw'n helpu creu y lle hwn a'i wneud yn leoliad ymwelwyr i'w genfigen. Mae'n rhaid i chi stopio tynnu eich cymuned lleol a gwneud mwy i helpu cadw cymuned o'r fath. Fel arall bydd y lle hwn yn colli ei hunaniaeth pentrefol ac yn troi'n le diysbryd llawn pobl rhodresgar ac ymwelwyr rhan amser. Mi fydd y lle yn colli ei apêl, a bydd ymwelwyr yn mynd ymaith a bydd y llywodraeth lleol yn colli refeniw.<br>Ond yn anad dim bydd y gymuned lleol, un yr ydych i fod i warchod a gofalu amdani, yn colli cyfleuster gwerthfawr arall.<br>Rhowch eich plant a'ch cymuned yn anad cyllid. Mae pobl llawer pwysicach nag arian, siawns ein bod wedi dysgu hyn yn ddiweddar. | | |
| 102 | Mae Ysgol Abersoch yn unigryw ac yn galon i bentref Abersoch.<br>Nid oes angen profi mor ganolog yw'r ysgol fechan hon i'r pentref – mae gymaint o dystiolaeth eisoes wedi'i chyflwyno am hyn, fel y gallaf innau fel cyn-ddisgybl sydd wedi cefnogi'r ysgol drwy'r blynyddoedd dystio.<br>Nid oes cwestiwn am safon yr addysg a ddarperir. Mae addysgu plant mewn ysgol fechan yn gostus ond mae cost ei chau ac effaith hynny yn llawer mwy pellgyrhaeddol. Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o ddyfodol pentref Abersoch – lle mae diwylliant, yr iaith Gymraeg, ffyniant economaidd, 'hawl i fyw adra', tai fforddiadwy ac addysg i gyd yn cydblethu – gwerthoedd sy'n ganolog i Gyngor Gwynedd fe gredaf. Onid dyletswydd Cyngor Gwynedd yw edrych ar y darlun cyflawn ac ar ffyniant y pentref cyfan yn hytrach nag ystyried | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r |

<table>
<tr><td></td><td>dyfodol yr ysgol allan o gyd-destun ac ar ei phen ei hun? Pe gwneir hyn byddai cyfle i gynnig rhywbeth arloesol, unigryw a gwahanol yn Abersoch.</td><td></td><td rowspan="6">opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.</td></tr>
<tr><td>103</td><td>Gwyddwn o brofiad personol o'r ysgol hon a'i disgyblion faint y gwerthfawrogir yr ysgol heddiw a faint ei chyfraniad i fywyd y pentref. Mae hi'n rhan fawr o fywyd y pentref a gan ei bod hi yng nghanol y pentref mae gan y plant fynediad hawdd a diogel iddi sydd reit yng nghanol y pentref.</td><td></td></tr>
<tr><td>104</td><td>Dwin credu fod y syniad yn dangos diffyg dealltwriaeth o bwysigrwydd cymuned, ar fantais i'r plant i deimlo'n rhan o'r ardal leol.</td><td></td></tr>
<tr><td>105</td><td>Bydd cost diwylliannol o golli'r ysgol yn fwy o lawer nag unrhyw gost ariannol y byddwch yn ei arbed o'i chau – bydd hyn yn cael effaith pell gyrhaeddol ar y gymuned ehangach, nid dim ond ar Abersoch.</td><td></td></tr>
<tr><td>106</td><td>Erfyniaf arnoch plîs i beidio cau yr 'ysgol fach' hyfryd, hynod bwysig, sy'n annwyl iawn i bobl ac sydd wedi meithrin ei phobl bach a'u rhyddhau i'r byd hwn, yn bobl caredig, meddylgar a chwrtais sy'n gofalu am yr amgylchedd o'u cwmpas. Plîs gwnewch y peth cywir, dwi'n addo y byddwch yn teimlo lot gwell o wybod eich bod wedi achub pentref a chymuned hyfryd.</td><td></td></tr>
<tr><td>107</td><td>Yn gynta fe hoffwn cadarnhau fy nghefnogaeth llwyr i'r gwrthwynebiadau sydd wedi ei gyrru atoch oddi wrth corff Llywodraethwyr a Ffrindiau Ysgol Abersoch, mae'r datganiadau yn ardderchog ac yn drwyadl, hefyd yn esiambl gwych o'r hyn mae'r Gymuned yn ei gefnogi, yn sicr fe fyddwch yn cydnabod y gwaith craff sydd wedi ei wneud gan y Llywodraethwyr a'r Gymuned i'r argymhellion o gau yr Ysgol yma yn Abersoch.<br><br>Yn hanesyddol mae Ysgol Abersoch wedi bod dan fygythiad o gau, ond trwy siarad a thrafod roedd y cyn Swyddogion ac Aelodau yn ystyried bod yr Ysgol yn hanfodol i'r Gymdeithas ac i'r Iaith Gymraeg mewn Pentre fel Abersoch, a bod hyn yn flaenoriaeth i'r penderfyniad, ac rydym wedi bod yn ddiolchgar iddynt am sefyll i fynny dros yr egwyddorion yna.<br><br>Ond mae amser yn newid, a chyllid nawr sydd yn ganolog i sawl benderfyniad, ac rydym yn deall bod Llywodraeth Leol wedi derbyn torriadau cyllidol enfawr trwy y Plaid Geidwadol yn Llundain, ac bod yna pwysau arnoch i gynnal y gwasanaethau a gwneud penderfyniadau cyllidol yn unol a'r arweiniad,</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fe fydd eich argymhelliad o gau Ysgol Abersoch, yn creu rhaniad a rhwyg gymdeithasol, yn gwbwl diystyru yr hyn mae'r Ysgol wedi ei wneud i gynnal ein diwylliant ag Iaith Gymraeg ac ymestyn allan Cymreictod i fusnesau, cymdeithasau a'r gwasanaethau brys, felly yn hanfodol at gynnal y dyfodol i'r Iaith Gymraeg,<br><br>Felly rwyf yn gweld yr argymhelliad yn debyg iawn i'r hyn mae'r Ceidwadwyr wedi ei wneud a Brexit a Gogledd Iwerddon, heb sylweddoli y lanast mae wedi i wneud i'r Gymdeithas yno, oherwydd ei bod heb ystyried yr holl opsynnau sydd a'r gael, felly eich argymhelliad chi yng nghyswllt Addysg yn y dalgylch yma.<br>Er budd ein dyfodol ein Plant a'r Gymdeithas sydd ohonni ein gobaith y byddwch yn ymateb yn gadarnhaol i'r Llywodraethwyr ymroddedig yr Ysgol. | | |
| 108 | Mae hon yn ysgol wych ac wrth galon y gymuned.<br>Mae'r ysgol yn darparu addysg ragorol i blant Abersoch a byddai ei chau yn cael effaith anfesuradwy ar y gymuned, iaith a diwylliant. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei |
| 109 | Ysgrifennwn atoch fel trigolion Abersoch sydd hefyd yn gweithio yn y pentref, i fynegi ein cefnogaeth i'r ymgyrch i barhad Ysgol Abersoch er budd pentref Abersoch a'r amgylchoedd uniongyrchol. Mae Abersoch yn bentref unigryw. Mae'n boblogaidd iawn ymysg ymwelwyr a thwristiaid sydd, er yn dod â llawer o fuddion i'r ardal, hefyd yn dod â phwysau unigryw i wead y pentref a chynaliadwyedd y gymuned.<br>Gyda'i phrisiau tai eithriadol o uchel ac economi sydd bron yn gyfan gwbl dymhorol. Mae ei chynaliadwyedd yn hynod fregus. Mae angen ar y pentref Gynllun Strategol i sicrhau ei dyfodol ond yn y cyfamser y mae'n hanfodol bod yr ysgol yn parhau i fod wrth galon y pentref i gadw ei chymeriad fel Cymuned wirioneddol gyda bywyd pentrefol â dyfodol realistig.<br>Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i deuluoedd lleol i weld eu plant yn cael eu haddysgu yn y pentref y'i magwyd, yn smentio perthnasau â'u cyd-ddisgyblion gan helpu i ddiffinio dyfodol cymeriad y pentref fel rhywle i deuluoedd lleol dyfu a datblygu, efo'r cyfle i gyfrannu i fywyd pentref a chymuned leol a'r economi yn hytrach na bod y pentref yn le tymhorol yn unig heb wreiddiau na wead cynaliadwy. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwyddwn o brofiad fy rôl fel Prif Olygydd cylchgrawn Abersoch Life pa mor bwysig yw'r ysgol i ddyfodol, yn ogystal ag hanes, y pentref a'r gymuned leol. Mae'n amlwg hefyd sut mae'r cyfleoedd unigryw y mae lleoliad yr ysgol yn eu cyflwyno yn gallu ychwanegu ymhellach at gynaliadwyedd y pentref, gan fod y disgyblion yn gallu ymgolli yn y materion amgylcheddol sy'n effeithio ar y pentref yn ogystal â mwynhau cyfleoedd dysgu awyr agored unigryw'r traeth a harbwr cyfagos. Mae hefyd yn amlwg pa mor bwysig yw bodolaeth yr ysgol i'r economi dymhorol. Rwy'n gallu gweld o fy rôl, er efallai na fydd twristiaid ac ymwelwyr yma trwy'r flwyddyn, eu bod nhw wir yn gwerthfawrogi natur gymunedol Abersoch sy'n cyfrannu at ei werth fel lle gwyliau. Er gwaethaf y pwysau ar y pentref mae'n dal i fod yn le 'go iawn', felly yn yr un modd ag y mae'r gymuned leol yn angerddol am iddo aros felly, mae ymwelwyr hefyd yr un modd awyddus i ymweld â rhywle y maen nhw'n gwybod bod gan y lle dyfodol fel cymuned gynaliadwy, a phentref go iawn gyda gwead. Ni ellir gor-bwysleisio rôl yr ysgol yn y dyfodol a'r ffabrig hwnnw.<br>Mae Sally yn gyn-athrawes Blynyddoedd Cynnar gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn llawer o wahanol ysgolion mewn gwahanol leoliadau, o'r dref i gefn gwlad, ac felly yn deall pa mor hanfodol yw'r rôl y chwaraea sgol mewn bywyd a chynaliadwyedd Cymuned. Mae aelodau teuluoedd yn dilyn aelodau eraill i'r un ysgol, a chenhedlaeth yn dilyn cenhedlaeth. | | chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 110 | Fel cyn ddisgybl, rhiant, llywodraethwyr a rheolwr siop yn y pentref, yr wyf yn gwybod fod colli ein Ysgol fach arbennig ni yma yn Abersoch yn mynd i gael effaith enfawr ar ein cymuned ac yr iaith.<br>Ychydig iawn o ysgolion fedrai gynnig y profiadau mae y plant yma yn ei gael, trwy y gwersi nofio yn wythnosol trwy'r flwyddyn, adnoddau dysgu naturiol, gwersi natur a cadw'n heini ar lan y mor, buarth a cae diogel i cael mwynhau amser chwarae ar y beiciau ac hefyd cael gwersi tu allan ar ddyddiau mae'r tywydd yn caniatau, cadw'r iaith yn fyw trwy cyfathrebu gyda'r bobl lleol a perchenogion y siopau trwy'r iaith gymraeg, cael Aur gan menter iaith.<br>Yr wyf wedi cael mwynhau sawl cyngerdd gan y plant yn Neuadd Abersoch trwy'r flwyddyn. Fel busnes yr ydym drost y blynyddoedd wedi casglu llawer iawn o arian i'r Ysgol ac wedi mwynhau gwneud. Mae'r cwsmeriaid a'r gymuned wrth eu bodd yn ein cefnogi ond fwyaf oll,cefnogi Ysgol Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |

<table>
<tr><td>111</td><td>Credaf, yn gryf , mai camgymeriad difrifol iawn gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd yw’r cynnig hwn i gau’r ysgol hon, sydd wedi, ac yn dal i fod yn ganolbwynt diwylliannol holl bwysig i bentref a chymuned Abersoch.<br>Os mai cau’r ysgol fydd y penderfyniad, bydd y golled i’r pentref a’r gymuned oll yn sicr yn golled llawer mwy nag unhyw gost ariannol sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd.<br>Mae yma gyfle i edrych i’r dyfodol er mwyn ceisio datblygu diwylliant a Chymreictod y gymuned a’i phlant drwy ohirio’r penderfyniad i gau’r ysgol.</td><td></td><td rowspan="3">Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau’r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a’r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, mae’r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle’n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.</td></tr>
<tr><td>112</td><td>Mae’r ysgol hon yn rhan mor bwysig o fywyd y pentref a bydd ei chau yn niweidiol i ysgolion eraill yr ardal sydd dros eu capasiti.</td><td></td></tr>
<tr><td>113</td><td>Credaf y dylai’r ysgol gael cyfle gwell i brofi na ddylid ei chau ac i gael y gefnogaeth y mae hi ei hangen. Mae hi mor bwysig i ddod o hyd i ffyrdd i gynnal y symbol gweledol hwn sy’n atgoffa twristiaid bod yma gymuned sy’n ffynnu yn Abersoch y tu hwnt i’r tymor wyliau, a bod iaith a diwylliant mor bwysig heddiw ag y bu erioed.</td><td></td></tr>
<tr><td>114</td><td>Dysgir a gwerthfawrogir ysbryd cymunedol gwell mewn ysgol leol a erys weddill oes y disgyblion. Cynhaliodd Ysgol Aber-soch werthoedd sy’n cyd-fynd â’r addysg sy’n greiddiol i flynyddoedd cynnar plant mewn ysgol fach wrth osod seiliau iaith, moeseg a chyfathrebu cymdeithasol a hynny mewn awyrgylch glos, deuluol a phentrefol.<br>Mae ysgolion bychain yn fwy llwyddiannus o safbwynt y Gymraeg, gan y trochir y disgyblion ynddi’n ddyddio<br>Mae pob ysgol fach yn ei chymuned ei hun yn endid unigryw – â’i gwerthoedd a’i dyheadau mae’n awyddus i’w gwarchod a’i datblygu i’r dyfodol.</td><td></td><td rowspan="2">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i’r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o’r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu’r effaith tebygol y byddai’r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau’r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn</td></tr>
<tr><td>115</td><td>[Yr ysgol] yn rhan hanfodol o’r gymuned ac, yn wir, wedi’i hannog yn bendant i ddatblygu'r berthynas hon dros nifer fawr o flynyddoedd. Buasai’r cynnig yn torri’r cysylltiad pwysig, llwyddiannus a gwerthfawr hwn na ellir ei atgynhyrchu gan Ysgol Sarn Bach. Nid oes unrhyw amheuaeth fod y penderfyniad i gau Ysgol Abersoch yn groes i ddymuniad y gymuned. Mae’r</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd yn yr ymgynghoriad gan bawb sy'n ymwneud ag o, heb os nac oni bai, yn haeddu ymchwiliad llawnach a chraffu ar yr achos yn erbyn cau, yn arbennig o ystyried y teimlad amlwg o gefnogaeth a'r mynegiant o bwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a ddylai aros yng nghanol pentref Abersoch. | | nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 116 | Nid oes unman yn fwy amlwg nag yn achos Abersoch, cymuned sy'n drech nag ail gartrefi, lle mai'r ysgol fwy neu lai yw'r unig symbol sy'n weddill o iaith, diwylliant a threftadaeth Gymraeg yn y pentref. | | |
| 117 | Mae Ysgol Abersoch yn rhoi dechrau rhagorol mewn bywyd i'r plant sydd wedi derbyn y fraint i'w fynychu, ysgol sydd yn cynnig ymdeimlad o berthyn ac yn deulu, lle mae'r iau, a'r hŷn, yn naturiol yn dysgu o bob un gyda'i gilydd. Nid yw'n bosibl rhoi pris ar yr hyn y mae Ysgol Abersoch yn ei roi i'n plant. | | |
| 118 | 7.4. Effaith ar y Gymuned<br>Mae cryn bryder am effaith colli'r ysgol o gymuned pentref Abersoch. Datgana'r Adran Addysg "y deuir i'r casgliad fod cysylltiad rhwng yr ysgol â'r ardal ehangach yn bodoli eisoes" ar y sail y mynycha plant Abersoch Ysgol Sarn Bach eisoes ond, eto nid oes gan Ysgol Sarn Bach broffil yn Abersoch ac, o wybod am heriau'r lleoliad a thrafnidiaeth, mae'n anodd gweld sut y newidia hynny. Byddai dod â phlant Ysgol Sarn Bach i'r pentref yn gofyn am logi bws yn ogystal â chostau eraill fel taliadau parcio a'r angen am staff ychwanegol; ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei wneud am ddim yn Ysgol Abersoch. Ni all ysgol nad yw yn y pentref gynhyrchu nac atgynhyrchu'r un lefel o ddiddordeb, cefnogaeth neu ymwneud cymunedol o fewn y gymuned leol a busnesion. | | |
| 119 | **5.3. Cryfderau a Gwendidau Gwendid y Sefyllfa Bresennol - Diffyg cyfle i gymdeithasu** Mae yna'r Urdd, Clybiau Crefft, ac wrth gwrs digon o glybiau y tu allan i'r ysgol a chyfleoedd chwaraeon. Mae'r ysgol ar gyfer dysgu ac mae gan blant ddigon o ffrindiau y tu allan i'r amgylchedd hwn. | | |
| 120 | **Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach "rhywfaint o effaith negyddol ar y gymuned"** ….<br>Ar ran y staff, y disgyblion, a'r llywodraethwyr, rydym yn gweld y sylw hwn yn sarhaus iawn ar ôl yr ymdrech enfawr a'r effaith y mae gweithgareddau'r ysgol yn ei chael yn y gymuned. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn llysgenhadon dros bentref Abersoch.<br>Nid oes gan Ysgol Sarn Bach broffil yn Abersoch ac o ystyried yr heriau lleoliad a thrafnidiaeth mae'n anodd gweld sut y byddai hyn yn newid. Ni | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | allwn weld sut y bydd ysgol nad yw yn y pentref yn cynhyrchu nac yn ailadrodd yr un lefel o ddiddordeb, cefnogaeth neu ymglymiad cymunedol yn y gymuned leol a busnesau. | | |
| 121 | (Cyswwllt cymunedol) Ni ellid gwneud hyn yn Sarn Bach, gan mai ysgol yng nghanol cae ydyw, oherwydd gofynion trafnidiaeth/costau llogi bws ac, o ganlyniad, collir y cysylltiad cymunedol. | | |
| 122 | Mae'r tabl yn CIAR 4.4 yn rhestru'r holl gyfleusterau a gynigir ym mhentref Abersoch. Nid yw'r cyfleusterau cymunedol a gynigir gan Ysgol Sarn Bach yn cyfateb i hyn. Mae'r ffaith nad yw'r tabl hwn yn cael ei gyflwyno yma yn rhagfarnllyd iawn yn erbyn Ysgol Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal. |
| 123 | Mae cefnogaeth y gymuned i'r ysgol yn aruthrol. Mae gennym ddwy ddeiseb ar y gweill sydd wedi'i atodi:<br>· electronig â 1,870 llofnod<br>· papur â 1,050 llofnod.<br>O gau Ysgol Abersoch, mae'r Cyngor yn mynd yn groes i ddymuniad y gymuned ac yn gwrthod derbyn ei rôl yn y sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd. Chwaraea Ysgol Abersoch rhan ganolog yn ein cymuned, drwy hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg ac mae ganddi gysylltiad agos â'r sectorau gwirfoddol a busnes, ynghyd â chymuned Neuadd y Pentref. Ni ellir rhoi gwerth ar y golled sy'n gysylltiedig â chau Ysgol Abersoch. | | |
| 124 | Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned. O dan arweiniad gofalus ein pennaeth, Linda Jones, mae'r disgyblion yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, drwy fentrau llwyddiannus fel annog siopau lleol i gyflwyno arwyddion dwyieithog a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i gyfalafu ar ein cynnig unigryw a hyrwyddo ein treftadaeth i gynulleidfa ehangach. | | |
| 125 | Mae'r ysgol yn berl arbennig iawn yng nghanol y pentref ac yn rhan annatod o galon cymdeithas Gymreig Abersoch | | |
| 126 | Mae ein hysgolion a'r isadeiledd sy'n eu hamgylchu wrth galon ein cymunedau. Boed yn bentref, tref neu ddinas mae rôl sylweddol swyddogaethau dinesig wedi eu gwreiddio yn enwedig wrth ddod allan o bandemig a chyfnod lle'r oedd adferiad a gwytnwch yn bwysicach nag erioed. Dwi'n dweud hyn o safbwynt personol a phroffesiynol fel aelod o'r Sefydliad Cynllunio Tref Frenhinol â phrofiad sylweddol mewn adfywio economaidd a rheoli canol tref. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 127 | Yn ogystal, mae'r tabl CIAR 4.4 yn parhau i fod yn ffeithiol anghywir. Nid oes eglwys na chapel yn Sarn Bach, ac hyd y gwyddom ni, dim Cylch Meithrin / Ti a Fi yn Ysgol Foel Gron, tra bod gan Abersoch swyddfa bost. Mae gan Llanbedrog a Mynytho neuaddau pentref nad ydyn nhw wedi'u nodi ar y bwrdd. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ac wedi diweddaru'r wybodaeth/tablau lle'n briodol – cyflwynwyd fersiwn diwygiedig o'r asesiad fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad. |
| 128 | Mae CIAR4.6 yn dangos yn anghywir fod C ylch Meithrin a Ti a Fi yn ymwneud yn rheolaidd ag Ysgol Sarn Bach | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ac wedi diweddaru'r wybodaeth/tablau lle'n briodol – cyflwynwyd fersiwn diwygiedig o'r asesiad fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad. |
| 129 | **7.8 Y Gymuned tabl 1: Mae'r tabl isod yn nodi'r defnydd cymunedol cyfredol a wneir o adeiladau'r ddwy ysgol. Croesgyfeiriad i Adran 2.6 o'r ddogfen LIAR hefyd.**<br>Nid yw Ysgol Sarn Bach yn cynnal Urdd. Mae'r Urdd yng Nghanolfan Gymunedol Llanengan, er eu bod yn achlysurol iawn (unwaith mewn 2 flynedd) yn defnyddio cae Ysgol Sarn Bach ar gyfer sesiynau ymarfer rygbi. Mae gan Ysgol Abersoch nifer o glybiau ar ôl ysgol nad ydyn nhw'n cael eu cydnabod e.e. Clwb Garddio, clwb crefft Hunaniaith, Urdd Tudwal.<br>Nid yw Ysgol Sarn Bach yn ymgysylltu'n weithredol â'r un gymuned â'r gymuned ehangach chwaith. Er enghraifft, Cyngerdd Nadolig Clwb Rotari Pwllheli 2020 a Rotary Santa; nid oedd presenoldeb o Ysgol Sarn Bach… Nid yw CIAR 4.5 yn dangos bod clybiau ar ol ysgol yn Ysgol Abersoch…. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ac wedi diweddaru'r wybodaeth/tablau lle'n briodol – cyflwynwyd fersiwn diwygiedig o'r asesiad fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad |
| 130 | 7.8 Y Gymuned tabl 2: Gweithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud â nhw'n rheolaidd wedi eu nodi'n y tabl isod.<br>Nid yw Ysgol Sarn Bach yn ymwneud ag unrhyw Cylch Meithrin na Ti a Fi. Caeodd y Cylch Meithrin yng Nghanolfan Gymunedol Llanengan oherwydd nad oedd pwyllgor yn barod i redeg y Cylch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ac wedi diweddaru'r wybodaeth/tablau lle'n briodol – cyflwynwyd fersiwn diwygiedig o'r asesiad fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad |
| 131 | 6.3.3. **Asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Sarn Bach "mae cysylltiad eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach" "pwysigrwydd sicrhau bod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgareddau'r dewis arall ysgol "**<br>Meintiolwch â thystiolaeth gefnogol beth yw ystyr "cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach" heblaw am y ffaith bod y plant yn mynd i Ysgol Sarn Bach. | | Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Bu i'r Awdurdod gynnig yr Asesiad Effaith a chanfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol gael ar gymuned Abersoch, nodir bod 9 (35%) o ddisgyblion (3- 8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly fod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch. O weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn sydd rhwng y gymuned yn Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol. |
| 132 | 5.2. Diogelwch a'r Amgylchedd<br>Dosbarthwyd y daith o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn 'beryglus' a olyga bod rhaid cael cludiant. Datgana Atodiad C 'Ardrawiad Cymunedol' y Cod Trefniadaeth Ysgolion, "gallai cynigwyr gynnwys y canlynol: yr effaith ar iechyd a llesiant, e.e. pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol". Eto, ni chredwn y deliwyd â hyn na'r angen o gludiant ar yr ardrawiad amgylcheddol, sy'n meithrin ymhellach o oed cynnar, nad yw materion amgylcheddol o bwys. | | Manylwyd ymhellach ar drefniadau teithio a chludiant yn Adran 7.10 o'r ddogfen ymgynghori a gweler copi o'r asesiad llawn o'r Effaith Tebygol ar Drefniadau Teithio ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Bu i'r Awdurdod gynnig yr Asesiad Effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio a chanfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Gan fod bws eisoes yn cludo plant cyfnod allweddol 2 o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, ac ein bod yn rhagweld bydd digon o le yn y bws yma (neu un mwy) ar gyfer plant dalgylch Ysgol Abersoch, ni ragwelir y bydd cynnydd yn allyriadau $CO_2$. |
| 133 | 4.2 Gwybodaeth ystadegol ysgolion<br>Mae'r tabl o dan bwynt 4.2 nifer y disgyblion yn Ysgol Llanbedrog yn 95 ar y gofrestr, ond mae'r tabl nesaf yn nodi 103.<br>Mae'r gwallau amlwg hyn yn tanseilio hyder ac yn peryglu cyfanrwydd yr Ymgynghoriad. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Er eglurder, roedd 102 o ddisgyblion (M-Bl.6) yn Ysgol Llanbedrog yn Medi 2020 – fel y nodir yn adran 4.6 o'r ddogfen ymgynghori |
| 134 | **MODEL 3 Ffederasiwn**<br>Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol CIAR<br><br>Onid pwynt y Ffederasiwn yw bod cyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol yn cael eu gwella trwy rannu staff ac adnoddau? Dylai hyn felly fod yn gadarnhaol? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ac wedi cyfarch y pwynt wrth ail ymweld â'r asesiad cymunedol. Mae'r fersiwn diweddaraf (Mai 2021) i'w weld ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Effaith gyffredinol ar y gymuned leol - "nodir cyfleoedd i gymuned Abersoch a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal ddod ynghyd". Pam nad yw hyn yn gadarnhaol? | | |
| 135 | **MODEL 4 - CAU YSGOL ABERSOCH A CHYNNIG LLE I DDISGYBLION MEWN YSGOL AMGEN**<br>**Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol**<br>Mae hyn yn oddrychol iawn a dylai fod yn negyddol.<br>Os bydd Ysgol Abersoch yn cau, mae'n anodd rhagweld y byddai'r Cylch Meithrin a Ti a Fi yn parhau. | | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Abersoch, a phwysleisir nad ydynt yn rhan o'r cynnig a roddwyd trwy'r rhybudd statudol. Os âi'r cynnig yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau o safbwynt y Cylch Meithrin gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch. |
| 136 | **Adroddiad Effaith Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Abersoch**<br>**Annog perthnasoedd da, gall "cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y berthynas â'r gymuned yn Abersoch ddeillio o roi'r cynnig ar waith."**<br>Nid ydym yn cytuno â'r datganiad hwn. Ym mha ffordd y bydd hyn yn digwydd a pha gyfleoedd sydd wedi'u nodi? Nid yw hyn wedi'i nodi.<br>Yn logistaidd ni all plant gael mynediad i amwynderau'r pentref mewn rhinwedd 'ffurfiol'…. **6. Casgliad yr Adroddiad Effaith Cymunedol "Er mwyn lliniaru'r effaith hon, nodir cyfleoedd i sicrhau bod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgareddau'r ysgol amgen, ac anogir cydweithredu cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle bo hynny'n briodol."**<br>Sut y bydd hyn yn cael ei wneud o ystyried cafeatau cynharach am ddiffyg perthynas hirsefydlog rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch.<br>Nid yw'r adroddiad hwn yn adlewyrchu barn y gymuned ers iddi gael ei chwblhau heb ofyn i drigolion ac aelodau'r gymuned. Felly, yn ddiofyn nid yw'n dangos pa effaith y mae colli ysgol yn ei chael ar y gymuned ac sy'n rhagfarnllyd yn erbyn yr ysgol. | | Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol gael ar gymuned Abersoch, nodir bod 9 (35%) o ddisgyblion (3- 8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly fod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch. O weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn sydd rhwng y gymuned yn Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol.<br><br>Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Bu i'r Awdurdod gynnig yr Asesiad Effaith a chanfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl ddiduedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynir fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad |
| 137 | Nid wyf yn ymwybodol bod ysgolion eraill yr ardal yn cynnig profiadau mor eang. Yn y ddogfen ymgynghori mae'n amlwg bod llawer mwy o amwynderau lleol ar gael i Ysgol Abersoch o gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal leol. Nid yw'r agwedd hon yn cael sylw ddigonol yn y cynnig gan ei bod yn amlwg bod gwahaniaeth gyda lleoliad Ysgol Sarn Bach, sydd ar wahân i raddau helaeth oddi wrth unrhyw amwynderau cymunedol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 138 | Mae lleoliad yr ysgol yn werth chweil – reit yng nghanol y pentref sy'n galluogi rhieni gerdded eu plant i ac o'r ysgol, medru tywys y disgyblion i'r traeth, siopau lleol ac, wrth gwrs, i Neuadd y Pentref sydd reit drws nesaf i'r ysgol – **NID YSGOL MEWN PENTREFAN YW HON**. Mae hi'n ysgol ar drothwy drws pawb yn y pentref ac sy'n cyfrannu at fywyd pawb sy'n byw yn Abersoch, e.e. Clwb Dros 50; oedolion hŷn yn medru cerdded i'r Ysgol a'r Neuadd i weld sioeau Nadolig a chyngherddau'r disgyblion a.y.y.b. | | Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 139 | Anogir "cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch lle bo'n briodol". Sut? Nid oes dim yn gyffredin, dim cysylltiad yn sicr o ran yr ochr fusnesion. | | |
| 140 | Hyfryd yw cael gweld y plant yn cymryd rhan yn y gwasanaethau – yn y ddau gapel – megis y Nadolig a'r Pasg dros y blynyddoedd. Ni fuasai hyn yn digwydd o symud y plant i Sarn Bach. Byddai'r pentref yn colli'r gweithgareddau, sy'n gwneud cyfraniad mor sylweddol at gadw'r Gymraeg yn fyw ym mhentref Aber-soch. | | |
| 141 | O gau'r ysgol, dieithrir y plant o'u pentref – yma mae eu lle nhw, yn eu pentref eu hunain ble mae pawb yn adnabod ei gilydd. Dysga a gwerthfawroga plant ysbryd cymunedol gwell mewn ysgol leol ac erys hyn â hwy weddill eu hoes. | | |
| 142 | Lleihau mae cynulleidfaoedd capeli oherwydd oedran yr aelodau ac, yn sicr, gan nad oes tai fforddiadwy ar gyfer teuluoedd ifainc, cau bydd eu hanes hwythau hefyd. O gau'r ysgol, nid oes gobaith denu aelodau newydd, gan mai tai haf yw'r mwyafrif o dai yn Aber-soch erbyn hyn. | | |
| 143 | Mae trigolion a busnesau Aber-soch yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu drwy ymweld â nhw'n rheolaidd – mae'n ysgol yng nghanol bwrlwm ei chymuned. | | |
| 144 | Mae ymdeimlad o deulu bach hapus yn Ysgol Aber-soch – ymdeimlad o gymuned deuluol sy'n rhoi seiliau cadarn i'r plant. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig yn nigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol yr ardal. | | |
| 145 | Byddai'r pentref yn colli'r gweithgareddau sydd yn gwneud cyfraniad mor sylweddol at gadw'r Gymraeg ym mhentref Aber-soch. | | |
| 146 | O gau'r ysgol, dieithrir y plant o'u pentref, Seisnigir y gymuned a byddid yn gyfrifol am atgyfnerthu'r darlun stereoteipio parhaus a wna ddrwg i'r pentref fel rifieria y di-gymraeg | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 147 | Mae trigolion a busnesau Aber-soch yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu drwy ymweld â nhw'n rheolaidd – mae'n ysgol yng nghanol bwrlwm ei chymuned. | | |
| 148 | Roeddwn yn bryderus o ddarganfod bod Ysgol Abersoch am gau yn fuan – ysgol sydd wrth galon ei chymuned. Plîs ailystyriwch gan y gwyddwn yn bersonol gwerth addysg dda yn enwedig o ystyried y pandemic hefyd, a'r effaith y byddai wedi ei gael ar iechyd meddwl yn ogystal ag addysg. | | |
| 149 | Mae ysgol wrth galon cymuned ac os oes bygythiad parhaus i gau'r ysgol, fel sydd wedi bod ers blynyddoedd bellach sut mae modd atynnu mwy o ddisgyblion? Un o'r rhesymau yw nad yw'r ysgol yn hyfyw ond mae angen mwy o gymorth nid ei chau!!!<br>Efallai wedyn y bydd teuluoedd yn fwy parod i'w plant ddefnyddio'r gwasanaethau wrth galon Abersoch yn hytrach na'u gyrru i ysgolion mwy.<br>Mae rhai plant yn ffynnu mewn ysgolion llai fel dwi wedi ei weld fy hun.<br>Plîs ail-ystyriwch eich penderfyniad i gau'r ysgol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned.<br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddai'r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch |
| 150 | Mae'r ysgol yn greiddiol i fywyd cymdeithasol Aber-soch a gwneir defnydd rheolaidd o'r Neuadd, a roddwyd (fel yr ysgol) at ddefnydd y pentrefwyr i gymdeithasu a chynnal gweithgareddau. | | |
| 151 | Gall cau ysgol effeithio ar y gymuned – nid yn unig nad yw'r Gymraeg yn iaith y plant ar y stryd ond, nid oes plant ar y stryd. | | |
| 152 | Rhinwedd arbennig ysgol yw'r ymdeimlad o gymuned deuluol sy'n rhoi seiliau cadarn i'r plant. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig i ddiwylliant yr ardal. | | |
| 153 | Collir un peth allweddol – cysylltiad â'r gymuned ac ymroddiad y gymuned honno i'r ysgol. | | |
| 154 | Cymuned naturiol yn marw – colli etifeddiaeth a'r iaith a throi'r pentref yn ddim ond cyrchfan gwyliau'n llawn tai haf, dim teuluoedd. | | |
| 155 | Mae'r ysgol yn greiddiol i fywyd cymdeithasol Abersoch. | | |
| 156 | Mae plant yn dysgu a gwerthfawrogi ysbryd cymunedol gwell mewn ysgol leol ac erys hyn â hwy weddill eu hoes. | | |
| 157 | Mae ymdeimlad o deulu bach hapus yn Ysgol Aber-soch – ymdeimlad o gymuned deuluol sy'n rhoi seiliau cadarn i'r plant. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig at ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol yr ardal. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 158 | Rhinwedd arbennig ysgol yw’r ymdeimlad o gymuned deuluol sy’n rhoi seiliau cadarn i’r plant. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig i ddiwylliant yr ardal. | | fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 159 | Mae'r ysgol yng nghanol y gymuned a gall gynnig rheswm i deuluoedd newydd symud yn ôl i'r pentref ac annog yr Iaith Gymraeg i ffynnu yn ein cymuned. Heb ysgol ni fydd gan y pentref yr un i’w cynnig ag y gwnaeth ar un adeg. | | |
| 160 | Ysgrifennaf atoch, ar ran Swyddogion ac Aelodau'r Capel, i fynegi ein gwrthwynebiad llwyr i’r bwriad o gau Ysgol Aber-soch… Erfynnir arnoch ailystyried eich penderfyniad o gau Ysgol Aber-soch ar fyrder. O wneud hynny, gobeithir y bydd yn parhau cynnal y gwerthoedd sy’n cyd-fynd â’r addysg sy’n greiddiol i flynyddoedd cynnar plant mewn ysgol fach wrth osod seiliau iaith, moeseg a chyfathrebu cymdeithasol a hynny mewn awyrgylch glos, deuluol a phentrefol. | | |
| 161 | Mae llawer o bobl wedi dod ymlaen i gynnig eu cefnogaeth inni, ac wedi mynegi diddordeb brwd yn nyfodol yr ysgol. Mae plant yr ysgol hon yn eiriolwyr a llysgenhadon rhagorol mewn ysgol bentref wirioneddol ysbrydoledig. Mae'r pennaeth Mrs Jones yn golygu'r byd i'r plant hyn ac ni ellir bywiogi ei hangerdd a'i hymrwymiad. Byddai cau'r ysgol hon yn cael effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg, y gymuned, y plant a chi'ch hun, fe'ch gelwir yn gyngor a fethodd â chefnogi ysgol a'i chadw ar agor mewn cymuned sydd mor llwyddiannus yn ariannol ag Abersoch. Byddwch yn boddi lleisiau cenedlaethau o blant yn y gymuned yn y gorffennol a'r dyfodol, nid yw'r sefyllfa hon ond yn tynnu sylw at yr anghyfiawnderau a achosir i gymunedau fel Cofiwch Dryweryn, ymddiheuriad 40 mlynedd yn rhy hwyr. Dim Ysgol, Dim Cymuned, Dim Gobaith. | | |
| 162 | Mi fuasai’r effeithiau o’r cau yn cael goblygiadau a fyddai’n adleisio llawer ymhellach na sydd wedi cael eu hystyried gan y Cyngor. Fel rhan o genhedlaeth nesaf Abersoch, teimlaf fod hyn yn gamgymeriad gref ar eich rhan, ac rwyf yn erfyn arnoch i ailystyried er mwyn y gymuned, ein haddysg a’r cenedlaethau i ddod. | | |
| 163 | Yn llai hysbys, i'r ardal to hwnt, yw bod Abersoch o fewn bro a chymuned wledig Gymraeg ei hiaith ac mae'r bygythiad i Ysgol Abersoch a Chylch Meithrin a Ti a Fi Abersoch yn her uniongyrchol i oroesiad y diwylliant | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymraeg ym Mhenrhyn Llyn. Ynwir, mae llawer yn credu, trwy gau'r ysgol a bygwth y CMA, y byddwch yn tynnu calon guro'r pentref ac yn gorfodi mwy fyth o deuluoedd i symud allan o Abersoch sydd eisoes wedi gweld canolfan feddygol, banciau a swyddfa bost annibynnol ein pentref i gyd yn cau. Mae'n debygol bydd y pentref yn dod yn gyrchfan haf a stryd siopa i ymwelwyr; yn wag yn ystod misoedd y Gaeaf, nid yw'r pentref yn ffynnu fel y gallai. Yn hytrach na chau, dylai'r ddarpariaeth yma fod yn arddangos y gorau ()Jr hyn sydd gan yr iaith a diwylliant Cymru ei gynnig. | | |
| 164 | Rwyf wedi bod yn siomedig iawn o weld natur arwynebol yr Asesiadau Effaith Cymunedol ac Iaith yn benodol, sy'n ymddangos yn barod heb unrhyw fewnbwn cymunedol go iawn. Yn syml, nid wyf yn derbyn y canlyniad na fydd unrhyw effaith ar y Gymraeg yn Abersoch pe bai'r ysgol yn cau. | | Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiadiadau llawn ar wefan y Cygnor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 165 | Syndod yw darllen y cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau – sut a holi pwy? Noda casgliad yr asesiad na ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned. | | |
| 166 | Wrth drafod y Gymuned trwy gydol eich cynigion, roeddech yn canolbwyntio ar dynnu sylw at nodweddion cadarnhaol Ysgol Sarn Bach felly hoffwn pe baech yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth o Ysgol Abersoch yn y canfyddiadau hyn i sicrhau osgoi unrhyw ragfarn, er mwyn i'r cyhoedd allu seilio eu penderfyniadau ar gywirdeb yn hytrach na chamliwio. Efallai i chi sylwi mai Ysgol Abersoch ac Ysgol Foel Gron oedd yn cynrychioli'r ardal leol yn sioe Nadolig Rotari Pwllheli, roedd absenoldeb Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog yn cadarnhau ymhellach gefnogaeth barhaus Ysgol Abersoch yn y gymuned. Aeth Ysgol Abersoch hefyd gyda fflôt nadolig y Rotary o amgylch Pentref Abersoch eto gydag absenoldeb amlwg Ysgol Sarn Bach. Dyma'r pethau nad wyf yn eu gweld yn eich tystiolaeth i gefnogi y bydd plant Ysgol Abersoch yn cael Addysg gyfoethocach mewn ysgolion eraill. Roedd fy mhlant yn falch iawn pan gaeodd y Parchedig Andrew Jones sioe Rotari Pwllheli gyda'i stori yn sôn bod disgybl o Ysgol Abersoch wedi gwneud iddo edrych ar bethau mewn ffordd wahanol, bod y plentyn wedi cwestiynu a gwneud i'r Parchedig weld pethau o safbwynt wahanol, soniodd ddim ond am Ysgol Abersoch yn ei araith gloi, ni chrybwyllwyd unrhyw ysgol arall, | | Roedd yr ystyriaethau oedd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Bu i'r Awdurdod gynnig yr Asesiad Effaith ac yn canfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiadiadau llawn ar wefan y Cygnor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Cabinet y dylid bwrw ymlaen a'r cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dywedodd fy merch fach 'rydym wedi gwneud gwahaniaeth go iawn, rhywun mor bwysig â'r Parchedig Andrew yn siarad am fy ysgol'. | | |
| 167 | Hoffwn hefyd dynnu sylw at y gweithgareddau ar ôl ysgol sydd wedi digwydd na wnaethoch chi sôn amdanynt yn eich adroddiad manwl: - Dosbarthiadau HITT 6 wythnos a chwaraeon y talwyd amdanynt gan y Gymdeithas Rhieni - dosbarth Rygbi 6 wythnos, y talwyd amdano gan Gymdeithas y rhieni. - Dosbarth ioga rhieni a phlant 6 wythnos, y telir amdano gan y Gymdeithas Rhieni - Clwb Garddio 6 wythnos - Talwyd amdano gan y Gymdeithas Rhieni - Cwrs ioga 6 wythnos yn ystod oriau ysgol y telir amdano gan y Gymdeithas Rhieni - Ochr yn ochr â'r gweithgareddau ar ôl ysgol eraill a'u cynhelir trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas Rhieni wedi gwneud ymholiadau am gwrs Achub Bywydau 6 wythnos, ond gohiriwyd hyn oherwydd pandemig cyfredol Covid 19. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 168 | Mae cynaliadwyedd cymunedau gwledig ym mhobman yn cael eu bygwth gan gostau cynnal adnoddau pwysig fel capeli, llyfrgelloedd a neuaddau pentref. Mae ein pentref yn hynod ffodus bod Neuadd Abersoch yn cael ei ariannu'n dda iawn gan refeniw o'i faes parcio, ac mae'n fraint i'r ysgol gyfagos fwynhau'r defnydd am ddim o gyfleusterau rhagorol y neuadd. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Fe nodir yn yr asesiad cymunedol "gan nad oes neuadd yn Ysgol Abersoch mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o'r neuadd gymunedol sydd gyfagos."<br><br>Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion mewn ysgol cyfagos yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'n cael peth effaith ar rai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol. O ganlyniad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal. |
| 169 | 7.3. Cysylltiad â'r Gymuned<br>Mae'r cyfleusterau cymunedol a gynigir ym mhentref Abersoch yn drech na'r rhai a gynigir yn Sarn Bach (CIAR 4.4, dogfen gefndir) ond, eto'n ddiddorol, ni chyflwynir yr wybodaeth bwysig hon yn y prif adroddiad, a ymddengys yn rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ac yn pwysleisio fod y ddogfen ymgynghori wedi ei llunio yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae'r Cod hwn yn rhestru gwybodaeth benodol y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori. |
| 170 | Tablau'n anghywir o ran defnydd cymunedol…<br>Gweithgareddau/Grwpiau – anghywir o ran Ysgol Sarn Bach. Ni chynhaliwyd Cylch Meithrin yn yr ysgol – yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan y gwnaed hynny a daeth i ben yn 2019 oherwydd na ellid ffurfio pwyllgor... | | Mae'r Cyngor yn derbyn y sylwad ac wedi diweddaru'r wybodaeth/tablau lle'n briodol.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adrannau nid Aelwydydd yr Urdd.  Nid oes Adran yn Ysgol Sarn Bach – hyfforddir y disgyblion ar gyfer yr Eisteddfod yno ond, yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan gyda’r nos y cynhelir Adran yr Urdd Llanengan. Cynhelir Adran Tudwal yn syth ar ôl yr ysgol yn Aber-soch ac fe’i mynychir gan gyn-ddisgyblion yn ogystal. | | gweld copi o'r asesiadiadau llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 171 | Mae'r tablau yn yr asesiadau hyn yn parhau i gynnwys gwybodaeth ffug, er enghraifft nid oes eglwys na chapel yn Sarn Bach. Fel cyn-ddisgybl Ysgol Sarn Bach, cefais fy synnu o ddarganfod bod yr ysgol, yn ôl map yn yr adroddiad, wedi symud i gaeau Fferm Ty Newydd. Mae gwallau mewn ffeithiau a gwybodaeth mor sylfaenol yn parhau i danseilio fy hyder ym meysydd mwy cymhleth yr adroddiad. | | |
| 172 | Mae’r gefnogaeth y mae'r ysgol yn ei dderbyn o’r gymuned yn amlwg a chadarn, ond efallai yn fwy o syndod yw'r gefnogaeth a gynigir gan y di-Gymraeg.Mae hyn yn arwydd clir, er gwaethaf y seisnigeiddio ymddangosiadol o Abersoch, fod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn uchel eu gwerth, ac yn ddiofyn yn cynrychioli'r angeni ddiogelu, cynnal a chryfhau'r asedau hyn. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau am yr effaith negyddol a allasai cau Ysgol Abersoch ei gael ar y pentref.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i’r effaith bosibl ar y gymuned.<br><br>Fel rhan o’r broses ymgynghori, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau ystyriwyd er mwyn gallu cymharu’r effaith tebygol y byddai’r opsiynau yn eu cael ar y cymunedau dan sylw. Mae’r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o’r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a’r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o’r effaith ar y gymuned a’r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiadiadau llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio ac y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau’r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion meithrin - Bl.3 sydd yn byw yn |
| 173 | Mae'r gymuned Gymreig yn Abersoch er yn fach erbyn heddiw, yn un gref. Mae'r Ysgol yn rhan bwysig o hyn, a brofir gyda gwobr aur y Siarter Iaith. | | |
| 174 | Ysgrifennaf e-bost atoch er mwyn gwrthwynebu’r cynnig i gau'r ysgol bentref wych hon. Dwi’n gweld y plant yn edrych mor hapus bob tro o amgylch y pentref. Mae’r gofal bugeiliol mae’r plant yn eu derbyn yn yr ysgol bentref hon yn gymorth mawr i blant o aelwydydd uniaith Saesneg. Dydi'r ffaith bod Cyngor Gwynedd wastad yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o alluogi mwy o deuluoedd ifanc lleol i brynu eiddo a byw yn y pentref ac yna’n gwneud y penderfyniad i gau’r ysgol bentref yn gwneud dim synnwyr o gwbl. Mae’n mynd yn hollol groes i'r hyn y mae Cyngor Gwynedd hyrwyddo eu bod yn ceisio cyflawni dros y gymuned leol. | | |
| 175 | Atodaf fy llythyr blaenorol yr hoffwn hefyd gael ei gyfri fel gwrthwynebiad, ac anogaf aelodau’r Cabinet i feddwl eto a chymryd y cyfle hwn i wneud safiad a dangos cefnogaeth i blant a chymuned Abersoch, yn anad dim presenoldeb Cymraeg fel iaith fyw yng nghanol y pentref. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 176 | Yr ysgol yw gwir calon y gymuned sy’n adnewyddu fel y gwelwn mwy o deuluoedd yn dymuno byw yn yr ardal ac i gael yr addysg arbennig gan dîm o athrawon ymrwymedig, rhieni a staff. Mae’r ysgol yn rhan hanfodol o’r pentref a dwi’n falch iawn o weld y penderfyniad i barhau gwella safonau ac i ddarparu addysg wych I blant y pentref. Fel cyn-athro, nid wyf wedi gweld ymroddiad o’r fath i ysgol a chymuned o’r blaen a chredaf y byddai’n ofnadwy i gymryd hyn i ffwrdd. Nid yw canoli addysg yn fuddiol i lawer o ddisgyblion a mae datblygu cyfeillgarwch mewn amgylchedd o’r fath a hwn yn rywbeth i ddathlu ac i ddyheu amdano. | | nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol amgen a’r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, mae’r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle’n briodol.<br><br>O ganlyniad, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, bydd yn ofynnol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.<br>Pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol, mi fydd cyfle i ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| 177 | Arwynebol tu hwnt yw'r astudiaetheffaith o gau'r ysgol ar y Gymraeg ac ar y gymuned. Cyfyngor yr astudiaeth i unrhyw effaith ar gyfrwng addysg y plant (wrth gwrs nad yw hynny'n newid gan mai mynd at ysgol Gymraeg arall y maent, a chyfyngor yr astudiaeth o'r effaith ar y gymuned i gyfarfodydd cymdeithasol ffurfiol, yn hytrach na gwead organig cymuned. Yr ysgol yw canolfan Gymraeg Abersoch lle mae'r iaith a'r gymuned leol dan bwysau mawr - yn rhannol oherwydd diffygion Llywodraeth Leol a Chanolg dros y blynyddoedd i'w gwarchod. O dynnu'r ganolfan Gymraeg yna, mae'n hunan-amlwg y daw effaith niweidiol iawn i'r gymuned ac i'r iaith.... Mae'r ffaith fod yr ymateb i'r cynnig a fu yn destun ymgynghoriad mor lethol o wrthwynebus yn rheswm i swyddogion o leiaf ailystyried a gweld llwyodraethwyr ac aelodau cydwybodol o'r gymuned leol yn bartneriaid, nid fel gelynion i'w trechu. | | |
| 178 | Mae ymwybyddiaeth yn cynyddu am bwysigrwydd diwylliannol ac economaidd sicrhau bod pentrefi bychan gweledig ger y môr yn goroesi. Sut y methwyd hyn gan Gyngor Gwynedd? Mae eich cynnig i gau Ysgol Abersoch yn gwrthddweud y polisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru ac felly ei phobl a’i phleidleiswyr. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |


| C | Materion Addysgol | | |
|---|---|---|---|
| | **Niferoedd Disgyblion** | | |
| 179 | Mae mwy o ddisgyblion bwriadedig ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf | | Mae'r Awdurdod wedi blaenoriaethu Ysgol Abersoch ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.<br><br>O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:<br>i. Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.<br>ii. Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>iii. Mae rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023<br>iv. Dengys data 2020 fod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.<br>v. Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582.<br>vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £4,198<br>vii. Nifer o lefydd gweigion – 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, o ystyried maint y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir, mae'n debygol y bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau. |
| 180 | Os nad yw data yn gallu yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig mewn gwirionedd, yna pam y dylid ei ddefnyddio fel ffactor wrth adeiladu'r achos i gau ysgol? | | |
| 181 | Plîs nodwch, oherwydd Coronafeirws, bod pobl wedi sylweddoli y gallent weithio o adref a bod modd symud i Abersoch, felly bydd niferoedd plant mewn angen addysg o safon dda yn tyfu. Teimlaf ei bod hi'n niweidiol i'r pentref i gau'r ysgol a gofynnaf i chi ailystyried. | | |
| 182 | Gobeithio o dan yr amgylchiadau y bydd mwy o tegrwydd yn cael ei ystyried ac mwy o amser i ffigyrau yr ysgol godi heb y cwmwl o ansicrwydd uwch ei phen. | | |
| 183 | Tydio ddim yn dêg i ddefnyddio esgis bod na ddim llawer o blant yn yr ysgol. Fel na mae hi wedi bod o bryd i'w gilydd dros y blynyddoedd. Weithiau fydd na dipyn go-lew o blant a weithiau ddim cyn gymaint !!! | | |
| 184 | Fel sydd wedi arddangos yn tablau yr Adran Addysg mae rhif disgyblion yr Ysol yn gallu cynyddu yn sydyn yn ogystal a gostwng mae rhifau disgyblion yr Ysgol wedi aros yn debyg yn ddiweddar ond mae diddordeb wedi ei ddangos gan rhieni I gofrestru ei plant I fynychu ar ysgol yn y dyfodol hyn er yr cwmwl mawr sydd wedi bod dros yr ysgol y flwyddyn diwethaf yma. Mae y Meithrinfa ar grwp Ti a Fi yn brysur ac yn datblygu yn ffrwythlon ar profiad yn llefydd eraill yw fod hyn yn dilyn cynnydd mewn rhifau disgyblion. | | |
| 185 | Ar y pwynt o '**niferoedd**': rwy'n siŵr nad all Ysgol Foel Gron gynnal 61 o blant, nag Ysgol Abersoch gynnal 42. O adnabod y ddwy ysgol, mae'r ddau ffigwr yna yn swnio'n llawer rhy uchel. A allwch gadarnhau bod y ffigyrau yn 'Appendix 4' yn gywir, rhag ofn eu bod yn gamarweiniol? | | Mae capasiti a rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru. |
| 186 | Mae y swm sydd yn cael ei adrodd yn dderbyniol ar rhifau disgyblion ac gyda edrych mewn ffordd uchelgeisiol ar hyn os bydd y rhifau yn codi fel mae rhywun yn obeithiol o ddigwydd ni fydd y swm £52,582 yn perthnasol. Cyfeiriaf at | | Mae'n deg i ddweud y bydda cost y disgybl yn lleihau gyda unrhyw gynnydd mewn niferoedd. Serch hynny mi fydda angen i niferoedd yr ysgol gynyddu yn sylweddol er |

<table>
<tr><td></td><td>ymateb v.mae ddigon phosib ni fydd y gwahaniaeth yma yn bod os bydd rhifau yn cynyddu</td><td></td><td>mwyn dod a'r gost yn agos i’r cyfartaledd sirol a nid ydi rhagamcanion yn argymell fydd hyn yn debygol o ddigwydd.</td></tr>
<tr><td>187</td><td>Mae defnydd dethol o ddatganiadau yma. "Mae nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ..." yn methu â chydnabod y cynnydd yn y derbyniad ym mis Medi 2020 pan gychwynnodd 5 disgybl ar Ysgol Abersoch.</td><td></td><td>Mae’r niferoedd Ysgol Abersoch wedi eu datgan yn llawn yn adran 7.5 o’r ddogfen ymgynghori. Er bod 2 ddisgybl meithrin a 3 disgybl derbyn wedi cychwyn ym mis Medi 2020, yn anffodus nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd.<br><br>8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl rhan amser oedd ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi 2020, i gymharu â 2 ddisgybl rhan amser a 7 disgybl llawn amser ym mis Medi 2019.<br>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Meithrin</th><th>Derbyn</th><th>Bl 1</th><th>Bl2</th><th>Bl 3</th><th>Bl 4</th><th>Bl 5</th><th>Bl 6</th><th>Cyfanswm</th><th>Nifer y dosbarthiadau</th><th>Dosbarth mwyaf</th><th>Dosbarth lleiaf</th><th>Maint dosbarth ar gyfartaledd</th></tr>
<tr><td>Abersoch</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td><td>1</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>3</td><td>2</td><td>5</td><td>4</td><td>8</td><td>5</td><td>10</td><td>11</td><td>48</td><td>2</td><td>34</td><td>14</td><td>24</td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020</td></tr>
<tr><td>188</td><td>Anghytunir â’r awgrym “...y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd yn Ysgol Aber-soch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn arwain at leihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach ac, o bosib, yn yr ysgolion cyfagos”; credir mai oedi’r trosglwyddiad a fyddai.</td><td></td><td>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.</td></tr>
<tr><td>189</td><td>Ar aelwyd yr ysgol mae traeth a chyfle i ddysgu ac ymchwilio i natur. Darganfais llawer ar lan y môr ac mae gennaf atgofion o gael hwyl a gwneud arbrofion yno.<br><br>Yn anffodus mae niferoedd o ddisgyblion Abersoch wedi dirydu yn y blynyddoedd diweddar sydd yn siom, ond ni ydi’r disgyblaeth neu addysg wedi dirydu a mae gennaf pob ffaith fydd y niferoedd yn codi unwaith eto wrth i’r rhieni clywed am gynigion yma, a’r addysg sydd ar gael yn lleol.</td><td></td><td>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.</td></tr>
<tr><td>190</td><td>‘Lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion’ - ni amharodd llefydd gweigion ar addysg neb hyd yma.  Teimlir y poenir mwy am y rheiny nag am y plant eu hunain.</td><td></td><td>O ganlyniad i’r niferoedd isel o ddisgyblion, mae nifer o lefydd gweigion yn Ysgol Abersoch (Derbyn – Bl.3) 26 (76%).<br>Nodir yn y Cod Trafniadeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru) “Mae’n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol. Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â’r adnoddau addysg: pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd sydd dros ben yn yr ardal; Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau’n cael eu gwastraffu’n ddiangen.”</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhagamcanion</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>191</td><td>Amcan-gyfrifiad yn unig yw nifer y disgyblion a ragamcanir ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ar y gorau, yn seiliedig ar dueddiadau diweddar y gorffennol ond yn hanesyddol mae niferoedd y disgyblion wedi amrywio gyda thua 20 yn feincnod rhesymol. Os nad oes ysgol bentref yna ni fydd cyfle i'r niferoedd gynyddu.</td><td></td><td rowspan="5">Mae’r rhagamcanion niferoedd i’r dyfodol wedi eu creu drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau’r gorffennol. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr awdurdod.<br><br>Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae’n debygol y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae’r Adran Addysg o’r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd flaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau’n isel yn Ysgol Abersoch am y bum mlynedd nesaf:<br><br>Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch
<table>
<tr><th></th><th>M</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Medi 2020</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2021</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2022</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2023</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2024</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2025</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
</table>
<br>Ym Medi 2020, o’r 26 disgybl (3-8 oed) oedd byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o’r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i’r sylwadau sy’n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i’r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai’r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.</td></tr>
<tr><td>192</td><td>Rwy'n bryderus iawn bod y Cyngor yn seilio ei benderfyniad ar amcangyfrifon disgyblion diffygiol iawn sy'n anghydnaws ag amcangyfrifon Cyngor Gwynedd sy'n nodi y bydd nifer y plant oed ysgol yn cynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf yn ogystal â data diweddar sy'n dangos y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Abersoch ac mae'r ysgolion cyfagos wedi bod yn tyfu dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â rhagolygon yr Adran Addysg sy'n dangos dirywiad serth yn y niferoedd. Mae angen profi ffynhonnell yr amcangyfrifon hyn a chyfiawnhau gwahaniaethau o dueddiadau poblogaeth cyffredin.</td><td></td></tr>
<tr><td>193</td><td>Mae amcanestyniadau disgyblion yr Adran Addysg yn amhosibl i’w cadarnhau ac, yn y byd newydd ôl-Covid hwn, mae’r ffigurau hyn yn ddarostyngedig i newid sylweddol yn y tymor canol a hir.</td><td></td></tr>
<tr><td>194</td><td>Lle mae tystiolaeth rhan y rhagolygon cynyddu  o cynyddiad o ddim ond dau I 2023 fel sydd wedi ei ddangos yn y dyfodol mae cynyddiad rhifau disgyblion yn gallu digwydd yn sydyn ac yn annisgwyl felly mae beth sydd yn yr adroddiad yn gamarweiniol.</td><td></td></tr>
<tr><td>195</td><td>Mae pob ysgol yn mynd trwy gyfnod o lawn a thrai.</td><td></td></tr>
</table>

196 Mae Crynodeb Archwilio Cyngor Gwynedd 2020 a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror 2021 yn nodi “Rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 5.3% rhwng 2020 a 2040 o 124,670 i 131,314, gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant, cynnydd o 0.9% yn nifer y poblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 20.8% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn. ”

**Ffigur 1: Gwir Gyfanswm a Disgwyliedig Disgyblion yn y Dalgylch 2005 i 2030**




197 2.3. Niferoedd Amcanestyniad
Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn bwysig i ddeall os oes digon o gapasiti yn y pedair ysgol i gynnig maint dosbarth o rhwng 12 ac 20 nawr ac yn y dyfodol. Paratôdd yr Adran Addsyg amcanestyniadau pum mlynedd o niferoedd disgyblion yn yr ardal. Dangosir hwn isod (Ffigur 1) ochr yn ochr ag amcanestyniadau nifer plant Crynodeb Archwiliad Blynyddol Cyngor Gwynedd 20203 gan y Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag amcangyfrif newidiadau Llywodraeth Cymru4 ym mhoblogaeth y rhai 0 – 9 oed yng Nghymru. Canfuwyd y dengys amcangyfrif yr Adran Addysg duedd tipyn gwahanol i ragolygon Yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddodd ar Gyngor Gwynedd a’r boblogaeth Gymreig ehangach ac, o ganlyniad, mae angen ystyriaeth ofalus i sicrhau amrediad realistig o senarios i’w
hystyried. Nid yw’r amcangyfrif hwn yn cydfynd â thueddiad rhagolygon y boblogaeth yng Nghymru na’r Archwilydd Cyffredinol.
**Ffigur 1: Gwir Gyfanswm a Disgwyliedig Disgyblion yn y Dalgylch 2005 i 2030**

Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cynhwysfawr ynglŷn â’r rhagamcanion niferoedd a’r effaith bosib ar faint o ddosbarthiadau’r ardal.

Mae’r rhagamcanion niferoedd i’r dyfodol wedi eu creu drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau’r gorffennol. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr awdurdod.


Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae’n debygol y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae’r Adran Addysg o’r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd flaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau’n isel yn Ysgol Abersoch am y bum mlynedd nesaf:

**Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch**

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2021 | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2022 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2023 | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2024 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2025 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | **11** |

Ym Medi 2020, o’r 26 disgybl (3-8 oed) oedd byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o’r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i’r sylwadau sy’n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynnyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i’r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai’r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.

**Ffigur 1: Gwir Gyfanswm a Disgwyliedig Disgyblion yn y Dalgylch 2005 i 2030**




Mae gennym hefyd dystiolaeth gan sawl teulu â phlant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y niferoedd hyn. Er enghraifft, mae o leiaf 11 o blant y gwyddom amdanynt a fyddai'n gymwys o bosib i ddechrau yn Ysgol Abersoch yn y 3 mlynedd nesaf o gymharu â rhagamcan 7 yr Adran Addysg. Awgryma Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid edrych 25 – 50 o flynyddoedd i'r dyfodol, gan bwysleisio'r pwysigrwydd o anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i fedru wynebu anghenion hirdymor.

I gynorthwyo dod i benderfyniad, mae'n rhesymol ystyried tri senario o niferoedd disgyblion y dyfodol a sut gallasai hwnnw ddylanwadau ar gapasiti dosbarth cymysg petai Ysgol Abersoch yn aros ar agor neu gau a'r plant fynd i Ysgol Sarn Bach (Atodiad B – Adolygiad o Feintiau Dosbarth, Capasiti a Rhagolygon y Boblogaeth – Adroddiad gan Gyfeillion Ysgol Abersoch Chwefror 2021 /Appendix B – Review of Class Sizes, Capacity and Population Forecasts – A report by Cyfellion Ysgol Abersoch Friends, February 2021). I grynhoi, dros y pedair ysgol:

- **Achos Uwch o 25 disgybl ym mhob flwyddyn ysgol** / cyfanswm o 200 disgybl sy'n cydfynd â chyfartaledd blynyddoedd diweddar a barn yr Archwilydd Cyffredinol.
- **Achos Canolig o 22 disgybl ym mhob flwyddyn ysgol** / cyfanswm o 176 disgybl sy'n cydfynd â nifer mwyaf cyffredin disgyblion yn y blynyddoedd diweddar.
- **Achos Isel o 18 disgybl ym mhob flwyddyn ysgol** / cyfanswm o 144 disgybl sy'n cydfynd â rhagamcan y Cyngor.

O ddefnyddio'r amcanestyniadau uchod, pe gwireddid yr Achos Isel ac y caeid Ysgol Abersoch, byddai'r tair ysgol ar ôl yn gweithredu bron yn llawn capasiti, gan ddarparu bron ddim amrediad amrywiadau arferol yn y niferoedd ysgol blynyddol neu ddarparu llwybr at ddatblygiad economaidd a thai yn yr ardal. Yn

Ein disgwyliad yw y bydd dosbarthiadau o faint priodol mewn ysgolion cynradd, cyn belled ag y bo modd, fel bod plant o fewn y sir yn derbyn y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl.

Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach ym Medi 2020:


| Ysgol | Meithrin | Derbyn | Bl 1 | Bl2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm | Nifer y dosbarthiadau | Dosbarth mwyaf | Dosbarth lleiaf | Maint dosbarth ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch | 2 | 3 | 2 | - | 3 | - | - | - | 10 | 1 | 10 | 10 | 10 |
| Sarn Bach | 3 | 2 | 5 | 4 | 8 | 5 | 10 | 11 | 48 | 2 | 34 | 14 | 24 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020*

Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fydda'r cynnydd yn eu cyllideb flynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.

O ganlyniad i'r niferoedd isel o ddisgyblion, mae nifer o lefydd gweigion yn Ysgol Abersoch (Derbyn - Bl.3) 26 (76%). Mae 21 (32%) o lefydd gweigion yn Ysgol Sarn Bach. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin y ddwy ysgol, mae gan Ysgol Abersoch 32 (75%) o lefydd gweigion ac Ysgol Sarn Bach 25 (34%) o lefydd gweigion. Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, rhwng Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, mae 47 (47%) o lefydd gweigion yn yr ardal. Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn gostwng llefydd gweigion yr ardal i 19 (29%) (Derbyn - Bl.6).

Mae ymateb i'r sylwad fod y datganiad "niferoedd disgyblion wedi lleihau ers 2016" yn gamarweiniol - cadarnheir mai niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch a gyfeirir ato yma.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y senarios Canolig ac Uwch, addysgir nifer cynyddol o ddisgyblion mewn dosbarthiadau oed cymysg o fwy nag 20. O gymryd y senario Uwch, sy’n cydfynd ag amcanestyniadau'r Archwilydd Cyffredinol i Wynedd, pe caeid Ysgol Abersoch addysgir 100% o blant mewn dosbarthiadau cymysg maint mwy na’r arfer.<br>Ar gyfartaledd, rhaid ystyried pe caeid Ysgol Abersoch y dysgid holl ddisgyblion y tair ysgol sy’n weddill mewn dosbarthiadau mwy na’r arfer er eu hanfantais addysgol ac yn erbyn strategaeth ddatganedig Cyngor Gwynedd o addysg o’r ansawdd gorau mewn Ysgolion Cynradd. | | Fel y gwelir o’r graff isod, mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus er peth amser:<br><br> |
| 198 | Ymrwymodd Cyngor Gwynedd i strategaeth o ‘Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd’ Yn y strategaeth hon, dynodir meintiau dosbarth fel elfen bwysig er mwyn i blant feithrin y profiadau a’r cyfleoedd gorau posibl. Mae gan y pedair ysgol yn y dalgylch (Ysgolion Abersoch, Sarn Bach, Llanbedrog a Foel Gron) ddosbarthiadau oed cymysg fel yr arferol. ….. O ddefnyddio’r amcanestyniadau uchod, pe gwireddid yr Achos Isel ac y caeid Ysgol Abersoch, byddai’r tair ysgol ar ôl yn gweithredu bron yn llawn capasiti, gan ddarparu bron ddim amrediad amrywiadau arferol yn y niferoedd ysgol blynyddol neu ddarparu llwybr at ddatblygiad economaidd a thai yn yr ardal. Yn y senarios Canolig ac Uwch, addysgir nifer cynyddol o ddisgyblion mewn dosbarthiadau oed cymysg o fwy nag 20. O gymryd y senario Uwch, sy’n cydfynd ag amcanestyniadau'r Archwilydd Cyffredinol i Wynedd, pe caeid Ysgol Abersoch addysgir 100% o blant mewn dosbarthiadau cymysg maint mwy na’r arfer. Ar gyfartaledd, rhaid ystyried pe caeid Ysgol Abersoch y dysgid holl ddisgyblion y tair ysgol sy’n weddill mewn dosbarthiadau mwy na’r arfer er eu hanfantais addysgol ac yn erbyn strategaeth ddatganedig Cyngor Gwynedd o addysg o’r ansawdd gorau mewn Ysgolion Cynradd. | | |
| 199 | “Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng yn gyson ers 2016”Mae'r datganiad hwn yn gamarweiniol i'r ardal leol. Mae'r tabl ar dudalen 14 yn dangos bod nifer y plant a addysgwyd yn yr ardal wedi bod yn gyson er 1980. Mae disgyblion wedi cynyddu 5% rhwng 2005 a 2020 (190-204). 204 o ddisgyblion yn 2020 yw’r trydydd nifer uchaf erioed, gyda nifer y disgyblion yn cynyddu'n gyson yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r sail ar gyfer niferoedd yr amcanestyniadau yn Ysgol Abersoch yn aneglur. Rydym yn gwybod am o leiaf 11 o blant a fydd o bosib yn mynychu ysgol yn nalgylch Ysgol Abersoch i ddechrau yn ystod y 3 blynedd nesaf o gymharu â rhagamcaniad 7 yr Adran Addysg. Mae potensial ar gyfer cynnydd pellach yn y niferoedd hefyd yn dilyn y pandemig os y bydd pobl symud allan o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig. Cwestiynnwn ddilysrwydd niferoedd rhagamcanol disgyblion Ysgol Sarn Bach, 40 yn 2021 yn gostwng i 17 yn 2025. Mae amcangyfrif Cyngor Gwynedd yn dangos tuedd sylweddol wahanol i boblogaeth ehangach Cymru. O ganlyniad, mae angen ystyried yr amcanestyniadau hyn yn ofalus i sicrhau bod ystod realistig o senarios yn cael eu hystyried (Gweler Atodiad B: Adolygiad o Faint Dosbarth, Rhagolygon Capasiti a Phoblogaeth - Adroddiad gan Gyfeillion Ysgol Abersoch Cyfeillion) ac am gyfnod digonol o amser. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi y dylid ystyried y tueddiadau tymor hir h.y. 25-50 mlynedd i'r dyfodol. | | |
| 200 | Mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd wedi defnyddio pen isaf yr ystod o 18 o ddisgyblion ym mhob blwyddyn ar draws y pedair ysgol i ragweld nifer y disgyblion yn y dyfodol. Mae'r amcangyfrif hwn yn wahanol i dueddiadau poblogaeth a ragwelir yng Nghymru a rhagamcaniad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Gwynedd. | | |
| 201 | Casgliadau:<br>Mae adolygiad o'r tri senario yn dangos:<br>• Gall newidiadau cymharol fach yn nifer y disgyblion blynyddol gael effaith sylweddol ar faint dosbarthiadau cymysg yn y pedair ysgol sy'n cael eu hystyried.<br>• Os gwireddir yr achos Isel ac os yw Ysgol Abersoch yn cau, bydd y tair ysgol sy'n weddill yn gweithredu mor agos at eu llawn gapasiti, heb fawr o gyfle i amrywiadau arferol yn nifer yr ysgolion blynyddol neu ddarparu llwybr ar gyfer datblygu economaidd yn yr ardal.<br>• Yn y senarios Canol ac Uchel, bydd nifer cynyddol o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cymysg sy'n fwy nag 20.<br>• Yn y senario Uchel, sy'n adlewyrchu rhagamcanion yr Archwilydd Cyffredinol, mae 100% o blant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg rhy fawr, gyda chymaint â 26 ym mhob dosbarth oedran cymysg. Mae cau Ysgol Abersoch yn golygu nad yw Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei amcanion ac yn peryglu darpariaeth addysg i'r disgyblion.<br>• Ar gyfartaledd, rhaid ystyried y bydd cau Ysgol Abersoch yn golygu y bydd pob disgybl yn y tair ysgol sy'n weddill yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cymysg rhy fawr er anfantais addysgol iddynt ac yn erbyn strategaeth ddatganedig rhagoriaeth addysgol Cyngor Gwynedd mewn ysgolion cynradd.<br>• Yn ogystal, bydd cau Ysgol Abersoch ar draul cymuned Abersoch a bydd y diffyg capasiti yn yr ysgolion sy'n weddill yn golygu na fydd disgyblion yn gallu dewis eu hysgol leol o oedran cynradd cynnar. | | |

<table>
<tr>
<td>202</td>
<td>Rwyf hefyd yn ymwybodol bod mwy o rieni eisiau anfon eu plant i Ysgol Abersoch yn enwedig os caniateir iddo gyflawni ei Statws Ysgol Traeth awyr agored. Rwy’n anghytuno y bydd y niferoedd yn aros yn isel, mae sawl rhiant wedi mynegi diddordeb yn yr ysgol. Nid yw hyn ond yn profi bod pobl yn dilyn ffordd wahanol o fyw yn dilyn Pandemic Covid ac yn gweithio gartref, felly hoffwn ichi ystyried Ysgol Abersoch i aros ar agor am ddwy flynedd, gan gynnig y cyfleuster ysgol traeth awyr agored, gan ganiatáu i'r Cylch Meithrin i ffynnu gan ein bod wedi cael ffyniant genedigaethau yn yr ardal. Ni welaf unrhyw sôn yn yr adroddiad ynghylch genedigaethau a phlant a fydd yn dechrau yn yr ysgol yn ystod y tair blynedd nesaf. Byddwn wedi meddwl bod hwn yn bwynt pwysig i ymchwilio iddo, yn enwedig os ydych chi'n ceisio cau ysgol, efallai na fyddai hyn yn ateb eich pwrpas gan y byddai'n dangos angen i gadw'r ysgol ar agor.<br>Gwahaniaeth rhwng yr amcanestyniadau disgyblion ardal leol a gyflwynir yn y dogfennau ymgynghori sy'n ymddangos i awgrymu gostyngiad mawr mewn niferoedd disgyblion, ac amcangyfrifon Llywodraeth Cymru a Cyngor Gwynedd sy'n niferoedd sefydlog a chynyddol ledled Cymru a Gwynedd. Gellir cynnig bod hyn yn ganlyniad i amcanestyniadau a wnaed gan benaethiaid sydd ddim yn preswylio yn y dalgylch, gan seilio eu rhagamcanion ar dueddiadau diweddar yn hytrach na thystiolaeth sy'n cynnig amcangyfrifon mwy dibynadwy. Er enghraifft, gwyddom am o leiaf 11 o blant yn nalgylch Ysgol Abersoch a fyddai'n gymwys i ddechrau yn ystod y 3 blynedd nesaf o gymharu â rhagamcaniad yr Adran Addysg o 7. Oni ddylai'r Cyngor ystyried newidiadau amlwg yn y boblogaeth leol a rhagamcanion ffurfiol, cyhoeddedig yn hytrach na rhagamcanion a allai fod yn ddi-sail ac yn gamarweiniol?</td>
<td></td>
<td rowspan="2">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau ynglŷn â phryderon am gywirdeb a sail y rhagamcanion niferoedd.<br><br>Mae’r rhagamcanion niferoedd i’r dyfodol wedi eu creu drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau’r gorffennol. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr awdurdod.<br><br>Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae’n debygol y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae’r Adran Addysg o’r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd flaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau’n isel yn Ysgol Abersoch am y bum mlynedd nesaf:<br><br>Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch
<table>
<tr><th></th><th>M</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Medi 2020</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2021</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2022</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2023</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2024</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2025</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
</table>
<br>Ym Medi 2020, o’r 26 disgybl (3-8 oed) oedd byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o’r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i’r sylwadau sy’n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynnyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i’r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai’r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.</td>
</tr>
<tr>
<td>203</td>
<td>Awgryma daroganau yr Adran Addysg yr hanera niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach o fewn y bum mlynedd nesaf. Ymddengys y sylfeinir y rhain ar asesiadau penaethiaid ond, eto, rhagamcana Crynodeb Archwiliad Blynyddol Cyngor Gwynedd 20201 gynnydd mewn poblogaeth o 5.3% rhwng 2020 a 2040 gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant. Ymddengys y ffafria’r Adran Addysg ddibynnu ar asesiadau anffurfiol penaethiaid sydd ddim yn byw yn y gymuned i gefnogi ei dadleuon dros gau, yn hytrach na daroganiadau ffurfiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor.<br><br>Pa mor sicr yw’r dadansoddiad tueddiadau niferoedd disgyblion a adnabyddid yn yr adroddiad?</td>
<td></td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 204 | Nodir bod y rhagamcanion yn parhau'n isel dros y pum mlynedd nesaf. Dywed Noda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid edrych 25 – 50 mlynedd i'r dyfodol ac, o astudio'r dangosyddion, dylai Aber-soch ffynnu yn ystod y cyfnod yma. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Serch hynny, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, gofynnir i'r cynigwyr nodi "rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd)" |
| | **Maint Dosbarthiadau** | | |
| 205 | Ymhellach, nid wyf yn derbyn y ddadl bod dosbarthiadau llai yn niweidiol i addysg disgyblion. Mae'n gwneud synnwyr greddfol y bydd mwy o sylw unigol yn arwain at ganlyniadau gwell. | | Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Adnoddau Ariannol: Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 yw £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 – y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.<br>Roedd adran 7.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn darparu gwybodaeth ar sefyllfa bresennol maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. |
| 206 | Nid yw anfon plant Ysgol Abersoch i ddosbarthiadau mwy yn Ysgol Sarn Bach gyda chymysgedd o oedrannau a galluoedd i weld yn opsiwn amgen gwell. Ar hyn o bryd addysgir y plant yn Ysgol Abersoch drwy gyfrwng y Cwricwlwm Cymraeg newydd, a dylid dathlu hynny. Efallai bod canlyniadau diweddaraf y plant yn ucheloleuo pa mor ragorol a buddiol yw Ysgol Abersoch | | |
| 207 | Efallai eich bod yn cymysgu'ch adroddiad ag Ysgol Sarn Bach, lle mae grwpiau mwy o ystodau oedran cymysg yn cael eu haddysgu mewn un ystafell. Mewn gwirionedd rwy'n teimlo'n drist y bydd fy merch a fydd yn symud i flwyddyn pedwar yn Ysgol Sarn Bach yn cael ei dysgu gyda Blwyddyn tri, rwy'n teimlo bod y plant yn colli eu hunaniaeth, gan eu bod yn cael eu haddysgu yn y grŵp mwy hwn o alluoedd cymysg iawn, ond yn flaenorol yn Ysgol Abersoch roedd hi'n ddysgwr annibynnol i raddau helaeth a ganiatawyd iddi archwilio ac annog hyd eithaf ei gallu wrth ddilyn y cwricwlwm gan ganiatáu iddi hi a fy mab ragori. | | |
| 208 | Ymrwymodd Cyngor Gwynedd i strategaeth o 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd'1. Yn y strategaeth hon, dynodir meintiau dosbarth fel elfen bwysig er mwyn i blant feithrin y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl. Mae gan y pedair ysgol yn y dalgylch (Ysgolion Abersoch, Sarn Bach, Llanbedrog a Foel Gron) ddosbarthiadau oed cymysg fel yr arferol. Ymrwymodd Cyngor Gwynedd sicrhau bod yna, ar gyfartaledd, dim mwy nag 20 neu lai na 12 disgybl mewn unrhyw ddosbarth oed cymysg ond, eto, mae meintiau dosbarth 2020 – 2021 yn uwch nag 20 mewn chwe dosbarth allan o naw (Atodiad B – Adolygiad o Feintiau Dosbarth, Capasiti a Rhagolygon y Boblogaeth – Adroddiad gan Gyfeillion Ysgol Abersoch Chwefror 2021 /Appendix B – Review of Class Sizes, Capacity and Population Forecasts – A report by Cyfellion Ysgol Abersoch Friends, February 2021). | | |

<table>
<tr><td>209</td><td>Mae dwy ystafell ddosbarth gorfforol, ac mae'r plant yn treulio tua 50% o amser gyda 2 athro (wedi'u rhannu'n 2 ystafell ddosbarth), a 50% o'u hamser gydag 1 athro ac 1 cynorthwyydd.<br>Yn Ysgol Sarn Bach mae dau ddosbarth - un ar gyfer Meithrin i Flwyddyn 3 (pedair ystod oedran) ac un ar gyfer Blynyddoedd 3,4,5 a 6 (pedair ystod oedran). Esboniwch sut y byddai cau Ysgol Abersoch yn gwella'r ddarpariaeth addysg?</td><td></td><td rowspan="5">Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.<br><br>Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y bydda 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fydda'r cynnydd yn eu cyllideb flynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.<br><br>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, yn achos cynnig i ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys manylion am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt. O ganlyniad, bu i fanylion Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Foel Gron gael eu cynnwys yn y ddogfen ymgyghori yn ychwanegol i'r manylion am Ysgol Abersoch.<br><br>Pwysleisir mai'r cynnig oedd yn destun i'r ymgynghoriad statudol, ac a roddwyd yn ddiweddarach drwy rybudd statudol yw cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Ni ystyrir felly fod maint dosbarthiadau'r ysgolion cyfagos (Ysgol Foel Gron ac Ysgol Llanbedrog) yn berthnasol i'r cynnig.<br><br>Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addysg yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig.</td></tr>
<tr><td>210</td><td>"Byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau cymheiriaid sydd â llawer llai o ystod oedran a chyfle i wella profiad addysgol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol."<br><br>Beth yw'r dystiolaeth ar gyfer hyn? Meintiau dosbarth Ysgol Sarn Bach yw Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1,2 mewn un dosbarth, yna Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn ail ddosbarth. Yn Ysgol Abersoch y dosbarth yw Meithrin - Blwyddyn 3 ond wedi'i rhannu ar draws 2 athro.<br>Nodwch ym mha ffyrdd y byddai'r addysg yn gwella.</td><td></td></tr>
<tr><td>211</td><td>7.3 Maint Dosbarth ac Ystod Oedran Briodol "Nod Cyngor Gwynedd yw cael dim mwy na 2 ystod oedran o fewn yr un dosbarth"<br>Mae'r dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach i gyd yn fwy na'r amcan o ystod dwy oed o fewn yr un dosbarth. Mae gan Ysgol Sarn Bach 2 ddosbarth o 4 ystod oedran: Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1,2 mewn un dosbarth, yna Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn ail ddosbarth.<br>O ganlyniad i beidio â chyrraedd yr amcanion strategol a nodwyd, rydym yn teimlo na all Ysgol Sarn Bach letya plant ychwanegol oherwydd natur yr ystafelloedd dosbarth sydd ar gael yn Ysgol Sarn Bach. Bydd canlyniad negyddol i addysg plant yn y ddwy ysgol.</td><td></td></tr>
<tr><td>212</td><td>7.16 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig<br>"Meintiau dosbarth"<br>Mae maint dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach eisoes yn uwch nag argymhelliad "Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Ngwynedd" Cyngor Gwynedd ar gyfer maint dosbarth oedran cymysg o 20. Bydd cau Ysgol Abersoch yn gwaethygu'r sefyllfa.</td><td></td></tr>
<tr><td>213</td><td>Mae'r dadansoddiad isod yn dangos bod maint y dosbarthiadau ar gyfer 2020-21 yn uwch na 20 mewn 6 dosbarth allan o 9 yn y pedair ysgol.<br>Yn ogystal, mae dros 80% o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cymysg rhy fawr.</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Casgliad: Mae angen ystyried maint dosbarthiadau yn ofalus wrth wneud penderfyniadau fel y gall Cyngor Gwynedd gyflawni ei strategaeth o'r sefyllfa bresennol hon. | | |
| 214 | Mae'r tabl isod yn crynhoi maint cyfredol y dosbarthiadau ar gyfer pob un o'r pedair ysgol. Gellir arsylwi bod nifer o ‘flynyddoedd mawr’, fodd bynnag, mae’r ystod nodweddiadol o niferoedd disgyblion blynyddol fesul grŵp blwyddyn yn amrywio o 18 i 33, gyda chyfartaledd cyffredinol o 25 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn a nifer fwyaf cyffredin o 22. | | |
| 215 | Tra yn nhermau addysgol mai un ‘dosbarth’ sydd yn Ysgol Abersoch, hoffem wirio a sylweddolodd aelodau’r Cabinet bod ynddi ddau ddosbarth ar wahân, â’r Cylch Meithrin mewn trydydd dosbarth? Petai niferoedd y disgyblion yn cynyddu yn yr ysgol, a gwir angen am ofod, buasai’r Cylch Meithrin yn fodlon iawn adleoli i adeilad addas ar y buarth. Gyda llaw, mae gan lunwedd yr ysgol ddarpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau toiledau hollol ar wahân i blant y Cylch a disgyblion yr ysgol; bu hyn yn hynod fanteisiol yn ystod y pandemig. | | |
| 216 | Mae meintiau dosbarthiadau yn berffaith ar gyfer pob disgybl yn unigol petai’r cyngor yn gwerthfawrogi dyfodol Ysgol Abersoch; gan hynny yn atal gor-niferoedd dosbarthiadau yn y 3 ysgol lleol arall. | | |
| 217 | Y mae casgliadau'r swyddogion i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn seiliedig ar ddadleuon generig ac ystrydebol, heb sail tystiolaeth, ac heb fod yn benodol i achos Abersoch - yn groes i'r ddyletswydd sydd gan y Cyngor i werthuso'r sefyllfa yn ôl amgylchiadau penodol yr ysgol dan sylw<br>* Gosodir fel ffaith fod dosbarthiadau cymysg-oedran yn anfantais addysgol. Mae'r gwir sefyllfa'n llawer mwy cymhleth. Wrth gwrs fod creu gaith ychwanegol i athrawon, ond mae gwerth addysgol i'r mentora rhwng disgyblionhŷn ac iau, ac mae strategaethau mewn lle i ddosbarth gyfan astudio thema, ond ar efelau sy'n gweddu i'r disgyblion unigol. Ni chynigir unrhyw dystiolaeth fod ysgolion sydd â dosbarthiadau cymysg-oedran yn cael canlyniadau addysgol gwaeth nag ysgolion trefol mwy o faint. Gallesid gwneud astudiaeth o gyrhaeddiadau cymharol disgyblion mewn addysg uwchradd, ond ni chynigir unrhyw dystiolaeth, dim ond gosod y safbwynt fel ffaith. Fle prawf o wacter y ddadl, mae'n debyg y byddai'r disgyblion yn cael eu cyfeirio at ysgol arall lle byddai hefyd dosbarthiadau cymysg-oedran, eto gyda chanlyniadau digon boddhaol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 218 | Roedd llawer o drafodaeth y Cabinet yn canolbwyntio ar ystod oedran yr ystafell ddosbarth, gyda'r awgrym y byddai ystod oedran llawer llai yn cael ei chael yn Ysgol Sarn Bach. Ac eto, fel rhan o'r broses benderfynu ni cheisiodd yr Adran Addysg egluro i'r Cabinet (rhag ofn nad oeddent wedi darllen y ddogfennaeth) bod gan Ysgol Sarn Bach ystod oedran dosbarth tebyg (Meithrin - Bl 2 mewn un ystafell ddosbarth ) o'i gymharu â Meithrin - Bl 3 yn Ysgol Abersoch (wedi'i rannu rhwng 2 ystafell ddosbarth ac un athro amser llawn ac un athro rhan-amser). Mae'n ymddangos yn annidwyll bod pwysau o'r fath wedi'i roi ar yr un ochr hon heb ei bwyso yn erbyn y dewis arall arfaethedig. | | |
| 219 | Mae beth sydd wedi ei cyflwyno ynglŷn ar pryder plant rhan gwahaniaeth oedran yn yr un dosbarth yn gamarweiniol oherwydd mae hyn yn digwydd yn yr ysgol sydd wedi ei penodi ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch. | | |
| 220 | Ymhellach, nid wyf yn derbyn y ddadl bod dosbarthiadau llai yn niweidiol i addysg disgyblion. Mae'n gwneud synnwyr greddfol y bydd mwy o sylw unigol yn arwain at ganlyniadau gwell. | | Ansawdd yr addysg yw'r dylanwad mwyaf ar gyrhaeddiad disgyblion. Addysgir disgyblion Ysgol Abersoch mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed). Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br><br>Mae her sylweddol i'r athrawon baratoi gwaith a fydd yn herio ac ymestyn pob plentyn. Mae Awdurdod o'r farn y gall niferoedd isel iawn o blant ymhob blwyddyn arwain at lai o gystadleuaeth a symbyliad academaidd, a llai o gyfle i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.<br><br>Ceir tystiolaeth fod bron i 80% o'r hyn y mae plant yn ei ddysgu yn cael ei ddysgu oddi wrth ei gilydd ac felly wrth gyfyngu'r nifer o blant o'r un oed i un neu ddau gall gael effaith ar gynnydd.<br><br>Mae bron yn amhosibl i ysgol fach gyflwyno'r un amrediad o brofiadau cwricwlaidd, allgyrsiol a chymdeithasol ag ysgol fwy, er enghraifft mae angen mwy o blant i gynnal gemau tîm. Yn ogystal fe all bod mewn ysgol fwy amlygu i'r plant yn fwy effeithiol y gwahaniaethau naturiol a geir rhwng plant a theuluoedd o gefndiroedd gwahanol, rhan allweddol o ddatblygiad plentyn.<br><br>Mae'r Awdurod o'r farn y gall hyn effeithio ar allu ysgol i ddatblygu disgyblion i'w llawn botensial. |
| 221 | Rhan maint yr Dosbarthiadau mae pryder wedi ei ymddangos gan llywodraeth cymru rhan maint dosbarthiadau gan ddweud fod well cael dosbarthiadau llai. Felly mae elfen positif I dosbarth bach. | | |
| 222 | Ar hyn o bryd mae 12 o blant o dan 3 a fyddai'n elwa o fynychu'r ysgol ac, wedi dysgu am 35 mlynedd, credaf mai dosbarthiadau llai yw'r gorau. Dwi wedi dysgu mewn ysgolion gyda chyfartaledd o 30 mewn dosbarth ac mewn ysgolion â chyfartaledd o 4. Mae athrawon yn amryddawn ond ni all hyd yn oed yr athrawon fwyaf ymroddedig a thrylwyr roi'r un chwarae teg i 30 o blant fel y gellir i 4. | | |
| 223 | Y cychwyn gorau i unrhyw blentyn cymraeg, saesneg neu unrhyw iaith, mi fuasain fraint iddynt cael fod yn rhan o'r ysgol gyda'r athrawon gwych ymroddedig yma. Oherwydd ei fod yn ysgol fach ac ddim yn orlawn fel rhai cyfagos, maen't yn cael yr amser 'un i un' ar chwara teg gan yr athrawon, na allai gael yn y dosbarthiadau llawn. | | |
| 224 | Tra bod meintiau dosbarthiadau yn llai na'r rhai mewn ysgolion cyfagos, buasai'r mwyafrif o bobl yn tystio ei fod o fantais i'r plant yn nhermau canlyniadau addysgol gwell. Mewn cymhariaeth, sylwyd ar ddosbarthiadau mawr mewn ysgolion cyfagos sydd, gyda llaw, yn fwy na maint y dosbarthiadau a nodwyd gan | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gyngor Gwynedd ei hun, a allai arwain at ganlyniadau gwaelach. Mae'n syndod y rhodda'r Adran Addysg fwy o bwyslais ar ryngweithiad cymdeithasol na chyrhaeddiad addysgol. | | Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gael maint dosbarthiadau addas, gyda dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd.<br><br>Gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm trwy sefydlu timau rheoli canol ac arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Yn ogystal, gellir canoli nifer o gyfrifoldebau megis rhai yn ymwneud a'r cwricwlwm a materion rheolaethol, sy'n gallu bod yn faich i sefydliadau bach, e.e. trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu, rheoli perfformiad. Mae'n fwy o her i ysgolion llai i fedru creu rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol ynghyd a chynnig cyfleoedd teg i staff ddatblygu arbenigaeth pwnc a rhannu ymarfer da gyda chyfoedion.<br><br>Nododd Estyn (2013):<br>"Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallent ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant."<br><br>Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addyg yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig. |
| 225 | Eto, anghytunir "y buasai cau Ysgol Aber-soch ac addysgu'r disgyblion yn Sarn Bach yn gwella eu profiad addysgiadol a chymdeithasol". Mae dosbarthiadau bychain yn galluogi cyrhaeddiad uwch ac maent yn cyfarfod eu cyfoedion mewn clybiau eraill tu allan i oriau'r ysgol. | | |
| 226 | Anghytunir â'r sylw "yr effeithia'r dosbarthiadau bychain iawn a niferoedd isel ar brofiadau'r plant o gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion" – maent yn aelodau o wahanol glybiau megis Clwb Syrffio Llŷn a phêl-droed/rygbi un ai yma yn Aber-soch neu ym Mhwllheli a chynhelir gwersi/gweithgareddau nofio/hwylio ar ôl ysgol fel disgyblion ysgolion eraill. | | |
| 227 | Gall presenoldeb plant o wahanol oedrannau yn yr un dosbarth fod yn adlewyrchiad cywirach o fywyd y gymdeithas a'r cartref na'r grwpiau mawr a geir mewn ysgolion mwy… Galluoga'r dosbarthiadau bychain gyrhaeddiad uwch ac ni effeithia niferoedd isel ar brofiadau'r plant o gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion | | |
| 228 | Adeilad, man ac awyrgylch arbennig iawn (clos, cynnes a chefnogol). Gallaf ddweud, fel cyn-ddisgybl a rhiant i ddau o blant sydd wedi mynychu'r ysgol, bod cael treulio blynyddoedd cynnar ein haddysg yno wedi bod yn fanteisiol iawn. Nid anfantais yw cael eich dysgu mewn grŵp bach o ddisgyblion ym mlynyddoedd cynnar eich addysg. Mae'r naws deuluol o gymorth mawr i'r broses o drawsnewid o gael eich magu gartref i ddechrau mewn awyrgylch addysgol. **Mae hi'n ysgol arbennig i fabanod a'r blynyddoedd cynnar.** | | |
| 229 | Credwn y cynhwysa lefelau staffio Ysgol Sarn Bach bennaeth llawn amser, athrawes rhan amser ac athrawon achlysurol, yn ogystal â chymorthyddion dysgu. Rhennir y plant i ddau ddosbarth ffurfiol mewn tair ystafell ddosbarth. Dysga'r pennaeth Meithrin – Blwyddyn 2 mewn dosbarth sengl a'r athrawes ran-amser Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn dwy ystafell ddosbarth wedi'u cefnogi gan gymhorthydd dysgu. Credwn y dysgir y plant ym Mlynyddoedd 5 a 6 gan gymhorthydd dosbarth ddeuddydd yr wythnos. Mae'n rhesymol gofyn pam fod cynyddu maint dosbarthiadau, trwy gynnwys disgyblion Ysgol Abersoch, yn | | Roedd adran 7.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn darparu gwybodaeth ar sefyllfa bresennol maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach.<br><br>Pe gwireddir y cynnig, yna disgwylir y bydd Pennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd newydd. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | "Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl" a "byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith bositif". O gymharu, dysgir plant Ysgol Abersoch bob amser gan athrawes, fel y disgwylir mewn ysgol... | | |
| 230 | Pam y cyfeirir yma at lefelau staffio yn Ysgol Abersoch ond nid Ysgol Sarn Bach? Beth yw'r lefelau staffio yn Ysgol Sarn Bach, fesul dosbarth ac ystafell ddosbarth, gyda chymarebau athro i blentyn? A oes athro ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd?<br>Mae gennym reswm i gredu bod 1 pennaeth amser llawn, 1 athro rhan-amser, athro achlysurol yn ogystal â chymhorthyddion dysgu ......<br><br>Nid yw'r datganiad hwn yn adlewyrchu'r cynnig addysgu presennol yn Ysgol Sarn Bach ac nid yw'n hysbysu rhieni nad yw plant yn cael eu haddysgu gan athro cymwys pob tro.<br>Rydym yn deall bod dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach yn cael eu haddysgu gan 1 pennaeth llawn amser, 1 athro rhan-amser, ac athrawon achlysurol, yn ogystal â chymorthyddion dysgu. Rhennir y plant i 2 ddosbarth ffurfiol, ar draws 3 ystafell ddosbarth. Mae'r pennaeth yn dysgu Meithrin - Blwyddyn 2 mewn un ystafell ddosbarth, yr athro rhan-amser yn dysgu blynyddoedd 3,4,5 a 6 ar draws 2 ystafell ddosbarth gyda chefnogaeth cymhorthydd dysgu. Mae diwrnodau rheolaidd yr wythnos pan fydd y plant ym Mlynyddoedd 3,4, 5 a 6 yn cael eu dysgu gan y cymhorthydd dysgu yn unig. Er enghraifft, yn ystafell ddosbarth Blwyddyn 5 a 6, mae'r plant yn cael eu haddysgu gan yr athro rhan-amser 2 ddiwrnod yr wythnos, gan athro achlysurol 1 diwrnod yr wythnos a chan gymhorthydd dysgu 2 ddiwrnod yr wythnos. Mae 21 o blant yn yr ystafell ddosbarth hon, ynghyd â 13 o blant eraill yn ystafell ddosbarth Blwyddyn 3 a 4. Felly cyfunwyd 34 o blant ar draws dwy ystafell ddosbarth ar wahân, a rheiny yn cael eu haddysgu gan gyfuniad o athro rhan-amser, athro achlysurol, a chymorthydd dysgu.<br>Ym mha ffordd, trwy gynnwys disgyblion Ysgol Abersoch, y mae maint dosbarthiadau cynyddol yn cwrdd â'r amcan o 'ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl' pan fydd y dosbarthiadau'n fwy ac mewn rhai achosion yn uwch na uchafswm cyfreithiol Cyngor Gwynedd o 30 ac hefyd y disgyblion ddim yn cael eu haddysgu gan athro ar nifer o ddyddiau'r wythnos? ….<br>I'r gwrthwyneb, yn Ysgol Abersoch mae plant bob amser yn cael eu haddysgu gan athro, fel y byddai disgwyl i gyfarch y nod o "Ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl". | | Mater i Gorff Llywodraethol ysgol unigol yw penderfynu ar ei strwythur staffio mwyaf addas. Pe byddai nifer disgyblion yn cynyddu gall Ysgol Sarn Bach benderfynu addasu'r strwythur staffio i gynnwys mwy o athrawon.<br>Ni all y Cyngor rhagweld penderfyniad y Corff Llywodraethol ac o ganlyniad ni fyddai'n briodol amlygu lefelau staffio posib i'r dyfodol.<br><br>Pe byddai'r nifer disgyblion yn cynyddu tu hwnt i'r canllawiau statudol byddai'n rhaid i'r ysgol newid y strwythur staffio.<br><br>Mae nifer helaeth o ysgolion yn gwneud defnydd o uwch gymorthyddion er mwyn darparu amser digyswllt i athrawon dosbarth gynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r gwaith a fydd yn cael ei gyflwyno wedi ei baratoi gan yr athro neu athrawes dosbarth o flaen llaw a gan amlaf yn barhad o'r hyn y mae'r athro neu athrawes ddosbarth wedi ei gyflwyno o flaen llaw.<br><br>Mae'r dyraniad ychwanegol a dderbynnir gan Ysgol Abersoch yn sgil niferoedd isel o blant yn sicrhau lefelau staffio uwch na'r hyn a dderbynnir mewn ysgolion sydd y tu allan i'r warchodaeth yma. Nid yw Ysgol Sarn Bach yn derbyn lefel uchel o warchodaeth ac o ganlyniad maent yn wynebu her i gynnal lefelau staffio cyffelyb ac Ysgol Abersoch. Fodd bynnag gwelir o arolwg Estyn o Ysgol Sarn Bach yn 2017 nad yw hyn yn effeithio ar ansawdd profiadau dysgu'r plant a bod y dysgu ac addysgu ac ansawdd profiadau dysgu'r plant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 231 | Nid yw'r Cyngor wedi darparu asesiad effaith ar faint dosbarthiadau os trosglwyddir disgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach fel y cynigir. Pe bai hyn yn digwydd, yna maint y dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach fydd 21 a 37 yn y drefn honno. Mae hyn yn amlwg yn fwy na'r 20 a ddatganwyd fel maint dosbarth cymysg ar y mwyaf. Yn ogystal â fy mhryderon fy hun, credaf y byddai llywodraethwyr a rhieni Ysgol Sarn Bach hefyd yn bryderus ac mae angen ystyried eu barn yn yr ymgynghoriad. | | Roedd adran 7.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn darparu gwybodaeth ar sefyllfa bresennol maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach.<br><br>Pe gwireddir y cynnig, yna disgwylir y bydd Pennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd newydd. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol. |
| 232 | Nid oes sôn am Bennaeth na Llywodraethwyr Aber-soch dan Reolaeth ac Arweinyddiaeth; ac mae Pennaeth Mewn Gofal yn bresennol oherwydd sefyllfa anghyffredin oherwydd rhesymau trist. | | Darparwyd gwybodaeth parthed strwythur staffio'r ysgol yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 (tudalen 28). Mae'r cyngor o'r farn na fyddai'n briodol manylu ar sefyllfa bersonol unrhyw aelod o'r staff mewn dogfen ymgynghori statudol yn ymwneud â chynnig i ad-drefnu ysgolion. |
| 233 | Maint presennol y dosbarth yn Ysgol Abersoch yw 10 o blant, ac yn Ysgol Sarn Bach maint cyfartalog y dosbarth yw 24, sydd eisoes yn fwy na datganiad Cyngor Gwynedd yn 'Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau'. Mae'n peri penbleth y gall Cyngor Gwynedd gyfiawnhau gwthio drwy benderfyniad a fydd yn cynyddu maint dosbarthiadau uwchlaw ei arfer gorau ei hun ar sail 'lles'. O ystyried cyd-destun y dogfennau ymgynghori, mae'n ymddangos nad yw'r Adran Addysg yn ystyried y ddarpariaeth addysg bresennol yn Ysgol Abersoch i gynhyrchu 'dinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn' mewn 'cymdeithas naturiol Gymraeg'. | | Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol. |
| 234 | 'Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas' -nodir fod cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach ym mis Medi 2020 yn 24. Os felly, fe'u cynyddir â disgyblion Ysgol Aber-soch ac, o ganlyniad, buasai hyn yn groes i'r hyn a nodir ym mhwynt 4.1.3 Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd pan nodir, "Anelu at sicrhau nad oes gan unrhyw ddosbarth oed cymysg mwy nag 20 disgybl na llai na 12 disgybl". | | Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Mi fyddai'r cynnydd yn eu cyllideb blynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol. |
| 235 | Yn ogystal rwy'n gweld y modd y daw'r Cyngor i benderfyniadau hefyd yn wallus. Wrth gymharu strategaeth 'Addysg Gynradd Ragorol i Blant Gwynedd' i'r penderfyniad hwn, fy nealltwriaeth i yw y bydd y plant a'u haddysgir ar hyn o bryd yn Ysgol Abersoch dan anfantais wrth ymuno â dosbarthiadau aml-flwyddyn yr ysgolion cyfagos. Bydd hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar addysg plant eraill yr ardal. Ymddengys mai arbedion ariannol yw cymhelliant y Cyngor yn hytrach na gwerth addysg i blant sy'n rhan werthfawr ein cymuned heddiw ac i'r dyfodol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 236 | Rwy'n hynod o rhwystredig ynglun a honiadau y Cyngor am maint dosbarthiadau. Ni allwn anghytuno mwy â'r awgrym bod dosbarthiadau llai yn niweidiol i addysg plentyn. Credaf yn gryf pe pawn i heb derbyn yr addysgu pwrpasol ac empathig a roddir gan ddosbarthiadau llai Ysgol Abersoch, ni fyddai fy mhotensial academaidd wedi'i cydnabod neu ei feithrin. Nid oes dim drwy gydol fy addysg yn gymharu a'r sylw a chefnogaeth personol cefais yn Ysgol Abersoch, tan yr ymgysylltiad un ar un rwy'n derbyn ym Mhrifysgol Caergrawnt. | | Ansawdd yr addysg yw'r dylanwad mwyaf ar gyrhaeddiad disgyblion. Addysgir disgyblion Ysgol Abersoch mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed). Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br><br>Mae her sylweddol i'r athrawon baratoi gwaith a fydd yn herio ac ymestyn pob plentyn. Mae Awdurdod o'r farn y gall niferoedd isel iawn o blant ymhob blwyddyn arwain at lai o gystadleuaeth a symbyliad academaidd, a llai o gyfle i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.<br><br>Ceir tystiolaeth fod bron i 80% o'r hyn y mae plant yn ei ddysgu yn cael ei ddysgu oddi wrth ei gilydd ac felly wrth gyfyngu'r nifer o blant o'r un oed i un neu ddau gall gael effaith ar gynnydd.<br><br>Mae bron yn amhosibl i ysgol fach gyflwyno'r un amrediad o brofiadau cwricwlaidd, allgyrsiol a chymdeithasol ag ysgol fwy, er enghraifft mae angen mwy o blant i gynnal gemau tîm. Yn ogystal fe all bod mewn ysgol fwy amlygu i'r plant yn fwy effeithiol y gwahaniaethau naturiol a geir rhwng plant a theuluoedd o gefndiroedd gwahanol, rhan allweddol o ddatblygiad plentyn.<br><br>Mae'r Awdurod o'r farn y gall hyn effeithio ar allu ysgol i ddatblygu disgyblion i'w llawn botensial<br>.<br>Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gael maint dosbarthiadau addas, gyda dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd.<br><br>Gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm trwy sefydlu timau rheoli canol ac arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Yn ogystal, gellir canoli nifer o gyfrifoldebau megis rhai yn ymwneud a'r cwricwlwm a materion rheolaethol, sy'n gallu bod yn faich i sefydliadau bach, e.e. trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu, rheoli perfformiad. Mae'n fwy o her i ysgolion llai i fedru creu rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol ynghyd a chynnig cyfleoedd teg i staff ddatblygu arbenigaeth pwnc a rhannu ymarfer da gyda chyfoedion.<br><br>Nododd Estyn (2013): |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | "Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallent ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant."<br><br>Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addyg yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig. |
| | **Manteision Ysgolion Bach** | | |
| 237 | Hefyd, ni allwn ddod o hyd i unrhyw beth yn yr adroddiad ynghylch y Pandemig Covid cyfredol, gan edrych ar bethau fel; presenoldeb disgyblion trwy gydol y cyfnod hwn. Dwi'n ymwybodol o sawl plentyn o ysgolion eraill yn yr ardal na fynychodd yr ysgol, oherwydd bod rhieni'n bryderus am y dosbarthiadau mwy. Elwodd Ysgol Abersoch o faint dosbarthiadau llai gan fod rhieni'n teimlo'n hyderus i'w hanfon i'r ysgol gan y byddai'r gyfradd R yn sylweddol is. A oes gennych ffigurau absenoldeb yn ystod mis Medi i fis Rhagfyr 2020? Sylwais hefyd fod yn rhaid i Ysgol Llanbedrog glustnodi dwy amser wahanol i godi plant gan fod y llwybr troed cyhoeddus lle mae rhieni'n aros i gyfarch eu plant yn orlawn o dagfeydd, does dim sôn am hyn yn unman. Fodd bynnag, mae buddion Ysgol Abersoch yn cynnwys ei lleoliad wrth ymyl Maes Parcio mawr sy'n galluogi rhieni i gasglu plant mewn modd diogel a theimlaf y dylid nodi hyn hefyd wrth lunio'ch asesiad. | | Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac mae ysgolion wedi addasu amseroedd casglu plant oherwydd y coronafirws.<br><br>Nid yw'n briodol i rannu gwybodaeth sensitif am bresenoldeb disgyblion. |
| 238 | O ran sefyllfa Covid, fel y gwyddoch, mae angen ystyried faint o awyr iach a phellter sydd rhwng disgyblion. Mae cael llai o blant mewn dosbarth ac ysgol am fod yn hanfodol bwysig yn y bywyd newydd sydd o'n blaenau ar ôl y cyfnod clo. O ran iechyd a lles plant Abersoch a'r cyffiniau, dylai'r Cyngor weld gwerth ysgol fach a'r ffaith bod traeth dim ond pum munud i lawr y lôn. Yn eironig iawn, mae eich dadl o gau'r ysgol oherwydd nifer bychan o ddisgyblion a'u cludo mewn bws gyda'i gilydd i ysgol gyda mwy o ddisgyblion ynddi yn gwbl afresymol a ddim yn | | Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac awyru oherwydd y coronafirws. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyd-fynd â'r hyn sydd ei angen oherwydd y pandemig ac sydd am fod yn llesol i blant Abersoch. | | |
| | **Ansawdd yr Addysg** | | |
| 239 | Gwrthwynebaf yn llwyr i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol ragorol hon yn darparu profiad addysgol o'r safon uchaf ac nid yw'r penderfyniad i gau'r ysgol ar sail safon yr addysg yn gwneud synnwyr o gwbl. Rwy'n rhiant i blentyn a fynychodd yr ysgol a gallaf gadarnhau bod yr addysg a gynigir yma o'r safon uchaf ac wedi llywio fy mab ar y trywydd gorau o ran ei ddyfodol. | | Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod. Manylwyd ymhellach ar ansawdd a safonau addysg yn Adran 7.2 o'r ddogfen ymgynghori a gweler yr asesiad llawn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. |
| 240 | .... Rwy'n arbennig o hoff o'r model Montessori a ddatblygwyd gan y Meddyg Eidalaidd Maria Montessori 'gan bwysleisio Annibyniaeth' mae hyn yn amlwg i'w weld pan fydd y plant yn mynd ar y bws yn wythnosol ac yn teithio i Nofio, maen nhw'n gofyn ac yn talu'r gyrrwr gyda'u harian eu hunain, mae pob plentyn yn gallu nofio erbyn iddynt adael Ysgol Abersoch yn 8 oed. Mae'r plant yn ffonio ac yn archebu prydau ysgol yn annibynnol, fe wnaethant hefyd ffonio'r R.S.P.C.A i adrodd fod aderyn wedi anafu a cafodd ei ddal yn ddiweddarach ac y bu'n rhaid ei roi i gysgu. Gwnaeth gymaint o argraff ar y dyn fod y plant ifanc hyn ddangos cymaint o aeddfedrwydd a thosturi yn gofyn cwestiynau a oedd yn dangos deallusrwydd ac empathi. Rwy'n teimlo y gall Cyngor Gwynedd frolio cynnal ysgol sy'n cynnig y safonau uchel manwl gywir hyn. | | |
| 241 | O ran buddion Addysgol, enillodd plant Ysgol Abersoch £ 1,000 mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan Llaeth y Llan, dim ond 8 o blant yn Ysgol Abersoch a roddodd eu meddyliau creadigol ynghyd â'u hathrawon ysbrydoledig ac fe wnaethant ennill. Mae'r athrawon yn annog dysgwyr i addasu gan ddefnyddio adnoddau naturiol ac annog datblygiad trwy ddysgu, gan gwmpasu bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial a bod yr holl arddulliau gwahaniaethu a dysgu unigol yn cael eu diwallu. Roedd y plant yn hapus i gymryd rhan yn yr her hon, fodd bynnag, fe wnaethant weithio ar y cyd ac ennill, gan atgyfnerthu fy marn y gall ysgol fach ddarparu addysg ragorol ac ysbrydoli hyder. | | |
| 242 | 7.2.2. Ansawdd yr Addysg a'r Safonau yn y Ddwy Ysgol a Gynhwysir yn yr Ymgynghoriad mae Estyn yn adrodd am Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. O ran Ysgol Sarn Bach "Yn ogystal, nodwyd bod yr ysgol wedi elwa o arweinyddiaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles y disgybl."<br>Mae defnydd dethol o ddyfyniadau o adroddiadau Estyn yn rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch. Dim cydnabyddiaeth o'r arweinyddiaeth yn Ysgol Abersoch lle mewn gwirionedd nododd Adroddiad Ysgol Abersoch Estyn 2017, t8: "Ers cael ei phenodi, mae'r athro â gofal, gyda chefnogaeth a chyfraniad | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r Awdurdod wedi cynnwys barn Estyn ar y pum maes arolygu yn gwbl agored a thryloyw yn y ddogfen ymgynghori:<br><br>Crynodeb o adroddiadau Estyn: |

<table>
<tr><td></td><td>medrus y llywodraethwyr, wedi dechrau gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol. O fewn cyfnod byr, mae hi wedi gweithredu strategaethau cadarn ac wedi llwyddo i greu ethos o waith tîm ymhlith y staff. Mae hi wedi dechrau rhoi prosesau cadarn ar waith sy'n seiliedig ar godi safonau ... ".</td><td></td><td rowspan="2"><table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Blwyddyn yr archwiliad</th><th>Pa mor dda yw’r deilliannau?</th><th>Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?</th><th>Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a rheolaeth?</th></tr>
<tr><td>Abersoch</td><td>Mehefin 2017</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
</table>
* (Noder fod Estyn wedi cyflwyno 5 maes i’w harchwilio erbyn Hydref 2017).
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Blwyddyn yr archwiliad</th><th>Safonau</th><th>Lles ac agweddau at ddysgu</th><th>Addysgu a phrofiadau dysgu</th><th>Gofal, cymorth ac arweiniad</th><th>Arweinyddiaeth a rheolaeth</th></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>Hydref 2017</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td><td>Da</td></tr>
</table>
Wrth gynnal asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu Estyn, yng nghyd-destun ‘Arweinyddiaeth a Rheolaeth’ mae’r Awdurdod yn nodi mai niwtral fyddai’r effaith tebygol o weithredu’r cynnig, yn sgil y ffaith fod Estyn wedi dyfarnu safon yr arweinyddiaeth yn Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach gystal â’i gilydd’.
Mae’r Awdurdod yn anghytuno gyda’r sylw am y defnydd o’r gair effaith ‘tebygol’ wrth ystyried y cynnig ar bum maes arolygu Estyn a’r sylw ei fod yn gamarweiniol yn erbyn Ysgol Abersoch. O gynnal yr asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu Estyn deuir i’r casgliad y byddai 5 allan o’r 7 maen prawf yn cael effaith tebygol niwtral, gyda 2 allan o’r 7 yn cael effaith tebygol positif. </td></tr>
<tr><td>243</td><td>7.2.2. Ansawdd yr Addysg a'r Safonau yn y Ddwy Ysgol a Gynhwysir yn yr Ymgynghoriad<br>“Mae'r tabl isod yn dangos effaith debygol y cynnig ar bum maes arolygu Estyn perthnasol.”<br>Mae'r rhain yn bethau positif “posibl” yn fwy cywir yn hytrach na rhai cadarnhaol tebygol. Unwaith eto, yn gamarweiniol yn erbyn Ysgol Abersoch. Gweler isod ddwy res.</td><td></td></tr>
<tr><td>244</td><td>“Yn seiliedig ar gasgliadau'r asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach o'r un lefel ag ansawdd yr addysg yn Ysgol Abersoch." "Mae'r ysgol amgen yn cynnig addysg o safon gyfartal o leiaf, .."<br>Trwy ddefnyddio'r term "o leiaf", a ydych chi'n awgrymu bod Ysgol Sarn Bach yn cynnig safon addysg well? Mae maint y dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach yn fwy ac yn ddiofyn mae hyn yn golygu llai o sylw unigol, ac, mewn rhai dosbarthiadau, mae plant Ysgol Sarn Bach yn cael eu haddysgu gan gymhorthydd dysgu yn unig ar 2 ddiwrnod yr wythnos.<br>Eglurwch ar ba sail rydych chi'n gwneud y datganiad hwn.</td><td></td><td>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw.<br><br>Mewn ymateb i’r sylwadau, dymuna’r Cyngor nodi yr addysgir disgyblion Ysgol Abersoch mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed). Mae’r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran. (Medi 2020)<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gael maint dosbarthiadau addas, gyda dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r plant yn mynychu gwersi nofio trwy gydol y flwyddyn gydag Ysgol Abersoch, a bydd yn niweidiol i'r plant golli hyn gan mai ein hethos yw "bydd pob plentyn sy'n mynychu Ysgol Abersoch tan Flwyddyn 3 yn gadael yr ysgol yn gallu nofio". | | Byddai gwireddu'r cynnig yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol.<br><br>Mewn ymateb i'r sylwad am sefyllfa staffio Ysgol Sarn Bach, dymuna'r Cyngor nodi mai mater i Gorff Llywodraethol ysgol unigol ydi penderfynu ar ei strwythur staffio mwyaf addas. Pe byddai nifer disgyblion yn cynyddu gall Ysgol Sarn Bach benderfynu addasu'r strwythur staffio i gynnwys mwy o athrawon. Ni all y Cyngor rhagweld penderfyniad y Corff Llywodraethol ac o ganlyniad ni fyddai'n briodol amlygu lefelau staffio posib i'r dyfodol.<br><br>Pe byddai'r nifer disgyblion yn cynyddu tu hwnt i'r canllawiau statudol byddai'n rhaid i'r ysgol newid y strwythur staffio.<br><br>Mae nifer helaeth o ysgolion yn gwneud defnydd o uwch gymorthyddion er mwyn darparu amser i di gyswllt i athrawon dosbarth gynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r gwaith a fydd yn cael ei gyflwyno wedi ei baratoi gan yr athro neu athrawes dosbarth o flaen llaw a gan amlaf yn barhad o'r hyn y mae'r athro neu athrawes ddosbarth wedi ei gyflwyno o flaen llaw.<br><br>Mae'r dyraniad ychwanegol a dderbynnir gan Ysgol Abersoch yn sgil niferoedd isel o blant yn sicrhau lefelau staffio uwch na'r hyn a dderbynnir mewn ysgolion sydd y tu allan i'r gwarchodaeth yma. Nid yw Ysgol Sarn Bach yn derbyn lefel uchel o warchodaeth ac o ganlyniad maent yn wynebu her i gynnal lefelau staffio cyffelyb ac Ysgol Abersoch. Fodd bynnag gwelir o arolwg Estyn o Ysgol Sarn Bach yn 2017 nad yw hyn yn effeithio ar ansawdd profiadau dysgu'r plant a bod y dysgu ac addysgu ac ansawdd profiadau dysgu'r plant. |
| 245 | Nid oes unrhyw sail i'r datganiad "byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith gadarnhaol" ac mae'n oddrychol iawn. Dim ond newydd ddechrau oedd y pennaeth newydd yn Ysgol Abersoch pan gynhaliwyd adolygiad Estyn. Mae natur y datganiad hwn yn gogwyddo'n amhriodol yn erbyn Ysgol Abersoch. Newidiwyd cynllun yr adroddiad rhwng y ddau arolygiad yn 2017, gydag Ysgol Abersoch yn adrodd dim ond ar "les" ac Ysgol Sarn Bach yn cael ei hasesu ar "les ac agweddau at ddysgu". Mae'r testun ar gyfer y ddwy ysgol yn debyg iawn. Efallai bod y gwahaniaeth o ganlyniad i gyfraddau presenoldeb; yn ôl natur, mae ysgol fach yn fwy sensitif i gyfraddau presenoldeb lle mae pob plentyn yn cyfrif. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r sylw am gyhoeddi data perfformiad ysgolion unigol, yn 2018 bu i Lywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau sylweddol i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon, bellach nid oes cyhoeddi data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, lefel yr Awdurdod Lleol na chonsortia. Felly y tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaledd cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodol ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae cyfraddau presenoldeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn gyson uchel, hyd yn oed yn fwy trawiadol o ystyried bod yr ysgol mewn lleoliad tymhorol lle mae'n ofynnol i rieni weithio yn ystod gwyliau ysgol (2018-2019 = 96.3%, 2017-2018 = 94.2%). Ysgol Abersoch: "Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os oes unrhyw beth yn eu poeni. Maent yn trin ei gilydd gyda gofal a pharch ac yn cynnig cefnogaeth i'w cyd-ddisgyblion yn ddigymell mewn gwersi neu mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn aros ar dasg am gyfnodau penodol. Trwy fod yn ymwybodol o'u targedau, mae llawer yn gwybod pa mor dda y maent yn perfformio a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.<br>Yn gyffredinol, mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n iach. Maent yn cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol, ac mae llawer yn mwynhau cyfrifoldebau ysgwyddo, er enghraifft wrth ffonio ysgol gyfagos i archebu cinio bob dydd. Mae cyngor yr ysgol, y 'Sgwad Syniadau', yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau. Mae wedi dechrau gweithredu yn yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer y rhai mewn angen. Mae'r aelodau'n deall eu cyfrifoldeb i gefnogi eraill wrth godi arian at elusennau, fel Taith Gerdded Mike Peters a Phlant Mewn Angen. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad da o gyfrifoldeb cymdeithasol. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda" Ysgol Sarn Bach: "Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn siarad yn hyderus am ba fwydydd sy'n iach neu'n llai iach iddynt, a pha fwydydd sy'n cael effaith niweidiol ar eu dannedd. Mae gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o'r angen i gadw'n iach trwy yfed dŵr, bwyta'n gall, a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol i sicrhau eu ffitrwydd. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gymryd rhan mewn gymnasteg a nofio yn y ganolfan hamdden, sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn cystadlaethau. Mae cyfleoedd i fynd ar ymweliadau preswyl, er enghraifft â Phlas Menai, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu eu sgiliau ffitrwydd a chymdeithasol. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr â pharch. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn ofalgar iawn tuag at y disgyblion ieuengaf; er | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud. 99 | enghraifft, mae'r 'ffrindiau ffyddlon' yn sicrhau bod y disgyblion ieuengaf yn ddiogel ac yn hapus ar y bws nofio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae disgyblion yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd gwerthfawr i fynegi barn ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu trwy ddewis thema'r tymor. Bob wythnos, mae disgyblion yn mynegi eu barn ar y gweithgareddau yr hoffent eu gwneud nesaf o fewn y thema. Agweddau mwyafrif y disgyblion tuag at ddysgu yw un o gryfderau'r ysgol. Mae bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau. Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol trwy dderbyn cefnogaeth gan eu cyfoedion cyn gofyn am gefnogaeth gan oedolyn. Mae hyn yn datblygu eu sgiliau annibynnol ac yn eu paratoi i fod yn oedolion cymwynasgar. O oedran ifanc, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn egluro cod marcio'r ysgol yn glir ac yn deall sut mae hyn yn eu helpu i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. "<br>7**.5 Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 7.5.1. Effaith ar Reolaeth ac Arweinyddiaeth Gall ysgolion sydd â niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm trwy sefydlu timau rheoli canolog ac arweinwyr pwnc a chwricwlwm.**<br>A yw pethau'n debygol o newid yn Ysgol Sarn Bach ar yr adeg hon os yn cau Ysgol Abersoch? Annhebygol, mae hwn yn bwynt dadleuol.<br>Mae Ysgol Abersoch yn cynnig prosiectau cymunedol sydd wedi'u cyfoethogi'n gymdeithasol yn ddyddiol bob wythnos. Mae'r plant yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio â phob grŵp oedran yn y gymuned ac fe'u hanogwyd i feddwl y tu allan i'r bocs. Dylid egluro anfanteision y golled hon o brofiadau cyfoethog. Er ein bod yn cydnabod nad yw Cymru yn cymharu ysgolion mewn tablau cyngrair, gofynnwn yn ymateb Cyngor Gwynedd am ganlyniadau ar gyfer pob ysgol o ran cyflawni dangosyddion CA D5 + ar gyfer pob ysgol (Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Foel Gron) ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf. Nid ydym yn credu bod rheswm dilys pam na fyddai Cyngor Gwynedd yn cyflawni'r cais hwn. | | |
| 246 | Teimlir y dirmygir yr addysg a geir yn Ysgol Aber-soch yn 'Llesiant ac Agweddau Dysgu' Tabl Pum Maes Arolygu Estyn wrth ddweud "...deuir i'r casgliad y byddai | | Yn y tabl Pum Maes Arolygu Estyn y cyfeirir ato, yr hyn a wna'r Awdurdod yw dwyn cymhariaeth rhwng sylwadau a barn ESTYN ar Ysgol Abersoch a'r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach. Gan mai 'digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' gan Estyn ar gyfer Ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | addysgu'r plant yn YSB yn cael effaith bositif". Pwysleisir y gall plant Aber-soch "addysgu'n annibynnol" hefyd. | | Abersoch yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod canlyniad Ysgol Sarn Bach yn yr un maes yn 'dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon Estyn hyn, felly, deuir i'r casgliad y byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith gadarnhaol yng nghyd-destyn 'Lles'. |
| 247 | Gwireddir Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, sef:<br>*"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu bod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."* | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Yn anffodus, o ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:<br>i. Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.<br>ii. Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>iii. Mae rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023<br>iv. Dengys data 2020 fod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.<br>v. Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582.<br>vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £4,198<br>vii. Nifer o lefydd gweigion – 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer) |
| 248 | Ansawdd yr Addysg<br>Ymddengys bod adroddiad yr Ymgynghoriad yn ddethol yn ei ddewis o gynnwys a geiriad, gan amlygu buddion Ysgol Sarn Bach ond, eto'n eithrio rhai Ysgol Abersoch. Er enghraifft, penodwyd pennaeth Ysgol Abersoch, Linda Jones yn Gydlynydd Clwstwr Siarter Iaith i gefnogi'r Sector Uwchradd ond eto ni chydnabyddir dim o hyn. Awgryma hyn bod mwy i'w ennill nac o'i golli o gau Ysgol Abersoch. Buasai'r mwyafrif o bobl yn ystyried meintiau dosbarthiadau llai yn gyfle atyniadol â chanlyniadau addysgol gwell. Mae'n syndod y rhodda'r Adran Addysg fwy o bwyslais ar agweddau cymdeithasol dosbarthiadau mwy | | Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl ddi-duedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynwyd fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ym mis Ionawr 2021.<br><br>Mewn perthnasedd i'r sylwad am rôl y Cydlynydd Clwstwr, bu i'r Awdurdod wahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer y rôl ar draws Gwynedd, ac yn sgil hynny, ceir 13 Cydlynydd Clwstwr yn y sir, sef un i bob dalgylch. O ystyried hyn, nid yw'r Awdurdod o'r farn fod y rôl yn benodol berthnasol yng nghyd-destun creu mantais nac anfantais i Ysgol Abersoch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dros ganlyniadau addysgol gwell. Ni theimlwn yr ysgrifennwyd yr adroddiad mewn modd a rodda chwarae teg cyfartal i Ysgol Abersoch. | | |
| 249 | Cyfeiriai adroddiad yr Adran Addysg a'r drafodaeth Cabinet mai'r 'unig ffordd i sicrhau lleihad yn yr ardrawiad negyddol posibl yw trwy leihau'r cyfnodau pan fo rhaid i blant drosglwyddo yn ystod eu gyrfa addysgol yn y lle cyntaf'. Felly, a fydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â chau ysgolion babanod eraill sydd angen trosglwyddo yn ystod eu haddysgu cynradd yng Ngwynedd, e.e. Ysgol Morfa Nefyn? (Adran 6.6.8 a 6.6.12) | | Cred y Cyngor fod symud ysgol neu bontio o un ysgol i'r llall ar unrhyw amser mewn gyrfa addysgol yn gallu arwain at darfu ar gynnydd rhai plant wrth iddynt gynefino mewn ysgol ac amgylchedd newydd ac yn ogystal gall danseilio gwydnwch rhai disgyblion.<br><br>Gan fod sefyllfa Ysgol Abersoch yn gymharol unigryw o ran pryd mae'r plant yn symud, prin yw'r dystiolaeth i brofi neu ddad-brofi'r rhagdybiaeth hwn ar gyfer pontio ar ddiwedd blwyddyn 3. Fodd bynnag ceir tystiolaeth o ffynonellau eraill, lle y cyfeirir at bontio cynradd / uwchradd arferol, megis adroddiad ddiweddar Estyn (*Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion Gorffennaf 2020)* lle nodi'r *"*Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch."<br><br>Drwy leihau'r nifer o weithiau y bydd plant yn pontio cred y Cyngor y bydd llai o siawns i'r plant ddioddef gofid emosiynol, gostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu.<br><br>Mae cysondeb a chyd gynllunio'n allweddol ar gyfer pontio effeithiol.<br><br>Nid yw pryd y mae'r plant yn pontio i ysgol arall yr unig ffactor i'w hystyried wrth geisio lleihau'r effaith. Cred y Cyngor mae'r unig ffordd o sicrhau lleihad effeithiau negyddol posib pontio yw drwy leihau'r cyfnodau lle mae'n rhaid i blant bontio yn ystod ei gyrfa addysgol yn y lle cyntaf. |
| 250 | Ymhellach, nid oes dim tystiolaeth i gefnogi y bydd y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Sarn Bach yn well, pan ddatgana adroddiad Estyn nad oes gwahaniaeth rhwng y ddau osodiad. Felly, mae'n amheus os daethpwyd i benderfyniad ar y ffeithiau llawn neu dim ond y rhai y dymunai'r Adran Addysg eu pwysleisio o ran Ysgol Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl ddi-duedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynwyd fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn Ionawr 2021.<br><br>Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad |
| 251 | A allwch chi egluro i mi pam bod y Cyngor yn credu y byddai'n cryfhau addysg yr ardal yn y dyfodol? Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r honiad hwn? Mae gen i ddiddordeb hefyd yn yr hyn y mae'r Undebau Addysgu yn ei feddwl am ddatganiadau o'r fath, a ydych chi felly'n awgrymu y bydd fy mhlentyn yn cael gwell addysg a addysgir gan Gymhorthydd Dosbarth hytrach nag Athro | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymwysedig Llawn? Nid oes gennyf unrhyw amheuon ynghylch Rhinweddau Cymhorthyddion Dosbarth, fodd bynnag, mae'n ymddangos eich bod yn tanseilio pwysigrwydd rhywun â lefel 8 yn hytrach na thystysgrif lefel 4. | | yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o’r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o’r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Byddai gwireddu’r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a’i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau’r awdurdod. Manylwyd ymhellach ar ansawdd a safonau addysg yn Adran 7.2 o’r ddogfen ymgynghori a gweler yr asesiad llawn o’r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. |
| 252 | Mae'r annigonolrwydd a welaf [yn yr adroddiad] fel a ganlyn:<br><br>Mae Ysgol Abersoch yn ysgol ragorol, mae ansawdd yr addysg o safon uchel iawn, mewn gwirionedd yn eithriadol, mae'r plant yn ymgysylltu â'i gilydd, eu hathrawon a'r gymuned. Yn ddiweddar, aeth fy mab ar ei unig drip ysgol i’r traeth, yr un traeth pan oedd yn Ysgol Abersoch yr ymwelodd ag ef sawl gwaith yr wythnos i gymryd rhan yn ei ddysgu awyr agored bob dydd. Felly, mae Sarn Bach yn cynnig llai o gyfleoedd o ran teithiau awyr agored ac ymgysylltu yn y gymuned. Yn ddiweddar, aeth plant Ysgol Abersoch i Fferm Gwnigod yng Ngricieth, gan dynnu sylw at y gwahaniaethau o ddydd i ddydd yn y ddwy ysgol gan eich bod mor aml wedi cymharu a chyferbynnu. Teimlaf eich bod yn parhau i gyfeirio'n ôl at adroddiad Estyn nad yw wedi cael cyfle i gael ei ddiweddaru oherwydd Pandemig Covid. Felly, dim ond ar ganlyniadau profion plant sy'n mynd yn ôl tair blynedd y gallwch chi seilio'ch tystiolaeth, fodd bynnag, nid ydych chi wedi gwneud hyn. Efallai dyliech eu cymharu a'u cyferbynnu ag Ysgol Sarn Bach, gan fod cynnydd addysgol yn sicr yn flaenoriaeth. | | |

| Ch | Yr Iaith Gymraeg | | |
|---|---|---|---|
| 253 | Ydi aelodau Plaid Cymru yn barod i droi cefn ar y gymuned hon? Dylai'r penderfyniad fod ar gydwybod aelodau'r Cabinet o ran yr iaith a diwylliant ein cymunedau – hoelen olaf yn arch Cymreictod Aber-soch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon ynglŷn â'r effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn. |
| 254 | Deil yr Aelodau'n unfrydol y dylid cadw'r ysgol ar agor er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach yn Aber-soch a buasai'n hwb at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o bobl yn siarad yr iaith erbyn 2050. | | |
| 255 | Hwb bwysig i'r iaith Gymraeg | | |
| 256 | Mae hi'n hwb i'r iaith Gymraeg yn Abersoch, lle mae gwir ei hangen. | | |
| 257 | Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050 – buasai ei chadw ar agor yn hwb sylweddol at hynny trwy godi ymwybyddiaeth mewnfudwyr ac ymwelwyr o fodolaeth yr iaith. | | |
| 258 | Rydym yn syfrdan bod Cyngor Gwynedd yn troi ei gefn ar y canolbwynt Cymraeg hwn sy'n hwb gwych iddo a chymuned leol Abersoch. | | |
| 259 | Mae hefyd yn hybu'r iaith a diwylliant Cymraeg ac yn darparu sylfaen ragorol i ddatblygiad addysgol y plant. Mynychodd fy nau blentyn Ysgol Abersoch a dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac wedi tyfu i fod yn oedolion llwyddiannus â sail dda gydag atgofion melys o Ysgol Abersoch a phopeth sydd ganddi i gynnig | | |
| 260 | Bydd yr effaith ar a cholled i'r iaith Gymraeg yn anamnewidiadwy. | 2 | |
| 261 | Mae gan yr ysgol unigryw hon hanes hir arbennig ac at hynny ... yn hyrwyddo a thrysori'r iaith Gymraeg a'i diwylliant , | | |
| 262 | Mae hi'n esiampl o arfer da mewn ysgol bentref sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. | | |
| 263 | Dal heb ddilyn hyn i fyny a'i amylgu'n gadarnhaol . * effaith ar yr iaith Gymraeg heb ei hasesu'n llawn | | |
| 264 | Effaith cymdeithasol - Mae hon yn ardal lle mae gennyf brofiad personol ohoni. Mae gen i ffrind sydd gan blant sy'n mynychu'r ysgol. Pan symudais yma bûm yn siarad â hi am ddysgu Cymraeg. Roedd hyn yn bwysig iawn i ni gan ein bod yn awyddus iawn i gefnogi'r iaith Gymraeg ac am ein bod yn disgwyl ein ŵyr cyntaf teimlem yr hanfod i ddysgu hyd yn oed fwy. Pan ddechreuom y gwersi yn neuadd bentref Abersoch roeddem yn aml yn clywed y plant yn y cyntedd. Roeddem yn caru eu clywed yn siarad Cymraeg a dechreuom geisio adnabod ambell air. Wrth i'n dysgu ddod yn ei flaen roeddem yn medru cynnal sgwrs â'r plant. Roedd hyn yn werth chweil ar y ddwy ochr. Cynyddodd ein hyder a dwi'n teimlo bod y plant hefyd wedi elwa rhywbeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 265 | Mae ysgolion bychain yn fwy llwyddiannus o safbwynt y Gymraeg, gan y trochir y disgyblion ynddi'n ddyddiol… | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon ynglŷn â'r effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn. |
| 266 | Os yw'r ysgol ar gau a bod disgyblion yn symud i Sarn Bach eu haddysg Gymraeg yn parhau ond bydd Abersoch yn colli cyfleuster hanfodol mewn ysgol leol i rwymo'r pentref gyda'i gilydd, bydd llai o Gymraeg yn cael ei siarad a bydd y gymuned yn dioddef. | | |
| 267 | O gau Ysgol Aber-soch, gyrrir unrhyw deulu ifanc (sy'n siarad yr iaith) oddi yma ac atalir unrhyw un arall (a chymryd y gallent ei fforddio) rhag symud yma. | | |
| 268 | Mae Abersoch yn adnabyddus yn lleol ac yn genedlaethol am fod yn ardal sydd dan bwysau eithriadol yn sgil prisiau tai uchel a pherchnogaeth ail gartref, fforddiadwyaeth tai, twristiaeth ddwys a'r effaith y mae'r rhain yn eu cael ar ein hiaith a diwylliant Cymraeg. | | |
| 269 | Mae'r Ysgol yn gwneud gwaith rhagorol yn helpu'r plant I gael hanes a diwylliant y pentra a hybu y iaith Gymraeg i'r plant.<br>Mae y plant sydd yn dod o deuluoedd ddi-gymraeg wedi dysgu y iaith yn rhugl ac mae ei rhieni yn falch iawn o hynnu. | | |
| 270 | Teimlaf yn freintiedig iawn i fod yn berchen ar eiddo yn y pentref gan fod fy nghariad tuag at Abersoch yn ymestyn dros 62 o flynyddoedd ac mae'r gymuned leol wastad wedi rhoi croeso mawr i mi ac wedi gwneud i mi deimlo'n rhan ohoni. Dros y blynyddoedd diwethaf dwi wedi gweld â fy llygaid fy hun yr ysgol leol yn defnyddio'r traeth a harddwch naturiol eu hamgylchedd i wella addysg y plant, yn annog busnesau lleol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith papur a hysbysebion, a dysgu twristiaid i ddysgu'r iaith er mwyn iddyn nhw fedru parchu'r pentref a'r gymuned. | | |
| 271 | Mae angen i Gyngor Gwynedd fynd ati o ddifri i ymateb i'r argyfwng sydd yn bygwth ein cymunedau o ganlyniad i'r galw am ail gartrefi, mae cau ysgolion yn un canlyniad i'r broblem yma.<br>Mae'r penderfyniad i gau'r ysgol yn ergyd sylweddol i'r iaith gymraeg yn y pentref, roedd yr ysgol yn cynnig gobaith, cenhedlaeth newydd o siaradwyr cymraeg. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, dymuna'r Cyngor nodi nad oes ganddo reolaeth dros y farchnad dai agored. |
| 272 | Dyma fydd diwedd bywyd y pentref, a diwedd ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Mae hon yn ysgol arbennig a ddylid ei dathlu a'i hefelychu, nid ei chau. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn |
| 273 | Allwch chi ddim ail-feddwl a cheisio hybu yr ysgol, ei ethos glud, unigryw i deuluoedd eraill yr ardal? Mae Abersoch yn hen ddigon Saesnigaidd fel ag y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mai ac wrth gau ysgol Gymraeg y pentref, dyna fydd diwedd tyfiant yr iaith yn Abersoch!<br>Fel person sydd wedi tyfu i fyny yn yr ardal mae gweld y dirywiad yn yr iaith ym mhentref Abersoch yn dorcalonus a bydd eich dewis o gau yr unig hwb bositif i hybu'r iaith trwy y plant yn y gymuned yn gam enfawr ar eich rhan. | | Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn. |
| 274 | Fel cyn-ddisgybl, a mab bedydd i gyn-Brifathrawes, ŵyr i lywodraethwr y gorffennol, mae hi wedi chwarae rhan allweddol yn fy mywyd ac wedi distyllu fy niwylliant Cymraeg i galon fy modolaeth. Plîs peidiwch â dwyn y synnwyr hyn o falchder a lwc dda oddi ar cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Defnyddiwch hyn fel modd o foderneiddio addysg yng nghalon yr iaith a diwylliant yn hytrach na rhoi diwedd arni. | | |
| 275 | Mae Ysgol Abersoch yn symbol hanfodol o ddiwylliant a threftadaeth Gymreig yng nghanol ein pentref, sy'n chwarae rhan mor bwysig wrth hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg.<br>Mae croeso i blant o bob cefndir ddod i'r ysgol gyda breichiau agored ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, gan ddatblygu ymdeimlad o le a chymuned sy'n para am oes, ynghyd â rhodd werthfawr y iaith Gymraeg. | | |
| 276 | ...Abersoch/unrhyw bentref arall heb ysgol ddim yn denu Cymru ifanc i fyw yno, a chaniatáu y gallent fforddio tŷ yno. Hyn yn arwain at fwy o fewnfudwyr cyfoethog, ac yn y pendraw, tranc yr iaith yn Abersoch.<br>....Byddai colli'r cnewyllyn cryf o Gymreictod ifanc yn drasedi, gan adael dim ond y tô hŷn y siarad Cymraeg, a hynny am ba hyd.......? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon ynglŷn â'r effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. |
| 277 | Ysgrifennaf atoch mewn gwrthgwynebiad i'r cynlluniadau i gau Ysgol Abersoch. Drwy gau'r ysgol, fyddwch chi yn sicrhau marwolaeth yr Iaith Gymraeg, a unrhyw obaith o sefydlu cymuned ifanc yn Abersoch. Rwyf yn erfyn arnoch i atal hyn rhag ddigwydd. | | |
| 278 | Pam fyddech chi'n ystyried cau ysgol a fydd yn effeithio ar y Gymraeg mewn cymuned. | | |
| 279 | Mae Abersoch yn brysur yn cael ei seisneigio a mae tynnu adnodd pwysig yma yn saff o gael effaith ar yr iaith gymraeg.<br>Mae aelod o fy staff i wedi symyd o Blackburn i ardal Abersoch a wedi rhoi y plant saesneg yn Ysgol Abersoch ac ar ol tri mis mae'r plant bellach yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfathrebu yn ddwy ieithog yn ddi drafferth. Mae un rhiant yn gymraeg yn barod ar llall yn brysur ddysgu y Gymraeg. Enghraifft dda fod yr Ysgol ac addysg yn bwysig Gobeithio neith y Cyngor ail gysidro y penderfyniad a disgwyl i weld am gyfnod pellach beth fydd effaith tai newydd Penrhos ar y gofyn ar pwysau fydd am addysg yn lleol. | | Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn. |
| 280 | Dwi'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch. Pan adeiladwyd yr ysgol, noddodd fy nhaid, Frank Minoprio, goed i godi'r adeilad, ac mae gan fy nheulu gysylltiadau agos â'r pentref a'i phobl. Siawns bod rhywbeth y gellir ei wneud i achub yr ysgol, yn enwedig a hithau'n ysgol Gymraeg. Y mae'n drist iawn i ddarllen bod yr iaith yn marw. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon ynglŷn â'r effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn. |
| 281 | Roedd gan y teuluoedd a roddodd y tir ac adeiladu'r ysgol (i hyrwyddo addysg yn y pentref) yn ôl yn y 1920'au weledigaeth ac roeddent yn fodlon buddsoddi yn y dyfodol. Mae Polisi Iaith Cyngor Gwynedd fod yn rymus a chadarn – ac yn yr achos yma yn Ysgol Aber-soch a'r gymuned ehangach – mae gwir angen ei ddefnyddio, gan mai iaith a diwylliant sy'n greiddiol i'w hachub. | | |
| 282 | Mae'n bryder gen i, gyda'r holl ffocws & phwyslais ar yr iaith Gymraeg ym Mhenllyn & Gogledd Cymru yn gyffredinol, y byddwch yn dewis cau ffynhonnell mor bwysig o gymuned leol & iaith.<br>Heb yr ysgol hon, ni fydd Abersoch yn ddim mwy na phentref twristiaid - estyniad o faes carafanau'r Warren.<br>GYDA'r ysgol hon, bydd Abersoch yn dal i'w gwreiddiau. Ei Diwylliant Cymraeg. Ei iaith Gymraeg & yn bwysicach, ei ddyfodol Cymraeg.<br>Mae dyfodol ein plant yn gobeithio medru byw a gweithio lle y'i magwyd. I fyw & siarad yr iaith Gymraeg a sicrhau ei pharhad yn y pentref bychan hwn ymhell ar ôl ein cenhedlaeth ni…<br>Mae Ysgol Abersoch yn anadlu bywyd i fywydau pawb a gallai, gyda'r cyfle iawn, dyfu a ffynnu. Unwaith y bydd wedi diflannu ni fydd modd ei ddisodli & eto y mae cynlluniau ar y gweill i helpu ddenu teuluoedd lleol yn ôl i'r pentref gyda thai cymdeithasol & fforddiadwy... dewch i ni feddwl y tu hwnt i'r bocs & ymlaen tua'r dyfodol, lle gellir clywed yr iaith Gymraeg ar y strydoedd & yn y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | siopau & ar y traeth. Efallai ei fod yn fwy costus ar hyn o bryd ond mewn ychydig flynyddoedd bydd hyn oll werth bob ceiniog. | | |
| 283 | Mae ein prif athrawes ynghyd â'i staff a chymhorthyddion yn allweddol wrth annog goroesiad yr iaith Gymraeg lafar. Mae hi ei hun ynghyd â'r plant yn aml i'w gweld yn cerdded o amgylch y pentref ac yn mynd mewn i'r siopau gyda phosteri wedi'w gwneud â llaw neu wedi'w paentio i'w gosod yn y ffenestri gyda chystadlaethau neu geiriau Cymraeg hawdd i annog perchnogion siopau ac ymwelwyr i siarad Cymraeg. | | |
| 284 | Gallaf ganlyn nad yw'r awdurdodau wir yn poeni am yr iaith Gymraeg na'i diwylliant na chymuned os ydyn nhw'n parhau i orfodi cau calon y pentref. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Ein disgwyliad yw bod ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion ni waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. |
| 285 | Mae effaith difrifol am fod ar y ddiwylliant ar Iaith Cymraeg wrth cau yr ysgol a ac er fod yna effaith cyllidol ar hyn o brud does dim mesur or colled yma mewn ardal sydd ai iaith ai ddiwylliant od dan ffasiwn her ac be fydd y costau I unrhyw syniad neu project I ymateb I achub yr iaith ar diwylliant yma – berig fydd arbed wrth gau a gwario mwy ar materion llawer llai effeithiol yn y dyfodol. | | |
| 286 | 7.2. Mentrau ac Effaith ar yr Iaith Gymraeg<br>Gwesteia Ysgol Abersoch nifer o fentrau sy'n hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg, gan gynnwys Yr Urdd, gweithgareddau Hunaniaith, yn ogystal â bod yn rhan o'r cynllun 'Shwmae S'mae'. O fynd â'r iaith i'n cymuned leol ac at fusnesion cymaint fu'r llwyddiant hwn fel y dangosa nifer o'r siopau arwyddion dwyieithog erbyn hyn. Datgana Adran 7.9 y ddogfen ymgynghori, "Deuir i gasgliad...na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu." Fodd bynnag, mae colli'r hyrwyddiad a defnydd o'r iaith trwy berthynas â'r gymuned a busnes yn sylweddol. | | |
| 287 | Mae Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050 yn strategaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru. Pam nad oes cyfeiriad at hyn ac effaith cau'r ysgol y strategaeth hon? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori "Mae unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag ad-drefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bu i'r Awdurdod gynnig yr Asesiadau Effaith a chanfod barn rhanddeiliad ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach eleni.<br><br>O safbwynt yr asesiad effaith ar yr iaith derbyniwyd sylwad oedd yn cwestiynau pam nad oedd cyfeiriad i'r strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050. O ganlyniad bu i'r wybodaeth a'r manylion hynny gael eu cynnwys yn y fersiwn diweddaraf o'r asesiad effaith ieithyddol diweddaraf (Mai 2021) [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) |
| 288 | 7.9 Yr Iaith Gymraeg "Deuir i'r casgliad yn yr asesiad hwn na ragwelir unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg, pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu." A 3. EFFAITH AR YR IAITH 3.1 Opsiynnau Pecyn cefndir t211<br>Asesu effaith ieithyddol cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o gymharu â'r sefyllfa bresennol.<br>Defnyddio Cymraeg yn y gymuned. Mae hwn yn ddatganiad niwtral sydd, yn ein barn ni, yn effaith negyddol gref. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn ymwneud yn helaeth â hyrwyddo'r iaith ac maent wedi'u hintegreiddio y tu allan i'r ysgol yn y gymuned Gymraeg leol o'i chymharu ag Ysgol Sarn Bach, nad ydynt yn mentro allan.<br>Mae mwy i hyn nag addysg Gymraeg. Mae'r asesiad hwn yn syml yn edrych ar yr ysgolion ac mae'n ymddangos bod y gymuned yn cael ei thrin ar wahân i'r ysgol. Sut mae'r effaith ar y Gymraeg yn y gymuned wedi'i hasesu? Mae Ysgol Abersoch yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn Abersoch, gyda chanlyniadau diriaethol (e.e. arweiniodd gweithredu at gyflwyno arwyddion dwyieithog mewn siopau).<br>At hynny, nid oes asesiad o effaith y Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi ar gefnogi a chryfhau'r Gymraeg a'i rôl wrth gyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Mae copi o'r asesiad ieithyddol ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Yn ogystal, noda'r asesiad effaith ar y gymuned y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Abersoch, ac nid yw'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi wedi ei gynnwys fel rhan o'r Asesiad Effaith Ieithyddol gan nad ydynt yn rhan o'r cynnig. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau o safbwynt y Cylch Meithrin gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch. |
| 289 | 2. PROFFIL LINGUISTIG ARDAL DALU ABERSOCH 2. 5 Ystadegau Siarter Iaith (Haf 2019)<br>Nid yw'r ystadegau a'r data hynny mor ddibynadwy, perthnasol na chynrychioliadol oherwydd y niferoedd bach dan sylw ac mae'r mwyaf diweddar yn flwydd oed + beth bynnag (Gwanwyn 2019, PLASC Ionawr 2020).<br>Rhowch dystiolaeth bod y sampl o blant a lenwodd yr holiadur hwn yn gynrychioliadol o ddemograffig yr ysgol gyfan. Pa grwpiau oedran yn Ysgol Llanbedrog a gwblhaodd yr holiadur hwn, a beth yw iaith eu cartref?<br>Adroddwyd ar gyfer Ysgol Llanbedrog (n = 9/102) bod 100% o blant sy'n siarad Cymraeg â'u hathrawon o gymharu ag Ysgol Abersoch (n = 6/10) a nododd 67% yn Ysgol Abersoch.<br>Mae plant Ysgol Abersoch yn grŵp iau (3-8 oed) ac (gan dybio bod canlyniadau PLASC 2020 yn dal yn wir) daw mwy o gartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg nag ysgolion eraill, felly nid yw'n syndod bod rhai o'r plant iau yn Ysgol Abersoch ond megis dysgu siarad Cymraeg. | | Mewn perthnasedd i'r sylwad am y sampl o blant ddaru gwblhau'r holiadur gwe iaith, gall yr Awdurdod gadarnhau mai sampl o blant Cyfnod Sylfaen ymhob un o'r ysgolion a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol, a hynny er mwyn sicrhau cymhariaeth deg ac ystyrlon ar draws yr ysgolion. Yn sgil niferoedd isel Ysgol Abersoch, cydnabyddir bod sampl y data yn fychan, fodd bynnag mae'r data yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynodd y disgyblion eu hunain yn yr holiadur yn nodi eu harferion o ran defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.<br><br>Er bod y disgyblion o'r un grŵp oedran ymhob un o'r ysgolion wedi cwblhau'r holiadur, nid yw'n annisgwyl bod data Ysgol Abersoch yn dangos mai o dan arweiniad athro neu gymhorthydd y mae'r disgyblion yn fwyaf hyderus i siarad Cymraeg, gan fod 67% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi di-Gymraeg, ac nad yw'r gyfundrefn addysg wedi cael cyfle digonol i'w trochi yn y Gymraeg er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau. |
| 290 | 3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG 3.1 Opsiynau Asesu effaith ieithyddol cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.<br>Gan fod disgyblion Ysgol Abersoch yn symud i fyny i Ysgol Sarn Bach beth bynnag, mae unrhyw effaith "bositif" eisoes yn cael eu profi pan fydd plant Ysgol Abersoch yn symud i fyny felly ni ddylai'r un o'r rhain fod yn "bositif" ond yn "niwtralau" ar y mwyaf. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 291 | 3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG 3.1 Opsiynau Asesu effaith ieithyddol cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | "Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol"<br>Pam mae “gweithgareddau Cyn / Ar ôl Ysgol” yn cael ei restru fel rhywbeth positif pan mae gan Ysgol Abersoch fwy o glybiau e.e. Clwb Garddio, clwb crefft Hunaniaith, Urdd Tudwal. Dylai hwn fod yn negyddol yn hytrach nag yn bositif ac eto'n dangos rhagfarn yn erbyn Ysgol Abersoch. | | |
| 292 | Adroddiad Effaith Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Abersoch<br>Y Gymraeg<br>Nid ydym yn credu bod y datganiad hwn o ddim effaith ar y Gymraeg yn ddilys. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu’r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae’r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw’r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai’r ddarpariaeth i’r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. |
| 293 | Mae dogfennau’r Ymgynghoriad yn cynnig nad effeithir ar yr iaith a’r gymuned yn ormodol o gau Ysgol Abersoch. Eto, nid yw natur yr ymarfer ‘ticio’r blwch’ hwn yn cynnwys mewnbwn gan y gymuned ac felly ni all ystyried y gwir effaith ar yr iaith a’r gymuned. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn llysgenhadon i ddyfodol yr iaith a’r diwylliant Cymraeg â’r capasiti i effeithio ar wir newid, fel y tystiolaetha eu llwyddiannau yn cynyddu arwyddion dwyieithog yn siopau’r pentref. Mae parhad y gymuned yn amlwg trwy deulu’r ysgol; mae’r Pennaeth, y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd, ynghyd â Llywodraethwyr a rhieni yn gyn-ddisgyblion. Profa hyn bwysigrwydd y cysylltiad gydol oes a geir mewn ysgol bentref fach ag unigolion yn fodlon camu i rolau amlwg yn y gymuned a chyfrannu a chryfhau’r edeifion cymdeithasol a ffurfia wneuthuriad cymuned.<br><br>Mae’r ysgol yn ffagl i’r iaith a diwylliant Cymreig, gan arddangos ein treftadaeth heddiw a sicrhau ei pherthnasedd yn y dyfodol | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o’r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a geir yn Atodiad C: Asesiadau o’r effaith ar y gymuned a’r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Yn ogystal, bu i’r Awdurdod gynnig yr Asesiadau Effaith a chanfod barn rhanddeiliad ar y cynnig o’r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach eleni.<br><br>Mae copi o’r asesiad ieithyddol diweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw’r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gwynedd, felly'r un fyddai’r ddarpariaeth i’r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy’n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Yn ogystal, noda’r asesiad effaith ar y gymuned y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau’r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a’r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, mae’r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle’n briodol. |
| 294 | mae’n linc arbennig i’r mewnfudwyr a’r bobl ddi-gymraeg sy’n byw ac yn rhedeg busnesau lleol yn y pentref, drwy eu hybu a’u hannog i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio’r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw |
| 295 | Pam na nodwyd canran siaradwyr Cymraeg Ysgol Aber-soch (PLASC 2020) fel tair ysgol arall y dalgylch? | | Mae’r data ieithyddol (PLASC 2020) ar gyfer Ysgol Abersoch a’r ysgolion cyfagos (Ysgol Foel Gron, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach) wedi eu nodi yn adran 2.3 a 2.4 o’r asesiad effaith ar yr iaith.<br><br>Mae dalgylch Ysgol Abersoch, o fewn ward Abersoch gyda dalgylch Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Foel Gron o fewn ward Llanengan a dalgylch Ysgol Llanbedrog o fewn ward Llanbedrog (Swyddfa Ystadegol Gwladol). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi eu crynhoi yn y tabl yn adran 2.2.1 yn yr asesiad effaith ar yr iaith. |
| 296 | Yn yr un modd, pam na nodwyd canrannau siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011) Ysgolion Llanbedrog a Foel Gron? | | |
| 297 | Mae cymharu nifer y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011) yn sicr o fod yn wahanol oherwydd prinder tai fforddiadwy i deuluoedd yn Aber-soch a daw mwyafrif plant Ysgol Sarn Bach o deuluoedd amaethyddol cynhenid. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |
| 298 | Gwerthuso Opsiynau - Teimlir nad ystyriwyd y rhain yn ddigon manwl, yn arbennig o ran y bygythiadau i’r gymuned a’r Gymraeg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 299 | Teimlir, hefyd, nad ystyrir cyfraniad ysgol at iaith yr ardal wrth ystyried ei dyfodol. | | Mae'r Awdurdod yn ystyried cau Ysgol Abersoch o ganlyniad i'r tuedd o niferoedd isel sydd wedi bod yn yr ysgol er rhai blynyddoedd. Ym mis Medi 2020, 10 o ddisgyblion oedd ar y gofrestr. Mae Cyngor Gwynedd wedi ystyried sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddisgyblion.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ac ieithyddol ar yr opsiynau er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddent yn ei gael ar y cymunedau dan sylw a'r iaith. Mae copi o'r adroddiadau llawn wedi ei gynnwys yn y pecyn cefndirol ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 300 | Hyfryd yw cael gweld y plant yn cymryd rhan yn y gwasanaethau – yn y ddau gapel – megis y Nadolig a'r Pasg dros y blynyddoedd. Ni fuasai hyn yn digwydd o symud y plant i Sarn Bach. Byddai'r pentref yn colli'r gweithgareddau, sy'n gwneud cyfraniad mor sylweddol at gadw'r Gymraeg yn fyw ym mhentref Aber-soch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |
| 301 | Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at sylwad a wnaed na fyddai cau Ysgol Abersoch yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg yn y gymuned fel y'i cymerir o Adran 7.9 o'r ddogfen ymgynghori "Deuir i'r casgliad ... na ragwelir, pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, y bydd unrhyw effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg. " Felly a yw hyn yn gwrth-ddweud ac yn awgrymu nad yw eich 'Siarter Iaith Gymraeg' yn cael unrhyw effaith mewn cymuned? Rwy'n gobeithio nad ydych chi'n awgrymu bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud er ymarfer blwch ticio yn unig, fedrwch chi roi tystiolaeth i gefnogi'ch hawliadau yn fwy manwl | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn ieithyddol, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.<br><br>Fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg. |
| 302 | mae cyfle yma i gael 'stori newydd da'. Mae gan Abersoch, er gwell neu'n waeth, broffil uchel yng Ngwynedd. Rydym yn gymuned nad yw heb ein heriau, yn ymdrechu i gadw ein 'Cymreictod' yn fyw, mae anawsterau gyda thai a chyfleoedd cyflogaeth drwy gydol y flwyddyn. Ac eto, fel pentref, mae'n dyrnu uwchlaw ei bwysau; mae dros 50 o siopau llewyrchus, sy'n darparu cyflogaeth ac incwm i'r Cyngor. Mae'r dyfodol yn ddisglair, gyda chynlluniau ar gyfer gwesty mawr ar y gweill â chyflogaeth bellach; mae ynni o fewn ein pentref i wthio ffiniau, gwella ein cynigion a gwneud hyn mewn ffordd sy'n arddangos diwylliant Cymru. Drwy feddwl yn synhwyrol, mae'r gost fach i gadw Ysgol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Abersoch ar agor yn rhoi'r gwelededd y mae'n ei haeddu i'r iaith a diwylliant Cymreig, yn hytrach na'i roi i'r don o seisnigeiddio. Mae cadw'r ysgol ar agor yn rhan hanfodol o hyn. | | Yn ogystal, noda'r asesiad effaith ar y gymuned y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |
| 303 | Teimlaf os nad oedd Ysgol Abersoch yn bresennol ac yn cymryd rôl actif yn y gymuned, buasai'r defnydd o'r iaith Gymraeg wedi diflannu yn gyfan gwbl o'r pentref erbyn hyn, ac mi fyddai ein diwylliant a hanes cyfoethog wedi cael ei golli. | | |
| 304 | Mae'r Asesiad Effaith yn cydnabod, er mor amharod, y gwirionedd hunan-amlwg y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned, ac yn benodol ar yr iaith Gymraeg. Ni ellir mesur yr effaith ar yr iaith o gyfyngu'r ymarferiad i ddadansddiad ystadegol o gyfrwng yr addysg, iaith gartre'r plant, a nifer y gweithgareddau ffurfiol. Mae'r llywodraethwyr yn tystio'n hytrach i effaith lawer mwy sylfaenol o ran ffurfio agweddau yn y gymuned leol, yn cynnwys mewnfudwyr, tuag at y Gymraeg a theimlo perchnogaeth arni gan weld yr iaith yng nghyd-destun y gymuned ble maent yn byw. | | |
| 305 | Fel cyn-ddisgybl a chyn-riant rwy'n ofni y bydd cau yr ysgol yn bygwth natur cymraeg y pentref. A yw'r cyngor wedi ystyried o ddifrif y goblygiadau ar ein cymuned a'r Gymraeg pe bai Ysgol Abersoch yn cau? Rwy'n byw ac yn gweithio yn y pentref, ac wedi gwneud ar hyd fy oes, ac nid wyf yn gwybod am unrhyw un y gofynnwyd iddynt am eu barn neu a ddarparwyd ffurflen i'w llenwi ar gyfer unrhyw asesiad effaith. | | Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Bu i'r Awdurdod gynnig yr Asesiadau Effaith a chanfod barn rhanddeiliad ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach eleni.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Fe nodwyd yn yr asesiad diweddaraf fod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi pwysleisio y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned leol.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 306 | Rydym wedi ein hymrwymo gan ymdeimlad cyffredin o dreftadaeth ac yn perthyn i'r lle arbennig hwn, ac mae ein hargyhoeddiad cryf fod Abersoch yn haeddu ysgol, ynghyd â phenderfyniad i beidio â cholli'r Gymraeg fel iaith fyw yng nghanol y pentref. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

<table>
<tr><th>D</th><th>Cylch meithrin a’r Cylch Ti a Fi</th><th></th><th></th></tr>
<tr><td>307</td><td>(Mae’r ysgol) yn gynaliadwy oherwydd bod yr ysgol yn adeiladu’n barhaus ar weithgareddau amgen fel Cylch Meithrin a Chylch Ti&Fi</td><td></td><td rowspan="7">Mae’r Awdurdod yn cydnabod perthynas Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gydag ysgolion yng Ngwynedd, fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai’n deillio o’r Cylch Meithrin, bydd yr heriau sy’n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.<br><br>Mae’r rhagamcanion a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori wedi ei seilio ar ragamcanion 3 blynedd a gyflwynwyd gan benaethiaid yr ysgolion. Amcangyfrir y rhagamcanion 5 mlynedd ar sail cyfartaledd niferoedd derbyn yr ysgol dros y dair blynedd ddiwethaf. Yn sgil hynny, mae’r Adran Addysg o’r farn, ar sail y niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd blaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau’n isel yn Ysgol Abersoch am y bum mlynedd nesaf:<br><br>Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch<br><table>
<tr><th></th><th>M</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Medi 2020</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2021</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2022</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2023</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2024</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2025</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
</table><br>Dylid nodi fod y rhagamcanion uchod wedi eu cyfrifo ar sail niferoedd yn y mis Medi 2020 yn dilyn sefydlu’r Cylch Meithrin.<br><br>At hyn, yn Medi 2020, o’r 26 disgybl (3-8 oed) sy’n byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o’r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i’r sylwadau sy’n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i’r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai’r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.<br><br>Fel welir yn y tabl uchod rydym yn nodi rhagamcan o gynnydd o 2 yn y niferoedd erbyn Medi 2021 a 2022. Er mwyn i unrhyw opsiwn ymateb i’r heriau sy’n wynebu’r ysgol, byddai’n rhaid i’r cynnydd yn y niferoedd fod yn sylweddol. Nid yw’r</td></tr>
<tr><td>308</td><td>Mae’n nhw wedi cychwyn Cylch yno sy’n tyfu’n araf ac wedi cael caniatâd y cyngor i ganiatáu plant i aros am flwyddyn ychwanegol yn yr ysgol cyn symud ymlaen i Sarn Bach.</td><td></td></tr>
<tr><td>309</td><td>Mae’r ysgol yn rhagweithiol iawn yn ei awydd i gynyddu niferoedd disgyblion ac mae wedi dilyn llawer o fentrau gan greu Cylch Meithrin Abersoch, gofal plant blynyddoedd cynnar, mewn ystafell bwrpasol o fewn yr ysgol, a Chylch Ti & Fi, a grŵp rhiant a phlentyn ifanc. Mae’r mentrau yn cynnwys teuluoedd â phlant ifanc yn yr ardal o fewn cymuned yr ysgol.</td><td></td></tr>
<tr><td>310</td><td>Mae genyf bryderion dybryd am effaith cau Ysgol Abersoch ar y gymuned a chryfder, pellach bodoliaeth, yr iaith Gymraeg yn y pentref. Mae genedigaeth cyflym y Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi yn cynrychioli ail wynt i’r ysgol, a sylfaen cadarn i ei ddatblygiad yn y dyfodol. Sut allwn cymryd o ddifri adroddiad nid yw’n cydnabod ei effaith ar rhagolygion niferoedd yr ysgol?</td><td></td></tr>
<tr><td>311</td><td>Yn ddiweddar, mae'r brif athrawes a’i meddwl blaengar hefyd wedi cychwyn Cylch Meithrin i annog plant iau i gychwyn ar eu taith addysg yn Ysgol Abersoch.</td><td></td></tr>
<tr><td>312</td><td>Mater i eraill yw penderfynu ar union rôl yr ysgol yn y dyfodol, ond credwn mai'r ffordd orau o wasanaethu'r pentref pe bai'r ysgol yn gweithredu trwy gryfhau ei darpariaeth Feithrin ar gyfer pob teulu lleol er mwyn sicrhau llif o ddisgyblion i'r dyfodol i’r dosbarth derbyn ac uwch, a chadw'r ddarpariaeth hyd at Flwyddyn 3. Mae'r ddarpariaeth Feithrin hon wedi'i chryfhau yn hanfodol - mae'n darparu parhad addysg i rieni a phlant ym mlynyddoedd cynnar pwysicaf eu bywyd ysgol. Mantais ychwanegol hyn yw y gall yr ysgol, trwy gychwyn mwy o blant lleol yn eu meithrinfa leol, helpu i sicrhau ei dyfodol cynaliadwy a thrwy hynny gynaliadwyedd y pentref.<br>Byddem yn hapus iawn i ymhelaethu ar ein meddyliau, yn ysgrifenedig neu (pe bai'r amodau'n caniatáu) yn bersonol.</td><td></td></tr>
<tr><td>313</td><td>Mae'r Ysgol wedi sefydlu Cylch Meithrin ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn cyfnod byr iawn ac er bod yr ysgol dan fygythiad o gau. Mae gan y Cylch Meithrin y fantais ychwanegol hefyd o ddenu disgyblion ar gyfer mynychu Ysgol Abersoch o'r flwyddyn dderbyn ymlaen, yn yr un modd ag y</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | byddai hyn hefyd o fudd i Ysgol Sarn Bach gan fod y plant yn tueddu i symud i'r ysgol hon ar ddiwedd Blwyddyn 3. Yn y pentref mae gennym oddeutu 12 o blant i gyd o dan dair oed a fyddai'n elwa o ddefnyddio'r Cylch ac yn yr ysgol yn y pen draw. Mae o fewn pellter cerdded i'r pentref ac wedi'i leoli'n berffaith ac yn gyfleus i'r rhai sy'n gweithio ym mhentref Abersoch. | | Awdurdod o farn fod cynnydd o 2 ddisgybl yn gynnydd digonol i gyfarch heriau'r ysgol. |
| 314 | Ein safbwynt ni yw y rhagwelir y bydd y niferoedd yn cynyddu a bod hon yn senario mwy credadwy na datganiad Cyngor Gwynedd o ddim gwarantau. | | |
| 315 | Rwy'n hyderus, gydag amser, y bydd mentrau'r Cylch Meithrin ac Ysgol Traeth yn cefnogi ysgol sydd yn fynnu yn ein cymuned leol. Wrth wneud hynny, mae potensial ar gyfer cynnydd enfawr wrth inni hyrwyddo ein Cymreictod. | | |
| 316 | A gyfrifwyd niferoedd mynychwyr Ti a Fi a'r Cylch Meithrin yn y rhagamcanion? | | |
| 317 | Mi fysa cau yr Ysgol yn ergid drom iawn i Abersoch a'r gymuned gyfa !!! Mae pawb sydd wedi bod yn yr Ysgol dros y cenhedloedd yn brolio yr addysg a gafodd hwy yno .Does neb eisiau gweld hi'n cau - tydi'r cylch meithrin heb gael cyfle eto chwaith i sefydlu ei hyn a mewn amser dwi shwr fydd na fwy o blant yn mynychu yr Ysgol ar cylch meithrin. | | |
| 318 | Ffurfiwyd y CMA mewn ymateb i'r niferoedd llai o blant yn mynychu Ysgol Abersoch er mwyn greu mewnlif naturiol a hefyd i greu darpariaeth gofal plant lleol mawr ei angen yn Abersoch a'r pentrefi cyfagos: *"[i ganiatou i deuluoedd] fanteisio ar y cyfle i gychwyn ar daith eu plant i addysg gyfrwng Cymraeg"* (Mudiad Meithrin 22/01/2021). Mae'r Mudiad Meithrin wedi ymrwymo'n llwyr wrth i ni sefydlu'r Cylch Meithrin yn ein hardal, ac wedi ein cefnogi trwy gyhoeddi grant Sefydlu a Symud fel rhan o'i nod i agor 40 o Gylchoedd newydd erbyn 2021 o dan raglen **Cymraeg 2050.** Mae Llywodraeth Cymru trwy Gyngor Gwynedd hefyd wedi cefnogi'r CMA trwy ei Grant Cychwyn Busnes Newydd Llywodraeth Cymru (cymorth ariannol Covid-19).<br><br>Fel rhan o'n strategaeth i symud tuag at agor y Cylch Meithrin a Ti a Fi i ddarparu gwasanaeth amser llawn, mae'r CMA wedi cofrestru gyda:<br>• Y Comisiwn Elusennau fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)<br>• Gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<br>• Cynllun Plant / Gofal Plant Cynnig Gofal 30 awr<br>• Cyllid a Thollau EM fel cyflogwr lleol (mawr ei angen) | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn anffodus, yn dilyn yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn y ddogfen ymgynghoriad fel sy'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae'n ymddangos bod camgymeriad gweinyddol wedi bod wrth anfon e-bost yn cyhoeddi'r ymgynghoriad.<br><br>Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer yr e-bost cyhoeddi, ond fe ymddengys fod bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma.<br><br>I sicrhau fod y Cylch yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr y cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn 1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021, ac y byddai'r sylwadau hynny yn cael eu derbyn a'u hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad statudol.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar safle Ysgol Abersoch ac yn nodi'r sylwadau. |

<table>
<tr><td></td><td>Wrth i ni agosau at amseroedd gwell, mae'r CMA ar fin ail-ddechrau darparu gofal ac addysg cyfnod cynnar trwy'r cyfrwng Cymraeg a bydd eto'n darparu adnodd cymdeithasol gwerthfawr dros ben i deuluoedd gyda'r gwasanaeth Cylch a'r Ti a Fi. Bydd y CMA yn ail-agor ei drysau cyn gynted a phosibl ar of yr hanner tymor ac, oherwydd ymdrechion gwych ein harweinydd Cylch, cyn pen awr ar olcyrraedd y penderfyniad i ail-agor, mae gennym blant wedi cofrestru i fod yn bresennol.</td><td></td><td>Mae’n gywir nodi, pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, yna byddai’r ysgol amgen yn darparu addysg o 3 oed i fyny. Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, os fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae’r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau hefo’r cynrychiolwyr perthnasol – gallai’r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i’r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.<br><br>Fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol “Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.”</td></tr>
<tr><td>319</td><td>I grynhoi, os yw Ysgol Abersoch yn cau, mae'r CMA dan fygythiad uniongyrchol o gau gyda cholled o ddwy swydd yn ychwanegol i'r golled o'r gwasanaeth angenrheidiol hon.</td><td></td><td rowspan="5">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Pe byddai’r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, pe byddai’r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae’r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau hefo’r cynrychiolwyr perthnasol – gallai’r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i’r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.<br><br>Tra’n cydnabod effaith gadarnhaol bosib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn. Rhagwelir y byddai niferoedd ynghyd â’r rhagamcanion yn parhau’n isel, dosbarthiadau yn parhau’n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.<br><br>Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch<br><table><tr><th></th><th>M</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfanswm</th></tr><tr><td>Medi 2020</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2021</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2022</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2023</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2024</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2025</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr></table><br>Fel welir o’r tabl uchod ein bod yn rhagweld cynnydd o 2 yn y niferoedd erbyn Medi 2021 a 2022. Er mwyn i unrhyw opsiwn ymateb i’r heriau sy’n wynebu’r ysgol,</td></tr>
<tr><td>320</td><td>Mae’r Corff Llywodraethol yn falch, a chynhyrfus, o gefnogi a chroesawu’r Cylch Ti a Fi a’r Cylch Meithrin mewn dosbarth pwrpasol yn adeilad yr ysgol, gan y profodd y grwpiau hyn gynnydd yn niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal.</td><td></td></tr>
<tr><td>321</td><td>Nid yw'r cynigion wedi ystyried effaith colli Cylch Meithrin. Mae'n amlwg bod galw am y gwasanaeth hwn, heb unrhyw Cylch arall yn nalgylch Ysgol Abersoch / Ysgol Sarn Bach ac mae Cylch Llanbedrog yn llawn, neu'n agos at ei lawn.</td><td></td></tr>
<tr><td>322</td><td>Ochr yn ochr a'n pryderon ynghylch cael ein gorfodi i gau'r CMA, rydym yn tynnu eich sylw at y diffyg difrifol wrth eithrio'r CMA o'r broses ymgynghori a disgwyliwn eich ymateb i'r hepgor hyn.</td><td></td></tr>
<tr><td>323</td><td>7.16 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig<br>“Ystyriaethau eraill.”<br>Rydym yn cwestiynu pam nad oes unrhyw gydnabyddiaeth o golli'r Cylch Meithrin a Ti a Fi.</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | byddai'n rhaid i'r cynnydd yn y niferoedd fod yn sylweddol. Nid yw'r Awdurdod o farn fod cynnydd o 2 ddisgybl yn gynnydd digonol i gyfarch heriau'r ysgol. |
| 324 | Yn dilyn ymchwil, a chyda cefnogaeth lawn Mudiad Meithrin, ffurfiwyd pwyllgor annibynnol a sefydlwyd y ddwy fenter mewn cyfnod byr iawn, gan agor ym mis Chwefror 2020. Ond, eto, dewisodd yr Adran Addysg anwybyddu unrhyw effaith posibl o'r ymdrechion hyn ar niferoedd y disgyblion…. *Mae'r ffaith bod yr Adran Addysg wedi diystyru effaith y Cylch Meithrin ar nifer y disgyblion yn hepgoriad difrifol* | | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Abersoch, fodd bynnag, pwysleisir nad yw'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi yn rhan o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. |
| 325 | **6.1 Cymharu Opsiynau Opsiwn 1 - Statws Quo Opsiwn 8 - Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch "Tra'n cydnabod yr effaith gadarnhaol bosibl y gallai lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar niferoedd y disgyblion, ni ellir gwarantu hyn, ac mae'n yn rhagweld y byddai'r heriau'n parhau "**<br>Mae'r effaith ar Cylch Meithrin Abersoch yn cael ei diswyddo'n ddiannod. Mae tystiolaeth i ddangos bod Cylch Meithrin yn cynyddu niferoedd. Er enghraifft, yn Ysgol Llanbedrog, er bod y Cylch ar draws y ffordd mae'n rheswm bod pobl wedi dewis anfon plant i Ysgol Llanbedrog. | | Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod perthynas Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gydag ysgolion yng Ngwynedd, fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai'n deillio o'r Cylch Meithrin, rhagwelir y bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.<br><br>Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau o safbwynt y Cylch Meithrin gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch. |
| 326 | Mae'r modd diystyriol y mae potensial y Cylch Ti a Fi a Cylch Meithrin newydd wedi eu trin yn destun pryder mawr. Mae hyn yn fy arwain i gwestiynu didwylledd bwriad y Cyngor, a fynegwyd yng nghyfarfod rhanddeiliaid cyntaf yr adolygiad anffurfiol, i gefnogi a helpu'r ysgol i ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu nifer y disgyblion i lefel fwy cynaliadwy. | | |

<table>
<tr><td>327</td><td>Bellach mae Cylch Meithrin newydd ar y safle wedi'i osod yn ddiweddar ac mae'r llywodraethwyr wedi annog y Cabinet i ganiatáu “amser i ffynnu” i'r rhaglen, a allai ddylanwadu ar ddisgyblion newydd i ymuno.</td><td></td><td rowspan="3">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau yn gofyn am amser i’r Cylch Meithrin ddatblygu a chynyddu mewn niferoedd.<br><br>Rydym yn cydnabod perthynas Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gydag ysgolion yng Ngwynedd, fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai’n deillio o’r Cylch Meithrin, bydd yr heriau sy’n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.<br><br>Ni allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ac ymdrin a’r ysgol am gyfnod amhenodol. Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Abersoch wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.<br><br>Mae’r Awdurdod o’r farn na fyddai parhau â’r ddarpariaeth addysg bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae’r Adran Addysg o’r farn nad yw’n ymarferol parhau â’r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:<ul><li>Dosbarthiadau bychain iawn.</li><li>Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion.</li><li>Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 9 disgybl yn mynychu erbyn 2025.</li></ul>Mae’r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi wedi ei agor ar safle’r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai’n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai heriau’r ysgol yn parhau.<br><br>Dengys y tabl isod na ragwelir cynnydd mawr yn y niferoedd dros y 5 mlynedd nesaf:<br><br>Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch<table><tr><th></th><th>M</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfanswm</th></tr><tr><td>Medi 2020</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2021</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2022</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2023</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2024</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr><tr><td>Amcangyfrif Medi 2025</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>328</td><td>Er yn cydnabod bod canran uchel o blant y pentref yn mynychu ysgolion all-ddalgylch, anghytunir â’r farn “nad yw’r ddarpariaeth bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol” – pam na roddir cyfle i’r mentrau o sefydlu Ti a Fi a’r Cylch Meithrin gyfle i wreiddio a ffynnu? Hefyd, effeithiwyd ar hynny gan y pandemig.</td><td></td></tr>
<tr><td>329</td><td>Mae ein gweithredoedd a'n hawgrymiadau cadarnhaol mewn ymateb i hyn, gan gynnwys y mentrau a gefnogir gan Mudiad Meithrin, ynghyd â chysyniad Ysgol y Traeth, ac ychwanegu blwyddyn ysgol ychwanegol, i gyd yn opsiynau sydd â siawns go iawn o gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd tymor hir Ysgol Abersoch, a minnau, ynghyd â llawer o rai eraill, yn credu y dylid rhoi cyfle teg iddynt ffynnu.</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 330 | Teimlwn fod yr Adran Addysg yn annidwyll yn y ffordd yr anwybyddodd effaith y Cylch Meithrin ar ddyfodol niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch ond, eto, yn “awyddus i drafod y posibiliadau” â’r Cylch Meithrin a Ti a Fi. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau. |
| 331 | Ar nodyn bersonol mi fyddwn yn torri fy nghalon pe bai’r ysgol yn cau. Dwi eisoes wedi dweud fy mod yn disgwyl ŵyr ac roeddwn yn gobeithio ei gofrestru ar gyfer dosbarthiadau cyn-ysgol/meithrin. Felly mae cau’r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arna i a fy nheulu. | | Mae’r Cyngor yn ymwybodol bod Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Abersoch, fodd bynnag, pwysleisir nad yw’r Cylch Meithrin a’r Cylch Ti a Fi yn rhan o’r cynnig i gau Ysgol Abersoch.<br><br>Mae’r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae’n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae’r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch.<br><br>Mae’r Awdurdod yn cydnabod perthynas Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gydag ysgolion yng Ngwynedd, fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai’n deillio o’r Cylch Meithrin, rhagwelir y bydd yr heriau sy’n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.<br><br>Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae’r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau o safbwynt y Cylch Meithrin gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai’r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch. |
| 332 | Mae'r Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi yn syniadau gwych i gynyddu nifer y disgyblion a chyflwyniad rhagorol i addysg gyfrwng Cymru ar gyfer cartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg, ond oherwydd Covid nid ydynt wedi cael cyfle i fynd ati'n iawn eto. | | |
| 333 | Mae i gau Ysgol Abersoch ôl-effaith sef cau gorfodedig Cylch Meithrin a Ti a Fi Abersoch, sydd ill dau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac â diwylliant Cymreig wrth galon eu dysgu a chwarae, mae hyn yn adlewyrchiad trist ar y meddylfryd byr dymor a’r penderfyniadau sydd mor amlwg yng ngwleidyddiaeth heddiw. Er mai economaidd yw’r prif reswm dros y cau arfaethedig, mae llywodraeth Cymru yn arllwys arian – a ddisgrifir fel dim ond £38M ar hyn o bryd (Cymraeg 2050) i gyflawni’r miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r fenter hon yn arwain at gyrsiau â chymhorthdal uchel sydd o fudd i ddysgwyr hŷn yn bennaf sydd, a bod yn onest, yn agosach at ddiwedd eu taith na'r dechrau; gallaf siarad o brofiad am hyn gan fy mod yn un o'r buddiolwyr sy'n talu dim ond £45 am flwyddyn lawn, 32 wythnos o hyfforddiant wyneb yn wyneb. Gosodwch hyn yn erbyn dysgeidiaeth Cymraeg yr ysgol, Cylch Meithrin a Ti a Fi a fydd yn cael ei symud o bentref Abersoch oherwydd y cau hwn gan adael y pentref yn gyrchfan wyliau yn unig heb ysgol, Cylch Meithrin, meddygfa na gwasanaethau eraill sy'n hanfodol i ddenu teuluoedd â phlant i fyw a gweithio yma. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd nod penodol o agor 40+ cylchoedd (isod) sy’n hollol groes i’r hyn y bydd cau ysgol Abersoch yn ei gyflawni gan y bydd rhaid cau’r adeilad fforddiadwy. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 334 | Bellach mae amheuaeth ddifrifol ynghylch gallu Cylch Meithrin Abersoch i ailagor ym mis Medi oherwydd diffyg staff, yn eironig nid diffyg arian, sy'n sefyllfa a achosir yn uniongyrchol gan yr ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 335 | Rwy'n gobeithio mynychu sesiynau Ti a Fi yn Ysgol Abersoch pan ganiateir iddynt gael eu cynnal eto gan fy mod yn credu y byddai hyn yn ein galluogi i gwrdd â rhai plant bach mwy lleol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 336 | Mae aelodau pwyllgor Cylch Meithrin Abersoch yn hynod siomedig bod y Cabinet wedi pleidleisio i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021.<br><br>Rydym yn parhau i wrthwynebu yn gryf i'r cynlluniau i gau Ysgol Abersoch. Atodwn ein llythyr blaenorol a gofynnwn iddo gael ei ystyried a'i gyfrif fel gwrthwynebiad swyddogol.<br><br>Yn fwyaf anffodus, mae'r penderfyniad hwn wedi ein gadael heb arweinydd Cylch ar gyfer mis Medi. Oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol ac felly parhad y Cylch, bu rhaid i'n harweinydd ymddiswyddo o'r swydd yr oedd hi'n ei charu er mwyn sicrhau cyfle mwy diogel mewn safle arall. Mae ein cynorthwydd Cylch yn dychwelyd i addysg ym mis Medi ac felly mae bellach hefyd wedi gadael.<br><br>Mae'n anodd iawn i lenwi'r swyddi hyn, heb amheuaeth oherwydd ansicrwydd parhaus y sefyllfa ddrwg hon, sy'n tynnu'n ddealladwy o'r apêl o ymgeisio am y swyddi. Mewn gwirionedd, rydym ar hyn o bryd yn hysbysebu'r swyddi hyn am y trydydd tro.<br><br>Er gwaethaf nodi pwynt 6.16.4 yn eich adroddiad a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mai, "mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau gyda'r cynrychiolwyr perthnasol", rydym yn synnu nad ydym eto i dderbyn unrhyw ohebiaeth ynghylch "posibiliadau", er ein bod wedi ein gadael allan o'r trefniadau Ymgynghori Statudol gwreiddiol, ond efallai nad yw'n hollol annisgwyl. Rydym hefyd yn gweld dull yr Adran Addysg yma o natur ffuantus, o ystyried eu mynnu na fyddai'r Cylch Meithrin yn cael unrhyw effaith ar niferoedd Ysgol Abersoch, ac eto mae'n ymddangos nad yw'r syniad am golli'r adnodd rhagorol | | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar safle Ysgol Abersoch, fodd bynnag, pwysleisir nad yw'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi yn rhan o'r cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch.<br><br>Fe nodwyd yn yr asesiad effaith cymunedol "Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd."<br><br>Pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau hefo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.<br><br>Mae'n anffodus fod y Cylch yn colli staff ond fel nodiwyd eisoes, pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid i'r awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau o safbwynt y Cylch Meithrin gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch.<br><br>Fel ymateb i'r sylw y dylai'r Awdurdod fod wedi cychwyn trafod y posibiliadau hyn gyda'r Cylch yn gynharach, mae rhaid nodi y bydda gwneud hynny cyn i'r Cabinet wneud y penderfyniad terfynol ar ddyfodol Ysgol Abersoch, wedi bod yn gynamserol ac o bosib yn rhagfarnu'r broses. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hwn yn apelio. Mae’r Adran Addysg yn ôl pob golwg fel petai eisiau ‘gael eu cacen a'i bwyta hefyd’. | | |

| Dd | Sylwadau am y broses statudol | | |
|---|---|---|---|
| 337 | Dwi hefyd yn methu credu eich bod wedi parhau â'r cynlluniau i gau yng nghanol pandemig, mae hyn wedi cael effaith negyddol ac ansicr ar les y plant a'u haddysg. Credaf y dylai cyngor dda wrando ar ei gymuned, fel arall nid yw'n ddemocratig. Dwi'n ymwybodol o e-byst a llythyrau eraill yr ydych wedi eu derbyn, a chredaf mai lleisiau'r plant sy'n cyseinio uchaf, wrth iddynt orfod protestio yn erbyn cau eu hysgol eu hunain. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r feirniadaeth a gyflwynwyd mewn perthynas ag amseriad yr ymgynghoriad, yn benodol o safbwynt y cyfyngiadau pandemig Covid.<br><br>Serch hynny, rydym yn hyderus fod y broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn cydymffurfio a gofynion a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol:<br>• Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori, a'r dogfennau cefndirol perthnasol, ar ffurf copi electroneg ar wefan y Cyngor (gyda chopiau caled ar gael ar gais)<br>• Dosbarthwyd copïau electroneg o'r ddogfen i'r rhan-ddeiliaid perthnasol (yn unol â gofynion y Cod)<br>• Derbyniwyd sylwadau/ymatebion ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.<br><br>Nid yw'r Cod yn gosod gofyniad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus/ymgynghori. Yn hytrach, fe nodir yn y Cod "gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgynghoreon, fel sy'n briodol yn eu barn hwy".<br><br>Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "Galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "Galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau fod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "Galw heibio" dros gyfwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Yn ychwanegol i hynny, rhoddwyd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig dros e-bost i'r Adran Addysg.<br><br>Cydymdeimlir â'r pryderon o gynnal ymgynghoriad yn ystod y pandemig, serch hynny, pwysleisir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ag ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Yn ychwanegol i hynny, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad ar 8 Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor. |
| 338 | Unwaith ETO , mae Cyngor Gwynedd wedi parhau ag Ymgynghoriad Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch. Mae hyn yn nodiadol o anheg a dan llechwraidd yn ystod y cyfnod o straen ac anghyffredin hwn o gyfnod clo a Covid-19.<br>Mae costau cyfarfodydd, cynghorwyr a biwrocratiaeth dros y blynyddoedd wedi bod yn gost eithriadol i ni, y treth dalwyr.<br>Mae nhw hefyd wedi achosi ansicrwydd eithriadol ar ddewis addysg rhieni, wedi tanseilio addysgu / cynllunio'r staff ac hyder pawb yn y dyfodol. | | |
| 339 | Er mai dim ond 10 oed ydw i, dwi ddim yn meddwl ei bod hi'n iawn i gau ysgol yn ystod pandemig Covid mae fy chwaer yn bryderus iawn fel mae hi, efallai y dylech feddwl yn debycach i Roald Dahl a gofyn beth sydd orau i'r plant? | | |
| 340 | Hefyd yn ystod y cyfnod hwn o bryderon byd-eang COVID a ddylwn barhau a'r cau. Ni all pawb dan sylw gyfarfod yn effeithlon i drafod eu pryderon a chael cefnogaeth, heb dorri'r canllawiau. Yn fy marn i mae parhau â'r broses yn ystod y cyfnod hwn yn ormesol yn erbyn rhyddid barn a chynrychiolaeth effeithiol. Arweiniai hyn at apeliadau hir ac oedi pellach. | | |
| 341 | Hoffwn hefyd holi'r cyngor pam yn ystod cyfnod o greisis Cenedlaethol eu bod yn ei gweld yn amser addas i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus pan gwaherddir pobl rhag ymgynnyll?, siawns mai'r penderfyniad fwyaf synhwyrol fyddai i roi gorau i'r broses o gau yn gyfan gwbl a chynnal ymgynghoriad iawn gyda phawb sydd â diddordeb pan fydd y creisis wedi dod i ben, ac i feddwl am ffyrdd i integreiddio i'r rhaglen addysgu gyfredol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y hytrach na chau'r ysgol. At y diben hwn dwi'n cynnig bod y cyfnod ymgynghoriad yn dod i ben ac i'r ysgol gael o leiaf deuddeg mis arall neu un flwyddyn academaidd llawn, yn cychwyn Medi 2021 i feddwl am gynigion ar symud ymlaen er mwyn sicrhau ei bod hi'n sefydliad hyfyw am 100 mlynedd arall. | | |
| 342 | Ysgol Abersoch yw calon y pentref ac wedi bod ers 98 o flynyddoedd. Mae penderfyniad y cyngor i barhau â'r ymgynghoriad yn ystod pandemic covid-19 yn ddi-galon, hunanol ac yn amlwg yn dangos tuedd yn erbyn yr ysgol ac wedi atal unrhyw gyfle go iawn i wrthwynebu ond wedi ffafrio dewis y cyngor. | | |
| 343 | Ysgrifennwn atoch eto fel Aelodau Merched y Wawr Abersoch i fynegi ein siomedigaeth ym mhenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar Fehefin 15fed, 2021 i gyflwyno Rhybudd Statudol Cau Ysgol Abersoch ar Ragfyr 31ain, 2021. O ganlyniad, ni allwn ond ysgrifennu i fynegi ein **gwrthwynebiad** llwyr i'r bwriad a gofyn yn garedig i'r Aelodau ailystyried eu penderfyniad. Mynegwn, hefyd, syndod at y dyddiad bwriadedig, sef diwedd tymor cyntaf blwyddyn addysgol – dyddiad annheg iawn i unrhyw ddisgybl, gan ei fod yn tarfu ar ei addysg. | | |
| 344 | I would like to object to the closing of Abersoch school. I feel it is important for the village to have a school where the local children can go. I think it is vital to finish at the end of the school year if it does have to shut so that the children can have a bit of normality after all the time they have been through in the last 18 months and then change schools over the summer holidays if it has to be closed. | | |
| 345 | Fel cyn-ddisgybl, dydw i ddim yn gwybod be sy'n mwy frawychus, y ffaith bod Ysgol Abersoch o dan fygythiad o gau - a'r hyn wedi'i seilio ar adroddiad hynod wallus a chamarweiniol - neu bod yr Ymgynghoriad Statudol yn cael ei gynnal o dan cyfyngiadau y pandemig, ac yn bellach tra bod y brifathrawes yn absennol oherwydd trasiedi personol. | | |
| 346 | Mae y fater fod y Penderfyniad gan y Cabinet wedi cael ei alw I fewn gan y Pwyllgor Craffu Addysg ar argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Addysg Ir Cabinet ail ystyrio yr penderfyniad yn arwydd cryf fod pryderon dros y Penderfyniad Cabinet I parhau gyda'r broses ymgynghori... Ymgynghoriad. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yr rwyf or farn fod yn amhosib cael ymgynghoriad cyflawn a theg yn yr amgylchiadau COVID  mae yr ymgynghoriad yn glir fod gwrthwynebiad clir I gau yr ysgol ac os bydd hyn yn mynd ymlaen mae hyn yn groes I awydd y gymdeithas yn cynnwys y plant  y rhieni, y trigolion, Staff yr Ysgol, Cyngor Cymuned Aelod Lleol ar  Aelod Seneddol. | | |
| 347 | Mae'r penderfyniad a'r brys i gyflawni'r nod hwn wedi cael ei baratoi i anwybyddu'r cyfyngiadau digynsail ar gymdeithas pandemig, gan fwrw ymlaen â phroses sydd, er ei bod yn cael ei chaniatáu'n gyfreithiol, yn cael ei hystyried gan lawer yn foesol anghywir. | | |
| 348 | Parhawn fod yn siomedig y teimlwyd ei bod yn addas parhau â'r Ymgynghoriad Statudol, er gwaethaf y pandemig cyfredol a'r cyfyngiadau eithafol cysylltiedig, a'n hataliodd rhag cynnal unrhyw gyfarfod staff, rhieni neu gymunedol nac unrhyw drafodaeth naturiol, effeithiol ar y mater difrifol hwn. | | |
| 349 | Yn sefyllfa bresennol Covid 19 a'i holl gyfyngiadau, mae peidio â gallu trafod y mater hwn ymhellach wyneb yn wyneb, yn anffodus iawn ac ynddo'i hun gall fod yn rheswm digon da i ohirio'r penderfyniad nes ein bod yn gwybod beth fydd canlyniad y 'Cyfnod clo' yn gliriach | | |
| 350 | Credwn fodd bynnag mai camgymeriad ar ran yr Awdurdod, er i'r Gweinidog Addysg ddiwygio'r Côd ar frys ar 7.1.21 i ganiatau hyn, oedd dewis cynnal yr ymgynghoriad statudol holl-bwysig tra roedd yr ysgol ar gau am yr holl gyfnod, y rhieni a'r llywodraethwyr dan bwysau oherwydd y pandemig a'u gallu i drefnu gwrthwynebiad i'r cynnig yn gyfyngedig oherwydd rheol "aros adre".Credwn y dylai'r Awdurdod gymryd hyn i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad. | | |
| 351 | Yn bwysicach, efallai, parodd y penderfyniad o barhau gryn ofid i'r plant, sydd wedi gorfod ymdopi nid yn unig ag absenoldeb eu Pennaeth ac amodau ofnadwy Covid ond, hefyd, â'r syniad gofidus o gau eu hysgol. Teimlwn yn bendant na wnaed y penderfyniad hwn er lles y plant. | | |
| 352 | Mae'n ymddangos bod elfen o dicio blychau yn digwydd yma. Mae'r broses wedi teimlo ychydig yn wahanol i safbwynt y rhanddeiliaid nag yr ymddengys iddi o ongl Cyngor Gwynedd. | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda'n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai'n debygol o ymateb orau i'r heriau hynny.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn |
| 353 | Cadarnhawyd fy amheuon wrth weld y diffyg diddordeb hwn bod y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Ymgynghoriad eisoes wedi'i wneud, ymhell cyn i aelodau'r Cabinet ddod i mewn i'r cyfarfod, ac ar ben hynny, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bod yr holl broses wedi bod yn ymarfer ticio blwch o'r dechrau, gyda'r cyngor yn mynd trwy'r cynigion i roi'r argraff o ymgynghori ystyrlon. | | unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un allu gwrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir nad ydi'r penderfyniad wedi ei wneud ac ein bod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. |
| 354 | Rwy'n dal i fod yn argyhoeddedig am reswm da pam nad oedd un opsiwn a awgrymwyd gan y rhanddeiliaid yn haeddu cael ei gynnwys yn y tri opsiwn olaf. Felly, gobeithio eich bod yn deall pam ei bod yn anodd cael gwared â'r teimlad, er gwaethaf y broses adolygu anffurfiol, mai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch fu'r unig eitem ar yr agenda o'r dechrau. | | |
| 355 | Mae'n aneglur pa fewnbwn gan randdeiliaid sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig gan ein harwain i gwestiynu a oedd barn rhanddeiliaid wedi derbyn gwrandawiad teg mewn gwirionedd. Teimlir fel pe bai Cyngor Gwynedd yn dilyn ei agenda ei hun a'u bod yn benderfynol o gau Ysgol Abersoch. | | |
| 356 | Mae cau ysgol yn fater difrifol a byddwn yn disgwyl cwestiynau difrifol, a thrafodaeth heriol dros fanylion y dogfennau ymgynghori, ynghyd ag ystyriaeth deg o'r materion a godwyd gan randdeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. | | Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion bydd rhaid cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig ai peidio. |
| 357 | Nid oes unrhyw gyfeiriad at amgylchiadau ac effaith anghyffredin Covid 19, heb sôn am oblygiadau tymor hir Coronavirus a ddylai, yn sicr, gael ei adlewyrchu yn y strategaeth a chynllunio adnoddau o hyn ymlaen? | | Mae'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau Covid trwy gydol y broses ac wedi addasu trefniadau i'r sefyllfa newidiol tra'n sicrhau bod gofynion y broses statudol yn cael eu cyfarch.<br>Bydd y Cyngor yn dilyn arweiniad cenedlaethol mewn perthynas â Covid wrth wireddu neu gynllunio strategaethau i'r dyfodol.<br><br>Nid oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Pe gweithredir y cynnig, byddai plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch. |
| 358 | Rwy'n ystyried bod llawer o gynnwys y dogfennau ymgynghori yn cael ei gyflwyno mewn modd camarweiniol ac annheg. Er enghraifft, mae'r ystod oedran yn Ysgol Abersoch dair blynedd yn llai nag ystod oedran yr ysgolion cyfagos, y mae'n cael ei chymharu'n gyson â hi ar draws ystod o ddata, sy'n golygu nad yw llawer o'r wybodaeth a gyflwynir yn cymharu tebyg â thebyg, gan ei rhoi ar y gorau yn ddryslyd iawn, ac ar y gwaethaf bron yn ddiystyr. | | Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl di-duedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynir fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad.<br><br>Mewn perthnasedd i'r sylwad am ystod oedran Ysgol Abersoch o gymharu ag ystod oedran yr ysgolion cyfagos, mae'r Awdurdod yn ystyried pob ysgol fel endidau cyfan waeth beth fo eu hystod oedran, ac er bod gwahaniaethau, ni fyddai'n ystyrlon dwyn cymhariaeth rhwng Ysgol Abersoch a rhai blynyddoedd penodol yn unig o'r ysgolion cyfagos. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 359 | Credwn hefyd fod yr amserlen a roddir yn anffodus. Petai'r cynnig yn cael ei gadarnhau, ni byddai ond mis o amser ar ddiwedd tymor yr haf wedi hysbysu rhieni o'r penderfyniad terfynol iddynt ystyried yr opsiwn mwyaf priodol wedyn ar gyfer addysg eu plant – a'u penderfyniad nhw yw hwn yn gyfreithiol. Mae hyn yn groes i arfer gorau cydnabyddiedig o roi tymor cyfan o rybudd i rieni am unrhyw newid sylfaenol. Byddai gosod dyddiad mwy realistig o Fedi 2022 i gychwyn unrhyw drefn newydd yn caniatau digon o amser ar gyfer trafod yr opsiynau amgen y cyfeiriwyd atynt cyn cyhoeddi penderfyniad terfynol... byddai glynu at ddyddiad o Fedi 2021 i weithredu unrhyw newid yn gwbl afresymol. Ni buasai'r opsiynau wedi cael eu gwintyllu'n iawn, ac ni byddai mis o rybudd i rieni am y drefn newydd yn deg o gwbl..... | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mewn ymateb i'r pryderon hyn a ddatganwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, addaswyd dyddiad gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar 1 Ionawr 2022. |
| 360 | Byddai modd i chi drafod y rhain (Opsiynau Amgen) yn anffurfiol eleni, gan geisio cytundeb, ac yna gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig ffordd newydd ymlaen pan na fyddai'r pandemig yn cyfyngu ar drafodaeth ystyrlon.... Galwn felly ar Gabinet Cyngor Gwynedd, wrth ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i ymgynghori, i oedi'r broses tan fis Tachwedd er mwyn caniatau amser i ysgolion a chymunedau'r ardal geisio ffordd gytûn ymlaen sy'n bodloni amcanion yr Awdurdod. Byddai proses wedyn yn mynd trwodd yn gyflym yn niwedd 2021 naill ai oherwydd fod cytundeb neu oherwydd fod pob opsiwn wedi ei wintyllu'n llwyr, a gellid gweithredu unrhyw newid yn ddiogel at Fedi 2022. | | Mae'r Cyngor yn nodi y bu iddynt gynnal cyfres o gyfarfodydd lleol dros gyfnod estynedig lle'r rhoddwyd cyfle i randdeiliaid wyntyllu opsiynau amgen. Bu i'r Cyngor werthuso'r opsiynau yma cyn llunio' cynnig. Bu i hyn ddigwydd cyn cyfnod Covid.<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn fod rhanddeiliad allweddol wedi medru cyfrannu'n llawn i'r ymgynghoriad hwn gyda nifer y cyfranogwyr yn dystiolaeth o hyn.<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn fod ymestyn y broses ymghyngori ymhellach na'r angen yn arwain at fwy o ansicrwydd a phryder i'r holl randdeiliad. Oherwydd hyn mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen a'r broses yn unol a'r hyn sydd yn ymarferol bosib. |
| 361 | Rydym yn amlygu ein pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori… Roedd yr ymgynghoriad gyda'r disgyblion yn anheg o ystyried ei h'oedran a'i deallusrwydd….. Cynhwysa dogfen Ymgynghoriad Statudol i Blant gwestiynau arweiniol, mae'n gamarweiniol a rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch. Datgana'r ddogfen bod 'gwell defnydd o adnoddau, e.e. offer TG', 'cyfle i gyfarfod a chwarae â ffrindiau newydd', 'mwy o athrawon' yn Ysgol Sarn Bach. Cynlluniwyd y geiriad hwn i ddenu plant ac awgryma bod TG gwell a mwy o athrawon yn Ysgol Sarn Bach; ni chredwn fod hyn yn wir. Ymhellach, dim ond buddion ymddangosiadol (os yn gywir) a nodir, heb gyfeirio dim at yr hyn y gellid ei golli. | | Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol; Ysgol Sarn Bach, a trefnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda'r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig. Roedd rhieni Ysgol Abersoch yn bresennol ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau'r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai'r ysgol yn cau. Yn achos Ysgol Sarn Bach, roedd pedwar disgybl y Cyngor Ysgol yn cynrychioli pob blwyddyn o'r Adran Iau ac un rhiant (i aelod o'r Cyngor Ysgol) yn bresennol (ac yn cyfrannu ond er mwyn gwneud barn ei phlentyn yn gliriach i'r hwylusydd).<br><br>Esboniwyd y byddai'r newid yn golygu:<br>- Y byddai Ysgol Abersoch yn cau. |
| 362 | Mae pryderon ynghylch natur yr ymgynghoriad â phlant. Mae'r Ddogfen Ymgynghori ar gyfer Plant yn darparu cwestiynau arweiniol, mae'n gamarweiniol ac yn rhagfarnllyd yn erbyn Ysgol Abersoch. | | |

<table>
<tr><td>363</td><td>(Dogfen Ymgynghori i blant) Nid yw'n glir y byddant yn mynd o gymhareb o 10: 1 i uwch na 20: 1.</td><td></td><td rowspan="5">- Y byddai disgyblion Ysgol Abersoch yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach ym Medi 2021.<br><br>Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i’w gwblhau ac wedi eu rhannu i dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a’u teimladau. Roedd yr hwylusydd eisoes wedi derbyn holiaduron cyn cychwyn y broses o holi dros Google Meet. Yn dilyn y cyfarfod derbyniwyd sylwadau un disgybl o Ysgol Abersoch ar ffurf fideo a gymerwyd gan ei fam a’i hanfon i sylw’r hwylusydd drwy law yr ysgol.<br><br>Mewn ymateb i’r cwestiynau yngylch sefyllfa staffio, fe nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod “strwythur staffio presennol Ysgol Abersoch yn cynnwys un pennaeth llawn amser, athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 70% o’i hamser ac yn derbyn 30% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth. Yn Ysgol Sarn Bach, mae pennaeth, dwy athrawes rhan amser (cyfwerth ag athrawes llawn amser 1.0), a thri cymhorthydd rhan amser. Mae’r pennaeth yn dysgu 80% o’r amser ac yn derbyn 20% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.”<br><br>Mewn perthynas â’r datganiad “Pan ddaw’n amser i fynd i’r Ysgol Uwchradd, byddwch yn adnabod mwy o blant a fydd yn symud yno gyda chi.” – mae’r Cyngor yn derbyn nad yw’n bwynt dilys gan fod disgyblion eisoes yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3.</td></tr>
<tr><td>364</td><td>(Dogfen Ymgynghori i blant) A yw hyn yn ffeithiol gywir? Sut mae mwy o athrawon - mae 2 yn Ysgol Sarn Bach, 2 yn Ysgol Abersoch. Onid yw'r gymhareb athro i ddisgybl yn llawer uwch? Gofynnwn ichi ddarparu'r wybodaeth hon.</td><td></td></tr>
<tr><td>365</td><td>(Dogfen Ymgynghori i blant) Sut mae plentyn i fod i ddehongli'r datganiad hwn? Beth sydd ddim yn deg ar hyn o bryd?</td><td></td></tr>
<tr><td>366</td><td>(Dogfen Ymgynghori i blant) Mae hwn yn bwynt annilys - bydd y disgyblion eisoes wedi bod yn Ysgol Sarn Bach am 3 blynedd o ysgol gyn-ysgol waeth beth fo'r senario bresennol.</td><td></td></tr>
<tr><td>367</td><td>Dwi’n teimlo’n drist iawn nad ydych wedi gofyn wrthyf a fy ffrindiau eraill sydd wedi mynychu Ysgol Abersoch am ein hamser yn yr ysgol. Pe baech wir eisiau adrodd ar y ddwy ysgol yna mi fyddech wedi cyfweld pobl a fynychodd y ddwy.</td><td></td></tr>
<tr><td>368</td><td>…pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori… Mae’r ffurflen ymateb yn annigonol. Nid oes manylion o sut all pobol ofyn cwestiynau pellach ynglyn a’r cynnig neu cynnig dewisiadau amgen. Nid yw’r ymgyngoreion wedi cael gwybod o’r cyfleon i wneud sylwadau am ddewisiadau amgen i gau yr Ysgol sydd wedi ei adnabod gan Cyngor Gwynedd ynghyd a’u prif ddewis. Nid yw’r ymgyngoreion wedi cael gwybod am y cyfle i gynnig syniadau amgen i gau fyddai hefyd yn ymateb i rhesymau dros gloi ( h.y y brif sialens mae’r Ysgol yn ei wynebu).</td><td></td><td>Mae’r Awdurdod yn hyderus fod ein prosesau a’r ffurflen ymateb a ddarparwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cyfarch gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Fe nodwyd ar dudalen 38 o’r ddogfen ymgynghori “Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall yr ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o’r cynnig neu awgrymu opsiynau eraill.”</td></tr>
<tr><td>369</td><td>….pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori.</td><td></td><td>Mae’r Cyngor yn cydnabod fod rhagfynegi nifer plant i’r dyfodol yn anodd yn arbennig felly gan nad oes rheidrwydd ar rieni i yrru eu plant i’r ysgol ddalgylch.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | …. Mae diffyg eglurhad/rhesymeg dros y tafluniad 5 mlynedd o niferoedd disgyblion yr ysgol. Mae penderfyniad Cyngor Gwynedd i beidio â ystyried ardrawiad Ti a Fi a'r Cylch Meithrin ar niferoedd amcan yr Ysgol yn anheg. | | Mae'r rhagamcanion a gyflwynir yn y ddogfen wedi ei seilio ar ragamcanion 3 blynedd a gyflwynwyd gan benaethiaid yr ysgolion. Amcangyfrifir y rhagamcanion 5 mlynedd ar sail cyfartaledd niferoedd derbyn yr ysgol dros y dair blynedd ddiwethaf.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod perthynas Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gydag ysgolion yng Ngwynedd, fodd bynnag, yn achos Ysgol Abersoch, o ystyried maint y cynnydd fyddai'n deillio o'r Cylch Meithrin, bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau. |
| 370 | Ymddengys bod cynnwys a natur cwblhau'r asesiadau effaith yn ymarfer ticio'r blwch cyfyngedig a gwblhawyd gan staff y Cyngor, yn hytrach nag ymgais gydnabyddedig i ganfod gwir gynrychiolaeth o'r effaith o fewn y gymuned a effeithir…. Effaith gyffredinol o gau ar y gymuned leol LIAR CIAR<br>Ac eto, mae'r Asesiadau Effaith Cymunedol ac Iaith yn ymarferion ticio blwch a gwblhawyd gan benaethiaid sy'n byw y tu allan i'r gymuned. Nid yw'r rhain yn mynd i'r afael yn ddigonol ag effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r ystyriaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cyfarch yr awgrymiadau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r gymuned a geir yn Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg, Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cwblhawyd asesiadau pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd. Gellir gweld copi o'r asesiad llawn ar wefan y Cyngor<br>www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 371 | Mynna'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod "Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin". Yn gyntaf, nis ymgynghorwyd â'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi sydd ar y safle ynglŷn â'r Ymgynghoriad Statudol er gwaethaf bod yn rhanddeiliad cydnabyddedig ac ni chynhaliwyd trafodaeth parthed goblygiadau cau'r ysgol ar y ddarpariaeth o addysg blynyddoedd cynnar yn Abersoch. Mae'r hepgoriad hwn yn tanseilio ymddiriedaeth dull cynnal yr ymgynghoriad….<br>A yw'r wybodaeth am yr ymgynghoriad wedi'i dosbarthu'n ddigon eang? Faint o sefydliadau eraill a oedd i fod i gael eu hysbysu na chawsant wybod?<br>Mae'r hepgoriad hwn yn tanseilio'r broses ac yn peryglu ffydd bod y broses yn cael ei chynnal yn deg…. Nid yw'n amlwg bod unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith cau'r ysgol ar y gwasanaethau hyn…. Nid yw effaith cynigion ar sefydliadau eraill gan gynnwys darparwyr sector preifat a thrydydd sector (Cylch Meithrin Abersoch) ac i ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad. | | Yn anffodus, yn dilyn yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn y ddogfen ymgynghoriad fel sy'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae'n ymddangos bod camgymeriad gweinyddol wedi bod wrth anfon e-bost yn cyhoeddi'r ymgynghoriad.<br><br>Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y Cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer yr e-bost cyhoeddi, ond fe ymddengys fod bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma.<br><br>I sicrhau fod y Cylch yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr y cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn **1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021,** ac y byddai'r sylwadau hynny yn cael eu derbyn a'u hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad statudol.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar safle Ysgol Abersoch ac yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'n gywir nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, yna byddai'r ysgol amgen yn darparu addysg o 3 oed i fyny. Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, os fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau hefo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.<br>Fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol y "Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd." |
| 372 | Awgrymiadau Cyngor Gwynedd yw'r tri opsiwn hyn [opsiynau rhestr fer]. Mae awgrymiadau arfaethedig Ysgol Abersoch wedi cael eu diystyru gan ein harwain i gredu nad oes neb wedi gwrando arnom. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Pwysleisir mai pwrpas y cyfnod ymgynghori statudol oedd i gasglu sylwadau a barn rhan-ddeiliaid ar y cynnig arfaethedig.<br><br>Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un allu gwrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir fod yr awdurdod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. |
| 373 | Mae goblygiad yma bod Ysgol Abersoch, fel rhan o'r "panel adolygu", yn cytuno â'r cynnig a gafodd ei "ddatblygu". Nid yw hyn yn wir. Eglurwch os gwelwch yn dda. | | Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Abersoch ym mis Hydref 2019 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Hydref 2019 ac Ionawr 2020, gyda'r olaf ar 6 Ionawr 2020. Roedd y PAY yn cynnwys pennaeth yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni, a staff. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddisgyblion, a maint bychain y dosbarthiadau.<br>Bu i'r Adran Addysg gwblhau gwerthusiad o'r holl opsiynau er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau o dan ystyriaeth. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau, y cyfeiriad a ffafrir a'r cynnig a oedd yn destun yr ymgynghoriad statudol ac yna'r rhybudd statudol yw cau Ysgol Abersoch, gyda'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach. |
| 374 | 6.1 Cymharu Opsiynau (Opsiwn 4) - Pam fyddai'r ddwy ysgol wedyn yn dibynnu ar bolisi staffio lleiaf? | | Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd ddisgyblion cyfnod sylfaen Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd yr ysgol gyfagos. Byddai amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn parhau yn y dosbarth cyfnod sylfaen a'r dosbarth cyfnod allweddol 2. Er y byddai'n lleihau swm gwarchodaeth ariannol yn Ysgol Abersoch, mae'n bosib y byddai'n arwain at sefyllfa ble y byddai'r ddwy ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai'n lleihau niferoedd yr ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach). |
| 375 | 6.1 Cymharu Opsiynau Opsiwn 5 - "… byddai'n arwain at sefyllfa lle byddai'r tair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y ffederasiwn yn dibynnu ar ddyraniad ariannol ychwanegol trwy'r polisi amddiffyn staff lleiaf". A yw hwn yn opsiwn rhagweladwy credadwy pe bai Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog yn ffederaleiddio fel 3 ysgol? Ar hyn o bryd mae mwy na 160 o ddisgyblion ym mhob un o'r 3 ysgol, gan ostwng i ddim llai na 100 os yw'r rhagamcanion ysgol i'w credu. | | Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd ddisgyblion cyfnod sylfaen Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd y ddwy ysgol gyfagos. Byddai amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn parhau yn y dosbarth cyfnod sylfaen. Er y byddai'n lleihau'r swm gwarchodaeth ariannol yn Ysgol Abersoch, mae'n bosib y byddai'n arwain at sefyllfa ble mae'r tair ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio.<br><br>Mae trefniadau cyllido ysgolion ffederal yn golygu y bydd y tair ysgol yn derbyn cyllidebau ar wahân ac oherwydd hyn nid yw cyfanswm y plant ar y tri safle yn ffactor.<br><br>Un o anfanteision y model yw y byddai'n golygu fod angen i blant symud o un safle i'r llall, ac oherwydd hyn yn methu perthnasu yr un mor effeithiol ac y maent ar hyn o bryd i'w ardal leol.<br><br>Wrth drafod yr opsiynau hefo'r Panel Adolygu Ysgol yn Ionawr 2020, nodwyd pryder y gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio anfon eu plant i'r ysgol – mae'n deg nodi felly y gallasai'r newid arwain at leihad yn niferoedd y disgyblion yn y tair ysgol fyddai'n rhan o'r ffederasiwn, ac o ganlyniad, gall arwain at sefyllfa ble mae'r tair ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. |
| 376 | "Serch hynny, ar ôl gwerthuso'r opsiynau yn erbyn ffactorau strategaeth Addysg Gynradd Ardderchog i Blant Gwynedd, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiynau hyn yn llwyddo i gwrdd, na datrys, y prif heriau a wynebai'r ysgol (fel y manylir yn adran 5.1 ). "<br>Ar ba sail y daethpwyd â hyn i ben? | | Wrth ddatblygu'r cynnig, cwblhawyd gwerthusiad o'r holl opsiynau er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau o dan ystyriaeth. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pam nad oes unrhyw sôn am y goblygiad ar y meintiau dosbarth oedran cymysg uchaf a argymhellir a'r cymarebau staff: staff uwch? | | Roedd 'Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran' yn un o'r ffactorau a ystyriwyd wrth werthuso'r opsiynau, ac fe nodwyd yr *'Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd'* fel un o anfanteision yr opsiwn ffafredig. Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.<br><br>Gellir gweld copi o'r gwerthusiad opsiynau cyflawn ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. |
| 377 | …Newid ystod oedran Cynnydd Opsiwn Ysgol Abersoch i 3-11<br>Pam na chyflwynwyd hyn? Anogodd Cyngor Gwynedd Ysgol Abersoch i edrych ar ystod oedran 3-11, yna ei diystyru. Nid oedd hwn erioed yn opsiwn mewn gwirionedd ond sgrin fwg. | | Trafodwyd dau opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 ac ymestyn i 3-11.<br><br>Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y Cylch Meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 dalgylch Abersoch).<br><br>Wrth gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am sawl rheswm, yn benodol:<br>• Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.<br>• Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.<br>• Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.<br><br>Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.<br><br>Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos. |
| 378 | Effaith ar Gymraeg<br>Defnyddiwyd gwahanol ddata o'i gymharu â'r asesiad drafft - Haf 2019 yn hytrach na mis Hydref 2019.<br>Pam mae set ddata hŷn yn cael ei defnyddio yn y fersiwn hon? A yw hyn i gyflwyno data sy'n adlewyrchu dibenion Cyngor Gwynedd ei hun?/ Sylwaf fod data ar ddefnydd y Gymraeg a gyflwynir yn y dogfennau drafft, wedi cael eu ddiystyru o blaid set wahanol o ddata sy'n fwy ffafriol i'r naratif gwrth Ysgol Abersoch, a thrwy hynny ychwanegu cryfder at y ddadl sy'n ceisio cyfiawnhau'r cynnig i gau'r ysgol. | **2** | Mewn perthnasedd i'r sylwad am y sampl o blant ddaru gwblhau'r holiadur gwe iaith, gall yr Awdurdod gadarnhau mai sampl o blant Cyfnod Sylfaen ymhob un o'r ysgolion a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol, a hynny er mwyn sicrhau cymhariaeth deg ac ystyrlon ar draws yr ysgolion. Nid oedd gwybodaeth gyffelyb ar gael ar gyfer tymor yr Hydref 2019.<br><br>Yn sgil niferoedd isel Ysgol Abersoch, cydnabyddir bod sampl y data yn fychan, fodd bynnag mae'r data yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynodd y disgyblion eu hunain yn yr holiadur yn nodi eu harferion o ran defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. |
| 379 | 7.15 Risgiau Posibl - Diffyg gwneud penderfyniadau - Analluiroi newid ar waith oherwydd diffyg gwneud penderfyniadau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o darfu ar addysg y disgyblion. Gallai niweidio enw da'r Cyngor.<br>Bydd yn cael ei niweidio os bydd Cyngor Gwynedd yn mynnu gwthio trwy gynlluniau amhoblogaidd yn ystod pandemig a heb ofal a sylw dyladwy i fanylion a'r effeithiau ar y gymuned a'r iaith yn Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 380 | 7.15 Risgiau Posibl Ansawdd yr addysg yn y tymor byr tra bo sefyllfa'r ysgol yn cael ei hadolygu – Peryglu ansawdd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y disgyblion<br>Mae hwn yn sylw sarhaus i ymroddiad staff addysgu a chymorth Ysgol Abersoch. Gofynnwn ichi dynnu'r datganiad hwn yn ôl a chyhoeddi ymddiheuriad. | | Mewn perthnasedd i'r sylwad am yr effaith posib ar ansawdd yr addysg, gall yr Awdurdod gadarnhau nad oedd yn cyfeirio at weithlu Ysgol Abersoch yn benodol, ond yn hytrach yn cyfleu ac yn cydnabod yr effaith y gall proses o newid megis ad-drefnu ysgolion ei gael ar berfformiad y gweithlu â effeithir yn ystod y cyfnod.<br>Mae sawl astudiaeth Rheoli Newid Sefydliadol yn cadarnhau (hyd yn oed mewn achosion lle mae'r gweithlu yn rhagori a'r rheolaeth ac arweinyddiaeth o'r newid yn gadarn) mae risg syfrdanol bod gostyngiad ansawdd perfformiad ***yn ddisgwyliedig ac angen ei gydnabod fel rhan o'r broses.***<br>"Self-esteem and performance can drop during periods of change. In a sense this is unavoidable – a natural and normal reaction to change affecting individuals" *(MAKING SENSE OF CHANGE MANAGEMENT Esther Cameron and Mike Green 2012)*<br>Mae astudiaeth Roffey Park (Devine 1999) yn cadarnhau hyn hefyd wrth nodi, mae anghydfod rhwng 2 safbwynt a barn ddiwylliannol wahanol (sy'n arwain at ymgynghoriadau o newid sefydliadol), ***yn anochel yn arwain at rhwng 25% - 30% o ostyngiad mewn ansawdd perfformiad*** oherwydd y posibiliad o'r canlynol:<br>• Sylw yn mynd at feddylfryd "nhw a ni" yn hytrach nag undod o gyfeiriad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Ymdrech ac egni yn mynd tuag at y broses o naillai Newid neu warchod beth sy'n bodoli<br>• Clymbleidiau anffurfiol a ffurfiol yn ymgeisio arwain<br>• Portreadu naill ochr yn well na'r llall.<br><br>Mae'r awdurdod yn cydnabod bod cyfnodau o newid yn gallu creu ansefydlogrwydd a pheri pryder personol i bob unigolyn sydd hefyd yn cynyddu'r risg o ostyngiad mewn perfformiad. Mae'r ymdrechion sydd wedi eu gweithredu gan yr awdurdod i gynnwys safbwyntiau staff yr ysgol a'u hannog i fod yn "rhan o'r newid" wedi arwain at y tebygolrwydd o lai o effaith ar ansawdd yr addysg a'r gwaith dydd i ddydd o addysgu, ac felly llai o risg o effaith ar berfformiad. |
| 381 | Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig<br>Nid aethpwyd i'r afael â hyn er ei fod yn rhan o'r CTY. | | Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Rydym o'r farn fod yr asesiadiadau effaith a gyflwynwyd yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion. |
| 382 | "Rhaid i gynigion sy'n effeithio ar elusennau fod yn gyson â chyfraith elusennau neu bwrpas datganedig yr ymddiriedolaeth elusennol. "<br>Rydym wedi cysylltu â'r Comisiwn Elusennau ac yn aros am ymateb. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 383 | Mae'n werth nodi nad yw barn rhieni yn cael ei chofnodi yn y ddogfen ymgynghori. | | Pwrpas yr ymgynghoriad statudol oedd canfod barn rhan-ddeiliaid, gan gynnwys rhieni, ar y cynnig arfaethedig. Yn ddiweddarach, cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol, ac fel rhan o'r broses, roedd cyfle i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. |
| 384 | Ymddengys bod adroddiad yr Ymgynghoriad yn ddethol yn ei ddewis o gynnwys a geiriad, gan amlygu buddion Ysgol Sarn Bach ond, eto'n eithrio rhai Ysgol Abersoch. Er enghraifft, penodwyd pennaeth Ysgol Abersoch, Linda Jones yn Gydlynydd Clwstwr Siarter Iaith i gefnogi'r Sector Uwchradd ond eto ni chydnabyddir dim o hyn. Awgryma hyn bod mwy i'w ennill nac o'i golli o gau Ysgol Abersoch. | | Dymuna'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl di-duedd a thryloyw yn yr hyn a gyflwynwyd fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad.<br><br>Mewn perthnasedd i'r sylwad am rôl y Cydlynydd Clwstwr, bu i'r Awdurdod wahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer y rôl ar draws Gwynedd, ac yn sgil hynny, ceir 13 Cydlynydd Clwstwr yn y sir, sef un i bob dalgylch. O ystyried hyn, nid yw'r Awdurdod o'r farn fod y rôl yn berthnasol i'r cynnig o ystyried nad ydyw'n creu mantais nac anfantais i Ysgol Abersoch. |
| 385 | Rwyf yn ei chael hi'n anodd i ddod o hyd i unrhyw beth yn y dogfennau sy'n taflu goleuni ar lwyddiant neu gyflawniadau'r ysgol | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Pwysleisir fod cynnwys y ddogfen ymgynghori wedi ei lunio yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. |
| 386 | Ni leolir Ysgol Sarn Bach yng nghanol y pentref – mae ar ei gyrion. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 387 | Mae'n werth tynnu sylw bod lleoliad Ysgol Sarn Bach, fel y dynodir ar dudalen 35 y Ddogfen Ymgynghoriad Statudol, yn anghywir. Efallai y cydiodd yr Adran Addysg yn ein syniad o Ysgol Draeth (Atodiad C) ac y dymuna ddatblygu Ysgol Sarn Bach yn Ysgol Fferm? Arweinia hyn at achos pryder yn anad dim ynghylch cywirdeb rhannau mwy cymhleth yr adroddiad. | | Mae'r Cyngor yn debryn y sylwadau. Dyma fap diwygiedig sy'n nodi lleoliad Ysgol Sarn Bach.   |
| 388 | Mae'n werth tynnu sylw bod lleoliad Ysgol Sarn Bach, fel y dynodir ar dudalen 35 y Ddogfen Ymgynghoriad Statudol, yn anghywir. Efallai y cydiodd yr Adran Addysg yn ein syniad o Ysgol Draeth (Atodiad C) ac y dymuna ddatblygu Ysgol Sarn Bach yn Ysgol Fferm? Arweinia hyn at achos pryder yn anad dim ynghylch cywirdeb rhannau mwy cymhleth yr adroddiad. | | |
| 389 | Gwnaeth swmp sylweddol yr wybodaeth hi'n amhosibl i ni ymateb, yn unol â chais yr Adran Addysg, mewn unrhyw ffordd yn ystod penwythnos cyntaf yr ymgynghoriad, yn arbennig pan na dderbyniwyd y copïau caled a ofynnom amdanynt ar Ionawr 6ed yn llawn tan Ionawr 19eg. | | Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, anfonwyd e-bost at yr ymgynghorai perthnasol â oedd yn cynnwys linc at y ddogfen ymgynghori electroneg. Darparwyd copïau caled ar gais yn ogystal.<br><br>Ailgyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 12 Ionawr 2021 (gyda dyddiad cau diwygiedig o 23 Chwefror), a bu i'r Tîm Moderneiddio Addysg ddosbarthu'r copïau caled cyfredol erbyn 19 Ionawr 2021. |
| 390 | Nid yw pwyllgor a staff y CMA wedi cael gwybod am y bwriad i gau'r ysgol a ni ymgynghoriwyd â hwy er ei bod yn ofyniad statudol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (CTY). Nid ydym wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd rhanddeiliaid felly anwybyddwyd ein mewnbwn yn llwyr…. Nid yw'r CMA wedi derbyn y ddogfen ymgynghori mewn unrhyw fformat ac mae'n llawer rhy hwyr i ni gael unrhyw fewnbwn ystyrlon i broses hyd yn hyn oni bai a cyflwynir oedi i'r broses hon! | | Yn anffodus, yn dilyn yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn y ddogfen ymgynghoriad fel sy'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae'n ymddangos bod camgymeriad gweinyddol wedi bod wrth anfon e-bost yn cyhoeddi'r ymgynghoriad.<br><br>Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y Cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer yr e-bost cyhoeddi, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma.<br><br>I sicrhau fod y Cylch yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr y cylch anfon unrhyw |
| 391 | Mae'n amlwg bod y cyngor wedi methu ag ymgynghori nac ystyried y CMA yn yr holl broses hon sydd, yn enwedig yng nghanol pandemig, yn anodd iawn ei gyfiawnhau a'i chyflawni. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sylwadau pellach atom erbyn **1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021,** ac y byddai'r sylwadau hynny yn cael eu derbyn a'u hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad statudol. |
| 392 | Mae teuluoedd yn cael eu digalonni rhag anfon eu plant i Ysgol Abersoch a'r CMA gan eu bod yn pryderu y bydd y rhain yn cau. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 393 | Opsiwn 9… Dyma'r opsiwn a ffefrir gan Ysgol Abersoch ond cafodd ei ddiystyru gan Gyngor Gwynedd. Dylid nodi y gallai rhieni fod yn fwy tueddol o deimlo ei bod yn werth anfon eu plant i Ysgol Abersoch pe bai blwyddyn ychwanegol yn cael ei chynnig. Byddai hyn yn cynyddu nifer y disgyblion ac yn lleihau'r gost y pen ac fel y nodwyd uchod mae'n ddull naturiol a chyffredin o ddysgu Blynyddoedd 3 a 4 gyda'i gilydd mewn un ystafell ddosbarth. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r gefnogaeth i'r opsiwn i ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch i 3-9 oed.<br><br>Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori (adran 6.4), yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).<br><br>Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau a ganlyn:<br>• Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.<br>• Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.<br>• Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.<br><br>Ym mis Medi 2020, roedd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Bl.3) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020 yw 24.<br><br>Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020. |
| 394 | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch "Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd."<br>Mae hwn yn fater o farn. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu hyd at 7 mlynedd o addysg barhaus ar un safle (1 flwyddyn Cylch Meithrin, Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1,2,3,4, ynghyd â 2 flynedd arall bosibl yn Ti a Fi). Mae'r rhieni a'r plant wedi gofyn amdano a byddai'n cael effaith ariannol gadarnhaol, gan leihau'r gost fesul disgybl. Rhagwelir y bydd blynyddoedd 4-6 yn Sarn Bach yn parhau i fod yn uwch na 20 am y 2 flynedd nesaf. Byddai caniatáu blwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch yn helpu i leddfu'r pwysau ar y dosbarthiadau rhy fawr yn Ysgol Sarn Bach (yn ogystal ag Ysgol Llanbedrog mae'n debyg). | | |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Meithrin</th><th>Derbyn</th><th>Bl 1</th><th>Bl2</th><th>Bl 3</th><th>Bl 4</th><th>Bl 5</th><th>Bl 6</th><th>Cyfanswm</th><th>Nifer y dosbarthiadau</th><th>Dosbarth mwyaf</th><th>Dosbarth lleiaf</th><th>Maint dosbarth ar gyfartaledd</th></tr>
<tr><td>Abersoch</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td><td>1</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>3</td><td>2</td><td>5</td><td>4</td><td>8</td><td>5</td><td>10</td><td>11</td><td>48</td><td>2</td><td>34</td><td>14</td><td>24</td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020<br><br>
Byddai gwireddu’r cynnig arfaethedig yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran.<br><br>
Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.<br><br>
Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.<br><br>
Yn dilyn ystyriaeth, daethpwyd i’r casgliad na fyddai’r opsiwn ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ddatrysiad cynaliadwy i’r dyfodol ar gyfer yr ysgol. Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai’r heriau sy’n wynebu’r ysgol yn parhau. Rhagwelir y byddai niferoedd a’r rhagamcanion yn parhau’n isel, dosbarthiadau yn parhau’n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.
</td>
</tr>
<tr>
<td>395</td>
<td>…. Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. "Cynhaliwyd trafodaethau gydag Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog."<br>Beth oedd canfyddiadau'r trafodaethau hyn? Pam nad oes cofnodion o'r trafodaethau hyn? Os na fydd Cyngor Gwynedd yn adrodd hyn, ni ddylid codi hyn fel pwynt.<br>Diystyrwyd hyn ar y sail mai “Nid yr opsiwn gorau” ydoedd - wel mae’n well na chau Ysgol Abersoch. Byddai'n cadw ysgol a'r iaith yn y gymuned.</td>
<td></td>
<td rowspan="2">Er bod manteision i ffederaleiddio, mae’r awdurdod o’r farn y byddai’n annhebygol y byddai’r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.<br><br>Bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i ddiweddaru penaethiaid a’r</td>
</tr>
<tr>
<td>396</td>
<td>Mae gan yr opsiwn ffederaleiddio bethau cadarnhaol ond cafodd ei ddiystyru am resymau aneglur. Nid oes tystiolaeth ddigonol i nodi pam na aethpwyd ati i ffederaleiddio ymhellach.</td>
<td></td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 397 | …..pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori. Mae diffyg tryloywder ynglyn a sut wnaeth Cyngor Gwynedd ymgynghori gyda'r ysgolion cyfagos ac yn benodol nid yw barn yr ysgolion ac ei cyrff llywodraethu ynglyn a ffederaleiddio yn hysbys. Mae'r diffyg gwybodaeth yma wedi cael ardrawiad ar allu yr ymgyngoreion i ymateb yn ystyrlon i'r cynigion…. Nid yr ydym yn credu bod ffederaliaeth wedi'i archwilio'n ddigonol. | | cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib gallai rhai o'r opsiynau gael ar eu hysgol. Ni fu i unrhyw un o'r ddwy ysgol ddatgan diddordeb mewn ymchilio'n mehllach i fodel fedral.<br><br>Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.<br>Mae trefniadau cyllido ysgolion ffederal yn golygu y bydd y tair ysgol yn derbyn cyllidebau ar wahân a fyddai'n seiliedig ar y niferoedd plant ymhob ysgol. Mae'r Cyngor o'r farn na fyddai model ffederal yn cynnig unrhyw arbediad cyllidol.<br><br>Er mwyn cael y gorau o fodel ffedral mae'n arferol, ond nid yn rheidrwydd, y byddai'r ysgolion yn rhannu Pennaeth. Gan fod Pennaeth ymhob un o'r ysgolion mae'r Cyngor o'r farn y gall model federal mwyaf effeithiol arwain at ddiswyddiadau gorfodol. |
| 398 | Nodir bod hyn wedi cael ei ystyried, ond y penderfyniad a wnaed gan Gyngor Gwynedd oedd nad oedd hyn yn berthnasol gan na fyddai'n effeithio ar nifer y disgyblion. Ac eto mae Ysgol Llanbedrog yn orlawn. Mae achos cryf yma nad yw hyn wedi'i gyfiawnhau'n llawn. Pa dystiolaeth sydd wedi'i darparu? E-bost ymateb Cyngor Gwynedd 8/12/20 "Mewn ymateb i'ch ymholiad ynglŷn â natur yr ymgynghoriad a wnaed gydag Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog parthed yr opsiwn i ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch, cadarnhaf ein bod wedi cwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr y ddwy ysgol ar wahân yn ôl ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfle i ddiweddaru penaethiaid a'r cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib gallai rhai o'r opsiynau hynny gael ar eu hysgol." | | |
| 399 | Hefyd bydd pryder ynglŷn ar opsiynau oedd yn cael ei rhoi wrth law ar eglurhad ar y ffordd oedd dilyn yr opsiynau hyn I fynnu, enghraifft o hyn oedd opsiwn ffederaleiddio gyda ysgol arall. | | |
| 400 | Ni ystyriwn y cynhaliwyd yr ymgynghoriad â'r ysgolion cyfagos yn briodol a chyda'r gofal a'r sylw dyledus. Cadarnheir hyn gan ddiffyg cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd rhwng Swyddogion yr Adran Addysg a Chyrff Llywodraethol Ysgolion Llanbedrog a Sarn Bach. Cyfeirir atynt, ym mhapurau'r Awdurdod Addysg, fel cyfarfodydd anffurfiol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019 a mis Ionawr 2020. Mae hyn yn gadarnhad pellach o sut deliodd yr Awdurdod Addysg â'r broses o gau Ysgol Abersoch fel ymarfer ticio blwch yn hytrach na phroses ystyrlon ac agored. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i ddiweddaru penaethiaid a'r cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib gallai rhai o'r opsiynau gael ar eu hysgol. Ni fu i unrhyw un o'r ddwy ysgol ddatgan diddordeb mewn ymchwilio ymehllach i fodel ffederal. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 401 | Rhan y Cyflwyniad ir Adroddiad sydd yn sôn am y cyfarfodydd dechreuol ir broses mae yna wedi bod o pryder ar y ffordd cafodd yr cyfarfodydd yn ei chynnal a bydd derbyn ambell cwyn ynglyn a safon yr cyflwyniadau ar trafodaethau. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad |
| 402 | Cafodd yr ymateb enfawr i'r Ymgynghoriad Statudol ei yrru'n llwyr gan ymgyrch a gydlynwyd gan y Llywodraethwyr, rhieni a Cyfeillion, ac roedd yn gamp fawr yn ystod cyfnod clo ac yn bandemig llawn ofn. Fodd bynnag, ymddengys bod ein hymdrechion i annog trafodaeth ac ymgysylltiad ystyrlon wrth ystyried y materion hyn wedi bod yn ofer. I'r gwrthwyneb, efallai bod y nifer fawr o ohebiaeth a gynhyrchwyd wedi gweithio yn ein herbyn, gan fod y ddogfen enfawr a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ysgubol, a tybed faint o aelodau sydd wedi rhydio trwy'r rhesymau manwl, y dystiolaeth a'r arsylwadau a ddarparwyd gan gefnogwyr yr ysgol? | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda'n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai'n debygol o ymateb orau i'r heriau hynny.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un allu gwrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir nad ydi'r penderfyniad wedi ei wneud ac fod yr Awdurdod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. |
| 403 | Mae eraill wedi dod o hyd i wallau ac anghywirdebau yn eich Dogfen Ymgynghori Statudol na wnaf ymhelaethu arnyn nhw yma, ond beth sydd yn bwysig yw eich bod wedi dewis anwybyddu'r gwallau hyn fel petai nhw ddim yn bwysig, ond rwy'n anghytuno. Yn sicr pan y dewch i ganlyniad y bydd yn cael effaith enfawr, felly onid yw'n bwysig cael y ffeithiau i gyd yn gywir? Pe bawn i'n cyflwyno adroddiad yn y fath modd yn fy ngwaith byddai goblygiadau, nail ai yn bersonol neu i'r cwmni rwy'n ei gynrychioli! | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad, ac eisoes wedi ei gyfarch fel rhan o'r adroddiad i'r ymgynghoriad, ymhle nodwyd:<br><br>"Mae'r Cyngor yn hyderus yng nghywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r Cyngor yn derbyn fod lleoliad Ysgol Sarn Bach ar fab yn y ddogfen yn anghywir ond nad ydi hyn yn effeithio yr ymgynghoriad".<br><br>Bu i'r awdurdod dderbyn sylwadau parthed gwallau yn yr asesiadau effaith yn ogystal yn ystod yr ymgynghoriad, ac mewn ymateb i'r sylwadau hynny nodwyd fod y "Cyngor yn derbyn y sylwad ac wedi diweddaru'r wybodaeth/tablau lle'n briodol – cyflwynir fersiwn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | diwygiedig o’r asesiadau fel atodiad i’r adroddiad ar yr ymgynghoriad”. Gellir gweld yr asesiadau diweddaraf yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 404 | Cyflwynwyd gwrthwynebiad cymunedol cryf i’r Ymgynghoriad Statudol o gau Ysgol Abersoch a gofynnwn i bob un o’r ymatebion hyn, a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod yr Ymgynghoriad Statudol (Ionawr – Chwefror 2021), gael ei ystyried yn wrthwynebiad.<br>Rydym yn hollol grediniol y noda’r dystiolaeth y sylwyd arno hyd yma yn y penderfyniad mai proses o dicio blychau i fodloni'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a bod y penderfyniad hwn i gau Ysgol Abersoch wedi ei wneud ymlaen llaw. Mae’n amlwg fod y broses wedi’i ogwyddo o blaid y Cyngor oherwydd, unwaith yn rhagor, anwybyddir llais y gymuned heb sail. Ni atebwyd y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymatebion i’r Ymgynghoriad Statudol yn foddhaol.<br>O ganlyniad, cwestiynwn ddilysrwydd y penderfyniad | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy’n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda’n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai’n debygol o ymateb orau i’r heriau hynny.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i’r Cabinet er mwyn crynhoi’r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i’r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un allu gwrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021. Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i’r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir nad ydi’r penderfyniad wedi ei wneud ac ein bod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. |
| 405 | Parhawn i ailadrodd mai dull o weithredu llawdrwm a ddeliwyd gan yr Adran Addysg wrth fynnu y parheid cynnal y broses ymgynghori er gwaethaf y pandemig. Tra gwnaeth Cyfeillion Ysgol Abersoch gwaith rhagorol, fel y gwelir o gynifer eithriadol yr ymatebion a’r gwrthwynebiadau i’r broses ymgynghori, nid yw’r ymateb rhithiol hwn yn disodli'r cyfle a geir trwy gyfarfodydd iawn, wyneb yn wyneb a chyhoeddus. Mae yna ddiffyg cywilyddus o ewyllys o fewn y Cyngor i ddilyn ymwneud mwy cyhoeddus agored, a gyfiawnheir trwy guddio tu ôl i’r safonau lleiaf posibl sydd ei angen ar gyfer y Côd Trefniadaeth Ysgolion. | | |
| 406 | Tra’n dechnegol gywir, datgana adroddiad yr Awdurdod Addysg ‘bod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn mynegi gwrthwynebiadau’, mae’n hollol amlwg bod hwn yn fwyafrif ysgubol ac eto’n profi fod y Cyngor yn benderfynol o gyflwyno ffeithiau mewn ffordd sy’n ei siwtio ei hun (Adran 6.2). | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |
| 407 | Anodd yw credu yr anfonwyd dros 150 gwrthwynebiad i’r ymgynghoriad – a brofa bod cefnogaeth gref i Ysgol Aber-soch gan y gymuned. Tybed a dderbyniodd unrhyw ysgol arall gystal gefnogaeth a hynny heb gynnal cyfarfodydd cymunedol? | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |
| 408 | Ond, dim ond parhau â’r penderfyniad wnaeth yr Aelodau, h.y. cadarnhau un a wnaed cyn dechrau unrhyw drafodaeth nac ymgynghoriad. | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy’n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda’n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai’n debygol o ymateb orau i’r heriau hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un allu gwrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir nad ydi'r penderfyniad wedi ei wneud ac ein bod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. |
| 409 | Ysgrifennaf atoch gan fy mod yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Abersoch a nid ydych wedi gofyn wrthym am ein barn ar ein hamser yn yr ysgol, roedd yn amser pwysig iawn i mi.<br><br>Roeddwn yn caru fy hen ysgol, roeddwn i'n licio'r athrawon yn fawr iawn ac roedden nhw'n fy helpu ar y pryd, roedden nhw'n fy helpu i wella fy sgiliau meddwl ac i ddefnyddio fy nychymyg mewn modd greadigol. | | Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'n ofynnol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ([www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) )<br><br>Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol; Ysgol Sarn Bach, a trefnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda'r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig.<br><br>Mewn ymateb i'r sylwad na ofynwyd caniatad rhieni, noder fod rhieni Ysgol Abersoch wedi bod yn bresennol yn y sesiwn ymgynghori ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau'r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai'r ysgol yn cau. Yn achos Ysgol Sarn Bach, roedd pedwar disgybl y Cyngor Ysgol yn cynrychioli pob blwyddyn o'r Adran Iau ac un rhiant (i aelod o'r Cyngor Ysgol) yn bresennol (ac yn cyfrannu ond er mwyn gwneud barn ei phlentyn yn gliriach i'r hwylusydd). |
| 410 | Credwn fod yr ymgynghoriad â'r broses dysgwr wedi'i gyflwyno'n wael ac anaddas ac, unwaith yn rhagor, fe'i cynhaliwyd fel ymarfer ticio blwch. Diystyriwyd dymuniadau a theimladau'r dysgwyr, pob un ohonynt dan wyth oed.<br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad â'r dysgwyr yn rhithiol ar Chwefror 10fed. Derbyniodd y rhieni hysbysiad, trwy neges destun o'r ysgol, y cynhelid dau gyfarfod platfform rhithiol ar wahân. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth ymlaen llaw oddi wrth yr Awdurdod Addysg ac ni ddarparwyd dogfennaeth a fuasai wedi caniatáu staff yr ysgol neu'r rhieni baratoi'r plant ar gyfer y cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfrannu at y trafodaethau. O ganlyniad, y rhieni oedd prif gyfranwyr y cyfarfod. Roedd y plant yn swil | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a nerfus ac roedd yn amlwg eu bod yn anghysurus. Gwrthododd un plentyn â chymryd rhan gan ei fod yn ofidus ac roedd y plant eraill yn ddagreuol.<br>Bu camddealltwriaeth o ran amser y cyfarfod â’r dysgwyr ifanc ac roedd hyn yn dda i ddim. Roedd sain y cyfarfod ar brydiau’n wael iawn ac roedd yna atsain barhaus.<br>Derbyniodd y dysgwyr holiaduron y plant rhwng Chwefror 8fed a’r 10fed. Roeddent i’w dychwelyd erbyn Chwefror 12fed - amserlen afresymol. Dosbarthwyd yr un holiadur i ddysgwyr Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach heb ystyried eu hoedran. Mae’n aneglur os derbyniodd holl ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yr holiadur. Cred Corff Llywodraethol Ysgol Abersoch fod cwestiynau’r holiadur papur yn annheg a chamarweiniol. Un o’r cwestiynau oedd, “A oes rhywbeth yn dy boeni?”<br>Rhaid oedd dychwelyd yr holiaduron i Ysgol Sarn Bach ac arweiniodd hyn at rai disgyblion fod yn bryderus a gofyn, “Pwy welith yr holiaduron?”. | | Esboniwyd y byddai’r newid yn golygu:<br>- Y byddai Ysgol Abersoch yn cau.<br>- Y byddai disgyblion Ysgol Abersoch yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach ym Medi 2021.<br><br>Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i’w gwblhau ac wedi eu rhannu i dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a’u teimladau. Roedd yr hwylusydd eisoes wedi derbyn holiaduron cyn cychwyn y broses o holi dros Google Meet. Yn dilyn y cyfarfod derbyniwyd sylwadau un disgybl o Ysgol Abersoch ar ffurf fideo a gymerwyd gan ei fam a’i hanfon i sylw’r hwylusydd drwy law yr ysgol.<br><br>Mae’r Awdurdod yn hyderus fod ein prosesau yn cyfarch gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. |
| 411 | Roeddwn i fel rhiant wedi fy ffieiddio at y ffordd rydych chi wedi trin ein plant trwy gydol y broses hon, roedd y taflenni y gwnaethoch chi eu hanfon allan yn sarhad ar ein plant, roedd y gwallau ar y gwaith papur yn ceisio camarwain y plant dim ond yn dangos mewn gwirionedd nad oeddech chi wedi gwneud eich ymchwil yn iawn 'mwy o athrawon' 'gwell TG' 'gwneud mwy o ffrindiau' pan aethom i weld Ysgol SarnBach dywedwyd wrthym fod plant blwyddyn 4 yn bwyta cinio mewn ystafell yr oeddent wedi bod yn gweithio ynddi ac i ffwrdd oddi wrth y plant eraill . Rwy'n sylweddoli bod hyn oherwydd Covid, fodd bynnag, fe anfonoch y taflenni hynny allan yn ystod y pandemig covid felly dylech fod wedi sicrhau eu bod yn gywir. Rwyf am wneud hyn yn glir iawn ar unrhyw adeg na wnaethoch ofyn am ganiatâd y rhieni i gynnal cyfweliad gyda'n plant.<br><br>Ar dudalen 303 o’ch adroddiad ‘Paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach’ Pa ddogfennau ydych yn cyfeirio atynt? A ydych chi'n cyfeirio at y taflenni camarweiniol a dryslyd anghywir?<br><br>Derbyniwyd saith holiadur gan Ysgol Sarn Bach rai dyddiau ar ôl y sesiynau ymgynghori â disgyblion yn y ddwy ysgol. 'Derbyniodd fy mab ei holiadur ar y 10fed o Chwefror (Y diwrnod y cafodd fy merch ei hymgynghoriad) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nododd ar y ffurflen' i fod wedi'i gwblhau erbyn y 12fed o Chwefror am 12o'r gloch, i'w drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, mae gen i'r amlen ddyddiedig a llun o'r ffurflen hon. Felly roedd yn ymddangos eich bod wedi anfon y ffurflenni hyn at rai o'r plant fel ôl-ystyriaeth. Rwy'n adnabod sawl person na chawsant hyd yn oed un o'r ffurflenni hyn. Hefyd yn werth nodi bod plant Blwyddyn chwech wedi cael un o'r ffurflenni hyn i'w llenwi, yn fy meddwl roedd hwn yn ymarfer dibwrpas gan na fyddai angen eu cynnwys gan na fyddent yn yr ysgol mwyach pan symudodd plant Ysgol Abersoch i fyny . Felly nid oedd gan bawb ffurflen, roedd y saith ymateb hwyr oherwydd i chi eu hanfon allan yn hwyr mewn gwirionedd, diwygiwch eich adroddiad gyda'r tro mwy cywir hwn o ddigwyddiadau.<br><br>Mynegodd fy hun a rhieni eraill hefyd pe byddech yn gwneud eich adroddiad cyfiawnder, efallai y byddwch yn gofyn i fyfyrwyr blaenorol Ysgol Abersoch am eu meddyliau ar yr addysg a gawsant yn Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, byddai hyn yn rhoi cynrychiolaeth wirioneddol o'r ddwy ysgol. Mae'r addysg a dderbynnir yn Ysgol Abersoch o ansawdd uchel iawn a chredaf na ellir dadlau yn erbyn hyn. O'r holl blant yn Ysgol Sarn Bach, dim ond 19 holiadur a gawsoch yn ôl, pam oedd hwn? Yn eich cyfweliadau a gynhaliwyd yn Ysgol Sarn Bach, faint o blant ar y cyngor sydd ym mlwyddyn 6? | | |
| 412 | Ysgrifennaf i wrthwynebu'n gryf i benderfyniad y Cabinet ar 15 Mehefin 2021 i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021. Mae'r sail ar gyfer y penderfyniad hwn yn aneglur i mi. O ganlyniad, credaf fod y penderfyniad yn ddi-sail gan ei fod yn dibynnu ar set ragfarnllyd o ffeithiau sy'n methu ag ymgorffori persbectif ehangach o addysg mewn ysgolion cyfagos. Yn ogystal, rwy'n teimlo mai ymddygiad y Cyngor drwyddo draw oedd i wrthod unrhyw dystiolaeth sy'n gwrth-ddweud eu barn gul ac ar brydiau mae eu hymddygiad wedi bod yn amharchus.<br><br>Nododd Garem Jackson yng nghyfarfod y Cabinet (15 Mehefin) nad yw'n derbyn mai penderfyniad ariannol yw hwn a'i fod yn ymwneud ag ansawdd yr addysg a'r profiadau a ddarperir i'r plant. Rwy'n ei chael hi'n anodd credu bod yr Adran Addysg a'r Cabinet yn gallu gwneud asesiad o | | Yn dilyn ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, ar 15 Mehefin 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gefnogi'r argymhelliad i ryddhau rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch. Daeth yr argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau a gwerthuswyd yr opsiynau hyn yn llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol.<br><br>Yn dilyn ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyriwyd fod y cynnig a ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnig yr opsiwn gorau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Abersoch. Daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig hwn fyddai'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu am y rhesymau a nodwyd yn adrannau 4.1 a 4.7 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad. Gellir gweld copi o'r adroddiad llawn yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ansawdd yr addysg a'r profiadau a ddarperir i'r plant heb hyd yn oed gamu y tu mewn i ddrysau'r ysgol. Mae adroddiad Estyn yn 2017 ar Ysgol Abersoch yn dosbarthu'r ysgol yn dda ac mae'r plant yn gyson yn cyflawni ac yn rhagori ar y targedau addysgol disgwyliedig wrth wneud y gorau o'r amgylchedd awyr agored y mae Ysgol Abersoch wedi'i hamgylchynu â hi. Mae'n anodd credu bod y penderfyniad i gau'r ysgol yn seiliedig ar ansawdd yr addysg a'r profiadau, ac yn cwestiynu a yw'r Cabinet yn ddigon gwybodus i wneud penderfyniad mor bwysig. | | |
| 413 | 5.3. Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol "Nodir bod y gwendidau'n gorbwyso'r cryfderau"<br>Ar ba sail y gwnaed yr asesiad hwn?<br>Mae cynllun y tabl yn ddiofyn yn gwneud iddo edrych fel bod mwy o wendidau na chryfderau gan fod yr holl gryfderau wedi'u rhestru mewn rhes sengl yn hytrach na rhesi lluosog ac felly'n gogwyddo ar unwaith yn erbyn yr ysgol. Hepgorir cryfderau eraill e.e. presenoldeb Cylch Meithrin. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau hefo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch.<br><br>Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol bosib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn. Rhagwelir y byddai niferoedd ynghyd â'r rhagamcanion yn parhau'n isel, dosbarthiadau yn parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.<br><br>Fel welir yn y ddogfen ymgynghori ein bod yn nodi rhagamcan o gynnydd o 2 yn y niferoedd erbyn Medi 2021 a 2022. Er mwyn i unrhyw opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd yn y niferoedd fod yn sylweddol. Nid yw'r Awdurdod o farn fod cynnydd o 2 ddisgybl yn gynnydd digonol i gyfarch heriau'r ysgol. |
| 414 | Yn gyntaf hoffwn ofyn beth yw eich rhesymau dros gau'r ysgol? oherwydd ar ôl darllen eich adroddiad a gwrando ar gyfarfod y cabinet, nid yw wedi cael ei egluro ac rwy'n teimlo nad ydych wedi ateb y cwestiwn. Mae pawb a ddarllenodd eich adroddiad ac a wyliodd eich cyfarfod i gyd ar golled. Nid yw peth o'r wybodaeth yn eich adroddiad yn hollol gywir a theimlaf eich bod wedi seilio peth o'r dystiolaeth ar resymu annelwig. Ni fyddai | | Mae'r rhesymau tu ôl i'r angen am ystyried dyfodol Ysgol Abersoch wedi bod yn glir o gychwyn trafodaethau lleol gyda Ysgol Abersoch, yn dilyn caniatad Cabinet i wneud hyn ar 15 Medi 2020, gan bod y prif heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu wedi eu amlinellu bryd hynny, yn benodol: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyflwyno adroddiad gyda'r annigonolrwydd hyn yn fy meddwl yn gynrychiolaeth wirioneddol o'r bobl y gwnaethoch ei gyflwyno iddynt wrth beidio â chael yr holl ffeithiau ac yn sicr nid canfyddiadau cwbl gywir, felly sut allwch chi seilio'ch penderfyniad i gau ysgol gyda hyn tystiolaeth? | | i. niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.<br>ii. maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>iii. rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023.<br>iv. data Medi 2020 yn dangos bod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.<br>v. Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) oedd £52,582.<br>vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod o £4,198<br>vii. Nifer o lefydd gweigion – mae 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn byddai cau Ysgol Abersoch a cynnig lle i plant yn Ysgol Sarn Bach yn ymateb i'r heriau hyn.<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, ar 15 Mehefin 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gefnogi'r argymhelliad i ryddhau rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch. Daeth yr argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau a gwerthuswyd yr opsiynau hyn yn llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol.<br><br>Yn dilyn ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyriwyd fod y cynnig a ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnig yr opsiwn gorau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Abersoch. Daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig hwn fyddai'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu am y rhesymau a nodwyd yn adrannau 4.1 a 4.7 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad. Gellir gweld copi o'r adroddiad llawn yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 415 | Ail-olygwyd fy llythyr rhif 101 yn rhannol, ni roddais ganiatâd ichi wneud hyn, rhoddais ganiatâd ichi ddefnyddio fy llythyr, fodd bynnag, cymerodd 112 diwrnod ichi ddweud wrthyf fy mod wedi cael fy ail-olygu, yn eironig | | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, derbyniwyd un ymateb oedd yn cyfeirio at drefniadau a safon cyflwyniad a roddwyd mewn cyfarfod ymgysylltu (Panel Adolygu Ysgol) a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 36 munud cyn ichi gyflwyno'ch adrodd i'r cabinet, fodd bynnag, yn y cyfarfod dywedasoch 'fod yr holl ymatebion, lle derbyniwyd caniatâd, wedi'u hargraffu'n llawn'. Fodd bynnag, ni roddais fy nghaniatâd i chi fy ail-olygu, unwaith eto rydych wedi dangos anghywirdeb arall yr ydych wedi dangos hynny trwy ail-olygu fy llais fel Rhiant Lywodraethwr rydych yn ceisio tawelu fy llais.<br>Rwy'n gweld hyn yn wrthun ac rydych chi wedi dangos mai'ch gwybodaeth sgiw yw'r unig wybodaeth y gwnaethoch chi ei datgelu yn eich adroddiad. Fel Pennaeth Addysg dylech hongian eich pen mewn cywilydd, yn gyntaf am y ffordd y gwnaethoch gynnal eich cyfarfodydd trwy fethu â chadw at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac yn ail am ail-olygu fy llais pan adroddais hyn yn fy llythyr yn tynnu sylw at y ffordd yr oeddwn yn teimlo – gwahaniaethwyd yn fy erbyn yn y cyfarfodydd. Mae arnaf ofn na fydd y broblem hon yn diflannu. Rwy’n teimlo tristwch mawr y gallai hyn ddigwydd i rywun arall yn y dyfodol ac rwy’n mynd i sicrhau na fydd hyn byth yn digwydd, yn enwedig gan Adran Addysg lle dylai cadw at y safonau hyn fod yn flaenoriaeth! | | gynhaliwyd gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch gan nodi pryderon am ddiffyg cynwysoldeb gan nad oedd posib i bawb ddilyn y cyflwyniad.<br><br>Gan nad oedd rhan yma o’r ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â’r cynnig, ac yn cynnwys gwybodaeth bersonol awdur y sylwad yn ogystal ag unigolyn arall oedd yn bresennol yn y cyfarfod, teimlwyd ni fyddai’n briodol cyhoeddi’r ymateb yn llawn. Oherwydd hyn penderfynwyd ymateb i’r mater a’r gwyn dan sylw drwy gysylltu yn uniongyrchol gyda’r unigolyn. |
| 416 | Rwy'n teimlo'n siomedig iawn eich bod wedi diystyru lleisiau'r plant sy'n mynychu'r ysgol, y rhieni, athrawon, Llywodraethwyr a'r gymuned. Yn ddiweddar cymerodd y plant ran mewn gwrthdystiad i leisio'u barn, i'w hatal rhag cael eu distewi. Mae'r plant hefyd yn cynrychioli lleisiau'r ysgol a'r gymuned yn y gorffennol gan fod hyn yn ddawnus ac yn rhan o'u hanes, gellir clywed lleisiau'r hynafiaid yn atseinio trwy'r deg plentyn. Cafodd y plant sylw gwych ac mae sawl taenlen wedi gofyn am ffotograffau fel y gallant ddilyn y stori hon. | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy’n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda’n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai’n debygol o ymateb orau i’r heriau.<br><br>Ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, ble roedd cyfle i unrhywrai gynnig ymateb i’r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori gyda disgyblion o’r 2 ysgol. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i’r Cabinet er mwyn crynhoi’r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i’r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021, ble roedd cyfle i unrhywrai wrthwynebu y cynnig. Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i’r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch. |
| 417 | Rwyf hefyd yn gwrthwynebu oherwydd credaf nad yw'r cynnig hwn ar gyfer cau wedi cael gwrandawiad teg, yn hynny o beth, bu diffyg ystyriaeth i gynigion yr ydym ni fel Llywodraethwyr wedi'u cyflwyno. Nid wyf yn teimlo ein bod ni, fel Rhieni, Llywodraethwyr, Athrawon a'r gymuned, wedi cael dweud ein dweud yn y broses hon, nad yw ein lleisiau wedi cael eu gwrando, eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u dileu o'm safbwynt i. | | |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Credir felly ein bod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn penderfynu yn drerfynol.</td></tr>
<tr><td>418</td><td>O ran yr holiadur a roesoch i'r disgyblion, rwy'n teimlo bod angen i mi fynd i'r afael â rhai o'ch datganiadau a'ch materion yr wyf i a rhieni eraill wedi'u codi. Darllenodd fy merch eich pamffled cyn darllen yr holiadur a dywedodd hi, sydd ond yn 8 oed, ei fod yn gamarweiniol, ‘bydd gan ddisgyblion yr opsiwn i symud i Sarn Bach’. Felly, diffiniad y gair ‘opsiwn’ yw; ‘peth a all gael ei ddewis neu beidio’ ac felly meddai fy merch nad yw hi’n dewis gadael Ysgol Abersoch. Dyfyniad arall yw 'y bydd Mwy o Athrawon yn… ..'- gwiriwch a yw hynny'n ffeithiol oherwydd ar hyn o bryd mae fy merch yn cael ei haddysgu gan Athrawon Cymwysedig Llawn, ni chredaf fod hyn yn wir yn Ysgol Sarn Bach felly byddwn i yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ymhellach ar hyn. ‘Gwell defnydd o adnoddau e.e. TG ', - A allech chi wirio hefyd a yw hynny'n ffeithiol, mae gan bob dysgwr yn Ysgol Abersoch offer TG rhagorol ac rydw i fy hun wedi ei chael hi'n anodd gweithredu mwy nag un ddyfais ar unwaith, fodd bynnag, os oes angen mwy o offer mae'r Gymdeithas Rhieni yn darparu hyn i'r plant heb unrhyw gost i'r cyngor. ‘Cyfle i gwrdd a chwarae gyda ffrindiau’ - A ydych yn awgrymu nad oes gan blant Ysgol Abersoch ffrindiau eisoes? Mae gan fy mhlant ffrindiau ledled Gwynedd, fodd bynnag, dewisiom Ysgol Abersoch yn ôl ei rhinweddau addysgol, a ydych chi'n awgrymu bod gwneud ffrindiau yn bwysicach? Mae mwyafrif ffrindiau fy mhlant yn mynychu Ysgol Llanbedrog felly pe bawn i eisiau iddyn nhw ddewis ffrindiau dros addysg byddwn wedi eu symud i Ysgol Llanbedrog.</td><td></td><td rowspan="2">Yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae’n ofynnol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yr ysgolion sy’n destun yr ymgynghoriad. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi’i gynnwys fel atodiad i’r adroddiad ar yr ymgynghoriad (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg )<br><br>Fel rhan o’r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol; Ysgol Sarn Bach, a trefnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda’r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda’r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig. Roedd rhieni Ysgol Abersoch yn bresennol ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau’r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai’r ysgol yn cau. Yn achos Ysgol Sarn Bach, roedd pedwar disgybl y Cyngor Ysgol yn cynrychioli pob blwyddyn o’r Adran Iau ac un rhiant (i aelod o’r Cyngor Ysgol) yn bresennol (ac yn cyfrannu ond er mwyn gwneud barn ei phlentyn yn gliriach i’r hwylusydd).<br><br>Esboniwyd y byddai’r newid yn golygu:<br>- Y byddai Ysgol Abersoch yn cau.<br>- Y byddai disgyblion Ysgol Abersoch yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach ym Medi 2021.<br><br>Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i’w gwblhau ac wedi eu rhannu i dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a’u teimladau. Roedd yr hwylusydd eisoes wedi derbyn holiaduron cyn cychwyn y broses o holi dros Google Meet. Yn dilyn y cyfarfod derbyniwyd sylwadau un disgybl o Ysgol Abersoch ar ffurf fideo a gymerwyd gan ei fam a’i hanfon i sylw’r hwylusydd drwy law yr ysgol.<br><br>Mewn ymateb i’r cwestiynau yngylch sefyllfa staffio, fe nodir yn y ddogfen ymgynghori fod “strwythur staffio presennol Ysgol Abersoch yn cynnwys un pennaeth llawn amser,</td></tr>
<tr><td>419</td><td>Derbyniodd fy Mab holiadur a anfonwyd trwy'r post ar Chwefror yr 8fed a oedd yn ofynnol iddo gael ei bostio yn ôl erbyn Chwefror y 12fed yn gofyn yr un cwestiynau iddo ag y gwnaethoch chi ei ofyn i blant Ysgol Abersoch. Ni allaf weld perthnasedd yr holiadur hwn, nid oedd y cwestiynau'n glir iawn, ar C4, at ba ysgol rydych chi'n cyfeirio? A oedd hwn yn holiadur cyffredinol i bawb ac heb ei deilwra mewn gwirionedd ar gyfer yr unigolion? Roeddwn hefyd yn ei chael yn rhyfedd iawn bod yr holiaduron yn cael eu hanfon yn ôl i Ysgol Sarn Bach ac nid yn uniongyrchol atoch chi'ch hun. Dywedodd fy mab nad oedd yn teimlo y gallai fod yn agored i fynegi ei feddyliau a'i deimladau rhag ofn i'w Bennaeth adnabod ei lawysgrifen, credaf fod hyn yn wir am blant eraill hefyd. A allwch ddweud</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wrthyf pam na anfonwyd y llythyrau yn ôl yn uniongyrchol at Gyngor Gwynedd? A allwch hefyd ddweud wrthyf faint o ymatebion a gawsoch gan Ysgol Sarn Bach? Y rheswm dwi'n gofyn hyn yw oherwydd fy mod yn gwybod am rai teuluoedd na chafodd holiadur, felly a oedd yr holiadur yn ymarfer dibwrpas sydd ddim yn gynrychiolaeth wirioneddol o ffigurau? | | athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 70% o'i hamser ac yn derbyn 30% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth. Yn Ysgol Sarn Bach, mae pennaeth, dwy athrawes rhan amser (cyfwerth ag athrawes llawn amser 1.0), a thri cymhorthydd rhan amser. Mae'r pennaeth yn dysgu 80% o'r amser ac yn derbyn 20% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth. |
| 420 | Mae'n rhyfedd na ofynnodd neb a oedd yn bresennol pam fod rhan fawr o un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i duo'n ddirgel, gan ddangos diffyg chwilfrydedd a sylw i fanylion, neu efallai erbyn y 101fed llythyr roedd pawb eisoes wedi colli diddordeb? | | Roedd yna un ymateb a dderbyniwyd oedd yn cyfeirio at drefniadau a safon cyflwyniad a roddwyd mewn cyfarfod ymgysylltu (Panel Adolygu Ysgol) a gynhaliwyd gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch gan nodi pryderon am ddiffyg cynwysoldeb gan nad oedd posib i bawb ddilyn y cyflwyniad.<br><br>Gan nad oedd rhan yma o'r ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig, ac yn cynnwys gwybodaeth bersonol awdur y sylwad yn ogystal ag unigolyn arall oedd yn bresennol yn y cyfarfod, teimlwyd ni fyddai'n briodol cyhoeddi'r ymateb yn llawn. Oherwydd hyn penderfynwyd ymateb i'r mater a'r gwyn dan sylw drwy gysylltu yn uniongyrchol gyda'r unigolyn. |
| 421 | Dwi'n gwrthwynebu ar sail nad ydy lleisiau'r gymuned wedi cael gwrandawiad teg gan i chi ymateb i lythyr fy chwaer, yn rhoi taw ar ei llais, pan mae ei merch yn mynychu'r ysgol. Pwy wnaeth y penderfyniad hwnnw? Pwy sy'n penderfynu llais pwy a'i clywir, a llais pwy sydd ddim i'w glywed? Onid dyna'r penderfyniad ydych chi'r cyngor wedi'w wneud? | | |
| 422 | Sylwaf i chi ddiddymu rhan o lythyr (enw wedi ei ddileu) a theimlaf felly eich bod wedi ymyrryd â democratiaeth yma Mae angen ar y plant i'w lleisiau gael eu clywed nid eu tawelu. | | |
| 423 | Golygiad – Fe'n brawychwyd â'r golygiad i ymateb 101 i'r ymgynghoriad; ymddengys y cafodd ei olygu oherwydd na hoffai'r Adran Addysg gynnwys y llythyr. Tawelwyd yr ymatebwr er gwaethaf caniatáu cyhoeddiad llawn a Garem Jackson yn datgan bod pob ymateb i'r Ymgynghoriad i'w gweld yn llawn yn Atodiad Ch. Ni dderbyniwyd ymateb boddhaol i'r ymholiad pam y'i golygwyd ac nid yw'r gweithrediad annemocrataidd hwn yn un sydd er lles y cyhoedd a dylid ei dynnu cyn gynted â phosibl. | | |
| 424 | Ysgwn i faint o wybodaeth y gwrthwynebiadau cychwynnol a basiwyd ymlaen i aelodau'r cabinet ac rwyf hefyd yn ei weld yn wallgof eich bod wedi diddymu rhannau health o lythyrau gwrthwynebu (enw wedi ei ddileu), er ei bod hi wedi rhoi caniatad i chi gyhoeddi ei hymateb yn llawn. A wnaethoch chi ofyn caniatad i ddiddymu rhannau o'i llythyr? Efallai bod y rhannau hynny yn taflu golau anffafriol ar yr adran addysg oherwydd y diystyriaeth i Ddeddf Cydraddoldeb a brofodd (enw wedi ei ddileu), ac eraill yn bresennol yn y cyfarfodydd? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 425 | Rwyf hefyd ar ddeall y dylai’r ymgynghoriad statudol fod yn deg ac yn dryloyw ac y dylai pob gohebiaeth gael gwrandawiad – felly gofynnaf pam nad yw pob llais wedi cael gwrandawiad llawn? Rwy’n ymwybodol y cyflwynwyd llythyr gan (enw wedi ei ddileu), a bod rhannau ohonno ynglŷn â’r modd y cafodd yr ysgol ei drin a thorri Deddf Cydraddoldeb gael ei ddiddymu.<br><br>Efallai mai dyma’r ffordd o wneud pethau’n y gorffennol, Ond ai dyma’r ffordd y mae Cyngor Gwynedd wir eisiau parhau â’i fusnes yn y dyddiau modern? | | |
| 426 | Mae'n rhyfedd na ofynnodd neb a oedd yn bresennol pam fod rhan fawr o un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i duo'n ddirgel, gan ddangos diffyg chwilfrydedd a sylw i fanylion, neu efallai erbyn y 101fed llythyr roedd pawb eisoes wedi colli diddordeb? | | |
| 427 | Yn yr ymatebion a wnaed gan y Cyngor hyd yn hyn, ychydig iawn o sylw a roddir, os o gwbl, i’r dystiolaeth a mewnwelediadau ychwanegol a ddarparwyd gan y cannoedd â diddordeb sydd wedi ysgrifennu atoch i fynegi eu cefnogaeth i barhad yr ysgol. Mae’n ymddangos nad yw’r Cyngor eisiau gwrando ar y Gymuned y mae’n ei wasanaethu. O ganlyniad teimlaf y dylai fod gan y Cyngor a’r sawl sy’n gweithio i’r Cyngor gywilydd o’r ffordd y maent wedi arwain ar yr hyn sydd i bob pwrpas yn ‘broses cogio bach’ lle mae’r penderfyniad eisoes wedi’i wneud.<br><br>Cwestiynaf pam y golygwyd llythyr 101 er i Garem Jackson nodi bod pob ymateb, a dderbyniwyd caniatâd, ar gael yn llawn. Mae dileu disgrifiad sy’n fanwl gywir o ddigwyddiadau sy’n taflu golau anffafriol ar yr Adran Addysg yn annemocrataidd. | | |
| 428 | Rwyf hefyd yn cwestiynu pam mae rhai rhannau o lythyr (enw wedi ei ddileu) (ymatebydd 101) wedi’u cuddio er bod Garem Jackson wedi nodi yng nghyfarfod y Cabinet bod yr holl ymatebion, lle derbyniwyd caniatâd, wedi'u hargraffu'n llawn. Mae'r testun sydd wedi'i guddiad yn ddisgrifiad cywir o ddigwyddiadau a ddigwyddodd fel rhan o'r broses Ymgynghori hon, ac eto mae'r Adran Addysg wedi distewi'r llais hon, yn ôl pob tebyg oherwydd i'r cynnwys eu cyflwyno mewn golau gwael. Roedd ymddygiad | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynrychiolwyr yr Adran Addysg yn ystod y broses ymgynghori anffurfiol yn amharchus iawn ar brydiau. Mewn un cyfarfod, cipiwyd taflenni a osodwyd wrth y drws mynediad, oddi wrth fynychwyr a'u cododd ar ddechrau'r cyfarfod, roedd y cyflwyniadau yn aml yn annarllenadwy ac roeddem yn teimlo bod atebion Pennaeth yr Adran Addysg i nifer o'n cwestiynau yn nawddoglyd o ran ei natur. Mae cuddiad testun sy'n tynnu sylw at arfer annerbyniol gan weithwyr Cyngor Gwynedd yn dangos dull caeedig ac yn awgrymu nad yw'r cyngor yn gallu, neu'n anfodlon, derbyn beirniadaeth gyhoeddus. | | |
| 429 | Roeddwn yn flin iawn pan dynnoch chi lythyr ymateb rhif 101, sef un fy merch, a oedd yn lleisio ei phryderon ynglŷn â’r modd amhriodol y cynhaliwyd eich cyfarfod, mae hyn yn dangos i bobl na chafodd pawb ei drin yn gyfartal ac nad oedd pawb yn gymwys i roi mewnbwn yn llawn mewn sgwrs mor bwysig ynghylch yr ysgol. Mae gan fy merch sawl anabledd sydd yn anweledig ac mae tynnu ei llais oddi arni yn y fath modd yn ofnadwy, yn enwedig gan adran addysg. | | |
| 430 | Cyn pleidleisio, mae'n ymddangos bod aelodau'r Cabinet yn dibynnu ar wybodaeth a barn, a gyflwynir yn aml fel ffeithiau, ar ffurf gryno a baratowyd gan yr Adran Addysg, wrth ddiystyru'r achos manwl a gyflwynir gan blant, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned sy'n gefnogi Ysgol Abersoch.<br>Tybed faint o Aelodau'r Cabinet fyddai'n pleidleisio dros gau ysgol yn eu pentref neu eu cymuned eu hunain? Efallai y gellid trefnu ymweliad ag Ysgol Abersoch cyn gwneud penderfyniad terfynol? Byddai hwn yn ymddangos yn gais rhesymol, achos oherwydd y pandemig, nid yw'r cyhoedd wedi gallu eistedd i mewn i arsylwi cyfarfodydd y Cabinet a fyddai fel arfer wedi bod yn bosibl, a byddai'n dod â'r materion yn fyw i aelodau sydd wedi bod yn ystyried y mater hwn felly o bell ar-lein. | | Er mwyn gallu ystyried y cynnig mae’r Cabinet yn derbyn crynodeb o’r holl wrthwynebiadau a sylwadau dderbyniwyd gan blant, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (Atodiad A).<br><br>Mae’r Cabinet hefyd yn ymwybodol o’r rhesymau tu ôl i’r cynnig ers iddynt ganiatáu cychwyn trafodaethau lleol gyda Ysgol Abersoch ar 15 Medi 2020 gan bod y prif heriau y mae’r ysgol yn eu hwynebu wedi eu amlinellu bryd hynny, yn benodol:<br><br>• niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.<br>• maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023.<br>• data Medi 2020 yn dangos bod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.<br>• Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i’r dyraniad arferol trwy’r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy’n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob |
| 431 | Awgrymwn y dylai aelodau’r Cabinet, o leiaf, ymweld ag Ysgolion Abersoch a Sarn Bach cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae’r ysgol a’r gymuned yn real iawn fel bydd y torcalon a’r tristwch pe gweithredid y bwriad o gau. Ymddengys yn hollol annheg y gwneir penderfyniad mor hanfodol bwysig mewn cyfarfod rhithiol gan bobl nad ymwelodd â’r ysgol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | erioed nac ymgysylltu â'r staff, plant, unigolion a chymuned sydd â'u dyfodol mewn perygl. Nid yw'r adroddiad sych a baratowyd o hyd braich gan yr Adran Addysg yn cyfleu gwirionedd y sefyllfa. Buasai ymweld â'r ddwy ysgol i weld y lleoliadau a'u cyfleusterau yn ddiamheuol o fudd i ddeall y sefyllfa. | | ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) oedd £52,582.<br>• Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod o £4,198<br>• Nifer o lefydd gweigion – mae 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)<br><br>Ni ragwelir fydda ymweliad â Ysgol Abersoch yn cynnig unrhyw eglurder pellach i gynorthwyo'r aelodau'r Cabinet i ddeall yr heriau yma yn well. |
| 432 | Fel un o drigolion Abersoch, rydw i'n ymwybodol o barn am fy mhentref, sydd yn aml yn cael ei "dileu" gan eraill, fel dim mwy na pentref wyliau saesneg gyfoethog. Mae'n ymddangos yn hollol deg a phriodol y gellid dyrannu cyfran fach o'r arian a gynhyrchir gan yr ail gartrefi hyn i gefnogi ysgol y pentref fel rhan hanfodol o'r gymuned yr effeithiwyd yn ddifrifol arni. Rwy'n gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi ar ein pentref, a gallant wneud dechrau gwych ar hyn o bryd trwy wrando ar farn leol a buddsoddi yn y bobl ifanc sydd am barhau i ddysgu a thyfu i fyny mewn Abersoch cynaliadwy.<br>Mae'r diffyg cefnogaeth a ddangoswyd gan Plaid Cymru wedi bod yn frawychus i mi, ac o ganlyniad ni fydd fi na neb arall yn fy nheulu byth yn rhoi ein pleidlais i'r blaid honno. Gwn nad ydym ar ein pennau ein hunain yn teimlo fel hyn.<br>Atodaf fy llythyr blaenorol yr hoffwn hefyd gael ei cyfri fel gwrthwynebiad, ac anogaf aelodau'r Cabinet i feddwl eto a chymryd y cyfle hwn i wneud safiad a dangos cefnogaeth i blant a chymuned Abersoch, yn anad dim presenoldeb Cymraeg fel iaith fyw yng nghanol y pentref. | | Mae'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei neilltuo er mwyn ariannu rhai o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai. Manylir ar brosiectau unigol a ffynonellau ariannu yma: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1<br><br>Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio. |
| 433 | Mae'n teimlo bod y broses hon wedi bod yn hynod annemocrataidd o'r dechrau. Swyddogion etholedig y Cabinet yn unig sy'n gwneud y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | penderfyniadau ar sail argymhellion yr Adran Addysg. Anwybyddir y cannoedd o leisiau (a miloedd os cymerwch y ddeiseb i ystyriaeth) y gymuned yn ddetholus, heb fawr mwy na gwasanaeth gwefus yn cael ei dalu, wedi'i guddio y tu ôl i fodloni'r gofynion statudol mwyaf sylfaenol yn unig fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'n teimlo bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud ymhell cyn i'r broses ymgynghori gychwyn, ac mae'n ymddangos bod yr Adran Addysg yn benderfynol o wthio drwodd gyda cau'r ysgol ar bob cyfrif. | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda'n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai'n debygol o ymateb orau i'r heriau.<br><br>Ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, ble roedd cyfle i unrhywrai gynnig ymateb i'r cynnig. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021, ble roedd cyfle i unrhywrai wrthwynebu y cynnig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir nad ydi'r penderfyniad wedi ei wneud ac ein bod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn penderfynu yn drerfynol. |
| 434 | Eisteddaf yma gan bendroni beth yw pwrpas ysgrifennu'r gwrthwynebiad hwn, hyd yn hyn mae pob dadl resymol dros gadw'r Ysgol ar agor wedi'u gwrthod, anwybyddu, derbyn anogaeth lac neu wedi dadlau'n ei erbyn yn seiliedig ar wybodaeth anghywir ac wedi dyddio.<br><br>Dywedwyd wrthym mai'r rheswm dros gau'r ysgol yw safon yr addysg (er bod Estyn barnu safon yr ysgol yn dda), yna mai nifer bychan y disgyblion a chost y pen sydd wedi arwain at y cau arfaethedig. Fodd bynnag, teimlaf yn gryf bod y broses ddemocrataidd honedig wedi bod yn un ffug o'r dechrau a bod dyfodol Ysgol Abersoch wedi ei selio ymhell cyn hynny. Teimlaf yn siomedig iawn dros yr Athrawon, Llywodraethwyr a'r bobl hyfryd sydd wedi rhoi eu hamser gwerthfawr sydd wedi eu harwain gan eich swyddogion i gredu bod gobaith ac y bydden nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r ysgol hon ar agor. | | |
| 435 | Credwn y golygodd y datganiadau chamarweiniol a ddigwyddodd yn ystod trafodaeth y Cabinet na seiliwyd y penderfyniad ar ffeithiau. Deil yn aneglur ar ba sail y penderfynwyd cau Ysgol Abersoch. Er gwaethaf ein he-bost i'r Adran Addysg ar Fehefin 24ain, 2021, ni dderbyniom ateb boddhaol ar ba sail y gwnaed y penderfyniad i'w chau. | | Mae'r rhesymau tu ôl i'r angen am ystyried dyfodol Ysgol Abersoch wedi bod yn glir o gychwyn trafodaethau lleol gyda Ysgol Abersoch, yn dilyn caniatad Cabinet i wneud hyn ar 15 Medi 2020, gan bod y prif heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu wedi eu amlinellu bryd hynny, yn benodol:<br><br>i. niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.<br>ii. maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>iii. rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | iv. data Medi 2020 yn dangos bod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.<br>v. Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) oedd £52,582.<br>vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod o £4,198<br>vii. Nifer o lefydd gweigion – mae 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, ar 15 Mehefin 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gefnogi'r argymhelliad i ryddhau rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch. Daeth yr argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau a gwerthuswyd yr opsiynau hyn yn llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol.<br><br>Yn dilyn ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyriwyd fod y cynnig a ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnig yr opsiwn gorau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Abersoch. Daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig hwn fyddai'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu am y rhesymau a nodwyd yn adrannau 4.1 a 4.7 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad – www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| 436 | o glywed y cwestiwn a ofynnodd Cyng. Ioan Thomas yn y cyfarfod hwnnw o ran argaeledd trafnidiaeth a chapasiti bws i'r plant i Ysgol Sarn Bach, pan fo'r atebion wedi'u nodi'n glir iawn yn adroddiad yr Adran Addysg, arweinir ni i gredu na ddarllenodd Aelodau'r Cabinet naill ai'r adroddiad hwn na'r rhai blaenorol, ymhle disgrifir y cynllun trafnidiaeth dro ar ôl tro. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 437 | Ymhellach i'r cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar Fehefin 15fed, 2021 fe'n gadawyd yn syfrdan o ymhle'n union y digwyddodd yr ystyriaeth fanwl a gofalus a thrafodaeth ar ddyfodol Ysgol Abersoch. Yn sicr, yn ein tyb ni, ni ddigwyddodd yn y cyfarfod Cabinet! | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

- Profodd ymholiad y cynghorydd parthed trafnidiaeth na ddarllenodd y dogfennau a baratowyd yn fanwl iawn.
- Ni atebwyd cwestiwn Cyng. Nia Jeffreys yn foddhaol parthed yr effaith ar yr iaith Gymraeg pan ofynnodd pa gamau oedd Ysgol Sarn Bach am ymgymryd â nhw i atgynhyrchu'r berthynas rhwng Ysgol Abersoch a’i chymuned. (Y gwir yw, **bydd** effaith negyddol ar y gymuned a defnydd o’r iaith yn Abersoch. Yn syml, **nid yw’n bosibl** i Ysgol Sarn Bach ymgysylltu’n ystyrlon â chymuned Abersoch yn yr un modd oherwydd ei lleoliad a’i diffyg cysylltiad hanesyddol â’r pentref.)

Mae’n amlwg, yr unig feini prawf a ystyrid a ddylai fod yn berthnasol i’w penderfyniad yw’r rhai a gyflwynwyd gan yr Adran Addysg; barn a safbwyntiau a gyflwynid fel ffeithiau a rhai, a ymddengys, a dderbynnid heb eu herio gan Aelodau’r Cabinet.

Ymddengys ei bod yn well gan yr Adran Addysg guddio tu ôl i ddehongliad caeth canllawiau’r broses ymgynghori a bod dilyn y cyngor hwn yn robotaidd yn ddigonol dderbyniol. Anghytunwn, a dymunwn fynegi o’n safbwynt ni, y teimlir bod y broses gyfan yn brofiad hollol anfoddhaol, un a ymddengys wedi’i reoli gan anghydbwysedd anghyfartal a’i ffafrio’n unochrog iawn o blaid y Cyngor a’r Adran Addysg. Teimlwn fel ein bod wedi ein mathru, na wrandawyd ar ein lleisiau ac y diystyrwyd ac anwybyddwyd ein syniadau’n barhaus.

| E | Cludiant a Theithio | | |
|---|---|---|---|
| 438 | Mae plant yr ysgol yn cerdded o Ysgol Abersoch ac yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau ar y traeth. Mae'n hyfryd gweld y plant yn ymgysylltu cystal â'u hamgylchedd lleol. | | Mae'r Cygnor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.<br><br>Gan fod y llwybr o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn cael ei hystyried fel un peryglus, byddai cludiant yn cael ei ddarparu am ddim i plant cymwys yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, ni ragwelir y bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle presennol Ysgol Sarn Bach a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws.<br><br>Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, ac ni ragwelir y byddai costau ychwanegol o ddarparu cludiant i blant presennol Ysgol Abersoch gan fod bws eisoes yn cludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, a deallwn fod seddi gweigion digonol ar gael ar y bws hwnnw. O ganlyniad, ni ragwelir y bydd cynnydd yn allyriadau CO2. |
| 439 | Yn fy marn i mae Ysgol Abersoch yn ganolbwynt bywyd y pentref. Mae hi'n darparu mynediad hawdd i'r rhieni sydd ddim yn dreifio yn ogystal ag yn gyrchfan cyrfarfod i rieni sengl. Mae buddion hynny wedi ei ddogfennu eisoes o ran sefyllfaoedd ariannol teuluoedd a iechyd meddwl. Os bydd yr ysgol yn cau sut, gofynnaf, y bydd rhieni sengl sydd ddim yn dreifio ac ar gyflogau isel yn mynd â'u plant i ysgol sydd filltiroedd i ffwrdd. | | |
| 440 | Mae Ysgol Abersoch mewn sefyllfa dda yng nghanol y pentref, gan alluogi mynediad hawdd i gynifer o adnoddau naturiol heb faich costau cludo gwaharddol, ac mae'r disgyblion hyd yn oed yn defnyddio opsiwn economaidd ac amgylcheddol gyfeillgar y gwasanaeth bws cyhoeddus i fynychu gwersi nofio wythnosol yn Pwllheli | | |
| 441 | Cerdded neu feicio i'r ysgol wna disgyblion Ysgol Aber-soch er lles eu hiechyd, rhyngweithiad cymdeithasol a'r amgylchedd. Ychwanega teithio i Sarn Bach at gynnydd mewn ôl-troed carbon wrth eu cludo ar fws/car – nid yw'n lles i'r amgylchedd, yn arbennig yn y dyddiau yma o newid hinsawdd sylweddol. | | |
| 442 | Mae'n rhan o fywyd pentref a mae gan blant y pentref fynediad hawdd a diogel i'r ysgol sydd wedi ei leoli yng nghanol y pentref. I fynychu Ysgol Sarn Bach, yr ysgol amgen, bydd rhaid i'r mwyafrif ddefnyddio trafnidiaeth yno ac adref sy'n anghyfleus i rieni. Mae'r ffordd i Sarn Bach o Abersoch yn brysur iawn lle nad oes palmant i blant felly mi fydden nhw mewn perygl os y dewisent gerdded i Sarn Bach. | | |
| 443 | Soniwch hefyd fod y ffordd i Sarn Bach yn rhy beryglus i gerdded arni ac felly mae bron yn amhosibl i rieni gerdded eu plant pe dymunent. | | |
| 444 | I fynychu ysgol Sarn Bach, yr opsiwn amgen arfaethedig, bydd rhaid i'r mwyafrif gael trafnidiaeth i'w cludo yno ac yn ôl sy'n anghyfleus iawn i'r rhieni sy'n gweithio yn yr ysgol. | | |
| 445 | Mae addysg y plant yn greiddiol i ddatblygiad plant a ni ddylent orfod teithio' bell i dderbyn yr addysg hanfodol y mae arnynt ei angen. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 446 | Bydd rhaid i bobl lleol yrru eu plant i ysgolion sydd yn bell i ffwrdd. Mae ar blant oed ysgol gynradd angen i fynychu ysgol yn lleol. Byddai cau'r ysgol yn atal pobl rhag symud yma yn barhaol i fagu teulu. | | |
| 447 | Rwy'n dal i fod eisiau gofyn pam rydych chi'n meddwl ei bod hi'n iawn cau ysgol y gall plant a rhieni gerdded iddi, nid yw'n dda i'r amgylchedd ac i rai plant mae'r daith gerdded ddyddiol hon trwy eu cymuned, mae treulio amser gwerthfawr gyda rhieni yn amhrisiadwy. | | |
| 448 | **7.10 Ffactorau daearyddol - lleoliad newydd**<br>**Mae'r llwybr i Ysgol Sarn Bach wedi'i ddosbarthu fel un "peryglus" ond mae'r CIAR (Model 4) yn nodi "Gellir gollwng plant yn y maes parcio, p'un ai mewn car neu dacsi / bws mini, ac mae arhosfan bysiau (gwasanaeth bws cyhoeddus) y tu allan i ffiniau'r ysgol. Felly, os yw disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio, nid ydym yn rhagweld anhawster i gyrraedd yr ysgol.** " A yw Cyngor Gwynedd yn argymell y dylai plant fod yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol ar hyd llwybr peryglus? Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Atodiad C, Effaith Cymunedol yn nodi "gallai cynigwyr gynnwys y canlynol: effaith ar iechyd a lles e.e. a fyddai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol". Nid aethpwyd i'r afael â hyn.<br>Mae cludiant cerbyd yn gysylltiedig ag effaith amgylcheddol, mae'n groes i egwyddorion fel "byw yn fyd-eang, gweithredu'n lleol" ac mae'n ennyn cred o oedran ifanc nad yw materion amgylcheddol o unrhyw bwys. | | Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol dalgylch ar gyfer disgyblion rhwng 8 ac 11 oed ardal Abersoch. Gan fod y llwybr i'r ysgol yn cael ei hystyried fel un peryglus, mae'r awdurdod eisoes yn darparu cludiant di-dâl i ddisgyblion cymwys. Noder felly fod bws ysgol gynradd eisoes yn weithredol rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch.<br><br>Gan fod bws eisoes yn cludo plant cyfnod allweddol 2 o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, ac ein bod yn rhagweld bydd digon o le yn y bws yma (neu un mwy) ar gyfer plant dalgylch Ysgol Abersoch, ni ragwelir y bydd cynnydd yn allyriadau $CO_2$. |
| 449 | Petaech wedi gofyn i mi aros yn Abersoch hyd at Fotwnnog byddwn wedi dweud iawn, hoffwn fynd yn ôl i'r ysgol a dwi'n drist iawn fy mod wedi gadael yr ysgol. Dwi'm yn licio mynd i'r ysgol ar y bws, weithiau mae'r plant hŷn yn gas gyda'r rhai ieuengaf a dwi'n drist iawn am hynny, dwi'n dweud wrth yr athrawon a'r gyrrwr bws. Unwaith, roedd rhaid i'r gyrrwr stopio'r bws a disgwyl i'r plant ymdawelu gan ei bod hi'n rhy beryglus iddo yrru oherwydd eu bod yn tynnu ei sylw. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Serch hynny, mater i'r ysgol a'r cwmni bysiau ydi sicrhau fod plant yn ymddwyn yn briodol ar y bws. Hyderwn fod y camymddwyn wedi dod i ben yn dilyn codi'r mater gyda'r ysgol a'r gyrrwr. |
| 450 | Nid yw'r llwybrau cerdded sydd wedi'u marcio ar y map i gyd yn cael eu defnyddio'n aml, ac nid ydynt yn darparu llwybr cerdded cyflawn, diogel i'r ysgol o Abersoch. Nid oes palmentydd ar y ffyrdd. Mae Cyngor Gwynedd yn weid camdeall lleoliad Ysgol Sarn Bach. Nid ydym yn credu ei fod wedi'i leoli yn Fferm Ty Newydd. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynglŷn a'r llwybrau cerdded i'r ysgol amgen.<br><br>Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gan fod y llwybr o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn cael ei hystyried fel un peryglus, mae'r awdurdod eisoes yn darparu cludiant di-dâl i rai disgyblion cymwys. Noder felly fod bws ysgol gynradd eisoes yn weithredol rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch.<br><br>Gan fod bws eisoes yn cludo plant cyfnod allweddol 2 o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, ac ein bod yn rhagweld bydd digon o le yn y bws yma (neu un mwy) ar gyfer plant dalgylch Ysgol Abersoch, ni ragwelir y bydd cynnydd yn allyriadau CO2. |
| 451 | Nid ydym yn credu bod gan Ysgol Sarn Bach faes parcio fel y cyfryw. Mae man parcio ceir bach ar ochr y ffordd lle mae staff addysgu yn parcio, ond mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig. Mae'r trefniadau i ollwng a chasglu plant yn ei gwneud yn ofynnol i rieni barcio ar ymyl y ffordd / ar ochr y ffordd; rhaid i ddrysau ceir naill ai agor yn syth ar y ffordd neu i mewn i dip yn yr yml. Mae hyn yn beryglus. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mi fydd plant Abersoch yn cael cynnig cludiant i Ysgol Sarn Bach pe bydda'r cynnig yn cael ei wireddu, yn unol â Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd. |
| 452 | Ar y cam hwn, rwy'n teimlo bod angen i chi ymhelaethu ar faterion trafnidiaeth, soniais am hyn wrth Gwern yng nghyfarfod Zoom ar y 3ydd o Chwefror. Yn eich adroddiad rydych wedi cynnwys swm o £14,000 wrth ochr trafnidiaeth, gofynnais i Gwern a oedd hwn yn ffigur realistig, gofynnais hefyd a oedd Cyngor Gwynedd wedi llunio arolwg yn gofyn i holl rieni Ysgol Sarn Bach a fyddent yn derbyn cynnig Cyngor Gwynedd am gludiant am ddim? Dywedodd Gwern 'y byddai angen i'r ysgol wneud hyn ym mis Medi', Onid yw mis Medi yn rhy hwyr i fod yn gofyn y cwestiwn hwn? O ganlyniad, rwyf wedi cymryd arnaf fy hun i ofyn i rai rhieni sy'n gyrru eu plant i'r ysgol ar hyn o bryd gan na allant fforddio talu am y bws. O'r rhieni yr wyf wedi gofyn hyd yn hyn, dywedodd pawb y byddent yn eu hanfon ar y bws.<br><br>Cyn Covid, gwasanaeth cyhoeddus oedd cyn y bws i Sarn Bach, fodd bynnag, rwy'n teimlo bod hyn yn amhriodol ac mae gen i bryderon gyda phlant ifanc yn mynd ar fws gydag aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Rwy'n meddwl bod angen ymchwilio ymhellach i gost y drafnidiaeth gan fy mod yn credu nad ydi'r ffigur o £14,000 yn realistig a byddwn yn croesawu gweld y dystiolaeth o sut rydych chi wedi cyrraedd y swm hwn. Hefyd os yw'r ffigurau amcanestyniad yn anghywir neu efallai bod niferoedd y | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae bws ysgol gynradd eisoes yn rhedeg rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch - felly ni ragwelir costau cludiant ychwanegol yn deillio o weithredu'r cynnig arfaethedig.<br><br>Pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch, gan gynnwys y disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol Ysgol Sarn Bach. Gallai hyn olygu fod angen bws pwrpasol (bore a phrynhawn) ar gyfer disgyblion Ysgol Sarn Bach, ar gost ychwanegol o oddeutu £14,000 y flwyddyn, ac o ganlyniad, byddai'r arbedion net a ragwelir yn debygol o fod yn £96,062 y flwyddyn.<br><br>Os gweithredir y cynnig, byddwn yn trefnu arolwg gyda rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn canfod faint o ddisgyblion fydd angen cludiant am ddim o Abersoch unwaith y bydd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud. Bydd hyn yn rhoi niferoedd pendant i'r Awdurdod benderfynu a fydda angen bws mwy ai peidio.<br><br>Cyn Covid, roedd y bws gwasanaeth cyhoeddus a arferai cludo plant i Ysgol Sarn Bach yn y bore, yn cludo plant yn llwyddiannus heb ddigwyddiad na phryder. Pe bai trefniadau'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | disgyblion yn amrywio, neu os yw'r bws yn llawn, neu er enghraifft dau blentyn arall yn ymuno ag Ysgol Sarn Bach, a fyddwch chi'n darparu bws arall? Mae angen cyfrif am y sefyllfaoedd hyn ac mae gan y cyhoedd hawl i wybod manylion y costau dan sylw. | | newid yn y bore i ddefnyddio bws ysgol pwrpasol, yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus, byddai'r Awdurdod yn wynebu costau ychwanegol oddeutu £14,000 y flwyddyn.<br><br>Y gost bresennol o gludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yw £16,500. Pe byddai angen addasu'r trefniadau presennol, amcangyfrifir y byddai angen bws 49 sedd, fyddai'n darparu cludiant ar gyfer holl ddisgyblion Derbyn i Blwyddyn 6 y dalgylch yn costio £30,500. Byddai hyn felly yn arwain at gost uwch o £14,000. |
| 453 | A allwch chi hefyd sôn am gostau'r drafnidiaeth fel y gofynnwyd yn flaenorol. | | |
| 454 | Petaech wedi gofyn i mi aros yn Abersoch hyd at Fotwnnog byddwn wedi dweud iawn, hoffwn fynd yn ôl i'r ysgol a dwi'n drist iawn fy mod wedi gadael yr ysgol. Dwi'm yn licio mynd i'r ysgol ar y bws, weithiau mae'r plant hŷn yn gas gyda'r rhai ieuengaf a dwi'n drist iawn am hynny, dwi'n dweud wrth yr athrawon a'r gyrrwr bws. Unwaith, roedd rhaid i'r gyrrwr stopio'r bws a disgwyl i'r plant ymdawelu gan ei bod hi'n rhy beryglus iddo yrru oherwydd eu bod yn tynnu ei sylw. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Serch hynny, mater i'r ysgol a'r cwmni bysiau yw rheoli ymddygiad ar y bysiau a thybiwn fod y mater anffodus hwn wedi'i ddatrys ar ôl rhoi gwybod i'r athrawon a'r gyrrwr bws. |
| 455 | **7.10.1 Trefniadau Teithio a Thrafnidiaeth Arfaethedig "Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â darparu cludiant i 8 disgybl presennol Ysgol Abersoch (Derbyn-Y3) yn ogystal â disgyblion o ddalgylch Abersoch sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Deallir bod bws eisoes yn cludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, ac rydym yn deall y byddai digon o seddi gwag ar y bws ar gyfer y disgyblion presennol yn Ysgol Abersoch. Gellid dadlau y byddai gweithredu'r cynnig yn gwneud defnydd fwy cost effeithiol o'r trefniadau trafnidiaeth presennol ar gyfer cludo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. " "Byddai costau ychwanegol trafnidiaeth oddeutu £ 14,000 y flwyddyn pe bai pob disgybl yn nalgylch presennol Ysgol Abersoch yn dewis mynychu Ysgol Sarn Bach yn y dyfodol, ac angen cludiant."**<br>A oes cost cludo ychwanegol ai peidio? Mae'r ddau bwynt hyn yn groes i'w gilydd.<br>Ar ba sail yr amcangyfrifwyd y gost o £ 14,000 y flwyddyn ac a yw'n cynrychioli?<br>A yw Cyngor Gwynedd wedi darganfod faint o blant fydd angen cludiant bws i Ysgol Sarn Bach, gan ystyried plant Abersoch rhwng 3 ac 8 oed sy'n mynychu Ysgol Sarn Bach allan o'r dalgylch ar hyn o bryd? Ar gyfer tripiau | | Mae bws ysgol gynradd eisoes yn weithredol rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch - felly ni ragwelir costau cludiant ychwanegol yn deillio o weithredu'r cynnig arfaethedig.<br><br>Pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch, gan gynnwys y disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol Ysgol Sarn Bach. Gallai hyn olygu fod angen bws pwrpasol (bore a phrynhawn) ar gyfer disgyblion Ysgol Sarn Bach, ar gost ychwanegol o oddeutu £14,000 y flwyddyn, ac o ganlyniad, byddai'r arbedion net a ragwelir yn debygol o fod yn £96,062 y flwyddyn.<br><br>Os gweithredir y cynnig, byddwn yn trefnu arolwg gyda rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn canfod faint o ddisgyblion fydd angen cludiant am ddim o Abersoch unwaith y bydd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud. Bydd hyn yn rhoi niferoedd pendant i'r Awdurdod benderfynu a fyddai angen bws mwy ai peidio.<br><br>Cyn Covid, roedd y bws gwasanaeth cyhoeddus a arferai cludo plant i Ysgol Sarn Bach yn y bore, yn cludo plant yn llwyddiannus heb ddigwyddiad na phryder. Pe bai trefniadau'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgol a teithiau i'r ganolfannau hamdden - faint o fysiau fyddai eu hangen ar Ysgol Sarn Bach pe bai Ysgol Abersoch yn cau, a beth yw'r costau hyn?<br>Mae'n ymddangos bod Cyngor Gwynedd yn ceisio cyfiawnhau ei resymu ei hun y tu ôl i'w gynnig trwy awgrymu y byddai'n gwneud defnydd mwy cost-effeithiol o drefniadau trafnidiaeth.<br>Rydym hefyd wedi gofyn dro ar ôl tro i Gyngor Gwynedd ddarparu gwybodaeth ar ba gyfran o blant yn Ysgol Sarn Bach sy'n mynychu Ysgol Sarn Bach allan o'r dalgylch (Meithrinfa i Flwyddyn 3) sy'n derbyn cludiant cyhoeddus am ddim pan fydd yn rhaid iddynt dalu amdano. Mae gennym reswm i ddeall bod nifer o blant yn y blynyddoedd hyn yn dal y bws am ddim, a'r gost i Gyngor Gwynedd o ddarparu'r gwasanaeth hwn. Gall hyn ddylanwadu ar eraill i'w dilyn pan fydd yn ymddangos nad oes modd troi at y rheolau. | | newid yn y bore i ddefnyddio bws ysgol bwrpasol, yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus, byddai'r Awdurdod yn wynebu costau ychwanegol oddeutu £14,000 y flwyddyn.<br><br>Y gost bresennol o gludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yw £16,500. Pe byddai angen addasu'r trefniadau presennol, amcangyfrifir y byddai angen bws 49 sedd, fyddai'n darparu cludiant ar gyfer holl ddisgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 y dalgylch, yn £30,500. Byddai hyn felly yn arwain at gost uwch o £14,000.<br><br>Fel rhan o'r Cynllun Seddi Gwag, mae'r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sy'n mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ar gyfer manteisio ar unrhyw seddi gwag ar gerbydau cytundeb trwy dalu ffi gyfredol tu allan i'r dalgylch. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:<br>- Bod seddi gwag ar gael<br>- Nid oedd angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol<br>- Dim costau ychwanegol i'r Cyngor<br>- Dalu'r ffi gyfredol am seddi gwag.<br><br>Byddai'r holl ddysgwyr a wnaeth gais am gludiant wedi talu am gynllun sedd wag i deithio ar y bws ysgol ddynodedig. Mae rhwng 3 a 6 o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynllun hwn ers 2017. |
| 456 | 5.1. Costau<br>Amcangyfrifwyd cost ychwanegol o £14,000 y flwyddyn i gludo plant Ysgol Abersoch yn ôl a blaen i Ysgol Sarn Bach gan yr Adran Addysg. Eto, cydnabydda'r Cyngor y gallai hwn fod yn dan amcangyfrifiad, o ystyried y mynycha nifer o blant tair i wyth oed Abersoch Ysgol Sarn Bach eisoes ac y dylid cynnwys y gost o gludo'r plant hyn hefyd yn y swm terfynol. | | |
| 457 | Tra yn y cyfarfod hwn gofynnom y cwestiwn 'a yw pob plentyn sydd o dan wyth oed ac yn byw yn Abersoch ond yn mynychu Ysgol Sarn Bach yn talu am eu tocyn bws?' Dywedasoch y byddech yn edrych i mewn i hyn ac yn dod yn ôl atom ar y pwynt hwn. Dwi'n dal i ddisgwyl ateb, felly, gan fod eich tablau trwy gydol eich proses ymgynghori yn mynd yn ôl i 2017, a allwch roi'r wybodaeth ganlynol imi: A yw'r holl docynnau bws o 2017 tan heddiw wedi'u talu'n llawn ar gyfer pob disgybl dan 8 oed yn defnyddio'r gwasanaeth bws? Amlygom hefyd, pe bai hyn yn wir, efallai nad ydy rhai o'r plant wedi talu am eu tocynnau bws a ddylai fod wedi ac felly rydym angen codi ymwybyddiaeth ynghylch hyn ar union gan bod hyn yn galluogi plant i osgoi polisi dalgylch lleol a mynd yn erbyn eich polisïau eich hun. | | |
| 458 | O edrych ar ddarpariaeth feithrinfa leol, dydy blant o dan 5 oed ddim yn gallu teithio'n annibynnol a'r bws felly byddai angen i deuluoedd gael eu cludiant eu hunain er mwyn anfon eu plant ifanc yno. Nid yw'n bosibl i lawer o deuluoedd gan nod oes ganddynt gar teulu. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd ac sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). |
| 459 | 5.3. Mynediad i Blant "Blwyddyn Meithrin" | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Golyga cyfyngiad amserlen trafnidiaeth gyhoeddus ei bod bron yn amhosibl i blant Meithrin, sy'n dod i'r ysgol rhwng naw ac 11 o'r gloch y bore, fedru mynychu heb drafnidiaeth bersonol. | | Yn unol â Pholisi Cludiant Gwynedd, cyfrifoldeb rhieni yw gwneud trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin. |
| 460 | **MODEL 4 - CAU YSGOL ABERSOCH A CHYNNIG LLE I DDISGYBLION MEWN YSGOL AMGEN**<br>**Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus**<br>Mae hyn yn oddrychol iawn a dylai fod yn negyddol.<br>Sut y bydd plant heb fynediad at gludiant preifat yn gallu mynychu'r flwyddyn Feithrin, 9-11am, a heb gar? Nid yw gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn ymarferol: Amseroedd bysiau gwasanaeth:<br>Abersoch i Ysgol Sarn Bach 08.40 - 08.46, bws nesaf Ysgol Sarn Bach i Abersoch 10.00 - 10.09. Abersoch i Ysgol Sarn Bach 10.52 - 10.58, bws nesaf Ysgol Sarn Bach i Abersoch am 10.58 - 12.36 (1awr 38 munud), neu Ysgol Sarn Bach i Abersoch 12.50 - 12.59.<br>Yr effaith fyddai y byddai'r plant hyn yn cael eu heithrio o'r Feithrinfa, gallai teuluoedd ifanc fod yn llai tebygol o symud i'r gymuned. | | |
| 461 | Roeddwn wedi dychryn yn fy nghyfarfod Zoom pan ofynnais pa ddarpariaethau yr oeddech wedi'u rhoi ar waith ynghylch plant rhwng 3 a 5 oed a fyddai'n mynychu'r ysgol am ddwy awr? Mae'r plant hyn yn dysgu sgiliau hanfodol ac yn hyrwyddo dysgu trwy chwarae gan ddefnyddio Cyfrwng y Gymraeg (y tro cyntaf i rai ohonynt glywed neu ddefnyddio'r iaith), i allu cyrraedd yr ysgol, os nad oes gan eu rhieni unrhyw gludiant. Dywedodd Gwern nad yw'n ofyniad statudol, nid yw'r ffaith nad yw hynny'n wir yn ei gwneud yn dderbyniol. Ni welaf sôn am hyn yn eich adroddiad ac rwy'n teimlo bod angen gwneud hyn yn hollol amlwg, efallai y bydd rhai teuluoedd yn colli'r achubiaeth hon ac rwy'n teimlo ei bod yn bwysicach nag erioed yn ystod yr amser hwn o ansicrwydd fod plant yn mynd i'r ysgol, gallai hyn hefyd effeithio iechyd meddwl y rheini a'r plant yn negyddol iawn. A yw'r Cyngor wedi ymchwilio i'r mater hwn ac wedi mynd i'r afael â rhieni y dylai eu plant fod angen dwy awr o ysgol ac egluro'r materion sy'n ymwneud â hyn? A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth a chyngor ar sut y byddwch yn cyflawni hyn? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dal i ddysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd a sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).<br><br>Yn unol â Pholisi Cludiant Gwynedd, cyfrifoldeb rhieni yw gwneud trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin. |
| 462 | Adroddiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb Ysgol Abersoch<br>Oedran<br>Rydym yn anghytuno â'r datganiad hwn. Bydd plant iau 3 - 4 oed yn y Feithrinfa yn cael eu gwahardd os nad oes ganddyn nhw gludiant preifat | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 463 | Gofynnais ichi o'r blaen am y plant sy'n bump oed ac iau sy'n mynychu'r ysgol am ddwy awr yn y bore. Nid yw rhai rhieni yn gyrru ac yn methu â mynd iddynt i Ysgol Sarn Bach. Soniodd Gwern mewn cyfarfod Zoom na fyddai'r plant yn cael defnyddio'r drafnidiaeth gyhoeddus, ac ni fyddai unrhyw riant eisiau anfon eu plant dan bump oed ar y bws ysgol yn unig. Heb ddull cludo rydych chi'n cau ei addysg blynyddoedd cynnar, rydych chi'n dileu hawl plentyn i'w addysg, rwy'n credu bod angen i chi grybwyll mwy o hyn yn eich adroddiad. | | |

| F | Effaith ar ddysgwyr | | |
|---|---|---|---|
| 464 | Byddai plant yn dioddef pe bai Ysgol Abersoch yn cau gan y byddai'n rhaid iddynt ddechrau eto mewn ysgol newydd. Er ei bod yn wir bod rhai plant yn teimlo'n gyffyrddus mewn ysgol newydd o fewn ychydig o wythnosau, gall eraill gymryd llawer mwy o amser i addasu. A oes gwir angen gorfodi plant ifanc i deimlo'n ofnus ac yn bryderus? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, ac yn cydnabod fod y cyfnod hwn yn un o ansicrwydd a all arwain at straen ac effaith ar ddysgwyr.<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn golygu y byddwn yn:<br>• Lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion<br>• Cynnig profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion<br>• Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas<br>• Lleihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir<br>• Sicrhau bod plant yn trosglwyddo un waith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith<br><br>Yn ogystal, mae'r ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i'r disgyblion gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, ac yn galluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir yr Awdurdod y bwriad i wneud pob ymdrech i gynorthwyo disgyblion i setlo yn eu hysgol newydd. |
| 465 | Rwy'n gwrthwynebu i gau'r ysgol yn Abersoch – Sarn Bach. Beth a wnaiff y plant druan? Mor anheg. Plîs ailystyriwch eich penderfyniad cyn cau'r ysgol. | | |
| 466 | Y plant a ddylai fod eich blaenoriaeth yma, ac rwy'n gweld dim tystiolaeth yn eich adroddiad mai plant Ysgol Abersoch a roddwyd yn gyntaf. Pam eu tynnu o ysgol y maen nhw'n ei garu, lle maen nhw'n derbyn addysg ragorol ac yn derbyn cefnogaeth y gymuned, lle mae pawb yn adnabod eu henwau.<br><br>Dylech wneud enghraifft o'r ysgol hon fel un o obaith, dylech fod yn falch o'r ysgol, dylech weithio gyda hi, fel y mae'r Cyngor yn gwneud ag ysgolion yng Nghonwy gyda 10/12 o ddisgyblion. | | |

| Ff | Staff | | |
|---|---|---|---|
| 467 | Nid y plant fyddai'r unig rai i ddioddef. Beth am yr athrawon? Rydych chi nid yn unig yn mynd â'r ysgol i ffwrdd, ond hefyd swyddi, swyddi sydd eu hangen i dalu biliau a chael lle i fyw. A ydych wedi ystyried yr effeithiau ar iechyd meddwl a'r pryderon ariannol y gall eu hachosi? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai'r swyddi yn dod i ben pan fyddai'r ysgol yn cau. Ymgynghorwyd yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rhan o’r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy’n deillio o’r cynnig gydymffurfio â’r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu ar unrhyw gynnig.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio rhithwir lle roedd posib trefnu i swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor fod yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â’r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw’n briodol, i’r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig. |

<table>
<tr><th>G</th><th>Ysgolion cyfagos</th><th></th><th></th></tr>
<tr><td>468</td><td>Hoffwn ddatgan fy mhryder or ffaith fod Cyngor Gwynedd bellach yn bwriadu cau Ysgol Abersoch a colli Ysgol sydd yn rhan bwysig or gymuned.<br>Rwyf or farn fod y Cyngor yn neidio i mewn yn rhy fuan i drio cwtogi costau bychan iawn sef cost o redeg Ysgol Abersoch heb gysidro yr angen lleol sydd ar y gorwel.<br>Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu tai newydd ar safle Pwyliaid Penrhos fydd dros 70-100 uned dros y 3-4 blynedd nesaf fydd yn gartrefi fforddiadwy i bobl leol ag o sgil hynny mwy o blant yn lleol.<br>Mae Ysgol Llanbedrog eisioes hefo gormod o blant a dylsa Abersoch gael ei ddefnyddio yn well i roi yr adnodd addysg gymunedol. Bydd creu y tai newydd yn Penrhos yn rhoi gofyn am ddarpariaeth addysg lleol felly rwyf or farn dylsa y Cyngor gysidro hyn cyn cau ysgol a difaru pam mae yn rhy hwyr.</td><td></td><td rowspan="4">Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Dengys y tabl isod sawl disgybl sy'n mynychu ysgolion dalgylch ac all-ddalgylch yn Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach a'r ysgolion cyfagos.<br><br>
<table>
<tr><th></th><th></th><th colspan="4">Byw yn Dalgylch... (Medi 2020)</th><th></th><th></th></tr>
<tr><th></th><th></th><th>Abersoch</th><th>Sarn Bach</th><th>Llanbedrog</th><th>Foel Gron</th><th>Arall</th><th>Cyfanswm Ysgol (M-Bl6) *(M-Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch)</th></tr>
<tr><td rowspan="5">Mynychu Ysgol ... (Medi 2020)</td><td>Abersoch</td><td>5</td><td>1</td><td>-</td><td>-</td><td>4</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>9</td><td>28</td><td>-</td><td>2</td><td>9</td><td>48</td></tr>
<tr><td>Llanbedrog</td><td>6</td><td>6</td><td>58</td><td>15</td><td>17</td><td>102</td></tr>
<tr><td>Foel Gron</td><td>2</td><td>4</td><td>4</td><td>24</td><td>9</td><td>43</td></tr>
<tr><td>Arall</td><td>4</td><td>2</td><td>2</td><td>1</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfanswm</td><td>26</td><td>41</td><td>64</td><td>42</td><td></td><td></td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2020<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn nad yw sefyllfa niferoedd Ysgol Llanbedrog yn berthnasol i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, am y rhesymau a ganlyn:<br><br>• Yn Medi 2020, roedd 26 (81%) o ddisgyblion (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch - dim ond 6 o'r disgyblion hynny oedd yn mynychu Ysgol Llanbedrog.<br>• Yn Medi 2020, dim ond 5 (20%) o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch sy'n dewis mynychu'r ysgol. Daeth gweddill disgyblion yr ysgol (5, sef 50% o niferoedd yr ysgol) o du allan i dalgylch yr ysgol.<br><br>Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, ac am y bum mlynedd nesaf.</td></tr>
<tr><td>469</td><td>Mae datblygiadau tai enfawr ar y gweill, un ym Mhenrhos ar waith – lle bydd y plant hyn i gyd yn mynd? Bydd rhaid i rai fynychu'r ysgol orlawn yn Llanbedrog – tybed ydych chi wedi ystyried sgil effeithiau hyn?</td><td></td></tr>
<tr><td>470</td><td>Rwyf yn barod wedi ymateb I rhai or pwyntiau ac ddim am ail ddweud ond mae chynhwysedd ddau ysgol cyfagos Ysgol Llanbedrog a Ysgol Sarn Bach yn fy mhoeni. Mae eto sôn am capacity Ysgol Abersoch sef 32 nid yw yr ysgol erioed wedi cyrraedd y rhif yma?</td><td></td></tr>
<tr><td>471</td><td>Credaf nad yw adeilad Ysgol Sarn Bach yn addas o ran llunwedd i gynyddu niferoedd disgyblion.</td><td></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Yn unol â’r Cod Derbyn i Ysgolion, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae’r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru.<br><br>Nodir fod safle Pwyliaid Penrhos yn syrthio o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Llanbedrog felly byddai unrhyw blant yn y tai newydd yn cael cynnig lle yn yr ysgol honno, yn unol â Polisi Mynediad Cyngor Gwynedd.</td></tr>
<tr><td>472</td><td>Nid oes yr un plentyn yn byw ym mhentref Sarn Bach ei hun. Mae nifer o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn all-ddalgylch hefyd, heb gynnwys y rhai a drosglwyddodd yn wyth oed o Ysgol Aber-soch.</td><td></td><td rowspan="2">Roedd tabl yn adran 5.1 o’r ddogfen ymgynghori yn nodi annedd disgyblion Ysgol Abersoch a’r ysgolion cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach.<br><br>Yn Medi 2020, roedd 20 allan o’r 48 o ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn byw y tu allan i’r dalgylch. Roedd 6 o ddisgyblion Ysgol Llanbedrog (102) yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch.<br><br>Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion ardal Abersoch ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 8 oed (mae ardal dalgylch Ysgol Abersoch yn perthyn i dalgylch Ysgol Sarn Bach i ddisgyblion Blwyddyn 4 – 6). Pe byddai’r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal yr ysgol bresennol, yn ogystal ag ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.</td></tr>
<tr><td>473</td><td>Pam na soniwyd am nifer y plant all-ddalgylch sydd yn Ysgol Llanbedrog? Aiff nifer ohonynt yno o Aber-soch.</td><td></td></tr>
<tr><td>474</td><td>4.2 Cymariaethau anaddas ac anghywir.<br>Wrth gydnabod y mynycha canran o ddisgyblion Abersoch ysgolion tu allan i’w dalgylch, rydym yn anghydweld y gall y ffigur hwn fod cyn uched ag 81% gan y trosglwyddodd nifer o’r plant yn gyfreithlon i Ysgol Sarn Bach ar ôl Blwyddyn 3. Ymdebyga hyn i sefyllfa ddu a gwyn ac mae’n gamarweiniol ac anghywir.</td><td></td><td rowspan="3">Dengys y tabl isod faint o ddisgyblion sy’n mynychu ysgolion dalgylch ac all-dalgylch yn Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach a’r ysgolion cyfagos.<br><br>
<table>
<tr><th colspan="2"></th><th colspan="4">Byw yn Dalgylch... (Medi 2020)</th><th></th><th></th></tr>
<tr><th colspan="2"></th><th>Abersoch</th><th>Sarn Bach</th><th>Llanbedrog</th><th>Foel Gron</th><th>Arall</th><th>Cyfanswm Ysgol (M-Bl6) *(M-Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch)</th></tr>
<tr><td rowspan="5">Mynychu Ysgol ... (Medi 2020)</td><td>Abersoch</td><td>5</td><td>1</td><td>-</td><td>-</td><td>4</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>9</td><td>28</td><td>-</td><td>2</td><td>9</td><td>48</td></tr>
<tr><td>Llanbedrog</td><td>6</td><td>6</td><td>58</td><td>15</td><td>17</td><td>102</td></tr>
<tr><td>Foel Gron</td><td>2</td><td>4</td><td>4</td><td>24</td><td>9</td><td>43</td></tr>
<tr><td>Arall</td><td>4</td><td>2</td><td>2</td><td>1</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfanswm</td><td>26</td><td>41</td><td>64</td><td>42</td><td></td><td></td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2020</td></tr>
<tr><td>475</td><td>Mae hyn hefyd yn wir am Ysgol Sarn Bach; Mae 15 allan o 42 o ddisgyblion dalgylch cartref yn mynychu Ysgol Llanbedrog. Nid yw hyn yn anarferol oherwydd polisi dewis rhieni LlC.</td><td></td></tr>
<tr><td>476</td><td>Dogfen ymgynghori 5.1: Mae'r tabl hwn yn gwbl gamarweiniol. Dim ond hyd at Flwyddyn 3 y mae Ysgol Abersoch yn ei gymryd, felly mae'r niferoedd yn ddiofyn yn rhagfarnllyd yn erbyn yr ysgol. Bydd nifer o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n mynychu Ysgol Sarn Bach yn mynychu ers iddynt drosglwyddo eisoes ym mlwyddyn 4. Mae'r cymariaethau'n amhriodol ac yn cymharu afalau â gellyg. Byddai'n fwy priodol cymharu pob plentyn 3-8 oed.</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cadarnheir fod 81% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn Medi 2020. Er eglurder, nid yw disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 sy'n byw yn yr ardal wedi eu cynnwys yn y ffigwr yma gan fod ardal dalgylch Abersoch yn cael ei ystyried fel rhan o ddalgylch Ysgol Sarn Bach ar gyfer plant blynyddoedd 4, 5 a 6.<br><br>Mewn ymateb i'r sylwad ynglŷn â'r nifer o ddisgyblion dalgylch Ysgol Sarn Bach sy'n mynychu ysgolion all-ddalgylch, nodir fod 13 (32%) o ddisgyblion y dalgylch yn mynychu ysgolion all-ddalgylch, dim ond 6 (15%) o'r disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgol Llanbedrog. |
| 477 | **Ymestyn dalgylch Ysgol Sarn Bach**<br>O ystyried polisi Llywodraeth Cymru, mae perthnasedd dalgylchoedd yn amheus gan fod gan rieni ddewis rhydd o ysgolion, hyd yn oed os yw ysgol nad yw'n dalgylch dros-gapasiti, fel y dangosir gan Ysgol Llanbedrog. | | Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dalgylchol ac fel arfer mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn y dalgylch y maent yn byw ynddi a lle bydd yr Awdurdod wedi gwneud darpariaeth o ran gofod, staffio ac adnoddau eraill yn cynnwys cludiant ysgol. Mae gan bob ysgol ddalgylch ddiffiniedig a gellir cael golwg ar fapiau swyddogol yn dangos y ffiniau, yn y Swyddfa Addysg neu yn yr ysgolion unigol. Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae'r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformwla Llywodraeth Cymru. |
| 478 | Eto, mae niferoedd Ysgol Llanbedrog wedi gordanysgrifio o fwy nag 20%, gyda 102 o blant yn mynychu o gymharu â'i chapasiti o 83, gyda 43% o'r disgyblion sy'n ei mynychu yn all-ddalgylch. Ni chredwn fod Cyngor Gwynedd yn dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion na'i bolisïau ei hun o ran mynediad, uchafswm meintiau dosbarthiadau o 20 disgybl i blant mewn dosbarthiadau oed cymysg nac, ychwaith, mewn rhai achosion lefel cyfreithiol y Cyngor ei hun o 30 mewn dosbarth.... | | Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Mynediad ar gyfer ysgolion cymuned a'r rhai sydd o dan reolaeth wirfoddol, a chaniateir mynediad i'r ysgol hynny yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae'r polisi mynediad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru.<br><br>Fe nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion:<br>"Rhaid i ALlau beidio ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgylch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi'i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno, cyn iddynt fynegi eu dewis. Er y dylid esbonio canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny, rhaid i ALlau ei gwneud yn glir bod gan rieni'r hawl i enwi unrhyw ysgol fel yr un sydd orau ganddynt."<br><br>Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae'r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru. |
| 479 | Rydym yn cwestiynu pam mae Cyngor Gwynedd yn caniatáu i Ysgol Llanbedrog barhau i dderbyn plant y tu allan i'r dalgylch pan fyddant eisoes yn uwch na'r capasiti os oes gwarged mewn man arall. | | |
| 480 | Yn ogystal, mae Ysgol Llanbedrog wedi parhau i dderbyn plant sy'n fwy na'i therfynau capasiti ac mae'n addysgu plant mewn dosbarthiadau o faint sy'n fwy nag 20 ar gyfer dosbarth oedran cymysg. Mae'r ddau ffactor hyn yn mynd yn groes i'r strategaeth "Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Ngwynedd" Cyngor Gwynedd. Mae'n ymddangos bod yr Adran Addysg ac Ysgol Llanbedrog wedi caniatáu i'r gor-danysgrifio hwn ddigwydd er anfantais bosibl i addysg disgyblion | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ysgol Llanbedrog wrth fygwth parhad ysgolion eraill yn y dalgylch. Mae angen cywiro'r sefyllfa hon. | |
| 481 | Gofynnodd fy merch wrthych pam eich bod yn caniatáu i ysgol 2 filltir i ffwrdd fod 20% dros gapasiti, yn caniatáu i blant o bentref Abersoch symud yno o'u dalgylch i fynychu ysgol sydd eisoes dros ei gapasiti, pan wyddoch bod gan Ysgol Abersoch lefydd gweigion. Mae hyn yn erbyn eich polisïau, felly plîs atebwch sut mae fy mhlentyn 8 oed ac eglurwch sut y daeth hyn i fod? | |
| 482 | Mae'r ddeddf yn nodi bod angen "cydbwyso anghenion tymor byr yn erbyn y gallu i ddiwallu anghenion tymor hir" a "defnyddio eu hadnoddau i atal problemau rhag gwaethygu neu rhag digwydd yn y lle cyntaf".<br>A all Cyngor Gwynedd wneud sylwadau ar arwyddocâd mynd dros gapasiti yn Ysgol Llanbedrog a phroblemau dilynol i ysgolion cyfagos? Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi y dylid ystyried y tueddiadau tymor hir hy 25-50 mlynedd i'r dyfodol. | |
| 483 | Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sefyllfa bryderus iawn yn Ysgol Llanbedrog, lle gwelwn niferoedd y disgyblion ymhell dros gapasiti'r ysgol, gan arwain at sefyllfa lle nad yw plant o'r pentref hwnnw'n gallu mynychu eu hysgol bentref eu hunain. | |
| 484 | Mae'r Adran Addysg yn rhoi pwyslais mawr ar ddata lleoedd dros ben a chapasiti ysgol, yr wyf yn deall sy'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla. Ymddengys bod hyn wedi cael ei ddiystyru'n llwyr yn achos Ysgol Llanbedrog, a byddwn yn awgrymu y gallai hyn arwain at effaith ar ganlyniadau dysgu disgyblion, heb sôn am faterion iechyd a diogelwch posib gorlenwi? | |
| 485 | Methiant Cyngor Gwynedd i gynnal ei bolisïau cyhoeddedig ei hun o ran capasiti a dewis rhieni. Mae'r ffaith fod yr Adran Addysg wedi caniatáu i Ysgol Llanbedrog derbyn mwy nag 20% o blant dros ei gapasiti, gyda 43% o'i disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch pan fo capasiti ar gael mewn ysgolion cyfagos yn enghraifft o hyn. Mae'r Adran Addysg, er mwyn gwasanaethu ei hangen ei hun, yn amlwg yn ddewisol ym mha un o'i pholisïau y mae'n dewis ei gweithredu ac felly mae'n uniongyrchol atebol am y sefyllfa yr ydym yn ei chael ein hunain | |

Dengys y tabl isod sawl disgybl sy'n mynychu ysgolion dalgylch ac all-ddalgylch yn Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach a'r ysgolion cyfagos.

| Mynychu Ysgol ... (Medi 2020) | Byw yn Dalgylch... (Medi 2020): Abersoch | Sarn Bach | Llanbedrog | Foel Gron | Arall | Cyfanswm Ysgol *(M-Bl6)* **(M-Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch)* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch | 5 | 1 | - | - | 4 | **10** |
| Sarn Bach | 9 | 28 | - | 2 | 9 | **48** |
| Llanbedrog | 6 | 6 | 58 | 15 | 17 | **102** |
| Foel Gron | 2 | 4 | 4 | 24 | 9 | **43** |
| Arall | 4 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Cyfanswm** | **26** | **41** | **64** | **42** | | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2020*

Mae'r Awdurdod o'r farn nad yw sefyllfa niferoedd Ysgol Llanbedrog yn berthnasol i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, am y rhesymau a ganlyn:

- Yn Medi 2020, roedd 26 (81%) o ddisgyblion (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch - dim ond 6 o'r disgyblion hynny oedd yn mynychu Ysgol Llanbedrog.
- Yn Medi 2020, dim ond 5 (20%) o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch sy'n dewis mynychu'r ysgol. Daeth gweddill disgyblion yr ysgol (5, sef 50% o niferoedd yr ysgol) o du allan i dalgylch yr ysgol.

Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ynddynt. Byddwn yn disgwyl, o ran budd y cyhoedd, y bydd y Cabinet yn dwyn yr Adran Addysg i gyfrif am ei methiant i ddilyn ei pholisïau ysgrifenedig ei hun. | | |
| 486 | Mae Ysgol Abersoch, fel y nodwyd gennych yn y ddogfen ymgynghori, o dan ei chapasiti, ond mae hi hefyd yn werth nodi bod Ysgol Llanbedrog dros ei chapasiti. Mae nifer o ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Abersoch sy'n dewis mynychu Ysgol Llanbedrog, felly mae'n rhaid i mi holi'r Cyngor, sut gellir caniatáu i bentref cyfagos i fod dros ei chapasiti pan rydych yn gwneud eich gorau glas i gau Ysgol Abersoch, pan yn hawdd y gallai niferoedd dros y capasiti yn Llanbedrog fynychu Abersoch?. Onid yw hyn hefyd yn mynd yn groes i reoliadau Iechyd a Diogelwch i gael gormod o blant mewn ysgol sydd â chapasiti penodol er mwyn diogelwch pawb sy'n mynychu? | | |
| 487 | Wrth ddarllen pecyn cefndir yr Ymgynghoriad, cefais fy synnu gan **niferoedd** Ysgol Llanbedrog (Appendix 4). Caniatéir iddi drwy ryw ddirgel ffordd, i gymeryd pedwar ar bymtheg o blant yn fwy na'r capasiti! Pedwar ar bymtheg a ddylai fod wedi ei rhannu rhwng ysgolion cyfagos! Dim ond Yr Adran Addysg allai fod wedi rhoi'r caniatád i hyn. Sut bod hyn yn bosib? Sut y caniatáwyd hyn?<br>O ran '**rhagamcanion** o ddisgyblion' (ffigwr 5.2) a'r dyfyniad oddi tano: "I'r gwrthwyneb, mae niferoedd Ysgol Llanbedrog wedi cynyddu 15% yn yr un cyfnod" - yr un 15% ag mae'r ysgol dros ei chapasiti!<br>Ni wn sut yr amcangyfrifir y rhagamcanion hyn ond rwy'n mawr obeithio nad ydych yn ceisio cau ysgol ar amcangyfrifiad o lai na 10 plentyn. Rwyf ar ddeall bod nifer o blant o dan oed ysgol yn y cylch - un ar ddeg yn ôl bob sôn. Pe na byddai Ysgol Llanbedrog wedi cael 'caniatád' i fynd dros gapasiti, yna mae'n debyg na fyddai Ysgol Abersoch mewn sefyllfa i chi fod yn dadlau dros ei chau. | | |
| 488 | Y mae wedi dod i'n sylw fel grŵp bod gan Ysgol Llanbedrog, sy eisoes yn ffynu fel ysgol, blant ar y rhestr aros a dwi'n siŵr y byddai'r rhain yn medru cael eu hidlo i Abersoch i gadw mwy o ddisgyblion yn yr ysgol. | | Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Mynediad ar gyfer ysgolion cymuned a'r rhai sydd o dan reolaeth wirfoddol, a chaniateir mynediad i'r ysgol hynny yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae'r polisi mynediad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru.<br><br>Fe nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion: |
| 489 | Mae hefyd yn anodd deall pam mae'r mater gor-gapasiti Ysgol Llanbedrog yn cael ei roi o'r neilltu gan yr Adran Addysg. Yng nghyfarfod y Cabinet (15 Mehefin), nododd Garem Jackson nad yw polisi'r Cyngor yn caniatáu hyrwyddo un ysgol dros yr ysgol arall. Ac | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eto maent wedi caniatáu i Ysgol Llanbedrog fynd yn or-gapasiti sylweddol (> 20%). Mae hyn yn groes i Gyngor Gwynedd ‘Gwybodaeth i Rieni 2021- 2022’ sy’n nodi “Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol.” Siawns nad yw hyn yn rhan annatod o'r conundrum presennol ac na ellir ei ddiswyddo mor hawdd? | | “Rhaid i ALlau beidio ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgylch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi’i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno, cyn iddynt fynegi eu dewis. Er y dylid esbonio canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny, rhaid i ALlau ei gwneud yn glir bod gan rieni’r hawl i enwi unrhyw ysgol fel yr un sydd orau ganddynt.”<br><br>Yn unol â’r Cod Derbyn i Ysgolion, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae’r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru.<br><br>Nid yw’r Awdurdod o’r farn fod sefyllfa niferoedd Ysgol Llanbedrog yn berthnasol i’r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.<br><br>Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf. |
| 490 | Methu i gwersitynu pam y caniateir i rifau godi dros gapasiti Ysgol Llanbedrog a ddylai fod bwysicaf, yn enwedig gan mai chi oedd fwyaf awyddus i wthio eich cynlluniau i ffederaleiddio gyda’r ysgol. | | |
| 491 | Yn anffodus nid yw’n gyfrinach bod yr ysgol agosaf yn Llanbedrog yn beryglus o llawn bellach gyda dros 102 o ddisgyblion. | | |
| 492 | Yn eich adroddiad gwnaethoch ddiystyru'r ffaith bod Ysgol Llanbedrog yn rhedeg ar 20% dros gapasiti, pam na fyddech chi eisiau canolbwyntio mwy ar y pwynt hwn? Pwy sydd wedi caniatáu i hyn ddigwydd? | | |
| 493 | Teimlir ei bod yn groes i’r graen adeiladu mwy o ofod yn Ysgol Llanbedrog, fel yr awgrymodd aelod o’r Adran Addysg mewn cyfarfod anffurfiol, pan fo ysgol addas â chapasiti yn Abersoch. | | Nid oes bwriad rhoi estyniad ar Ysgol Llanbedrog fel rhan o’r cynnig. Er eglurder, y cynnig arfaethedig yw cau Ysgol Abersoch, a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.<br><br>Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin y ddwy ysgol, mae gan Ysgol Abersoch 32 (75%) o lefydd gweigion ac Ysgol Sarn Bach 25 (34%) o lefydd gweigion. Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.<br><br>Yn Medi 2020, rhwng Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, roedd 47 (47%) o lefydd gweigion yn yr ardal. Pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai o ddeutu 19 (29%) o lefydd gweigion (Derbyn – Bl.6) yn parhau yn yr ysgol amgen. |
| 494 | Arweiniodd polisi dewis rhieni Llywodraeth Cymru, a methiant Cyngor Gwynedd o lynu at ei bolisïau ei hun, i’r sefyllfa o un ysgol fod dros-gapasiti ac, eto, un arall sy’n brwydro aros ar agor yn dangos yr atebwyd y criteria am Adolygu Dalgylch. | | Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd yw’r Awdurdod Mynediad ar gyfer ysgolion cymuned a’r rhai sydd o dan reolaeth wirfoddol, a chaniateir mynediad i’r ysgol hynny yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae’r polisi mynediad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru.<br><br>Fe nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion:<br>“Rhaid i ALlau beidio ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgylch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi’i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno, cyn iddynt |
| 495 | Datgana’r Cyngor nad oes gan y sefyllfa bod Ysgol Llanbedrog dros ei chapasiti ddim i’w wneud â’r penderfyniad hwn. Ond, eto, nid yw’n gwneud dim synnwyr gan ei fod yn ymgais arall i dynnu sylw oddi ar ei fethiant i ddilyn ei bolisïau maint dosbarthiadau ei hun fel nodir ym | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mholisi Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd'. Ymhellach, mae eglurhad yr Adran Addysg o beidio â chynnal Adolygiad Dalgylch, pan fo problemau dros gapasiti yn Ysgol Llanbedrog sy'n sail i adolygiad dalgylch, yn anfoddhaol. | | fynegi eu dewis. Er y dylid esbonio canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny, rhaid i ALlau ei gwneud yn glir bod gan rieni'r hawl i enwi unrhyw ysgol fel yr un sydd orau ganddynt."<br><br>Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae'r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru.<br><br>Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019 bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud â dyfodol yr ysgol, yn sgil pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yr ysgol.<br>Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 17 Medi 2019, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) i drafod sefyllfa'r ysgol, ynghyd ag ystyried yr opsiynau posib gyda rhan-ddeiliad yr ysgol. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.<br><br>Mae modd gweld cofnod o'r trafodaethau ar ein gwefan<br>www.gwynedd.llwy.cymru/moderneiddioadddysg |
| 496 | penderfyniadau (neu ddiffyg penderfyniadau) mewn polisi cyhoeddus gan Lywodraeth Leol a Chanolog wedi cyfrannu at y problemau, a bod cyfrifoldeb arbennig felly i chwilio pob datrysiad posibl. | | |
| 497 | Pe bai niferoedd y disgyblion yn cael eu rheoli'n well ar draws y pedair ysgol yn y dalgylch, yna byddai maint dosbarthiadau 12-20 yn fwy cyffredin ym mhob ysgol er budd yr holl ddisgyblion yn y dalgylch. Mae'n ofynnol i barhad dosbarthiadau yn Ysgol Abersoch gyflawni'r nod hwn ym mhob ysgol yn y dalgylch. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai'r gost gyfartalog fesul disgybl yn y dalgylch yn fwy unol â normau addysgol. | | |
| 498 | Mae posibilrwydd y gallai'r disgyblion drosglwyddo i ysgolion eraill yn hytrach nag Ysgol Sarn Bach, gan fod y dewis ar gael i rieni. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 499 | Pam bod gan rieni'r hawl i yrru eu plant i ysgolion sydd tu allan i'r dalgtylch a'r ysgolion hynny dros eu capasiti. Dydi hyn ddim yn gwneud synnwyr. | | Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Mynediad ar gyfer ysgolion cymuned a'r rhai sydd o dan reolaeth wirfoddol, a chaniateir mynediad i'r ysgol hynny yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae'r polisi mynediad yn cyd-fynd a gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru.<br><br>Fe nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion:<br>"Rhaid i ALlau beidio ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgylch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi'i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno, cyn iddynt fynegi eu dewis. Er y dylid esbonio canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny, rhaid i ALlau ei gwneud yn glir bod gan rieni'r hawl i enwi unrhyw ysgol fel yr un sydd orau ganddynt." |
| 500 | Rwy'n deall bod y rhesum y tu ôl i gau'r ysgol yn ganlyniad i'r niferoedd isel a'i bod yn anghynaladwy, ond rwy'n credu bod cymaint o opsiynau eraill y dylech eu hystyried cyn y penderfyniad brys i gau'r ysgol.<br>Os yw'r niferoedd yn isel yn ysgol abersoch, siawns y peth mwyaf synhwyrol buasai darganfod y rhesymau pam fod cynifer o rieni yn dewis peidio a gyrru eu plant i'r ysgol.<br>Beth am i chi sefydlu arolwg er mwyn deall y rhesymau hyn.<br>Wedi deallt y rhesymau awgrymaf gynllun gweithredu i gynyddu'r rhifau yn y'r ysgol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 501 | Dwi hefyd yn ymwybodol bod ysgol llanbedrog dros ei chapasiti o 19 disgybl. Dwi hefyd yn ymwybodol bod o leiaf 10 babi newydd-anedig ym mhentref Abersoch y flwyddyn hon, Mae’r ffaith bod llanbedrog dros ei chapasiti yn awgrymu ei bod o dan bwysau ofnadwy ac y bydd cau yn cael effaith niweidiol ar yr ysgol. Siawns bod yr uchod yn gwneud achos cryf o blaid cadw’r ysgol ar agor. | | Yn unol â’r Cod Derbyn i Ysgolion, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae’r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru. |
| 502 | Fel rhiant i blant yn yr ysgol ers 2008, mae un peth yn sefyll allan yn gryf i mi ac welaf fai ar polisi/rheolau y Cyngor ynglyn a pa mor hawdd ydi hi i rhieni symud eu plant o un ysgol i'r llall. Ni chaniateir hyn yn Lloegr. Ers 2009 mae hyn wedi digwydd nifer o weithiau yn ysgol Abersoch,heb esboniad cryf/da,fel oedd un yn mynd oedd lleill yn dilyn (fel defaid!!!).Pe bai hyn ddim wedi cael ei ganiatau,mi fuasai ffigyrau disgyblion Ysgol Abersoch yn gryf iawn. | | |



| Ng | Materion Cyllidol | | |
|---|---|---|---|
| 503 | Dim ond swm pitw iawn yw’r arbediad ariannol. | | Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd cyfanswm o £366,030 i ysgolion Abersoch a Sarn Bach. O ran costau refeniw, rhagwelir y byddai gweithredu’r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai anghenion cludiant ychwanegol, sef o oddeutu £14,000 y flwyddyn. O ganlyniad, byddai’r arbedion net arfaethedig yn debygol o fod yn £96,062 y flwyddyn.<br><br>Nid yw’r ffigyrau yn cymryd unrhyw gostau cynnal a chadw ar safle Ysgol Abersoch nac Ysgol Sarn Bach i ystyriaeth. Pe byddwn wedi ystyried y costau hyn mi fyddai’n golygu mwy o arbedion gan na fydda unrhyw gostau cynnal a chadw i Ysgol Abersoch i’r dyfodol.<br><br>Tydi clystyru cost y 4 ysgol leol at ei gilydd i gyrraedd cyfartaledd cost o £5,000 ddim yn lleihau cost uchel y pen Ysgol Abersoch.<br><br>Bydd unrhyw gostau diswyddo yn cael eu hariannu o’r arbedion hyn.<br><br>Nid yw costau’r ymgynghoriad wedi’u cynnwys wrth gyfrifo arbedion gan eu bod yn annibynnol o gostau rhedeg gwirioneddol yr ysgolion dan sylw. |
| 504 | A fyddai’n bosibl i Gyngor Gwynedd ddarparu dadansoddiad manwl o’r costau yr ydych wedi sôn amdanynt yn fyr yn eich adroddiad. Ymddengys bod gan bopeth arall fwy o bwyslais a manylder na'r mater hwn, a allwch chi ymhelaethu gan fy mod i'n teimlo bod angen i chi fod yn fwy tryloyw ar feysydd fel: - Trafnidiaeth - Staffio - Diswyddiadau - Costau proses yr ymgynghoriad hyd yma; - Stampiau dosbarth cyntaf x 2 i holl ddisgyblion Sarn Bach, yna danfon llythyrau oddi wrth Sarn Bach atoch chi'ch hun? - Mr Arwel Jones - cyfwelydd - Cwnsela ar gyfer y plant pe bai ei angen arnynt. - Cyfarfodydd Cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd - Treuliau petrol a milltiroedd - Cyfieithydd ar gyfer cyfarfodydd - A fydd y plant yn cael Grant gwisg ysgol? (os ydyn nhw'n newid ysgolion, bydd y gwisgoedd a brynir yn ddiangen). | | |
| 505 | Faint o arian ydych chi'n mynd i'w arbed? Diswyddiadau? Colli taliad ar eich cludiant, gan fod rhai plant yn teithio i Sarn Bach o Abersoch nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim ar hyn o bryd, ond rydym yn dal i aros ichi ateb y cwestiwn hwn, a ofynasom ichi yn un o'r cyfarfodydd, yn ffaith rydym yn dal i aros i chi ateb sawl cwestiwn o'r cyfarfodydd hynny. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 506 | Mae'r cynnig i gau yn gysylltiedig i raddau helaeth ag arian, Pwy sydd â'r hawl i roi gwerth ariannol ar addysg plentyn, ysgol Gymraeg wych ac Ysgol Traeth sy'n ymdrechu fod yn esiampl i eraill? Mae'n ymddangos mai arian sy’n mynd â hi. Efallai y bydd Abersoch fel pentref wedi dod yn gyrchfan i dwristiaid ffyniannus i bobl sy’n ymweld am y dydd, pobl ar eu gwyliau a pherchnogion ail gartref, ond ble mae'r gŵyn gan y cyngor nad yw'r holl arian ychwanegol y mae hyn yn ei gynhyrchu o unrhyw ddiddordeb i'r cyngor? Dydyn nhw ddim! Mae Abersoch fel pentref yn cynhyrchu refeniw llawer uwch i'r cyngor na Sarn Bach felly pam na fydd y cyngor yn gweithio gydag Ysgol Abersoch i helpu a chefnogi'r ysgol? Neu fel mae'n ymddangos eu bod eisiau cymryd yr arian ychwanegol a'i gau yn unig? Y penderfyniad i gynyddu'r dreth gyngor i 200% i berchnogion ail gartref yw atal prynwyr, fe allai neu beidio, ond gofynnaf i ble mae'r arian ychwanegol hwn am ddim yn mynd nawr? Mae'n debyg nad yw'n mynd ar addysg! | | Mae gan Ysgol Sarn Bach wisg ysgol swyddogol ac mae’r ysgol yn annog pawb i’w gwisgo. Mae disgwyliad ar rieni disgyblion blwyddyn 3 brynu gwisg ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach beth bynnag. Gall plant sydd yn trosglwyddo o Ysgol Abersoch barhau i wisgo ei gwisg (Ysgol Abersoch) hyd at ddiwedd blwyddyn 3 os mai dyma ddymuniad y rhieni.<br><br>Pwysleisir na benderfynwyd cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar sail materion cyllidol yn unig.<br><br>Mae’r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae’n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae’r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch. |
| 507 | Mae'r costau i ariannu parhad cyllido Ysgol Abersoch fel y nodwyd yn ymddangos yn uchel ac nid ydynt yn ddigon tryloyw i roi sylwadau arnynt. | | |
| 508 | Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd arbediad net blynyddol o oddeutu £ 96k. Mae hyn tua 0.01% o gyllideb gyffredinol Adran Addysg Gwynedd. Dydi sut mae'r arbediad wedi'i gyfrifo ddim yn aneglur, heb ddarparu dadansoddiad o'r costau e.e. a yw costau addysgu'r plant mewn ysgol arall a chynnal a chadw parhaus yr ysgol, sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor, wedi'u cynnwys? Mae'n destun pryder mawr bod penderfyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet gyda dadl sy’n seiliedig ar gost fesul disgybl yn hytrach na chost absoliwt o redeg yr ysgol.<br><br>Gan fynd â'r pedair ysgol at ei gilydd, fel dalgylch mae'r gost fesul disgybl oddeutu £ 5k y disgybl. Mae hyn yn unol ag ysgolion gwledig eraill yr ardal. | | |
| 509 | 8.1. Arbedion Amcangyfrifedig<br>Mae’r arbedion o £110,000 yn gyfartaledd bychan (0.1%) o gyllideb gyfan Cyngor Gwynedd o £90.4 miliwn. Ond, eto, yn nhermau tryloywder, nid yw’n glir pa gostau a gynhwyswyd ac na chynhwyswyd yn yr amcangyfrifon hyn. O ystyried y dibynna mwyafrif dadl Cyngor | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwynedd ar gost, mae’n syndod nad yw’n dweud llawer am hyn o gymharu â’r manylder a geir yng ngweddill y ddogfennaeth. | | |
| 510 | Er budd tryloywder, gofynnwn i Gyngor Gwynedd ddarparu'r cyfrifiadau i gefnogi'r arbediad rhagamcanol hwn. Nid yw'n eglur pa gostau sydd wedi'u cynnwys neu eu heithrio yn y cyfrifiadau hyn. O ystyried bod llawer o ddadl Cyngor Gwynedd yn dibynnu ar gost, mae'n syndod nad yw'r un lefel o fanylion a roddir i weddill y ddogfen yn cael ei rhoi i'r ymarfer costio. | | |
| 511 | 7.16 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig "Effaith ar gyflogaeth staff"<br>Mae diswyddo yn ddrud ac o bosibl yn ddiangen os oes angen i Ysgol Sarn Bach gyflogi mwy o athrawon. A yw costau diswyddo wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau cost? A yw'r dadleuon ariannol yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol yn Ysgol Sarn Bach? Er tryloywder, darparwch y manylion hyn. O ystyried bod llawer o ddadl Cyngor Gwynedd yn dibynnu ar gost, mae'n syndod nad yw'r un lefel o fanylion a roddir i weddill y ddogfen yn dryloyw. | | |
| 512 | Deellir bod cost i barhau i gadw'r ysgol ar agor ond siawns na fyddai'r buddion yn gorbwyso costau cynnal y *s*tatus quo presennol. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.<br><br>Pwysleisir na benderfynwyd cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar sail materion cyllidol yn unig. Crynhoir y rhesymau dros flaenoriaethu’r adolygiad yn y blwch uchod.<br><br>Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o’r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i’r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o’r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach.<br>Byddai gwireddu’r cynnig hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol. |
| 513 | Bydd cau Ysgol Abersoch yn cael effaith amherthnasol ar y gyllideb, ond byddai'n erydu safonau addysg yn ddifrifol ar gyfer y 200 o ddisgyblion yn Abersoch a'r ysgolion cyfagos. | | |
| 514 | Mae ysgol fach i gyd yn ymwneud â’r synnwyr o berthyn. Yn naturiol, mae unrhyw un yn costio mwy i’w chynnal ond, edrychwn ar hyn fel iawndal. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad |
| 515 | Nid yw'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r effaith ar adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn Sarn Bach i gefnogi'r safon addysgol | | Pe gweithredir y cynnig, yn seiliedig ar ddyraniad 2020/21, byddai trosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch yn arwain at ddyraniad ychwanegol o £27,078 ar gyfer Ysgol Sarn Bach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | barhaus trwy gynnwys y plant ychwanegol. Nodwch beth fydd y rhain a'r costau a ragwelir. | | Disgwylir y byddai Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn penderfynu ar y defnydd gorau o'r dyraniad ychwanegol hwn. |
| 516 | Rydym yn tynnu sylw yn barhaus ei bod yn amhriodol cymharu'r gost fesul disgybl ag ysgolion mwy. Darparwch cymhariaeth cost fesul disgybl o'i gymharu ag ysgolion bach tebyg eraill. | | Ysgol Abersoch sydd â'r nifer lleiaf o ddisgyblion a'r gost uchaf fesul disgybl yng Ngwynedd, felly dwyn cymariaethau ag ysgolion mwy a chyfartaledd y sir yw'r unig opsiwn. |
| 517 | Ar ddechrau'r adolygiad anffurfiol, ym mis Medi 2019, derbyniom bod niferoedd disgyblion is yn arwydd o'r angen am newid, a diolch i symbyliad y cyfarfodydd dechreuol, darganfuwyd nifer o bethau newydd i wella cynaladwyedd yr ysgol. Yr ydym nawr hefyd wedi sicrhau bod y strwythur staffio yn cydfynd â'r gyllideb. Yn ystod cyfnod heriol, mae Ysgol Abersoch wedi bachu ar y cyfle ac wedi cyflwyno mesurau cynaliadwy i wynebu niferoedd disgyblion isel | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad fod Ysgol Abersoch bellach wedi balansio ei chyllideb ar gyfer 2020-21.<br><br>Serch hynny, dylid nodi fod Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 oedd £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £17,404 - y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl ar gyfer y un flwyddyn oedd £4,198.<br><br>Pwysleisir na benderfynwyd cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar sail materion cyllidol yn unig.<br><br>Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br><br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. |
| 518 | Ymrwymodd Ysgol Abersoch i falanshio ei chyllideb yn nhermau dyraniad ariannol a strwythur staffio. Datryswyd unrhyw ddiffygion cyllidebol ar gyfer 2021 – 2022 erbyn hyn hefyd. | | |
| 519 | 5.3. Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol Mae Ysgol Abersoch yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad ariannol arferol trwy'r polisi staffio lleiaf.<br>Polisi Cyngor Gwynedd yw hwn ac nid gwendid. | | |

<table>
<tr><th>H</th><th>Opsiynau Amgen</th><th></th><th></th></tr>
<tr><td></td><td>Oedi'r broses</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>520</td><td>Ailystyriwch eich cynnig neu o leiaf gohiriwch y penderfyniad am o leiaf 2 flynedd arall i weld pa effaith y mae Covid 19 yn ei chael ar ein cymuned leol.</td><td></td><td rowspan="3">Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Serch hynny, ni allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Abersoch wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:
<ul>
<li>Dosbarthiadau bychan iawn.</li>
<li>Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion.</li>
<li>Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 11 disgybl yn mynychu erbyn 2025.</li>
</ul>
Dengys y tabl isod na ragwelir cynnydd mawr yn y niferoedd dros y 5 mlynedd nesaf:<br><br>
Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch
<table>
<tr><th></th><th>M</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Medi 2020</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2021</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>0</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2022</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2023</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2024</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Amcangyfrif Medi 2025</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>2</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>11</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>521</td><td>Mae'n bosibl y bydd nifer y bobl sydd bellach wedi profi gweithio gartref mewn trefi a dinasoedd yn parhau i dyfu a byddant yn sylweddoli y gallant fyw a gweithio yn unrhyw le, gan roi hwb i fwy o deuluoedd sy'n symud i fyw mewn pentref ag addysg dda integredig ac ati. dyweder Abersoch, rheswm arall i ohirio cau unrhyw ysgol.</td><td></td></tr>
<tr><td>522</td><td>... mae cyfle i hyn. Fel y dangoson ni yn ein hymateb yn yr atodiad, y mae ffenest gyfle. Mae'r rhybudd presennol yn cynnig y cam anarferol o gau Ysgol Abersoch ar ganol blwyddyn academaidd - Rhagfyr 2021. Gellid yn rhwydd cael caniatad y Gweinidog Addysg i beidio â gwethredu'n syth ar y Rhybudd yn benodol er mwyn trafod yr opsiynau amgen gyda'r rhan-ddeiliaid y tymor nesaf. Ar sail hynny, yn hymor y gwanwyn, gellid naill ai (1) rhjoi cynng newid a gwell, gyda chefnogaeth leol, gerbron neu (2) Os na byddai'r trafodaethau dwys ar opsiynau amgen yn arwain at gonsensws, byddai dal cyfle i ail-gyhoeddi Rhybudd i gau'r ysgol ar ddiwedd yr un flwyddyn academaidd yng Ngorffennaf 2022.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Ymestyn ystod oed (3-9 oed)</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>523</td><td>Mae'n nhw yn awyddus i ymestyn yr ystod oedran fel bod modd i fwy o ddisgyblion fynychu<br>nid yw ymestyn ystod oedran yr ysgol wedi ei archwilio'n ddigonol<br>Yn wir mae'r uchod hefyd yn cefnogi'r ddadl bod angen i'r ysgol ymestyn ei hystod oedran i gynnwys blynyddoedd 3 a 4. Mae llawer o fanteision i ganiatáu ystod y dysgu a derbyn mwy o ddisgyblion aeddfetach i symud ymlaen i'w hysgol nesaf.</td><td></td><td>Dymuna'r Awdurdod nodi y trafodwyd 2 opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 ac ymestyn i 3-11.<br>Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y Cylch Meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 dalgylch Abersoch).</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yr ydym yn gwybod fod yna lond llaw o blant yn barod i gychwyn yn yr ysgol trwy yn gyntaf "Ti a FI" a'r meithrin newydd llwyddianus, fy nai yn un ohonynt,ac hefyd yn bendant mi fuasai fy meibion wedi aros ymlaen am y flwyddyn ychwanegol sef bl 4 ,pe byddai'r opsiwn yna. | | Wrth gymharu’r ddau opsiwn, daethpwyd i’r canlyniad mai’r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 am sawl rheswm, yn benodol:<br><br>• Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai’r heriau sy’n wynebu’r ysgol yn parhau.<br>• Ni fyddai’r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.<br>• Ni fyddai’n caniatáu i’r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai’r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.<br>Credir y byddai’r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai’r opsiwn hefyd yn cysoni’r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.<br><br>Er mwyn i’r opsiwn ymateb i’r heriau sy’n wynebu’r ysgol, byddai’n rhaid i’r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae’n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i’r casgliad na fyddai’r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i’r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos. |
| 524 | Trosglwyddo ar Ddiwedd Blwyddyn 3<br>Awgryma’r cynnig trwy gael eu dysgu’n unig yn Ysgol Sarn Bach, ac nad oes angen trosglwyddo disgyblion yn ystod eu haddysg gynradd, yn fudd diriaethol ond, eto, ni ddarparir tystiolaeth i gefnogi’r pwynt hwn. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith negyddol yn gysylltiedig â’r trosglwyddiad hwn. Nid oes sylfaen i’r datganiad ac mae’n hynod oddrychol.....<br>7. Y Cynnig e) Sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo unwaith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith.<br>Ar ba sail y mae hwn yn bwynt dilys? Pa dystiolaeth allwch chi ei darparu bod hon yn broblem. O ystyried polisi Llywodraeth Cymru, mae'n ymddangos bod plant yn torri ac yn newid ysgolion ar fympwy. Gellir dadlau bod plant sy'n dysgu addasu i newid ac yn fwy gwydn ac yn barod ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Nid yw trafodaeth â disgyblion a rhieni presennol a blaenorol, yn ogystal â Llywodraethwyr a fynychodd yr ysgol wedi nodi unrhyw effaith negyddol sy'n | | Cred y Cyngor fod symud ysgol neu bontio o un ysgol i’r llall ar unrhyw amser mewn gyrfa addysgol yn gallu arwain at darfu ar gynnydd rhai plant wrth iddynt gynefino mewn ysgol ac amgylchedd newydd ac yn ogystal gall danseilio gwydnwch rhai disgyblion.<br><br>Gan fod sefyllfa Ysgol Abersoch yn gymharol unigryw o ran pryd mae’r plant yn symud, prin yw’r dystiolaeth i brofi neu ddad-brofi’r rhagdybiaeth hwn ar gyfer pontio ar ddiwedd blwyddyn 3. Fodd bynnag ceir tystiolaeth o ffynonellau eraill, lle y cyfeirir at bontio cynradd / uwchradd arferol, megis adroddiad ddiweddar Estyn (*Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion Gorffennaf 2020)* lle nodi’r *“*Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch.”<br><br>Drwy leihau’r nifer o weithiau y bydd plant yn pontio cred y Cyngor y bydd llai o siawns i’r plant ddioddef gofid emosiynol, gostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu.<br><br>Mae cysondeb a chyd gynllunio’n allweddol ar gyfer pontio effeithiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gysylltiedig â'r trosglwyddiad hwn. A adroddwyd am unrhyw broblemau gan blant yn Ysgol Morfa Nefyn, sy'n darparu ar gyfer yr un ystod oedran? | | Nid yw pryd y mae'r plant yn pontio i ysgol arall yr unig ffactor i'w hystyried wrth geisio lleihau'r effaith. Cred y Cyngor mae'r unig ffordd o sicrhau lleihad effeithiau negyddol posib pontio yw drwy leihau'r cyfnodau lle mae'n rhaid i blant bontio yn ystod ei gyrfa addysgol yn y lle cyntaf. |
| 525 | 4.4. Newid yr ystod oed o 3 – 8 i 3 – 9<br>Rydym yn gadarn ein barn bod ymestyn yr ystod oed i gynnwys Blwyddyn 4 yn ddatrysiad posibl ac ymarferol ond, eto, fe'i hanwybyddir gan y Cyngor heb eglurhad digonol. Nid yw'r awgrym hwn yn afresymol o feddwl y dysgir Blynyddoedd 3 a 4 ar y cyd yn gyffredinol mewn dosbarthiadau oed cymysg yn ysgolion Gwynedd… Gwyddom y mynegodd rieni ddymuniad o gadw'u plant yn Ysgol Abersoch am flwyddyn ychwanegol pe bai dewis a buasai'n clymu'n daclus â'r drefn o addysgu plant Blynyddoedd 3 a 4 â'i gilydd…<br>6.*1 Cymharu Opsiynau Opsiwn 2b - newid yr ystod oedran i 3-9 oed*<br>*Mae'r cyfiawnhad dros ddweud na yn annigonol.*<br>*Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau oedran cymysg, addysgir blynyddoedd 3 a 4 gyda'i gilydd felly mae hwn yn gam naturiol. "Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 2 gynhwysfawr." Mae'n ymddangos yn aneglur pam y byddai hyn yn broblem. Mae wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud hynny ers degawdau lawer. Rhowch dystiolaeth a chyfiawnhad dros y pwynt hwn…*<br>*Gall cynyddu'r ystod oedran wneud rhieni'n fwy tebygol o ddewis yr ysgol. Mae hyn yn gadarnhaol.* | | Mae'r Cyngor yn nodi'r gefnogaeth i'r opsiwn i ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch i 3-9 oed.<br><br>Cred y Cyngor fod symud ysgol neu bontio o un ysgol i'r llall ar unrhyw amser mewn gyrfa addysgol yn gallu arwain at darfu ar gynnydd rhai plant wrth iddynt gynefino mewn ysgol ac amgylchedd newydd ac yn ogystal gall danseilio gwydnwch rhai disgyblion.<br><br>Gan fod sefyllfa Ysgol Abersoch yn gymharol unigryw o ran pryd mae'r plant yn symud, prin yw'r dystiolaeth i brofi neu ddad-brofi'r rhagdybiaeth hwn ar gyfer pontio ar ddiwedd blwyddyn 3. Fodd bynnag ceir tystiolaeth o ffynonellau eraill, lle y cyfeirir at bontio cynradd / uwchradd arferol, megis adroddiad ddiweddar Estyn (Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion Gorffennaf 2020) lle nodi'r "Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch."<br><br>Drwy leihau'r nifer o weithiau y bydd plant yn pontio cred y Cyngor y bydd llai o siawns i'r plant ddioddef gofid emosiynol, gostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu.<br><br>Mae cysondeb a chyd gynllunio'n allweddol ar gyfer pontio effeithiol.<br><br>Nid yw pryd y mae'r plant yn pontio i ysgol arall yr unig ffactor i'w hystyried wrth geisio lleihau'r effaith. Cred y Cyngor mae'r unig ffordd o sicrhau lleihad effeithiau negyddol posib pontio yw drwy leihau'r cyfnodau lle mae'n rhaid i blant bontio yn ystod ei gyrfa addysgol yn y lle cyntaf.<br><br>Yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y Cylch Meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).<br><br>Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau a ganlyn: |
| 526 | Rwyf wedi ysgrifennu at Kirsty Williams i ofyn 'Pam na chaiff fy chwaer aros yn Ysgol Abersoch hyd at flwyddyn pedwar meddai hi "Dwi ddim yn gwybod pam na chaiff dy chwaer aros yn yr ysgol tan Flwyddyn 4 ond dylai'r awdurdod lleol fedru dweud wrthat" Felly rwy'n gofyn wrthych PAM NA CHAIFF FY CHWAER AROS YN YR YSGOL AM FLWYDDYN YCHWANEGOL HYD AT FLWYDDYN 4? | | |
| 527 | Ar y cyd â Thi a Fi, gallai addysg i gynnwys Blwyddyn 4 gynnig pecyn hirdymor o ymrwymiad, parhad a sefydlogrwydd i blentyn a'i rieni hyd at wyth neu naw mlynedd. Mae gan hyn botensial mawr i adeiladu cysylltiadau ar bob lefel o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach a, hefyd, buasai'n annog mwy o rieni wneud Ysgol Abersoch eu prif | | |

<table>
<tr><td></td><td>ddewis. Mae’n aneglur i ni pam yr anghytuna’r Adran Addysg â’r flwyddyn ychwanegol hon na pham y diystyrir dymuniadau’r plant a’r rhieni.<br><br>Mae ychwanegu Blwyddyn 4 yn gwneud synnwyr greddfol ac yn unol â dymuniad y plant a’r rhieni?</td><td></td><td rowspan="4"><ul><li>Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai’r heriau sy’n wynebu’r ysgol yn parhau.</li><li>Ni fyddai’r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.</li><li>Ni fyddai’n caniatáu i’r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai’r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.</li></ul>
Ym mis Medi 2020, roedd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Bl.3) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020 yw 24.<br><br>
Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020.
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Meithrin</th><th>Derbyn</th><th>Bl 1</th><th>Bl2</th><th>Bl 3</th><th>Bl 4</th><th>Bl 5</th><th>Bl 6</th><th>Cyfanswm</th><th>Nifer y dosbarthiadau</th><th>Dosbarth mwyaf</th><th>Dosbarth lleiaf</th><th>Maint dosbarth ar gyfartaledd</th></tr>
<tr><td>Abersoch</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td><td>1</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>3</td><td>2</td><td>5</td><td>4</td><td>8</td><td>5</td><td>10</td><td>11</td><td>48</td><td>2</td><td>34</td><td>14</td><td>24</td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020<br><br>
Byddai gwireddu’r cynnig arfaethedig yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran.<br><br>
Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.<br><br>
Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.<br><br>
Yn dilyn ystyriaeth, daethpwyd i’r casgliad na fyddai’r opsiwn ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ddatrysiad cynaliadwy i’r dyfodol ar gyfer yr ysgol. Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai’r heriau sy’n wynebu’r ysgol yn parhau. Rhagwelir y byddai niferoedd a’r rhagamcanion yn parhau’n isel, dosbarthiadau yn parhau’n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.</td></tr>
<tr><td>528</td><td>Ni fuasai’r tro cyntaf i blant Ysgol Aber-soch drosglwyddo i Sarn Bach yn naw oed wrth newid yr ystod oedran o 3 – 8 i 3 – 9 oed, gan y gwneid hynny hyd at ddechrau/canol y pumdegau.</td><td></td></tr>
<tr><td>529</td><td>Pam nad ydy Cyngor Gwynedd wedi ystyried o ddifrif caaniatáu i Ysgol Abersoch 4 gynnal blwyddyn, fel ysgolion eraill? Mae fy mhlentyn ar hyn o bryd ym mlwyddyn 3 yn Ysgol Abersoch ac mae hi wedi gofyn sawl gwaith pam na chaiff hi aros tan flwyddyn pedwar? Dwi’n methu ateb y cwestiwn hwn ac ni allaf feddwl am unrhyw reswm o gwbl pam na all hyn fod. Rydym fel llywodraethwyr a rheini wedi cynnig hyn ac wedi gofyn yr un cwestiwn i chi. Pryd bynnag y mae hyn wedi ei holi, eich ymateb pob tro yw ‘byddai’n niweidiol i Ysgol Sarn Bach’, fodd bynnag mae blynyddoedd 3 a 4 Ysgol Sarn Bach eisoes yn cael eu haddysgu gyda’u gilydd. Roedd yn ymddangos i mi pan ddechreuodd fy mab ym mlwyddyn 4 yn Sarn Bach ei fod yn mynd dros waith yr oedd eisoes wedi ei wneud ym mlwyddyn 3 yn Ysgol Abersoch. Mae'r adroddiad manwl iawn gan y Pennaeth Mrs Linda Jones yn cadarnhau hyn. Felly, teimlaf y byddai plant Ysgol Abersoch yn elwa mwy wrth fynd i Sarn Bach ym mlwyddyn 4. Hefyd teimlaf y byddai plant Sarn Bach yn elwa o hyn hefyd gan y byddai’n lleddfu pwysau dosbarthiadau mwy a’r cynnwrf y mae plant yn ymuno hanner ffordd drwy’r maes llafur yn ei achosi.</td><td></td></tr>
<tr><td>530</td><td>Dengys y ffigurau mai nifer naturiol y disgyblion fyddai 19, yn hytrach na 10, heblaw am benderfyniad i gyfyngu ar oedran disgyblion i’r blynyddoedd cynharaf.</td><td></td></tr>
<tr><td>531</td><td>Yn eich adroddiad roedd yn ymddangos eich bod yn meddwl bod y plant yn Ysgol Abersoch i gyd yn cael eu haddysgu mewn un ystafell i</td><td></td><td>Trafodwyd yr opsiwn o ganiatáu i Ysgol Abersoch dderbyn plant rhwng 3-9 oed yn lle 3-8 oed yn ystod y cyfarfodydd cychwynnol rhwng Cyngor Gwynedd ac Ysgol Abersoch ac ni chafodd ei</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>bob grŵp oedran gyda'i gilydd, fel y gwyddoch nad yw hyn yn gywir oherwydd dywedasom wrthych o'r blaen nad yw hyn yn wir, gan dynnu sylw ymhellach at anghywirdeb arall. Efallai mai dyma pam y gwnaethoch wrthod cais y rhieni i'w plant ym mlwyddyn tri aros am flwyddyn arall yn Ysgol Abersoch tan flwyddyn 4. Pam nad oedd y cais gan Blant, Athrawon, Rhieni a Llywodraethwyr i ymestyn ystod oedran yr ysgol archwilio ymhellach? Wedi’r cyfan, fe wnaethoch roi cymaint o bwys ar ddewis rhieni yn eich cyfarfodydd wrth drafod ysgolion eraill, pam mae ein dewisiadau rhieni a phlant wedi cael eu cymryd i ffwrdd.</td>
<td></td>
<td>ffafrio am y rhesymau a amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol hy. yn rhagweld y byddai'r niferoedd a'r rhagamcanion yn aros yn isel, y dosbarthiadau'n aros yn fach, a'r ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau.<br><br>Byddai hefyd yn anymarferol gweithredu'r trefniant hwn hyd yn oed am flwyddyn oherwydd, yn ôl Atodlen 2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae ymestyn ystod oedran ysgol yn cael ei ystyried yn 'newid rheoledig', na ddylai wneud hynny gael ei gynnal oni bai bod yr awdurdod lleol perthnasol a / neu'r corff llywodraethu wedi cydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Felly, er mwyn ymestyn yr ystod oedran, byddai'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi cynnig a chynnal proses statudol cyn unrhyw newidiadau, na fyddai'n bosibl gan y byddai angen ei gynnal cyn mis Medi pe byddem yn gweithredu'r cynnig.<br><br>Felly o ganlyniad, nid yw'r Adran Addysg mewn sefyllfa i gytuno na gweithredu'ch cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch i 3-9 oed a chynnig lleoedd i ddisgyblion o'r dderbynfa - blwyddyn 4 am flwyddyn o Medi 2021.<br><br>Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach ym Medi 2020:
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Meithrin</th><th>Derbyn</th><th>Bl 1</th><th>Bl2</th><th>Bl 3</th><th>Bl 4</th><th>Bl 5</th><th>Bl 6</th><th>Cyfanswm</th><th>Nifer y dosbarthiadau</th><th>Dosbarth mwyaf</th><th>Dosbarth lleiaf</th><th>Maint dosbarth ar gyfartaledd</th></tr>
<tr><td>Abersoch</td><td>2</td><td>3</td><td>2</td><td>-</td><td>3</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>10</td><td>1</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Sarn Bach</td><td>3</td><td>2</td><td>5</td><td>4</td><td>8</td><td>5</td><td>10</td><td>11</td><td>48</td><td>2</td><td>34</td><td>14</td><td>24</td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020</td>
</tr>
<tr>
<td>532</td>
<td>Pe bai’r ddau blentyn wedi cael aros byddai’r niferoedd wedi codi i 12 eleni, oni fyddai hynny wedi ein achub o’r sefyllfa beryglus rydym ynddo gyda 10 plentyn?</td>
<td></td>
<td>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, o ystyried maint y cynnydd yn nifer y disgyblion y cyfeirir atynt yn y sylw, sy'n gynnydd o ddim ond dau ddisgybl, byddai'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau.</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Ffederaleiddio</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>533</td>
<td>Roedd yn ymddangos eich bod am dreulio dau gyfarfod yn trafod y ffederasiwn posibl gydag Ysgol Llanbedrog, ond pam na chofnodwyd y cyfarfodydd ag Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach yn ffurfiol. Roedd yn ymddangos eu bod yn chwarae rhan annatod yn y cyfarfodydd fel eich bod wedi methu â gwrando ar unrhyw un o'n lleisiau a'n hawgrymiadau. Rwy'n ei chael hi'n anhygoel na roddwyd mwy o ofal ac ystyriaeth i rywbeth sy'n dal cymaint o bwys, gan ganiatáu i'r holl</td>
<td></td>
<td>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mewn unrhyw drefn fel hon, mae’n allweddol rhoi ystyriaeth fanwl a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw fodel a dyna geir yn y Gwerthusiad Llawn o’r Opsiynau.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>Lywodraethwyr o'r ddwy ysgol fod yn bresennol ac yn rhan o'r broses o leiaf. Rwy'n teimlo bod y broses hon yn annemocrataidd ac unwaith eto hoffwn weld eich cofnodion a'ch nodiadau yn cael eu gwneud o'ch cyfarfodydd. Pam na chofnodwyd cyfarfod o'r maint hwn yn swyddogol?</td><td></td><td rowspan="4">Er bod manteision i ffederaleiddio, mae’r awdurdod o’r farn y byddai’n annhebygol y byddai’r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.<br><br>Mae’r Cyngor yn nodi yn y Ddogfen Ymgynghori'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen efo Opsiwn 4 a 5 (Ffederaleiddio). Ni fyddai ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn ddatrysiad i’r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch.<br><br>Nid yw ffederaleiddio ysgolion yn arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant. Er byddai ysgolion yn rhannu un corff llywodraethol, byddant yn parhau fel dwy ysgol ar wahân ac yn cadw’u henwau presennol, ac yn parhau i gael eu cyllido ar wahân yn unol â fformiwla Cyngor Gwynedd. Byddai plant yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ysgolion a chan yr un staff.<br><br>Bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i ddiweddaru penaethiaid a’r cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib gallai rhai o’r opsiynau gael ar eu hysgol.<br><br>Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau’r model, daethpwyd i’r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai’r opsiwn yma’n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai’r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a’r heriau cyllidol y mae’r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw’r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa’r ysgol.<br><br>Mae’r Awdurdod wedi blaenoriaethu Ysgol Abersoch ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Nid yw’r Cyngor am gynnal ymgynghoriad dalgylch ar hyn o bryd.</td></tr>
<tr><td>534</td><td>Gall yr ysgol fod yn rhan bwysig iawn mewn cynllun ffederaleiddio’r ysgolion lleol.</td><td></td></tr>
<tr><td>535</td><td>Amlinellir opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos fel opsiwn yn y ddogfen ymgynghori. Nid yw'r opsiwn hwn wedi cael ystyriaeth gyfartal o safbwynt cost heb unrhyw ffigurau ar gael i ddeall pa arbedion cost y gellid eu gwneud pe bai Ysgol Abersoch yn cael ei ffederaleiddio.</td><td></td></tr>
<tr><td>536</td><td>Opsiwn 3 – Modelau Cydweithio ag ysgolion Cyfagos ....<br>b. Ffederasiwn o nifer o ysgolion – Yn y ddogfen trafodir yn unig sefydlu ffederasiwn ag un ysgol arall tra bo’r Rheoliadau ar Ffedereiddio’n caniatau i nifer o ysgolion ffurfio ffederasiwn. Gallai fod ffederasiwn rhwng Ysgolion Llanbedrog, Abersoch a Sarn Bach. Er na allai’r un Bwrdd Llywodraethwyr Ffederal hefyd reoli Ysgol Foel Gron (oherwydd ei statws gwirfoddol), gallsai’r ffederasiwn ffurfiol gydweithio (mewn trefniant a elwir weithiau yn “ffederasiwn medal”) gydag Ysgol Foel Gron at drefniadau a gweithgareddau arbennig. Byddai manteision (ac arbedion) potensial o ran gweinyddiaeth ac arweinyddiaeth integredig, potensial o ran defnyddio capasiti at ddibenion y ffederasiwn cyfan, a photensial ehangu profiad addysgol trwy fod gwahanol ysgolion yn canolbwyntio ar wahanol weithgareddau. Mae Cronfa Ysgolion Bach a Gwledig y Llywodraeth yn golygu fel arfer fod swm ar gael i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol (e.e. teithio at ysgol arall i ymuno mewn gweithgarwch) sy’n ehangu profiadau addysgol a chymdeithasol ffederasiwn.<br>c. FFEDERASIWN “ENLLI” – Gallai ffederasiwn fod ar ffurf mwy uchelgeisiol fyth e.e. gellid sefydlu ffurf blaengar newydd ar addysg yn yr ardal trwy fod yr holl ysgolion yn ffedereidddio – Llanbedrog, Abersoch, Sarn Bach, Pontygof a Chrud y Wern (gan</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gydweithio'n anffurfiol gydag Ysgol Foel Gron). Mae'r Rheoliadau ar Ffedereiddio'n caniatau fod ffederasiwn yn cynnwys hefyd ysgol uwchradd. Byddai cynnwys Ysgol Botwnnog mewn federasiwn felly'n cryfhau datblygiad trwodd o lefel cynradd i uwchradd, ac yn cadarnhau addysg y fro mewn modd blaengar iawn a fyddai'n sicr o ddenu cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru oherwydd y gwersi y gellid eu dysgu. Yn ogystal ag ehangu profiadau, byddai potensial amlwg hefyd ar gyfer rhesymoli costau gweinyddol a chreu strwythurau integredig.<br>Gallai unrhyw un o'r opsiynau cydweithio (nad ydynt hyd yma wedi derbyn sylw) hefyd cael eu cyfuno gydag opsiwn (1) neu/a (2) ar gyfer Ysgol Abersoch ei hun fel y byddai natur unigryw yr ysgol honno o fudd ehangach i ddisgyblion y fro. | | |
| 537 | Cynigwn bod Ysgol Abersoch mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu model amgen llwyddiannus, trwy ddatblygu ei ddarpariaeth addysgol trwy'r Cylch Ti a Fi, Cylch Meithrin ac arwain ar y syniad o Ysgol Draeth arloesol a allasai gynnwys bod yn rhan o ffederaleiddio neu ysgol aml-safle. Trwy ymrwymo cadw Ysgol Abersoch ar agor fel darpariaeth addysg hirdymor yng nghanol Abersoch, a'i chefnogi â strategaeth tai a chyflogaeth, mae yna gyfle unigryw i gyhoeddi stori economaidd lwyddiannus i Wynedd. Ni all hyn ond bod o fudd i'r gymuned gyfan a gwasanaethu'n flaenllaw i gryfhau a chynnal yr iaith Gymraeg a diwylliant yn yr ardal hynod weladwy hon o Wynedd. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Er bod manteision i ffederaleiddio, mae'r awdurdod o'r farn y byddai'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.<br><br>Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol. |
| 538 | Mae rhai ffeithiau'n anghywir e.e.1 NID yw ffederasiwn yn llwyr ddibynnol ar gydweithrediad parod ysgolion. Mae'r newidiadau a wnaed yn 2014 i'r Rheoliadau ar Ffederasiynau'n rhoi grymoedd i Awdurdodau Lleol i yrru'r broses e.e.2 - NID yw'n wir i ddweud na byddai model ysgol aml-safle yn effeithio ar faint dosbarth. Gallai llywodraethwyr ysgol aml-safle ddefnyddio'r safleoedd a threfnu dosbarthiadau ynddynt yn ôl yr hyn a welent yn dda. e.e.3- Awgrymir y gallai creu ffederasiwn fod yn ddrutach gan y byddai pob ysgol | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad fod Rheoliadau ar Ffederasiynau yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod yrru'r broses ffederaleiddio, serch hynny, yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn ffederasiwn ar eu mantais. Ond ers blynyddoedd y mae cyllid yn dod gan lywodraeth ganolog yn benodol i gefnogi ffederasiynau ac ysgolion gwledig, a hyderwn fod y gyllid yn cael ei ddefnyddio at y dibenion cywir. | | O safbwynt ysgol aml-safle, mae’r Cyngor yn nodi fod buddion i’r model, megis y gallu i ail-strwythuro’r drefniadaeth reolaethol, ond eto’n cadw presenoldeb addysg mewn mwyn nag un cymuned. Hefyd golyga nad yw safleoedd ysgolion bach yn cael eu gadael yn ynysig ond yn hytrach yn rhan o sefydliad addysg mwy.<br>Fodd bynnag, rhai o anfanteision y model yma yw ei anallu i sicrhau a gwarantu fod maint ac amrediad dosbarthiadau rhai safleoedd addysg yn newid er gwell. Wrth ystyried yr opsiwn yn erbyn ffactorau’r Strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i’r casgliad na fyddai’r opsiwn ysgol aml-safle yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei wynebu e.e. niferoedd disgyblion isel, maint dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau a chost y disgybl uchel. |
| | **Cydweithio Aml-safle** | | |
| 539 | 1) Yr ydym yn falch fod y swyddogion wedi cynnwys nifer o'n hopsiynau amgen fel rhai gwerth ystyriaeth – sef .... * Ysgol aml-safle gan fanteisio ar gapasiti dros ben mewn un lleoliad a chapasiti llawn mewn lleoliad arall.<br>* Ffederasiwn gyda nifer o ysgolion cyfagos gan resymoli'r defnydd o adnoddau ac yn ehangu'r profiad addysgol<br>* Federasiwn blaengar yn cynnwys yr Ysgol Uwchradd a fyddai'n pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd. | | Mae’r cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn ystod y cyfarfodydd Adolygu Ysgol lleol cynigwyd a thrafodwyd nifer o fodelau posibl yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Yn achos Model Ysgol Ardal Aml-safle, mae’r ysgol yn un ysgol ac un endid cyfreithiol sy’n gwasanaethu ardal eang. Fodd bynnag, mae ysgol ardal aml-safle yn rhoi darpariaeth addysgol ar niferoedd o safleoedd.<br><br>Budd y math yma o fodel yw’r gallu i ail-strwythuro’r drefniadaeth reolaethol, ond eto’n cadw presenoldeb addysg mewn mwy nag un gymuned. Mae’n fodel all weithio’n dda mewn ardaloedd gwledig iawn lle mae pellteroedd teithio hir nes cyrraedd ysgol amgen. Hefyd golyga nad yw safleoedd ysgolion bach yn cael eu gadael yn ynysig ond yn hytrach yn rhan o sefydliad addysg mwy. Gellir felly wneud gwell defnydd o adnoddau e.e. un pennaeth ar gyfer mwy nag un safle, rhannu adnoddau a staff rhwng safleoedd a dod a disgyblion safleoedd at ei gilydd i gynnal gweithgareddau gyda niferoedd uwch o ddisgyblion.<br><br>Fodd bynnag, rhai o anfanteision y model yma yw ei anallu i sicrhau fod maint ac amrediad dosbarthiadau rhai safleoedd addysg yn newid er gwell. Nid yw’r model yn un sy’n rhoi’r arbedion refeniw uchaf posib, ond mae yn gwneud gwell defnydd o adnoddau ac yn rhesymoli cost y disgybl. |
| 540 | Nid gwneud cymwynas yn unig ag Ysgol Abersoch fyddai sefydlu trefniant cydweithio o'r fath. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn Ysgol Abersoch wedi datblygu dulliau blaengar o addysgu'r plant lleiaf i feistroli cysyniadau pwysig trwy astudio eu cynefin naturiol. Mewn unrhyw fodel uchod o gydweithio, gallai'r cyfle i ddatblygu'r sgiliau hyn, ac ehangu'rprofiad addysgol, fod ar gael i HOLL blant ysgolion yr ardal. | | |
| | **Canolfan Ddiwylliannol** | | |
| 541 | **Opsiwn 1 - Datblygu Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg**<br>Mae cyfrifoldeb felly i werthuso’n gadarnhaol pob opsiwn posibl. Deallwn awydd y gymuned leol i gynnal yr Ysgol fel Ysgol i Abersoch, yn cynnig rhan gyntaf addysg statudol Gymraeg, ac hefyd addysg feithrin ac yn ganolfan addysgol a diwylliannol Gymraeg i’r | | Mae’r Cyngor yn nodi’r opsiwn i ddatblygu canolfan ddiwylliannol Gymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gymuned leol. Mae'r ddogfen ymgynghorol wedi cydnabod mai megis cychwyn y mae ychwanegu'r elfennau addysgol a diwylliannol Cymraeg at yr addysg statudol, a bod posibiliadau denu incwm trwy ddefnyddwyr a thrwy geisio grantiau'n ymwneud â gweithgarwch diwylliannol. Mae'n bosibl y gellid denu cyllid ychwanegol trwy fod yr Ysgol yn manteisio are i safle yng nghanol y pentre e.e. Gwyliau Haf yr Ysgol yw'r 6 wythnos o dymor brig twristiaeth. A oes potensial i stafell yn yr ysgol, mewn cydweithrediad â Neuadd y pentre wrth ymyl, gael ei defnyddio i hybu profiad twristaidd llawer mwy Cymreig. Gallai'r gwasanaeth gynnwys gwybodaeth bersonol am yr ardal a'r gweithgareddau, rhaglen o adloniant Cymraeg yn y neuadd, gwybodaeth am yr arfordir a'r llwybrau gwledig (o bosib yn cysylltu ag Opsiwn 2 isod). Gall fod yn wasanaeth, ar ben y wybodaeth pamffledi safonol a baratoir ar hyn o bryd, o gynnig profiad Cymreiciach i ymwelwyr, ac yn gynllun peilot. Gallai hefyd fod yn ffynhonell incwm o bwys. Pwysleisiwn mai un syniad penodol sydd yma, a allai fod yn hyfyw neu beidio, ond yr hyn a gynigiwn yw cyfiawnhau'r gwariant ychwanegol ar ysgol – sydd fel arall yn llwyddo'n addysgol – trwy roi iddi swyddogaeth ychwanegol o ran ADFEDDIANNU ar gyfer y diwylliant Cymraeg. Gall hefyd gynhyrchu llif cyllid, a gellid gweithredu mewn partneriaeth gyda phwyllgor cyswllt lleol. Mae Abersoch, ac adeilad yr ysgol yn benodol, mewn sefyllfa unigryw i weithredu prosiect o'r fath. | | gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Adnoddau Ariannol: Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 yw £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 – y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.<br><br>Cydnabyddir y gall yr opsiwn yma wneud defnydd gwell o adeilad yr ysgol. Serch hynny, wrth ystyried yr opsiwn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu fel y nodir uchod e.e. niferoedd disgyblion isel, canran uchel o lefydd gweigion, maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau. |
| 542 | **Opsiwn 2 – Addysg Gyflawn ac Adnabod Bro**<br>Yr ail swyddogaeth y gellid ei ychwanegu at Ysgol Abersoch, er mwyn cyfiawnhau'r buddsoddiad ychwanegol wrth gynnal yr ysgol, yw fel cynllun peilot ar gyfer addysg gyflawn. Unwaith eto, mae Ysgol Abersoch mewn sefyllfa unigryw i weithredu cynllun peilot fel "Ysgol Traeth" ac "Ysgol Llwybrau Gwledig". Nid yn unig fod yr ysgol yn agos iawn at y traeth ac, mewn perthynas ag Ysgol Sarn Bach, at lwybrau gwledig y penrhyn, ond mae hefyd ymhlith y llywodraethwyr uchelgais i gyflwyno llawer o'r profiadau addysgol trwy astudio'r traeth a llwybrau gwledig, ac yn ieithyddol o ran dod allan o adeilad yr ysgol i fywyd ganol y pentre fel grym Cymreigio. Trwy bartneriaeth gyda llywodraethwyr a phwyllgor cyswllt lleol, nid yn unig y gellid | | Mae'r Cyngor yn nodi'r opsiwn i weithredu cynllun peilot fel "Ysgol Traeth" ac "Ysgol Llwybrau Gwledig".<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfoethogi profiad addysgol y disgyblion mewn modd unigryw, ond hefyd gweithredu fel cynllun peilot y gellid efelychu elfennau ohon wedyn mewn ysgolion eraill hefyd. Dyma ail ran agenda ADFEDDIANNU – sef adfer perthynas rhwng ysgol a'r gymuned o'i chwmpas fel y gall yr nysgol fod yn gyfrwng i hyrwyddo dealltwriaeth amgylcheddol yn ogystal â diwylliannol, ymhlith y disgyblion ac yn y gymuned.<br>Gellid cyflawni'r "gwerth ychwanegol" hwn (Opsiynau 1 & 2) nail ai yng nghyd-destun ysgol annibynnol yn Abersoch neu fel rhan o drefn gydweithredol rhwng ysgolion. | | • Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Adnoddau Ariannol: Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 yw £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 – y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.<br><br>Wrth ystyried opsiwn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu fel y nodir uchod e.e. niferoedd disgyblion isel, canran uchel o lefydd gweigion, maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau. |
| 543 | 1) Yr ydym yn falch fod y swyddogion wedi cynnwys nifer o'n hopsiynau amgen fel rhai gwerth ystyriaeth - sef<br>* Defnyddio capasiti ychwanegol yn yr ysgol (yn ystod y tymor, ond yn fwy penodol mewn gwyliau haf a phenwythnosau) fel Canolfan Ddiwylliannol Gymraeg. Gallai fod yn hunan-gynhaliolyn ariannol gan fanteisio ar safle'r ysgol yng nghanol y pentref ac yn ymyl y neuadd i gynnig profiad o dwristiaeth dduwylliannol. Gallai hyn gyfrannu at amcanion eraill mewn polisi cyhoeddus fel magu twristiaeth fwy cynaladwy a pharchus o'r gymuned leol | | |
| | **Ysgol Draeth** | | |
| 544 | Y CWRICWLWM NEWYDD A'R YSGOL DRAETH<br>Pwysleisiodd y drafodaeth ar yr angen o ddarparu addysg o'r safon uchaf er ffyniant y plant. Mae'r awgrym y gwneir y penderfyniad er lles y plant yn awdurdodol a sarhaus i'r rhieni, staff a'r llywodraethwyr. Ni chafwyd trafodaeth o ba mor ymochrol berffaith yw Ysgol Abersoch i'r cwricwlwm newydd ac mae'r diffyg diddordeb llwyr neu chwilfrydedd am yr ysgol draeth/allanol yn rhyfeddod. Cwestiynwn os yw aelodau'r Cabinet hyd yn oed yn ymwybodol beth ydyw a'i heffaith posibl. Gan na ofynnwyd yr un cwestiwn na gwneud sylw yn y cyfarfod, a ydym i ragdybio y gwnaethant ymchwilio i hyn yn llawn ac na adawodd yr wybodaeth a'r dystiolaeth unrhyw argraff arnynt? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r opsiwn i sefyldu Ysgol Draeth.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 545 | 1) Yr ydym yn falch fod y swyddogion wedi cynnwys nifer o'n hopsiynau amgen fel rhai gwerth ystyriaeth – sef ....* Ysgol Traeth a Natur | | • Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Adnoddau Ariannol: Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 yw £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 – y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.<br><br>Wrth ystyried opsiwn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu fel y nodir uchod e.e. niferoedd disgyblion isel, canran uchel o lefydd gweigion, maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau. |
| 546 | Buasai'r cynllun i greu Ysgol Draeth yn siŵr o roi Cyngor Gwynedd ar y map fel cyflogwr/ asiantaeth sydd ddim yn styc a meddwl yn gul. Mae modd i chi ddangos yma bod ffyrdd gwahanol o ddysgu sy'n hybu'r iaith Gymraeg, cadw cymuned â'i gilydd, hybu ac amddiffyn yr amgylchedd, gwneud yn fawr o'r adnoddau naturiol sydd wrth law a gwneud pwynt bod mwy i ddysgu na darllen ac ysgrifennu mewn un adeilad… Buasai cyfleoedd dysgu hwylio, cael mabolgampau ac yoga ar y traeth; dysgu yn uniongyrchol am fywyd gwyllt a physgota – mae'r rhestr yn ddi-baid. Mae'r Clwb Golff reit wrth ymyl hefyd… **CYFLE I BARHAU AC YMESTYN CWRICWLWM Y PLANT A'I GYSYLLTU GYDA'R ADNODDAU SYDD O FEWN Y PENTREF.** | | |
| 547 | Dwi'n gwrthwynebu'r cynnig i gau'r ysgol ar y sail nad ydych yn ystyried unrhyw opsiwn amgen, fel yr ysgol draeth. Dyma'r dyfodol mae'n siŵr, gyda'r feirws presennol sydd o gwmpas. | | |
| 548 | Buasai cefnogi'r Ysgol Draeth yn fenter arloesol a fuasai'n dod â budd i'r holl ddalgylch ac ysgolion lleol sy'n cydredeg â'r Cwricwlwm Newydd trwy ei ymestyn a'i gysylltu ag adnoddau sydd ar gael… Addysg benigamp – nid arbed y geiniog yw popeth. Mae'n gyfle i Gyngor Gwynedd fynd tu hwnt i'r *status quo* a chefnogi syniad arloesol o Ysgol Draeth. | | |
| 549 | Erfyniaf arnoch weld gwerth a photensial yr ysgol fach hon ac, yn hytrach na chael cynlluniau i'w chau, beth am gael cynllun modern sy'n mynd i gyd-fynd ac ailedrych ar y ffordd mae plant yn medru derbyn eu haddysg ôl-Covid. | | |
| 550 | Mae'r ysgol yn ceisio bod yr "ysgol draeth" cyntaf yn yr ardal | | |
| 551 | Dwi ddim yn deall pam nad yw'r cynnig i wneud Ysgol Abersoch yr ysgol draeth cyntaf yng Ngwynedd wedi ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae teuluoedd lleol wedi dod o hyd i lefelau diddordeb cofrestru plant mewn ysgol draeth. Bydd gennym ddiddordeb pendant mewn cofrestru ein 2 plentyn os mai dyna fyddai'r achos, yn enwedig os fyddai'r ysgol yn fodlon derbyn plant | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hyd at oedran uwchradd. Dylai hyn fod wedi cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. | | |
| 552 | Ail-anfonaf fy e-bost yn gwrthwynebu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Ers fy e-bost gwreiddiol dwi wedi symud i Lanengan gyda fy nheulu ac mae gen i 2 o ferched sy'n oedolion ac mae'n bosib y bydd gen i wyrion yn y dyfodol a fydd angen ysgol. Mae'r ysgol chwyldroadol, Abersoch, yn ysgol draeth unigryw sydd bendant werth ei hachub. Plîs peidiwch â chau'r ysgol. | | |
| 553 | Mae'r ysgol bellach wedi cofrestru fel Ysgol Draeth ac mae ganddi ystafell ymroddedig i Cylch Ti a Fi. | | |
| 554 | Mae'n anodd dirnad tynnu potensial ysgol draeth awyr agored mewn oddi ar gymuned sydd wrth lan y môr. | 2 | |
| 555 | Mae yn Ysgol Draeth cofrestredig, clod sy'n cynnig llawer o gyfleoedd naturiol awyr agored. | | |
| 556 | Pam nad oedd llawer o sôn am yr Ysgol Draeth yn eich ymgynghoriad? Ffederaleiddio? Ymestyn yr ystod oedran? Effaith ieithyddol!! | | |
| 557 | Hefyd bydd cofrestru fel ysgol draeth yn gwneud Ysgol Abersoch yn unigryw o fewn yr ardal a darparu teuluoedd y gymuned leol ac ehangach sy'n dymuno i'w plant dyfu i fyny gyda chyfleoedd i ddatblygu yn holistaidd gan gyfuno datblygiad meddyliol, corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol unigolion. Wrth oi'r cyfleoedd i blant i ddatblygu mewn amgylchedd fel rhai Ysgolion Traeth, mae mwy o gyfleoedd i ddysgu. O redeg yn rhydd ar y traeth, i gynnau tannau, tostio malws melys, gwneud siapiau yn y tywod â ffyn, gwylio adar, cadw llygaid ar olion traed anifeiliaid, neidio dros y tonnau, archwilio cynefinoedd crancod, mae'r traeth yn cynnig cyfloedd cyfoethog i ddysgu. Mae bod allan yn yr awyr agored a chael mynediad i'r cyfloedd dysgu hyn ar y cyd â chael awyr iach ac arsylwi digwyddiadau naturiol, yn darparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd anhygoel i blant. Mae Ysgol Draeth yn darparu'r cyfloedd hyn oll ac hefyd yn darparu cyfleoedd i ysbrydoli meddyliau hudolus plant ifanc wrth feddwl am syniadau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r holl fentrau uchod yn haeddu amser i gynyddu nifer y disgyblion ar gyfer ysgol unigryw mewn lleoliad arfordirol gwledig. | | |
| 558 | Hoffwn eich holi pam nad ydych wedi gwrando ar y syniad am ysgol draeth? Roeddwn yn caru fy amser yn Ysgol Abersoch, mae fy chwaer wedi cael gwneud cymaint o bethau cyffroes ers cychwyn yn ôl ers y cyfnod clo. Eu trip ysgol oedd ymweliad â'r Fferm Gwningod yng Nghriccieth, cerddais i'r traeth ond cafodd ei dorri'n fyrr oherwydd y glaw. Mae fy chwaer yn cael mynd i'r traeth o hyd, mae'n nhw'n cynnal gwersi allan a mi fedra i ddweud wrthych fy mod wedi dysgu cymaint o'r gwersi hyn. | | |
| 559 | Amddifadir hefyd y plant o ysgol awyr agored a'u mwynhad o'r traeth mewn tywydd braf. | | |
| 560 | Rydwyf yn ysgrifennu atoch i wrthwynebu cau  ysgol Abersoch.<br>Rwy'n  siomedig  iawn eich bod yn hudnod ystyried  cau yr ysgol ynghanol pandemig covid.<br>Mae genai diddordeb hefyd i wybod pam na wnaethoch ystyried yn ofalus  y cynigiad traeth awyrl | | |
| 561 | Rwy'n gwrthwynebu i gau Ysgol Abersoch. Mae hon yn ysgol ragorol, gyda dyfodol wych fel ysgol draeth awyragored. Mae'r iaith Gymraeg mor bwysig yn Abersoch felly plîs cadwch yr ysgol hon ar agor. Sylwaf i chi dynnu llythyr ymateb (enw wedi ei ddileu) yn ôl ac felly teimlaf nad yw hynny'n ddemocrataidd yma. Mae angen ar y plant i gael eu clywed nid eu tawelu. | | |
| 562 | Mae Ysgol Abersoch yn ymdrechu i fod yn Ysgol Draeth Cyntaf yng Nghymru, yn hyrwyddo Addysg Gymraeg a byddai'n dod yn enghraifft i Gyngor Gwynedd ac eraill i'w dilyn. Pam nad yw'r cyngor yn fodlon dangos ei gefnogaeth i'r amcanion hyn ac, o edrych yn ôl, yna'n medi'r gwobrau pan fydd ysgolion eraill eisiau dilyn. | | |
| 563 | Mae Ysgol Abersoch mewn lleoliad unigryw yn y pentref hwn ger y traeth ac felly dylid ei gyflwyno fel un o'r Ysgolion Draeth cyntaf. | | |
| 564 | Rydych yn cymryd hawl rheini i ddewis i'w plant fynychu ysgol draeth llai gyda statws gyrmraeg . Dylai pob opsiwn aros . | | |
| 565 | Dylai cynnig arloesol ysgol Traeth gael ei hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd, yn enwedig mewn cyfnod o ansicrwydd fel pandemig covid, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bydd rhieni'n croesawu'r syniad o addysgu a dysgu awyr agored. Rwyf wedi gweld enghreifftiau o'r math hwn o ysgol ledled y byd ac roeddwn i'n ddigon ffodus i dreulio 8 mlynedd yn Alpau Ffrainc lle roeddwn i'n gallu gwylio ysgol Goedwigaeth yn ffynnu a mynd o nerth i nerth. Trwy i Ysgol Abersoch addasu i'w hamgylchedd byddai hyn yn sicr o fod yn gymwys fel disglair Rhagoriaeth Addysgol, byddai defnyddio'r ysgol hon fel model arloesol yn sicr o osod Cyngor Gwynedd ar wahân a helpu'r adran Addysg i fwrw ymlaen yn y dyfodol. | | |
| 566 | Ni ymddangosodd yr Ysgol Draeth Awyr Agored yn uchel iawn yn eich adroddiad, unwaith eto mae hyn yn siomedig iawn, yn enwedig gyda'r cwricwlwm Cymraeg newydd yn cael ei chwarae. Rwy'n teimlo nad ydych wedi archwilio'r syniad hwn ac wedi ei ddiystyru o'r dechrau, fodd bynnag mae'r holl athrawon, hwyluswyr ac unrhyw un sydd wedi eu cyffroi gan addysg wedi dweud pa gyfle anhygoel fyddai hwn i Gyngor Gwynedd, felly hoffwn ofyn pam yr ydych chi heb archwilio'r syniad hwn ymhellach? Mae'n ffordd i annog yr Iaith Gymraeg a datblygu ac annog yr iaith ymhellach i gael ei siarad a'i chlywed mwy yn ein cymuned. | | |
| **567** | Mae eich swyddogion wedi annog ffurfio Cylch Ti a Fi yn agored i helpu gynyddu'r rhifau, maen nhw wedi gaddo cynnal sgyrsiau ag ysgolion eraill ynghylch ffederaleiddio – er hynny'n answyddogol ac heb gofnod o'r hyn a drafodwyd. Fodd bynnag, nid yw hynny nag unrhyw gynigion eraill fel Ysgol Draeth wedi cael ystyriaeth. | | |
| | **Adolygiad Dalgylchol** | | |
| 568 | Ffederaleiddio a Adolygu Dalgylch<br>Nid yr ydym yn credu bod ffederaliaeth wedi'i archwilio'n ddigonol. Ochr yn ochr â hyn noda 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd' Cyngor Gwynedd yr amodau sy'n briodol i Adolygu Dalgylch. Cynhwysa'r rhain '...pe byddai ysgolion y dalgylch yn ennill neu golli dros 20% o'i disgyblion oherwydd yr effaith ar y gymdeithas gyfagos a'r dalgylch', 'llefydd gweigion ar draws y dalgylch', ac 'amrediad gwariant y pen pan fo'n fwy na 10% yn uwch neu'n is na'r cyfartaledd sirol'. Diwalla'r sefyllfa bresennol o fewn dalgylch y pedair ysgol leol yr holl griteria hyn ac, felly, gofynnwn am weithredu Adolygu'r Dalgylch. | | Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019 bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud â dyfodol yr ysgol, yn sgil pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yr ysgol, ynghyd â phryderon ynglŷn â'r rhagamcanion oedd yn rhagweld y niferoedd yn parhau'n isel.<br><br>O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:<br>i. Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin. . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 569 | Nodwch ym mha ffordd y dilynodd y cynnig hyn, ac ym mha ffyrdd nad yw Ysgol Abersoch yn cwrdd â'r strategaeth hon.<br>Er mwyn sicrhau tegwch, byddai'n dilyn y dylid dilyn y dull hwn hefyd ar gyfer pob un o'r ysgolion cyfagos, gan gyfeirio at ba elfennau o'r strategaeth sy'n cael eu diwallu ac na chânt eu diwallu, yn enwedig o ran yr ystod maint oedran cymysg o 12 - 20 o ddisgyblion.<br>Credwn ei bod yn amhriodol bod yn ddetholus ynglŷn â hyn. | | ii. Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>iii. Mae rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023<br>iv. Dengys data 2020 fod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.<br>v. Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582.<br>vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £4,198<br>vii. Nifer o lefydd gweigion – 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer) |
| 570 | Nodwyd y pryder hwn mor bell yn ôl â 2009. Pa gamau y mae Cyngor Gwynedd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r pryder hwn, a pham y mae wedi caniatáu i hyn barhau, yn enwedig o ran bod rhai ysgolion yn> 20% yn or-gapasiti ac yn dal i dderbyn disgyblion y tu allan i'r dalgylch pan fydd gan ysgolion cyfagos leoedd?<br>Mae'r dystiolaeth yn dangos bod adolygiad dalgylch yn briodol. | | |
| 571 | Er mwyn gwneud penderfyniad mwy cytbwys, credaf fod yn rhaid i'r Cyngor:...<br>• Ystyriwch adolygiad dalgylch a ffederaleiddio fel opsiynau go iawn y gellir eu dilyn. | | |
| 572 | Er mwyn gwneud penderfyniad mwy cytbwys, credaf fod yn rhaid i'r Cyngor:....<br>• gadarnhau amcanestyniadau disgyblion yr Adran Addysg gan gyfeirio at ystadegau twf poblogaeth mwy dibynadwy fel ei ystadegau Archwilydd Cyffredinol Cyngor Gwynedd ei hun<br>Unwaith y bydd amcangyfrifon mwy realistig o ddisgyblion wedi'u cadarnhau, dangoswch sut y bydd maint dosbarthiadau cymysg Ysgol Abersoch a'r ysgolion cyfagos yn yr ystod 12-20 am nawr a'r dyfodol. Mae hyn yn hanfodol i ddarparu rhagoriaeth addysgol i bob un o'r 200 o ddisgyblion yn y dalgylch. | | Mae'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd yn amlinellu'r weledigaeth i;<br>"Gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn".<br><br>Defnyddiwyd ffactorau'r Strategaeth i'w mesur yn erbyn yr opsiynau. Mae'r asesiad hwn i'w weld ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |
| | Parhawn i synnu y deil Ysgol Abersoch gael ei hystyried ar ei phen ei hun yn yr ardal hon. Metha'r agwedd dameidiog hon ag ystyried cyd-destun ehangach y pedair ysgol, ymhle mae un lleoliad dros gapasiti er anfantais i eraill a sut gellir diogelu darpariaeth hirdymor dosbarthiadau o feintiau addas. Ymddengys bod gwir angen adolygiad dalgylchol, a ddylai gynnwys adnabod darpariaeth ar gyfer plant oed meithrin. | | Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn nodi:<br><br>"Tra bod awydd i arolygu trefniadaeth ysgolion y Sir yn strategol ac ar lefel dalgylch, mae ysgolion unigol wedi ysgrifennu at y Cyngor yn gofyn i'r Awdurdod adolygu'r sefyllfa yn lleol. Dylid bod yn agored i hyn ac ymateb yn gadarnhaol os yn bosib pan fydd cais o'r fath yn dod gerbron.<br>Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd sefyllfa argyfyngus ysgolion unigol a amlygir ar sail gwybodaeth broffesiynol berthnasol gan gynnwys ceisiadau penodol gan ysgolion unigol yn ystyriaeth wrth adnabod ardaloedd sydd angen sylw pellach.”<br><br>Pwysleisir nad yw’r adolygiad o sefyllfa Ysgol Abersoch yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer addysg yn yr ardal, ond hyn hytrach, yn ymateb i sefyllfa ysgol unigol. |
| | **Arall – opsiynau amgen** | | |
| 574 | Mae'r opsiynau amgen hyn wedi cael eu gwrthod am resymau generig ac ystrydebol braidd yn yr ymateb gan swyddogion i'r ymgynghoriad. FAN LEIAF, haeddant drafodaeth drylwyr a chyda'r holl ran-ddeiliaid. .... Ni allai neb honni mewn difri fod yr opsiynau amgen - a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad (yng ngeiriau'r swyddogion) - wedi cael eu trafod yn drwyadl trwy ychydig o baragraffau gan y swyddogion yn unig. Byddai'r tymor o drafodaeth estynedig yn unswydd ar gyfer yr opsiynau amgen. Heb fod hynny'n digwydd, rhaid casglu nad yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i astudio pob opsiwn amgen. Dyma brif sail ein gwrthwynebiad. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Fel sy’n hysbys, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018, a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig arfaethedig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 12 Ionawr 2021 a 23 Chwefror 2021.<br><br>Yn dilyn yr ymgynghoriad, adroddwyd yn ôl i Gabinet ar 15 Mehefin 2021, a bu i’r Cabinet ystyried adroddiad yr ymgynghoriad, y sylwadau a’r opsiynau amgen a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, a phenderfynu:<br>i. Cymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.<br>ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.<br><br>Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn nodi y gall ymgynghorai awgrymu opsiynau amgen eraill yn ogystal â sylwadau ar y cynnig penodol yn ystod yr ymgynghoriad.<br><br>Cynigwyd 5 opsiwn amgen arall yn ystod yr ymgynghoriad. (Roedd nifer o’r ymatebion yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i’r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ogystal). Yn dilyn gwerthuso’r opsiynau amgen a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad (copi o’r gwerthusiad opsiynau ar ein Gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ), daethpwyd i’r casgliad y dylid rhoi ystyriaeth bellach i 3 opsiwn, sef:<br>• Ysgol aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)<br>• Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)<br>• Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron) |
| 575 | Er mwyn gwneud penderfyniad mwy cytbwys, credaf fod yn rhaid i'r Cyngor:...<br>Nodi'r effaith amlwg negyddol ar gymuned Absersoch - pe bai Ysgol Abersoch yn cau. | | |
| 576 | Er mwyn gwneud penderfyniad mwy cytbwys, credaf fod yn rhaid i'r Cyngor:...<br>• Ymgynghori'n ffurfiol ag ysgolion cyfagos a'u rhannu ar y dewisiadau amgen o dan ystyriaeth. | | |
| 577 | Rwyf yn nodi yr opsiynau sydd gerllaw ond yn dal I pryderu rhan yr ymchwil I mewn ir opsiynau yma y bennaf y broses o Ffederaleiddio gyda Ysgol cyfagos a y phosib o cael plant o 3oed I 9oed nid rwyf yn derbyn fod hyn ddim yn cael effaith ar rhifau plant yn Abersoch a fod yr effaith o wneud hyn yn cael ddim effaith ar Ysgol Sarn Bach – nid rwyf yn teimlo fod hyn wedi ei trialu am cyfnod.<br>Yr adborth rwyf yn dderbyn yn lleol fod yna canfyddiad yma o anwybyddu ynrhyw sylwad ar unig opsiwn sydd yn dderbyniol yw cau yr ysgol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 578 | Nid oes tystiolaeth bod yr opsiwn o Ffederaleiddio'r ysgol wedi gael ei archwilio yn ddigonol ac o ddifri. Mae Ysgol Llanbedrog dros ei gapasiti, ond mae effaith ar yr ysgolion cyfagos wedi ddiystyru'n llwyr gan yr Adran Addysg. | | Serch hynny, yn dilyn asesu a gwerthuso'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' (gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 01/2018, ac ystyriaethau perthnasol eraill) (adran 6.22 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ) daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig o gau Ysgol Abersoch a darparu lle i holl blant dalgylch Ysgol Abersoch yn Ysgol Sarn Bach oedd yn parhau fel yr opsiwn mwyaf priodol i ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol (am y rhesymau a nodwyd yn adran 4.1 a 4.7 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ). |
| 579 | Anodd credu fod pob opsiwn posib dros gadw'r ysgol ar agor wedi'i diystyru a'u gwrthod – dewisiadau cadarn megis ffederaleiddio, sefydlu ysgol draeth, addysgu'r plant nes eu bônt yn 9 oed cyn trosglwyddo.<br>Gwych fyddai gweld Cyngor Gwynedd yn gwneud safiad, yn arwain y ffordd ac yn dangos blaengarwch. Erfyniaf arnoch ail-ddechrau â dalen lân ond y tro yma ystyried rhesymau cadarnhaol dros gadw'r ysgol ar agor yn hytrach na phwysleisio'r rhesymau dros ei chau. Mae'n eithriadol bwysig credu a buddsoddi yn nyfodol yr ysgol amhrisiadwy hon a thrwy hynny ym mhentref Abersoch. | | |
| 580 | Yn statudol, ni raid i chwi ystyried ond gwrthwynebiadau a godir yn awr mewn ymateb i'r Rhybudd i gau'r ysgol., ac yr ydych dan rwymedigaeth (Côd Trefniadaeth Ysgolion) i ystyried pob gwrthwynebiad "gyda meddwl agored". Hyd yma, er yr holl waith coladu manwl, nid oes unrhyw arwydd o ystyried gyda meddwl agored. Nid oes yr un gair (o blith y degau o filoedd o eiriau o ymatebion) i'w weld wedi peri unrhyw newid safbwynt o gwbl i swyddogion y Cyngor, ac mae lle felly i'r cyhoedd gwestiynu dilysrwydd yr ymgynghoriad. Nid ailadroddwn ein cynigion amgen, ond yn hytrach gofyn i chwi eu hystyried o'r newydd gyda meddwl agored yng ngoleuni'r tri phwynt canlynol sy'n ffurfio sail ein gwrthwynebiad i'r Rhybudd Statudol .... Mae'r opsiynau amgen hyn oll wedi eu rhestru'n gydwybodol gan swyddogion, ond tenau iawn yw'r rhesymau dros eu gwrthod. | | |
| 581 | Tra bo'r adroddiad yn dynodi bod dewisiadau eraill i gau, cyfeirio at un yn benodol wna adroddiad yr Adran Addysg, sef cau Ysgol Abersoch a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach er gwaethaf bod yn ymwybodol o'i cholled i'r gymuned. Yn hanesyddol, ni fu unrhyw ryngweithiad cymunedol yn Abersoch gan Ysgol Sarn Bach ac ni allwn weld sut bydd hyn yn newid, yn arbennig o ystyried yr ymatebion pitw | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a gafwyd i'r cwestiwn hwn yng nghyfarfod y Cabinet ar Fehefin 15fed, 2021. Daliwn at y gred na thrafodwyd y dewisiadau eraill fel y dylid yn y cyfarfod. Ni thrafodwyd unrhyw ddewis arall ar wahân i gau ac mae'r diffyg gwybodaeth am y cyfarfodydd ffederaleiddio a gynhaliwyd ag Ysgolion Sarn Bach a Llanbedrog yn herio dilysrwydd y drafodaeth a'r penderfyniad. | | |



| | **Deddf Llesiant** | | |
|---|---|---|---|
| 582 | Byddai cydnabyddiaeth o bandemig Covid-19 yn briodol, gan gyfeirio at "y gallu i addasu i newid" Mae'r pandemig wedi arwain ac yn arwain at newidiadau cymdeithasol. Mae bywyd gwledig yn dod yn fwy deniadol wrth i fwy a mwy o bobl weithio gartref, maent yn llai cyfyngedig o ran lle sy'n rhaid byw; efallai y byddem yn disgwyl i ail gartrefi yn Abersoch ddod yn gartrefi cyntaf gyda gofynion addysg cysylltiedig. Mae'r adroddiad yn methu â chydnabod hyn yn ei niferoedd capasiti. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Serch hynny, nid oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. |
| 583 | Collir y gallu i blant a rhieni gerdded i'r ysgol a chael mynediad at adnoddau naturiol fel y traeth ac ati ar droed yn ystod y diwrnod ysgol. Dim ond un tymor o wersi nofio y mae ysgolion eraill yn eu cynnig, sgil hanfodol a phwysig i blant sy'n byw mewn ardal arfordirol.<br>Yng nghyd-destun Covid-19 mae grwpiau bach wedi'u creu mewn ysgolion i reoli haint, gan awgrymu felly bod ysgolion bach yn fwy diogel. Ni chydnabyddir hyn. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn gweithdrefnau priodol o ran rheolau ymbellhau cymdeithasol ac awyru oherwydd y coronafirws. Anogir pob ysgol i wneud defnydd o'r adnoddau awyr agored lleol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 584 | Trwy weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn rhwng cymuned Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau a fyddai'n hyrwyddo cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgaredd cymunedol yr ysgol" Unwaith eto rydym yn cwestiynu dilysrwydd y datganiad hwn. Ar wahân i'r ffaith bod plant Abersoch yn mynychu'r ysgol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau sydd gan Ysgol Sarn Bach â chymuned Abersoch.<br>Gall union natur y cynnig i gau Ysgol Abersoch ymrannu, gan greu drwg deimlad o fewn y gymuned a chreu anghytgord ac anghytuno. | | Cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau er mwyn cymharu'r effaith tebygol y byddent yn ei gael ar y cymunedau dan sylw. Mae copi o'r adroddiad llawn wedi ei gynnwys yn y pecyn cefndirol ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned. Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.<br><br>I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |
| 585 | Unwaith eto mae'r thema hon yn amlwg, ac eto ni chyflwynwyd tystiolaeth o ran sut y cynlluniwyd hyn na sut y byddai'n digwydd. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 586 | Ni fydd cau ysgol Gymraeg mewn pentref lle mae'r Gymraeg dan bwysau yn "hyrwyddo ac amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg." Yr ysgol yw'r hysbyseb orau a'r unig hysbyseb ar gyfer yr iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant yn y pentref.<br>Mae'r effaith hon bron yn amhosib ei chyfrifo mewn termau ariannol. Bydd bodolaeth y Gymraeg fel iaith fyw yn cael ei hisraddio gan na fydd ymwelwyr Abersoch yn clywed yr iaith naturiol yn cael ei defnyddio.<br>Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol y pentref ac mae prif faes parcio'r pentref wrth ymyl yr ysgol. Mae'r ysgol yn symbol o'r Gymraeg, yn weledol ac yn glywedol gan y plant y tu allan yn ystod y diwrnod ysgol. | | Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion er gwaethaf pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn. |
| 587 | Mae sefydlu'r Cylch Meithrin a Ti a Fi yn gamau allweddol tuag at greu twf cynaliadwy yn nifer y disgyblion, yn ogystal â darparu gwasanaeth gofal plant pwysig i rieni sy'n gweithio yn yr ardal. Pam nad yw hyn yn cael ei gydnabod yn yr adroddiad? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ac yn cydnabod bod darpariaeth y Cylch Meithrin yn darparu gwasanaeth gofal plant pwysig i rieni sy'n gweithio yn yr ardal. Fodd bynnag, o ystyried maint y cynnydd presennol yn nifer disgyblion Ysgol Abersoch yn sgil y Cylch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi y dylid ystyried y tueddiadau tymor hir hy 25-50 mlynedd i'r dyfodol. | | Meithrin, sef cynnydd o un neu ddau ddisgybl yn unig, bydd yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch yn parhau. |
| 588 | Ymatebodd cymuned/llywodraethwyr yr ysgol i'r niferoedd isel drwy sefydlu Ti a Fi a Chylch Meithrin yn yr ysgol, gan y profodd sefydlu rhai mewn pentrefi eraill lwyddiant trwy ddenu'n naturiol ddisgyblion newydd i'r ysgol leol. | | |
| 589 | *Mae'r niferoedd bellach wedi codi, a'r sefyllfa wedi newid gyda sefydliad Cylch Meithrin Aberosh a Chylch Ti a Fi.* | | |
| 590 | Anghytunir â'r datganiad yr ystyriwyd saith nod y Ddeddf Llesiant – gan nad oes tai fforddiadwy i deuluoedd yn y pentref ac nad yw'n bosib cynnal gweithgarwch cymunedol oherwydd mae'r athrawon yn byw tu allan i'r gymuned (fel yn achos Ysgol Aber-soch) ac ni fu cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |



| J | **Ôl-ddefnydd safle'r ysgol** | | |
|---|---|---|---|
| 591 | Beth fydd yn digwydd i'r adeilad pe bai Ysgol Abersoch yn cau? Ei werthu er mwyn ei ddymchwel, ac adeiladu tai moethus i fwy o fewnfudwyr?? | | Pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Abersoch mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle.<br><br>Byddai angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai safle yr ysgol yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.<br><br>Rydym yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Ti a Fi yn cael ei gynnal ar safle'r ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai'n rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan ystyried y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.<br><br>O ran darpariaeth y Cylch Meithrin, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibiliadau gyda'r cynrychiolwyr perthnasol. Ymysg y posibiliadau i'w |
| 592 | Y mae'n amlwg unwaith daw'r cyfnod gras i ben, byddwch yn meddwl ein bod wedi anghofio ond rydym oll yn gwybod y byddwch chi'r cyngor yn gwerthu'r tir i deulu allanol i adeiladu hunllef o ail gartref. Llongyfarchiadau cyngor gwynedd. | | |
| 593 | Ni ddarparwyd unrhyw fanylion am yr hyn a fydd yn digwydd i dir ac adeiladau'r ysgol os yw'r ysgol yn cau. | | |
| 594 | Os yw'r ysgol yn darparu adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau, neu wasanaethau ar gyfer y gymuned, ble y cânt eu darparu os yw'r ysgol ar gau?<br>Mae'r Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn cael eu cynnal yn adeilad yr ysgol. Nid yw'r cwestiwn hwn yn cael ei ateb yn yr adroddiad. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Beth yw'r rheswm dros y diffyg hwn? | | trafod fyddai aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch. |
| 595 | Pryder beth sydd am ddigwydd gan mai rhodd i'r gymuned oedd y tir a'r adeilad ac am y Cylch/Ti a Fi. | | |
| 596 | Mae hi mor bwysig bod gan bobl a phlant lleol ysgol yn y pentref.<br>Dwi'n gobeithio y deuir i'r penderfyniad cywir ac na fydd hi'n cael ei throi yn ail gartref sy'n wallgof o ddrud pan mae ar y bobl lleol sydd yma drwy gydol y flwyddyn angen yr ysgol & ei hanes. | | |
| 597 | Rwyf hefyd eisiau gofyn a allwch chi gyflwyno'r holl ddogfennaeth o weithredoedd yr ysgol, y gofrestrfa tir a'r cyfamodau, gan fod yr ysgol wedi ei rhoi fel rhodd ac i'w defnyddio fel lleoliad addysgol, felly hoffem weld y dogfennau hyn cyn gynted â phosibl. | | Mae'r cwestiwn yma wedi ei drin fel cais rhyddid gwybodaeth. |

| L | Dyddiad gweithredu’r cynnig | | |
|---|---|---|---|
| 598 | Mae’r bwriad i’w chau yng nghanol blwyddyn ysgol hefyd yn annheg gan y bydd yn rhoi rhieni dan bwysau i wneud penderfyniadau nad ydynt efallai eisiau eu gwneud ynglŷn â symud eu plant o un ysgol i un arall hanner ffordd drwy’r flwyddyn academaidd. | | Er i’r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o’r ymgynghoriad yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol, penderfynwyd y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i’r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.<br><br>Rhagwelir fydd hyn yn caniatáu digon o amser i’r Adran Addysg gydweithio gyda’r 2 ysgol i roi’r holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle cyn trosglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach ddechrau Ionawr 2022.<br><br>Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, nodir yr Awdurdod y bwriad i wneud pob ymdrech i gynorthwyo disgyblion i setlo yn eu hysgol newydd. |
| 599 | Nid yw'n cymryd arbenigwr addysg i wybod nad yw'r cysyniad o gau ysgol adeg y Nadolig, ran o'r ffordd trwy flwyddyn ysgol, er budd lles disgyblion. | | |
| 600 | Nid yw’r cynnig o gau ysgol hanner ffordd trwy flwyddyn addysgol er lles y disgyblion, heb sôn am brofiadau cythryblus a dychrynllyd anghyffredin y flwyddyn ddiwethaf. Mae’n anodd credu yr ystyrir y cynnig hwn o ddifrif yn ganlyniad boddhaol o ymgynghoriad statudol sy’n honni ei fod yn casglu a gwrando ar farn y rhieni, plant a’r gymuned ehangach; proses a wthiwyd drwodd yn ystod cyfnod anodd a chythryblus pandemig ofnadwy. | | |
| 601 | Ni ystyrir lles nac iechyd meddwl y plant, staff na’r llywodraethwyr â’r bwriad o’i chau ar ôl tymor o’r flwyddyn addysgol newydd – cynhyrfu pawb ar adeg hapus a thymor dathlu i fod. | | |
| 602 | Os yw'r cau hwn yn ymwneud â lles y plant fel yr ydych wedi crybwyll yn eich adroddiad, ni fyddech yn caniatáu i hyn ddigwydd ar Ragfyr 31ain, byddech yn caniatáu i'r flwyddyn ysgol barhau tan yr haf. | | |
| 603 | Dengys y penderfyniad o gau’r ysgol ar Ragfyr 31ain, yng nghanol y flwyddyn addysgol, yn amlwg nad yw lles y plant wrth ei wraidd. Dylai’r Nadolig fod yn amser hapus i blant, nid â naws colled, tristwch a phryder dechrau mewn ysgol newydd. Mae hwn yn benderfyniad dideimlad sy’n awgrymu hefyd y gobeithia’r Adran Addysg na fuasai rhieni eisiau trosglwyddo eu plant yng nghanol y flwyddyn addysgol ac, o ganlyniad, ddylanwadu eu penderfyniad os dychwelant i Ysgol Abersoch ym mis Medi (Adran 6.5.12) ai peidio. Fel pob disgybl ysgol arall ar draws y wlad, bu’r ddwy flynedd academaidd ddiwethaf yn anhrefnus a hynod fyrhoedlog â chymysgfa o addysgu o bell a mynychu’r ysgol. Gobeithiwn i gyd am flwyddyn academaidd llawer mwy sefydlog ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, bydd disgyblion Ysgol Abersoch yn profi blwyddyn fratiog arall pe dilynir cynllun yr Awdurdod Addysg. Nid yw hyn yn fuddiol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | iddynt ac os yw’r Awdurdod Addysg am barhau â’i benderfyniad felly, ni ddylai’r ysgol gau tan Awst 31ain, 2022 er mwyn cynnig sefydlogrwydd i’r dysgwyr. | | |
| 604 | Mae’n amlwg nad yw’r cynnig i gau’r ysgol yng nghanol blwyddyn ysgol er budd gorau’r disgyblion a’u teuluoedd. | | |
| 605 | Rydym yn hynod siomedig bod y broses gyfan wedi'i gohirio ac yn siomedig â'r cysyniad o gau ysgol adeg y Nadolig, ran o'r ffordd trwy flwyddyn ysgol. Nid ydym yn credu bod hyn er budd a lles gorau'r plant, eu teuluoedd na'n staff. | | |
| 606 | Rwy’n gwrthwynebu’n gryf i gau Ysgol Abersoch ac mae’r holl beth yn fy aflonyddu, bod y bobl sy’n ymwneud â lles plant yn meddwl ei fod yn iawn i’w symud a’u distyrbio dros y Nadolig, cyfnod llawen fel rheol, a’u tynnu o rywle y maen nhw’n hapus ac yn ddiogel. | | |
| 607 | Gyda chalon drom iawn y gwelais gyfarfod y Cabinet ar 15 Mehefin lle pleidleisiodd yr aelodau i barhau gyda’r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31ain Rhagfyr 2021. Ar wahân i fod y penderfyniad hollol anghywir yn fy marn gref i, nid yw'n cymryd arbenigwr addysg i wybod nad yw'r cysyniad o gau ysgol adeg y Nadolig, ran o'r ffordd trwy flwyddyn ysgol, er budd lles disgyblion. | | |
| 608 | Deallwn erbyn hyn mae’r bwriad yw cau Ysgol Abersoch ddiwedd tymor y Nadolig. Mae hyn yn sicr o greu anesmwythyd i blant, a’u drysu’n llwyr, wrth gael eu dadwreiddio yng nghanol blwyddyn ysgol. | | |

| Ll | **Arall** | | |
|---|---|---|---|
| 609 | Rydych wedi derbyn fy merch a cefais wybod gan adran addysg y cyngor y byddai fy merch yn derbyn ei haddysg yn Ysgol Abersoch hyd at ddiwedd blwyddyn 3. Ni ddywedodd neb wrthaf y byddai ei haddysg yn dod i ben yno ym mlwyddyn 2. Mae hyn yn hollol annerbyniol ac i fod yn onest dwi’n credu nad oes gennych yr hawl cyfreithiol i amharu ar ei hysgol fel | | Wrth dderbyn cais mynediad i ysgol mae hynny’n adlewyrchiad o amgylchiadau’r ysgol ar y pryd. Ni roddir unrhyw addewid ynglŷn a dyfodol ysgol. Ni ellir rhagweld beth fydd unrhyw benderfyniadau ynglŷn â dyfodol unrhyw ysgol adeg ystyried ceisiadau mynediad i’r ysgol. Dydy penderfyniadau ynglŷn â dyfodol unrhyw ysgol ddim yn effeithio ar y broses o ganiatáu mynediad i ysgol ar sail dewis rhieni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hyn. Os digwydd hyn ni fydd gennyf opsiwn ond mynd â'r mater ymhellach. Rydych wedi cyflwyno'r ffeithiau yn erbyn cau ac wedi eu camddehongli'n llwyr a chredaf bod angen mynd â hyn hefyd ymhellach. | | Yn ogystal, mae Deddf Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ad-drefnu ysgolion trwy ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |
| 610 | Dyfynnaf eto o amcanion y Mudiad (Merched y Wawr): "I hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru, ac yn arbennig i rymuso addysg gyhoeddus ac i hyrwyddo diwylliant Cymreig, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg". Teimlwn felly na allwn anwybyddu'r bwriad i gau Ysgol Abersoch, gan feddwl fod Ysgol Llanaelhaearn eisoes wedi cau. Sawl ysgol arall sydd yn y fantol?Gofynnwn eto i chi ystyried yr egwyddorion uchod yn ofalus iawn, gan eu bod yn rhai dilys i unrhyw drafodaeth parthed addysg ein plant. Ystyriwch hefyd egwyddorion llesiant y dyfodol,- po fwyaf o ysgolion sydd yn cau, bydd dirywiad yn ein cymunedau, gan adael ardaloeodd o ddiffeithwch cymunedol. | | Ein disgwyliad yw bod ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion.<br><br>Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion er pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. |
| 611 | Mae ar y pentref angen am ysgol i blant fedru dysgu a chael eu haddysgu, mewn cyfnod lle rydym yn awyddus i blant fedru dysgu, gweithio a byw yn agos i adref, pa neges y mae hyn yn ei gyfleu iddyn nhw pan fydd eu hysgol yn cael ei chau? | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sywad.<br><br>Pe gweithredir y cynnig, byddai plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch. |
| 612 | Mae fy nheulu wedi byw ym Mhen Llŷn ers dros 300 mlynedd a mynychais yr ysgol dda hon yn y 1940/50au. Rydych yn ddyledus i'r cymwynaswyr hael a noddwyd ac a adeiladwyd yr ysgol yn y lle cyntaf, ac i'r gymuned ac i ddyfodol ein plant yn gyffredinol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 613 | Mae'r ysgol wedi ei chydnabod yn unigryw ar y Cyfryngau Cenedlaethol. Mae'r ysgol wastad wedi derbyn cefnogaeth gan y rhieni, athrawon a'r llywodraethwyr . | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 614 | Nid yw'r rheswm dros ei chau yn glir . Os , fel dwi'n amau , - defnyddiwch yr hol dreth cyngor ychwanegol i ariannu'r ysgol . !!! | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.<br><br>O ganlyniad, mae’n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae’r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch.<br><br>Mae’r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i’r dyraniad arferol trwy’r polisi lleiafswm staffio (sy’n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl yn £4,198.<br><br>Nid yw hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd fod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai’r heriau cyllidol yn parhau.<br><br>Mae’r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei neilltuo er mwyn ariannu rhai o brosiectau’r Cynllun Gweithredu Tai. Manylir ar brosiectau unigol a ffynonellau ariannu yma: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1 |
| 615 | Mae cymuned Abersoch yn talu mwy o dreth gyngor nag unrhyw le arall yng Ngogledd Cymru ac eithrio dinas Bangor, ac eto mae'r cyngor yn gweld yn dda i gael gwared ar ysgol sydd wedi addysgu plant yn y gymuned hon ers 98 mlynedd. I ble mae'r arian hwn yn mynd? Pam na wnaed mwy i ddarparu cartrefi fforddiadwy i bobl leol? | | |
| 616 | Mae polisïau Gwynedd wedi caniatáu i Abersoch fod yn bentref gwyliau (ail gartrefi) mwyaf proffidiol y Sir o ran trethi, a bwriedir cynnydd pellach. Yn ôl ystadegau'r cyngor mae Plwyf Llanengan yn cyfrannu dros 4% o’r dreth a gesglir yng Ngwynedd, dros £3,000,000. Ar ôl tynnu 'presept' y Cyngor Cymuned a chyfraniad yr Heddlu, mae hyn yn gadael dros £2.3 miliwn. Oni ddyliai canran cyfrannol o’r dreth hon fynd i gefnogi cnewyllyn Cymreig y pentref ac adnodd pwysig i drigolion llai breintiedig y ward? | | |
| 617 | Yn wir fy nghred yw mai gwir fwriad y cyngor yw cau cymaint o ysgolion bach â phosib, i gael rheoli llai o ysgolion mwy. Mae'r polisi wedi bod yn cropian ers degawd a mwy. Canlyniad y bwriad hwn yw’r bwriad i gau Ysgol Abersoch. Torri ar ariannu yw’r nod. Y drafferth efo torri yw'r difrod o dorri gormod. A’r dioddefwyr fydd trigolion cymuned Abersoch. | | |
| 618 | Mae’n werth nodi sut mae llawer o gymunedau ar hyd a lled Cymru, yn ddiweddar, yn ymdrechu i ail agor adnoddau a chanolfannau a gafodd eu cau am eu bod yn sylweddoli pa mor bwysig yw eu cael. | | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 619 | Cadwch Ysgol Abersoch ar agor. Dwi'n byw mewn pentref fechan ac mae'r hen ysgol wedi troi'n dŷ. Pam? Arian? Cadwch galon y plant lleol ac unigolion!! Cadwch Ysgol Abersoch ar agor. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.<br><br>O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. |
| 620 | Peidiwch â gwneud i gymuned lleol plant ifanc ddioddef er budd ariannol. | | |
| 621 | Teimlaf ei bod yn anghywir i drio cyfyngu ar addysg LEOL ein plant. Mae'r ysgol hon wedi gwneud gwyrthiau i lawer o bobl gan gynnwys fy ffrindiau drwy roi dechrau hyfryd i addysg. Mae'n anghywir cymryd hyn oddi arnom a'i symud i rywle arall pan dwi a gymaint o bobl erill EISIAU i'r ysgol hon barhau. | | |
| 622 | Ar ôl cyfarfod rhai o'r plant ac athrawon ar draeth Abersoch wrth gynnal eu gwersi Addysg Gorfforol meddyliais pa mor lwcus oedden nhw cael gwersi mewn rhywle mor hardd. Siaradais ag un o'r rhieni ar y traeth am yr ysgol. Roedd hi'n frwdfrydig iawn am fuddion yr ysgol ar ei phlant. Maen't yn dysgu cymaint o sgiliau a pharhau i siarad Cymraeg. Dwi'n aml yn clywed y plant yn siarad Cymraeg a pharhau treftadaeth yn eu tref. Dwi'n cael ymdeimlad cynnes tuag at yr ysgol. Dwi'n caru'r ffaith bod y plant bach yn mynd ar y bws lleol i'w gwersi nofio er mwyn arbed arian. Mae hi mor bwysig eu bod yn cael y cyfle i ddysgu nofio a hwythau'n byw mor agos i'r môr. | | |
| 623 | Mae pandemic COVID wedi dysgu ni bod ein byd wedi newid, a bydd hi'n gyfnod hir iawn nes y daw pethau'n ôl i'r arfer os y daw nhw nôl fyth – mae cau ysgolion a chynyddu niferoedd mewn ysgolion eraill i weld y gwrthwyneb i'r datrysiad?<br>- Am bob rheswm y mae eraill esioes wedi codi yn fwy cain nag y medrwn i fyth<br>- I'r Athrawon, Llywodraethwyr, Rhieni ac eraill sy'n rhy niferus i'w crybwyll sy'n cydnabod bod yr ysgol hon yn arbennig ac werth ei hachub ac sydd wedi buddsoddi nifer fawr o emosiwn a threulio eu hamser<br>Gobeithiwn y byddwch yn edrych yn ôl ar eich penderfyniad, ail-ddarllen yr holl wrthwynebiadau a gofyn wrthych chi eich hunain pan fydd popeth wedi setlo – a wnaethoch y penderfyniad cywir. Dwi'n ofni os y byddwch yn cau'r ysgol hon, o edrych yn ôl byddwch yn dod i'r casgliad bod cau yn wall enfawr a di-droi'n-ôl | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 624 | Mae mentrau uchelgeisiol yn cael ei cyflwyno gan y Cyngor o ran adeiladu Tai a prosiectau adfywio cymdeithasau mae y penderfyniad yma fel nofio groes ir lli.<br>Mae costiau adeiladu wedi codi yn ofnadwy yn y flwyddyn ddiwethaf ac i ail godi adnodd tebyg yn mynd i gostio ffortiwn bellach ac mae gwrachod adnodd yma yn well ffordd. Gan grynhoi rwyf or feddwl fod y penderfyniad yn un annoeth Nid rwyf or farn oherwydd amgylchiadau y pandemig fod y ymgynghoriad wedi bod yn un teg. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, dymuna'r Cyngor nodi nad oes ganddo reolaeth dros y farchnad dai agored.<br><br>Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r feirniadaeth a gyflwynwyd mewn perthynas ag amseriad yr ymgynghoriad, yn benodol o safbwynt y cyfyngiadau pandemig Covid.<br><br>Serch hynny, rydym yn hyderus fod y broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn cydymffurfio a gofynion a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol:<br>• Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori, a'r dogfennau cefndirol perthnasol, ar ffurf copi electroneg ar wefan y Cyngor (gyda chopiau caled ar gael ar gais)<br>• Dosbarthwyd copïau electroneg o'r ddogfen i'r rhan-ddeiliaid perthnasol (yn unol â gofynion y Cod)<br>• Derbyniwyd sylwadau/ymatebion ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.<br><br>Cydymdeimlir â'r pryderon o gynnal ymgynghoriad yn ystod y pandemig, serch hynny, pwysleisir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ag ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Yn ychwanegol i hynny, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad ar 8 Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor. |
| 625 | Cafodd y sefyllfa bresennol o ran tai a chyflogaeth effaith niweidiol unman yn fwy amlwg na Abersoch. Amlygodd cyhoeddiad diweddar Cyngor Gwynedd o 'Gynllun Gweithredu Tai' i gefnogi tai fforddiadwy y pwysigrwydd o fframwaith cydlynol at ddyfodol cynaliadwy. Profa hyn, ar y cyd â'r cyhoeddiad am gynlluniau datblygu i greu 150 o swyddi yn y pentref, y saif Abersoch mewn lle da i arwain y ffordd. Credwn y gall hyn ddechrau wrth i Gyngor Gwynedd ymdrin ag addysg arloesol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl yn £4,198.<br><br>Nid yw hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd fod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.<br><br>Mae'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei neilltuo er mwyn ariannu rhai o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai. Manylir ar brosiectau unigol a ffynonellau ariannu |
| 626 | Derbynia Cyngor Gwynedd 100% mwy o Dreth Cyngor o ailgartrefi. Gan fod y mwyafrif ohonynt yn Abersoch, ac o ystyried y gefnogaeth eang yn y gymuned i'r ysgol, pam nad yw'n bosibl rhoi rhywbeth yn ôl, yn unol â gobeithion a dyheadau'r gymuned drwy drosglwyddo cyfran o'r dreth hon, canran fechan o'r dreth a dderbyniwch, er budd yr iaith Gymraeg a'r gymuned yn Abersoch?<br>Nid oes dim yn gadarn yn yr adroddiad am ddyfodol y gymuned yma yn Abersoch neu arweiniad 'tu allan i'r blwch'. Yn ystod eleni'n unig, trosglwyddodd un asiant gwerthu tai yn y pentref, bedair miliwn o | | |

<table>
<tr><td></td><td>bunnoedd i'r Awdurdod Incwm Cymreig yng Nghaerdydd trwy'r Dreth Trafodion Tir oherwydd bod angen i brynwyr ailgartrefi dalu trethi uwch – arian a glustnodir i adfywio cymunedau lleol a chefnogi'r Cynllun Tai Fforddiadwy. Yng nghyd-destun yr argyfwng ailgartrefi a'r niwed dilynol i gymunedau lleol, mae'n hanfodol cefnogi'r gwasanaethau â erys megis ysgolion pentrefol.</td><td></td><td rowspan="3">yma: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1<br><br>Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio.</td></tr>
<tr><td>627</td><td>Wynebir yr argyfwng tai parhaus a llym yn Abersoch â chynlluniau am dai fforddiadwy a Chynllun y Cyngor newydd i brynu eiddo i'w rhyddhau ar rent ar gyfraddau fforddiadwy. Anelir Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd at gywiro problemau stoc dai fforddiadwy, problem sy'n arbennig o endemig yn Abersoch. Ariannir y cynllun hwn yn rhannol gan gynnydd yn Nhreth y Cyngor ar dai haf a gwag ac mae Abersoch mewn safle da i elwa ohono. Yn economaidd, mae Abersoch yn mynd o nerth i nerth â chyfleoedd cyflogaeth megis cynllun y gwesty newydd sy'n darogan 150 o swyddi newydd. Gallwn hefyd, yn rhesymol, ddisgwyl weld cynnydd posibl mewn disgyblion o ganlyniad i'r posibilrwydd o berchnogion ailgartrefi symud yn barhaol i'r ardal o ganlyniad i Covid. Yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, dylem edrych 25 i 50 mlynedd i'r dyfodol a dengys y dangosyddion presennol y dylai Abersoch ffynnu yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r swyddi newydd a'r cynlluniau ar gyfer tai yn ddangosyddion allweddol at newid y demograffigau lleol; maent yn pwysleisio'r angen i gynnal darpariaeth addysgol yn y pentref a buasai'r penderfyniad o gau'r ysgol yn tanseilio'r mentrau hyn.<br><br>Buasai gweledigaeth ehangach ac integredig tu hwnt i arbedion ariannol cau'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd Abersoch i economi Pen Llŷn; yn ddigwestiwn ar gyfer hyn, mae'r pwysigrwydd o gynnal gwasanaethau sylfaenol o dai, cyflogaeth ac addysg.</td><td></td></tr>
<tr><td>628</td><td>Mae'n ymddangos yn hollol deg a phriodol y gellid dyrannu cyfran fach o'r arian a gynhyrchir gan yr ail gartrefi hyn i gefnogi ysgol y pentref fel rhan hanfodol o'r gymuned yr effeithiwyd yn ddifrifol arni. Rwy'n gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi ar ein pentref, a gallant wneud dechrau gwych ar hyn o bryd trwy wrando ar farn leol a buddsoddi yn y bobl ifanc sydd am barhau i ddysgu a thyfu i fyny mewn Abersoch cynaliadwy.</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae problem ailgartrefi yn Abersoch yn dra chyfarwydd, fel mae ymgais cynlluniau'r Cyngor i gywiro'r mater. Datganodd Cyngor Gwynedd y gwna 'popeth o fewn ein gallu i gefnogi gallu ein preswylwyr Sirol fyw yn eu hardal leol'. Felly, mae'n groes i'r graen o baratoi cynlluniau i geisio cywiro'r anghyfiawnder hwn ag un llaw tra, ar y llaw arall, yn cau ysgol arbennig sy'n brwydro oherwydd yr union reswm, lle mae symbyliad cryf iddi ffynnu wrth weithredu'r strategaeth ailgartrefi. | | |
| 629 | Nid oes unrhyw sôn yn eich adroddiad am y 150 o swyddi newydd pan fydd gwesty'n cael ei adeiladu a'i agor yn Abersoch, gan annog teuluoedd lleol i aros yn yr ardal a chreu cyfle i deuluoedd newydd ddod i'r ardal. Mae Penrhos hefyd wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiadau i greu tai i deuluoedd, ble fydd y plant hyn yn mynd i'r ysgol? Soniwyd hefyd bod rhai teuluoedd yn dewis symud i'r Pentref yn barhaol gan eu bod wedi sylweddoli yn ystod pandemig Covid y gallant weithio gartref yn llwyddiannus. Mae angen i amwynderau aros yn eu lle i ddiwallu anghenion y gymuned, gan ein bod yn gweld pentrefi yn colli capeli, banciau, meddygfeydd a chyfleusterau eraill yn rhy aml y mae cymunedau'n eu gwerthfawrogi gan sicrhau bod lleoedd yn ffynnu trwy gydol y flwyddyn nid yn unig fel cyrchfan Gwyliau. | | Nid oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol a chynnydd yn nifer y swyddi'n lleol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Byddai plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch. |
| 630 | Fe wnaethon ni ddewis Ysgol Abersoch oherwydd ein bod ni'n teimlo bod ganddi deimlad teuluol bod ganddi ymdeimlad hyfryd o berthyn. Roedd fy mhlant yn bryderus iawn gan adael ffrindiau a theulu i adleoli i Gymru. Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig iawn cael hyn yn iawn.... Fe wnaeth yr Athrawon ei meithrin a rhoi hyder iddi ddod yn feddyliwr a dysgwr annibynnol. .... Mae hyn yn fwy nag unrhyw ysgol gyffredin. Dyma rywle y gall rhieni a phlant fynd at yr athrawon ac mae'r drws bob amser ar agor, nid wyf wedi dod o hyd i hyn mewn unrhyw ysgol arall. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 631 | Peidiwch â bod yn gyngor i ddangos na ellid gwneud cynnydd, dangoswch y gallwch weithio gyda'n hysgol, ein cymuned, ein dyfodol, bod yn arloesol ac annog yr ysgol traeth awyr agored, dangos eich bod yn meddwl ymlaen, yn edrych i'r dyfodol, amddiffyn yr Iaith Gymraeg yn ein cymuned am genedlaethau'r dyfodol i ddod | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 632 | Rwyf yn cwestiynu, yn achos Ysgol Abersoch, a fydd gwrandawiad teg yn cael ei gynnal o ystyried lefel siomedig y drafodaeth a welwyd yng nghyfarfodydd cynharach y Cabinet, ac ar ôl cais y Pwyllgor Craffu i ailymweld â'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad. Mae | | Galwyd penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 15 Medi 2020 i mewn i'w graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020, rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymdeimlad o 'fait accompli' yn eistedd yn anesmwyth iawn ochr yn ochr â'r sylwadau goddrychol a rhagfarnllyd a gyflwynir yn y dogfennau ymgynghori, wedi'u fframio i gyflawni nod yr Adran Addysg i gau Ysgol Abersoch.<br><br>Ni fyddai'n afresymol, o ystyried y goblygiadau difrifol sydd yn y fantol yma, ddisgwyl i aelodau etholedig – i herio uniondeb y dogfennau hyn yn hytrach na chymeradwyo'n unfrydolgynigion a gyflwynwyd gan swyddogion y Cyngor, heb gymryd unrhyw gyfrifoldeb personol dros ddwyn y Cyngor i gyfrif. | | arfaethedig i gau Ysgol Abersoch 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a'r 1 Medi 2021.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl, penderfynodd y Pwyllgor ei fod yn parhau i bryderu am y sefyllfa ac y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth ofalus a thrafodaeth fanwl o farn y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, penderfynodd Cabinet y Cyngor, na ddylid addasu ei benderfyniad gwreiddiol a wnaethpwyd ar y 15 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig, a mabwysiadu hyn fel y penderfyniad terfynol. |
| 633 | Mae'n eironig mai eitem nesaf Rhaglen y Cabinet oedd yr adroddiad a gomisiynodd Cyngor Gwynedd ar ailgartrefi'r llynedd. Ni soniwyd gair am na thŷ haf nac ailgartref yn y drafodaeth am gau'r ysgol o ystyried mai **prif achos** lleihad yn niferoedd y plant yw'r diffyg tai fforddiadwy i deuluoedd ifanc fyw yn eu cymuned. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio. |
| 634 | Lleihaodd niferoedd yr ysgol oherwydd diffyg tai fforddiadwy yn y pentref – ni all y rhai sy'n ennill cyflogau da megis penaethiaid ysgolion mawr a meddygon hyd yn oed fforddio prynu tŷ yn Aber-soch erbyn hyn. | | |
| 635 | Un o'r rhesymau posibl nad yw nifer y disgyblion wedi codi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw'r diffyg tai fforddiadwy i bobl sy'n gweithio yn y pentref ar gyflogau sylfaenol isel, mae hyn wedi gorfodi teuluoedd ifanc i symud allan i dai rhatach yn yr ardal gyfagos. | | |
| 636 | Ar ben hyn, cyfyngwyd ar allu teuluoedd lleol â phlant i fyw yn Abersoch oherwydd diffyg rheolaeth ar y farchnad agored mewn tai sydd wedi gorfodi nifer i fynd o'r ardal. | | |
| 637 | Pam mae Cymry ifanc yn cael y fath drafferth wrth wneud cais adeiladu tra bo dieithriaid yn cael chwalu ac ail-godi tai fel pe bai'n gystadleuaeth am y mwyaf a'r crandiaf ond yn difetha cymeriad pentref yn y pendraw. Nid yw'r tai haf hyn yn ychwanegu dim at y nifer o blant yn yr ysgolion. Yn y cyswllt hwn, rhaid diolch i'n cyn-gynghorydd R. Wyn Williams am ymladd i gael tai fforddiadwy ar Lôn Garmon. Pam, o pam y gwrthodwyd cais gwraig o'r pentref, gyfrannodd gymaint at ddiwylliant Abersoch (ac sy'n dal i wneud) i gael un ffenestr ychwanegol yn ei thŷ. Mae'n anghyfiawnder mawr yn rhwle ac mae'n warthus. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 638 | Mae cau unrhyw ysgol gynradd yn gleddfyd dwyochrog. Yn enwedig Ysgol Abersoch.<br>Mae hi'n gorfod cau oherwydd prinder disgyblion. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg tai fforddiadwy. Ond pan mae gennych eich plant eich hun sydd angen ysgol, mae gorfod dewis rhywle i fyw yn cael ei ddylanwadu gan yr ysgolion sydd ar gael.<br>Felly mae cau ysgol yn debygol o yrru bobl lleol i fyw yn rhywle arall, lle mae 'na ysgolion. Felly os ydych chi y cyngor ac awdurdod sy'n honni i ddymuno cefnogi ac annog bobl lleol i fyw yn Abersoch, nid yw cau ysgol lleol yn gwneud dim i gefnogi'r honiad hyn. | | |
| 639 | Hoffwn wybod beth yw ystyr "Moderneiddio" addysg. | | Mabwysiadwyd strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor Ebrill 2009. Gweledigaeth y strategaeth yw i "Gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog llwyddiannus a chyflawn" ac amcanion y strategaeth yw:<br>• Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion;<br>• Anelu i hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;<br>• Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy fod yn rhagweithiol a chreadigol, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at gynllun hir dymor fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;<br>• Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y Sir ar addysg;<br>• Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;<br>• Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol. |
| 640 | Mae lleoliad hon mor hwylus, a'r lain dwt yng nghanol y pentref. Mae'n ddiogel gyda'r wal gerrig o'i hamgylch ac mae buarth a chae glas yn gaffaeliad mawr. Mae'n bleser mynd heibio iddi a gweld yr adeiladau bach lliwgar, sylwi ar y plant yn chwarae a hyfryd yw clywed eu miri ar ddydd o haf, hyd yn oed o lan bella'r afon. Calondid oedd gweld ychydig flynyddoedd yn ôl, y priod-ddulliau a'r diarhebion Cymraeg yn y ffenestri. Un o uchafbwyntiau'r Nadolig yw Gwasanaeth a chyngerdd y plant yn y Neuadd yn Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 641 | Mae gan Ysgol Abersoch cymuned agos a llon iawn, a mae wedi bod yn y pentref bychain am bron i 100 o flynyddoedd. Yn yr ysgol mae digon o le i bawb ac rwyf wedi cael sylw unigol gan athrawon ardderchog, sydd yn eich cefnogi trwy'r adeg. Darganfais llawer o ffrindiau hyd-bywyd yno, na fuasai wedi cwrdd heb yr ysgol. Mae awyrgylch cyfeillgar yno, a digon o le i chwarae. Mae iard a cae lle magais sgiliau pêl-droed. Rhoddodd Ysgol Abersoch llawer o gyfleuoedd iddyf i yn aml; gyda gwersi nofio wythnosol, mabolgampau a phrofion a wnaeth fy mharatoi ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cefais addysg arbennig gan yr athrawon a'r helpwyr, gyda'r pynciau sylfaenol yn cael eu dysgu yn rhagorol. Yn adeg y Nadolig, mae'r disgyblion yn ymuno mewn ymdrech i adrodd stori'r Nadolig ar lwyfan newydd Abersoch. Bydd yr athrawon yn ysgrifennu sgript a fyddwn yn ei adrodd ef o flaen trigolion y pentref a chasglu pres am achos pwysig. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| | **Canmoliaeth a chefnogaeth i'r ysgol** | | |
| 642 | Amddifadir y plant o'r addysg awyr agored y mae'n nhw'n ei fwynhau ar y traeth mewn tywydd ffafriol. Mae'r ysgol yn un llwyddiannus, Cymraeg ac yn hoff iawn gan bobl a nid wyf wedi gweld unrhyw wybodaeth gan y Cyngor a fyddai'n awgrymu rheswm da dros ei chau. Y mae'n ased gwych i'r pentref ac i'r rhieni sy'n gweithio â phlant yn ei mynychu. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.<br><br>O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:<br>• Niferoedd disgyblion isel: Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.<br>• Rhagamcanion niferoedd: Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)<br>• Canran uchel o lefydd gweigion: Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)<br>• Maint dosbarthiadau bychain: Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.<br>• Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau: Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).<br>• Annedd disgyblion: Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 643 | Mae Ysgol Abersoch yn rhoi dechreuad gwych i bob plentyn beth bynnag eu cefndir a'u hiaith. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 644 | Byddwch wedi clywed POB dadl rhesymol o blaid, gan gynnwys y dadleuon sydd ddim mor resymol yn erbyn ei pharhad a dwi'n erfyn ar eich synnwyr o gyfrannedd, yn ogystal ag at hanfod eich dynoliaeth, i sicrhau bod ein hysgol fach ryfeddol, gyda'i hanes hudolus o'r rhinweddau addysg gynradd gorau yn cael gwasanaethu ein plant bach am flynyddoedd lawer eto, gan ddarparu cychwyn unigryw a chariadus iddynt mewn Bywyd a fydd yn eu gwasanaethu'n dda iawn, ac y byddant bob amser yn ei gofio gydag anwyldeb enfawr. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 645 | yn falch iawn o lwyddiannau rhagorol y disgyblion – proffesiynol, prifysgolion/colegau gorau, busnes ac yn bersonol | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 646 | Mae plant yn aml yn mynd o Ysgol Abersoch i Sarn Bach/Llanbedrog gyda lefel uwch na'r cyffredin mewn darllen, ysgrifennu a datblygiad corfforol oherwydd gwaith caled yr athrawon, rhieni a disgyblion yn yr amgylchedd clos hwn. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 647 | Mae gen i dri o blant sydd wedi mynychu ysgol Abersoch ac wedi cael profiadau pleserus a chofiadwy yno. Mae meddwl am y ffaith nad yw'r plant lleol eraill am gael yr un profiad yn un siomedig iawn i'r gymuned. Dwi'n gobeithio na chaiff yr ysgol ei chau a bydd hi'n parhau i ddysgu plant y pentref. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 648 | Dwi wedi delio â'r ysgol llawer tro dros y blynyddoedd, a'i dysgu a'i agosatrwydd, mae ei lleoliad oll yn mynd law yn llaw i greu lle unigryw, y mae'r cyn-ddisgyblion yn edrych yn ôl arni, heb y teimlad negyddol yr ydych chi i weld yn ei deimlo, ond â balchder enfawr ac anwyldeb, eu hysbrydoliaeth yw sylfaen eu haddysg sydd wedi eu hannog i fynd yn eu blaenau i gyflawni pethau gwych. Mae hi wedi ei safoni'n Dda, mae hi'n annog pob disgybl i siarad Cymraeg ac wedi ennill gwobrau a hynny. Oherwydd ei bod mor agos i'r môr, hon yw'r unig ysgol sydd gan wersi nofio llawn amser, ac mae'r gwaith sy'n mynd i redeg yr ysgol yn anhygoel, mae pawb o'r brif athrawes i'r llywodraethwyr a rhieni a'r gymuned ehangach yn 100% ymroddedig i'w chadwraeth. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 649 | Mae'r ysgol yn cyflawni gwaith hyfryd wrth roi'r dechrau gorau un i fywydau'r disgyblion ifanc gydag anogaeth a chefnogaeth. Byddai cau'r ysgol yn cael effaith ddinistriol iawn ar y pobl ifanc hyn. Plîs ail-ystyriwch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 650 | Ysgol Abersoch yw'r ysgol gorau yn y byd. Dwi'n cofio fy ysgol â llawer o gariad ac roedd yn rywle a oedd yn fy ngwneud i a fy ffrindiau yn hapus iawn. Credaf bod yr ysgol wedi gwneud i mi weithio'n galetach oherwydd bod y dosbarthiadau mor gyffroes ac yn ein annog. Doedd byth gen i ofn rhoi fy llaw fyny a gofyn cwestiwn. Mrs Jones oedd yr athrawes fwyaf caredig yn y byd ac os byddwch yn ei cholli hi byddwch yn colli'r byd i gyd!! Os ydych yn cymryd yr ysgol oddi ar ein pentref rydych yn colli ein dyfodol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 651 | Mae hon yn ysgol llwyddiannus iawn sy'n siarad Cymraeg ac yn annwyl iawn gan lawer o bobl a dwi heb weld unrhyw wybodaeth gan y Cyngor sy'n cynnig rheswm dda dros ei chau. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 652 | Rwy'n gwrthwynebu cau Ysgol Abersoch. Rwy'n gyn-ddisgybl a rhoddodd Ysgol Abersoch y dechrau gorau i'm haddysg. Cefiais profiadau gwych yn yr ysgol ac rwy'n hynod o falch fy mod wedi bod yn ddisgybl yno. Bydd colled aruthrol i blant y pentref pe bai'n cau. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 653 | Ysgrifennaf atoch unwaith eto i anghytuno'n gryf yn erbyn y cynnig i gau'r ysgol fach hyfryd hon. Mae dau o fy wyrion wedi derbyn eu haddysg blynyddoedd cynnar yno a chredaf mai diolch i'r dosbarthiadau bach y mae'n nhw wedi llwyddo cystal. Mae'r athrawon yn adnabod y plant mor dda ac wedi eu tiwnio i anghenion pob plentyn yn unigol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 654 | Mae'r ysgol yn darparu addysg ragorol i blant Ysgol Abersoch a bydd ei chau yn cael effaith anfesuradwy ar ein Cymuned, iaith a diwylliant. Mae hi'n ffaith adnabyddus mai'r effaith bwysicaf ar lwyddiant dyfodol a gyrfa plentyn yw bod chwant am wybodaeth ac mae hyn yn cychwyn gydag addysg Gynradd ragorol. Dyma a geir gan Ysgol Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 655 | Y mae'n gwestiwn gen i a yw'r Cabinet tebol o wneud y penderfyniad i gau'r ysgol ai peidio os ydyn nhw'n gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar safon yr addysg. Dim ond un cam i mewn i'r ysgol sydd ei angen i weld esiampl ragorol o ddarpariaeth addysg sydd yma i'r plant sy'n ei mynychu. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 656 | Derbyniodd fy wyrion, fel fy mab, y profiadau addysg gorau yn yr ysgol, | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 657 | Yn blentyn roeddwn i yn ofnadwy o swil, felly roedd y dosbarthiadau bach yn berffaith, a ches i lawer o sylw gan yr athrawon. Rydw i mor ddiolchgar am yr holl gyfleoedd daeth gyda mynd i Ysgol Abersoch megis y profiad o berfformio ar lwyfan yn enwedig, wrth feddwl erbyn hyn rwydw i yn mynychu coleg perfformio. Mae'r ysgol yn lle arbennig i gymaint o blant a phobl ac yn hwb i'r pentref a chymuned leol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 658 | Mae Ysgol Abersoch yn gyfleuster addysgol ragorol<br>- Mae plant yn caru'r ysgol – y mae'n fwy na dim ond ysgol – ailddarllenwch ddatganiadau'r plant i'ch atgoffa cymaint y mae'n nhw'n caru'r ysgol | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 659 | Mae'r ysgol yn amgylchedd diogel a hapus sy'n cynnig profiadau dysgu unigryw a chofiadwy nad yw ar gael mewn ysgolion cyfagos. Pe na bai rhieni'n hapus ag ansawdd yr addysg a gynigir, safon datblygiad eu plentyn neu deimlo yr amddifadid eu plentyn mewn unrhyw ffordd, buasent wedi hen symud eu plant i ysgol arall. Dychwelodd ein Pennaeth gwych at y llyw, ar ôl bron i flwyddyn tu hwnt i amgyffred unrhyw un o drasiedi personol, i unwaith eto ysbrydoli'r staff a'r disgyblion, a'u harwain ar antur hudol ac addysgol cofiadwy dan ei harweiniaeth arbennig. Mae'r ffaith y bwriada'r disgyblion cymwys, er gwaethaf y cysgod du o fygythiad cau'r Nadolig hwn, ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, yn dangos y teimlad cryf a gwerthfawr a deimla'r rhieni o'r profiadau sydd ar gael ynddi. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 660 | Gwir dyst i'r ysgol yw y byddai'r 6 disgybl sydd wedi symud i fyny i Ysgol Sarn Bach yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn rhoi unrhyw beth i fod yn ôl yn Ysgol Abersoch. Nid ydyn nhw'n dweud nad ydyn nhw'n hoffi Ysgol Sarn Bach, ond yr hyn maen nhw'n ei ddweud mewn gwirionedd yw Ysgol Abersoch yw'r ysgol orau yn y byd iddyn nhw. Faint o blant eraill all ddweud hynny am ysgol a hefyd wrth eu bodd â'r addysg, y teithiau, yr athrawon, yr adeilad ei hun, y lle sydd ganddo yn y gymuned, y profiad o greu perthnasoedd â'r genhedlaeth hŷn ………. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd ac nid oes gennyf air negyddol i'w ddweud am yr ysgol hon a'r addysg y mae wedi'i darparu i'm plant ac eraill. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sywlad. |
| 661 | Pam cadw at y status quo? Buasai'n gyfle i Gyngor Gwynedd allu bod yn wahanol ac arloesol wrth nodi, "Ni fyddai'r ystod oed yn gyson â mwyafrif | | Y cynnig a roddwyd trwy rybudd statudol oedd newid y status quo, drwy gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgolion cynradd y sir.  Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed â gweddill ysgolion cynradd y sir ac yn golygu bod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn". | | |
| 662 | Ga i ofyn os mai rhodd oedd yr ysgol a bod y maes parcio yn gwneud cymaint o elw pam bod rhaid i'r ysgol gau...? Dylai fod yn hunan gynhaliol fel dewis olaf. | | Pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Abersoch mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd safleoedd ysgolion a byddai'r polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle. Cyn gwneud hyn, byddai'n rhaid ystyried perchnogaeth y safle ac unrhyw gyfamod arno.<br><br>Os bydd yr Ysgol yn cau yna mi fydda modd i unrhyw un fynd ati i sefydlu ysgol annibynnol yn Abersoch pe dymunir. Mi fydda gwneud hyn yn golygu cofrestru hefo Llywodraeth Cymru a mi fydda'r Ysgol yn annibynol i'r Awdurdod Lleol. |
| 663 | Rwy'n teimlo'n siomedig iawn eich bod wedi diystyru lleisiau'r plant sy'n mynychu'r ysgol, y rhieni, athrawon, Llywodraethwyr a'r gymuned. Yn ddiweddar cymerodd y plant ran mewn gwrthdystiad i leisio'u barn, i'w hatal rhag cael eu distewi. Mae'r plant hefyd yn cynrychioli lleisiau'r ysgol a'r gymuned yn y gorffennol gan fod hyn yn ddawnus ac yn rhan o'u hanes, gellir clywed lleisiau'r hynafiaid yn atseinio trwy'r deg plentyn. Cafodd y plant sylw gwych ac mae sawl taenlen wedi gofyn am ffotografiau fel y gallant ddilyn y stori hon. | | Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol i drafod yr heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch ac opsiynau posib fydda'n ymateb iddynt cyn cytuno ar yr opsiwn fyddai'n debygol o ymateb orau i'r heriau.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwnnw, sef i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021 ac, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, ble roedd cyfle i unrhywrai gynnig ymateb i'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys cynnal ymgynghoriad gyda disgyblion y 2 ysgol. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr hwn bu i'r Cabinet ganiatáu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig gan gynnal cyfnod gwrthwynebu er mwyn i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.<br><br>Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig rhwng 25 Mehefin a 23 Gorffennaf 2021, ble roedd cyfle i unrhywrai wrthwynebu y cynnig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwrthwynebiadau dderbyniwyd a chynnig ymateb y Cyngor iddynt er mwyn i'r Cabinet eu hystyried a gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Abersoch.<br><br>Credir fod y camau hyn yn dystiolaeth glir ein bod yn rhoi sylw teg i sylwadau rhanddeiliaid cyn penderfynu yn drerfynol. |
| 664 | Mae Grwp Ymgyrch Addysg yn datgan ei wrthwynebiad i'r Rhybudd Statudol a gyhoeddwyd gan Gyngor Gwynedd i gau Ysgol Abersoch. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **665** | Felly, rwyf wedi ateb fy nghwestiwn fy hun, mae pwynt i hyn ac i'r holl wrthwynebiadau eraill – mae yma obaith (yn Ysgol Abersoch) ac felly dylem sefyll i fyny a gweiddi led ein pen i gael ein clywed, er gwaethaf cyn lleied o bobl o gwmpas sydd yn fodlon gwrando. Gobeithio bydd un gwrthwynebiad yn ddigon uchel i dreiddio drwy'r anwybodaeth sy'n cymylu'r holl broses. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| M | Deisebau | | |
|---|---|---|---|
| **666** | Agorwyd Ysgol Abersoch ym 1924. Yn anffodus, mae'r ysgol o dan fygythiad o gau. Mae'r staff yn angerddol iawn dros gadw'r ysgol hon ar agor ac i ddathlu ei chanmlwyddiant yn 2024! Mae'r ysgol wrth galon pentref Abersoch, Gogledd Cymru, ac yn agos iawn at galonnau holl ddisgyblion presennol, y gorffennol a'r dyfodol, y rhieni a'r bobl leol. Plîs arwyddwch y ddeiseb hon i ddangos eich cefnogaeth i'r ysgol hon ac i atal ei chau. Plîs arwyddwch i ddangos eich cefnogaeth i'r gymuned leol, plîs! | 1,884 llofnod | Mae'r Cyngor yn nodi'r ddeiseb a nifer y llofnodion. |
| **667** | Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar gynnig i gau'r ysgol o 31 Awst 2021. Llofnodwch y deiseb hon i gefnogi Ysgol Abersoch, sy'n darparu addysg ragorol a sy'n hanfodol i ddiogelu'r iaith a diwylliant Cymraeg yng nghanol ein cymuned. | 1,115 llofnod | Mae'r Cyngor yn nodi'r ddeiseb a nifer y llofnodion. |

Mae unrhyw wybodaeth bersonol ar y gwrthwynebiadau wedi eu ddileu er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## CYNGOR GWYNEDD

### ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## RHYBUDD O GYNNIG I GAU YSGOL ABERSOCH

### CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cau YSGOL ABERSOCH, Lon Gwydryn, Abersoch, Gwynedd, LL53 7EA. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **31 Rhagfyr 2021.**

Yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni bydd disgyblion cyfredol Ysgol Abersoch yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, Sarn Bach, Gwynedd, LL53 7LF ar 1 Ionawr 2022. Mae yr ysgol yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Cymraeg i enethod a bechgyn 3 i 11 oed wedi ei leoli ym mhentref Sarn Bach.

Bydd dalgylch Ysgol Sarn Bach o Ionawr 2022 yn cynnwys dalgylch yr ysgol fel ag y mae heddiw, a dalgylch presennol Ysgol Abersoch. Yr awdurdod mynediad ar gyfer Ysgol Sarn Bach fydd Cyngor Gwynedd a bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r ysgol gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i Bolisi Mynediad. Bydd y trefniadau mynediad i'r ysgol yn cael eu gwneud heb gyfraniad at allu na medr (bandio disgyblion).

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynhaliol a Chyngor Gwynedd fydd yn gweithredu'r cynnig yma.

Mae'r cynnig hwn wedi ei lunio o ganlyniad i'r angen i gyfarch y niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Abersoch ac o ganlyniad, maint bychain y dosbarthiadau, yn ogystal â rhagamcanion isel o niferoedd i'r dyfodol. Nid oedd yr un o'r opsiynau eraill a adnabuwyd ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael a'r materion hyn. Fel canlyniad ystyrir mai cau'r ysgol yw'r ymateb mwyaf priodol.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **23 Gorffennaf 2021.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru .

Llofnodwyd:


Garem Jackson
**Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd**
Dyddiad Cyhoeddi: **25 Mehefin 2021**

**NODYN ESBONIADOL**
(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Yn dilyn proses ymgynghori, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a bydd lle yn cael ei ddarparu i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'r 1 Ionawr 2022.

Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i wneud cais mynediad (neu gais i drosglwyddo) i unrhyw ysgol.

Bydd darpariaethau cludiant ysgol am ddim ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.




# Adroddiad Asesiad Llesiant Ysgol Abersoch

- Medi 2021

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD
2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?
3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?
4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY
5. CASGLIAD

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | | | | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | | | | | | |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | | | | | | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | | | | | | | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | | | | | | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | | | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | | | | | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Abersoch

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch ble cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau. Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hynny, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r model Gwneud Dim. Mae'r opsiynau hynny wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

**Opsiynau pellach a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

***Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau uchod, mae'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.***

Bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2021 gan benderfynu cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022. Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 25 Mehefin 2021 gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 23 Gorffennaf 2021 a derbyniwyd 211 o wrthwynebiadau a 2 ddeiseb.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

### Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol.

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

### Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y nod hwn. Byddai proses statudol ynghlwm ag ymestyn yr ystod oedran. Ni ragwelir effaith ar drefniadau llywodraethol presennol. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

### Ffederaleiddio gydag Ysgol gyfagos

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff.<br>Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig.<br>Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn byw mewn cymdeithas ble mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn bodoli ochr yn ochr a'i gilydd, ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Sarn Bach. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. O'i gymharu, mae 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith |

## Ysgol Aml-Safle

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu Ysgol Aml-safle a sefydlu corff llywodraethol ar gyfer yr ysgol newydd. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws safleoedd yr ysgol. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |

| | |
|---|---|
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.<br><br>Yn ogystal, mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod trwy wneud defnydd darbodus o adnoddau.<br><br>Gallai gweithredu'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi. | Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Datblygwyd y cynnig o fewn cyd-destun y Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth:<br>*"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* | Nodai'r asesiad cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Yn dilyn cynnal asesiad effaith ar y gymuned, daethpwyd i'r casgliad y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. | Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol gael ar gymuned Abersoch, nodir fod 35% o'r 26 o ddisgyblion (3-8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly fod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch. O weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn sydd rhwng y gymuned yn Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Ni ragwelir effaith ar y nod hwn gan y byddai'r cynnig yn golygu y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. | - |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith. |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY


| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae patrwm o niferoedd isel yn Ysgol Abersoch ers rhai blynyddoedd, a bellach mae'r sefyllfa yn fregus iawn. Gyda rhagamcanion yn dangos niferoedd yn parhau'n isel, deuir i'r casgliad fod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir. |
| **Atal**<br>**Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion?** | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y plant yn flaenoriaeth wrth ymgymryd ag unrhyw broses ad-drefnu. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgol yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Fel rhan o'r broses o werthuso'r opsiynau bu i'r Adran Addysg dderbyn mewnbwn gan nifer o adrannau eraill o fewn y Cyngor. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol er mwyn derbyn mewnbwn cychwynnol rhan-ddeiliaid. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Bydd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad statudol, ac ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc.<br>Hyd yma, mae'r broses wedi cynnwys cyfarfodydd lleol i ymgysylltu gyda'r rhan-ddeiliad perthnasol gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Abersoch. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig hwn, gall arwain at gau ysgol yng nghymuned Abersoch, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Sarn Bach yn cynnwys cymuned Abersoch, ble'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.




# Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Abersoch

- Medi 2021

## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD

2. OPSIYNAU

3. EFFAITH UNRHYW NEWID

4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

5. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Mae gan yr ysgol gapasiti o 42 (Meithrin i Flwyddyn 3), ac ym mis Ionawr 2020, roedd ganddi 7 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin. Erbyn heddiw (Medi 2020), mae ganddi 8 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin.

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r Cyngor (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

Bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2021 gan benderfynu cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022. Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 25 Mehefin 2021 gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 23 Gorffennaf 2021 a derbyniwyd 211 o wrthwynebiadau a 2 ddeiseb.

## 2. OPSIYNAU

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r opsiwn Gwneud Dim.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn gallu parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

**Opsiynau pellach a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

***Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau uchod, mae'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.***

## 3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br>Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd yma. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim | Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni ragwelir y byddai effaith pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br>Cynhaliwyd asesiad effaith ieithyddol ar y cynnig yn ogystal. |
| **Anabledd** | Dim | Dan ofynion Polisi'r Cyngor, mae gofyn i ysgolion ddarparu Polisi Gwrth-fwlio, ac felly bydd disgwyl i'r ysgol amgen warchod yn erbyn bwlio ar sail anabledd, ac yn wir, ar unrhyw sail arall. Yn ogystal, mae gan ysgolion Gwynedd Gòd Ymarfer Cludiant.<br><br>Bydd angen i staff yr ysgol amgen ddarparu'r un lefel o ofal a bod yn ymwybodol o holl anghenion y disgyblion. |
| **Rhyw** | Dim | Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith o safbwynt rhyw gan fod pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Dim – lled bositif. | Mae Ysgol Abersoch yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-8 oed. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n golygu fod y disgyblion yn trosglwyddo i ysgol gydag ystod oed o 3 i 11 ar un safle. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai hyn cael effaith negyddol – mae pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Fe nodir yn y polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae Ysgol Abersoch a'r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach yn ysgolion cymunedol – nid yw'r cynnig yn awgrymu newid hyn.<br><br>Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. |
| **Ailbennu Rhywedd** | Dim | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim | - |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim | - |

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgolion a effeithir arnynt i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Rhagwelir y bydd yr ysgol amgen yn parhau i hyrwyddo cyfleodd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Gan fod rhai o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach mae'n deg nodi fod cysylltiad rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes yn bodoli. Serch hynny, gallai cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y berthynas â'r gymuned yn Abersoch ddeillio o weithredu'r cynnig. |

## 4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu'r un polisïau mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon. |

4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu'r un polisïau mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon. |

4.3 Beth ddylid ei wneud?

**Dewiswch un o'r canlynol:**

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

4.4 Os yn parhau â'r cynllun, pa gamau byddwch yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. |

4.5 Monitro – pa gamau byddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu'r gwasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Cyfrifoldeb yr ysgol (a'r Corff Llywodraethol) yw gweithredu'r polisïau cydraddoldeb, a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cymorth a monitro arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth. |

## 5. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn achosi effeithiau negyddol o safbwynt cydraddoldeb. Mae ysgolion cynradd Gwynedd eisoes yn gweithredu polisi Cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig hwn, ac os tynnir sylw at unrhyw effaith yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn ceisio ffyrdd i'w lliniaru gan edrych yn benodol ar unrhyw awgrymiadau a gynhigir yn yr ymatebion.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Dyddiad:** | 21 Hydref 2021 |
| **Teitl:** | YR ECONOMI A CHEFNOGAETH I FUSNESAU |
| **Awdur:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Datblygu Economaidd, Adran Economi a Chymuned |
| **Aelod Cabinet:** | Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Pwrpas:** | Adroddiad ar gais y Pwyllgor Craffu yn amlinellu pa gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei roi i fusnesau yn arbennig yn sgil y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r pandemig COVID-19. |

## 1. Cefndir.

1.1. Mae busnesau lleol yn rhan annatod a chreiddiol o'n cymunedau. Maent yn allweddol o ran cynnig bywoliaeth i bobl Gwynedd a chynnal bwrlwm a naws am le ein trefi a'n pentrefi.

1.2. Yng Ngwynedd mae:

- 16,010 o fentrau (yn cynnwys yr hunangyflogedig), y nifer mwyaf yng Ngogledd Cymru[1]
- 590 o fentrau gweithredol i bob 10,000 o drigolion (cyfartaledd Cymru: 539)[2]
- 43,800 (68%) o'r gweithlu wedi eu cyflogi gan fusnesau[3]

1.3. O ganlyniad i ardrawiad pandemig y coronafeirws a effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd y deunaw mis diwethaf oedd y cyfnod mwyaf heriol mae busnesau lleol wedi' hwynebu ers dros ddeugain mlynedd.

1.4. Addasodd yr Adran Economi a Chymuned, ac Adrannau ledled y Cyngor, eu blaenoriaethau a'u dull gwaith i ddarparu cymorth i fusnesau'r sir. Mae'r angen i gefnogi ein busnesau yn parhau ac mae'r Cyngor yn edrych i sicrhau fod ei ymdrech briodol i'r dasg.

---

1 'Mentrau yn ôl band maint, ardal a blwyddyn' yn 2019 (ffynhonnell: gwefan StatsCymru)
2 'Mentrau Busnes Gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ôl ardal a blwyddyn' yn 2019 (ffynhonnell: gwefan StatsCymru)
3 'Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang' yn 2019 (ffynhonnell: gwefan StatsCymru)

## 2. Adnoddau a blaenoriaethau'r Cyngor cyn y pandemig COVID-19 i gefnogi busnesau.

2.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cyllido dwy swydd i gefnogi busnesau yn uniongyrchol drwy dderbyn ymholiadau, ymgysylltu, darparu cefnogaeth a gweinyddu pecynnau ariannol.

2.2. Mae'r swyddi wedi eu lleoli o fewn Gwasanaeth Datblygu Economaidd yr Adran Economi a Chymuned. Yn Mawrth 2020, roedd 18 o swyddogion o fewn y Gwasanaeth gyda 15 o'r swyddi wedi eu hariannu drwy grant o wahanol ffynonellau (12 ohonynt yn ymwneud â'r maes sgiliau / cefnogi unigolion i waith).

2.3. Mae gweithgaredd y Gwasanaeth Datblygu'r Economi yn rhan o ymdrech ehangach yr Adran i gefnogi'r economi leol; gyda'r Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau a'r Gwasanaeth Adfywio Strategol hefyd yn cyfrannu'n sylweddol i'r ymdrech.

2.4. Y tu hwnt i ddarparu gwasanaeth craidd, blaenoriaethau'r Adran (fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor -Adolygiad 2020/21) oedd:

- *Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru*
- *Creu Swyddi Gwerth Uchel*
- *Arloesi Gwynedd Wledig*
- *Hybu Canol Trefi*
- *Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith*
- *Elwa o Dwristiaeth*
- *Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu*
- *Mwy o Drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith*

2.5. Prif rinweddau'r maes gwaith cefnogi busnesau yn y cyfnod cyn y pandemig oedd:

- Edwino adnoddau a buddsoddiad awdurdodau lleol yn y maes.
- Lleihad yn y cymorth ariannol ar gael i fusnesau, yn arbennig busnesau bach drwy law awdurdodau lleol.
- Darparu gweithgaredd cefnogi busnes unffurf ledled Cymru.
- Pwyslais cynyddol ar gydweithio a chydlynu rhanbarthol gyda rhagdybiaeth mai dyma fyddai'r haen isaf o ddarpariaeth yn y dyfodol.

## 3. Gweithgaredd i gefnogi busnesau yn ystod cyfnodau clo'r pandemig.

3.1. Gyda dyfodiad y pandemig cronafeirws a cychwyn y clo gyntaf, roedd yn amlwg y byddai busnesau lleol yn hwynebu heriau na welwyd eu tebyg ers degawdau.

3.2. Roedd y Cyngor yn effro i'r peryglon yn unionsyth gan ddynodi cefnogi busnesau yn faes blaenoriaeth 1 yn ei ymateb argyfwng. Gyda hyn gwelwyd ymdrech ac adnoddau o fewn yr Adran Economi a Chymuned ac Adrannau eraill – gan gynnwys yr Adran Cyllid a'r Adran Amgylchedd yn fwyaf arbennig – yn cael eu hailgyfeirio i'r perwyl.

3.3. O fewn yr Adran Economi a Chymuned yn unig, erbyn Rhagfyr 2020, roedd ymdrech gyfystyr â 12.5 swyddog wedi ei gyfeirio at y maes cefnogi busnesau (yn gyfuniad o amser gan 16 o swyddogion yn ogystal â'r tîm cefnogi busnes oedd yn ei le yn flaenorol).

3.4. Yn fras, roedd yr ymdrech yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth. Dyma amlinelliad o'r prif weithgaredd o fewn y meysydd:

Sicrhau mynediad busnesau i gyngor a gwybodaeth briodol

3.5. Sefydlwyd tîm dros dro o fewn yr Adran Economi a Chymuned i ymateb i ymholiadau ffôn ac e-bost gan fusnesau. Ar ei anterth, diwedd Ebrill 2020, ymatebwyd i 426 o gysylltiadau unigol o fewn wythnos. Yn y cyfnod 01 Ebrill i 30 Mehefin 2020 delwyd â 3,800 o gysylltiadau gan fusnesau.

3.6. Adolygwyd ac addaswyd cynnwys gwefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/BusnesCOVID19) gan greu a chynnal tudalen benodol i fusnesau yn cynnwys yr holl wybodaeth a chyngor ar sut i ymateb i'r pandemig. Yn ystod wythnosau gyntaf y cyfnod clo roedd dros 19,000 o ymweliadau i'r dudalen.

3.7. Ailgyfeiriwyd adnoddau ac ymdrech y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau i gynyddu gallu'r Cyngor i gyfathrebu gyda busnesau. Yn ogystal â helpu i gynnal arlwy'r wefan a chynyddu swp ac ansawdd presenoldeb y Cyngor i fusnesau ar y cyfryngau cymdeithasol, sefydlwyd trefn o'r newydd ar gyfer ryddhau bwletinau rheolaidd i fusnesau'r sir sydd yn amlygu cyfleoedd ariannu, canllawiau a rheoliadau ac arlwy cefnogi busnes y Cyngor a'n partneriaid . Mae'r bwletinau bellach yn cael eu derbyn gan dros 4,400 o fusnesau ac y mae dros 200 o fwletinau wedi eu rhyddhau ers sefydlu'r drefn.

Darparu cymorth ariannol i alluogi busnesau i barhau a goresgyn

3.8. Darparu cyllid argyfwng ar ran Llywodraeth Cymru i helpu busnesau barhau a goresgyn effeithiau'r pandemig oedd y prif ofyn newydd ar y Cyngor.

3.9. Roedd cyflawni'r gofyn yn destun ymdrech sylweddol gan yr Adran Cyllid ynghyd â'r Adran Economi a Chymuned gyda'r angen i sefydlu systemau a strwythurau o'r newydd ar dros gyfnod byr sawl gwaith yn ystod y cyfnod i gwrdd â'r angen. Roedd y cymorth a ddarparwyd yn cynnwys:

- Cymorthdaliadau i fusnesau'n atebol am drethi busnes
- Cymorthdaliadau i fusnesau nad ydynt yn atebol am drethi busnes
- Cymorthdaliadau i fusnesau newydd
- Cymorthdaliadau i weithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol

3.10. Mae dros 22,000 o daliadau wedi eu gwneud yn uniongyrchol i fusnesau Gwynedd drwy law'r uchod gyda chyfanswm gwerth o £112.1 miliwn.

3.11. Er cymhariaeth, yn 2019/20 darparodd yr Adran Economi a Chymuned cefnogaeth i 250 o fusnesau; yn 2020/21 cefnogwyd 1,550 – cynnydd o 620%.

3.12. Y tu hwnt i'r uchod, fe ddarparwyd cefnogaeth bellach i fusnesau drwy law'r Cyngor ar ffurf:

- rhyddhad trethi busnes drwy law'r Adran Cyllid (cyfwerth ac oddeutu £38.9M);
- cymorth penodol i'r sector gofal plant drwy law'r Adran Plant;
- dosbarthu £82,000 o grantiau i fusnesau lletygarwch yn bennaf i'w galluogi i addasu eu safleoedd er mwyn ail-agor
- seibiant yn hawlio rhent gan fusnesau sy'n meddu unedau gwaith y Cyngor drwy law'r Adran Tai ac Eiddo; a,
- ymgyrch i annog a hyrwyddo pobl Gwynedd i gefnogi eu busnesau lleol.

Cydweithio a chydlynu ymdrechion er budd busnesau Gwynedd

3.13. Yn olaf, bu cryn ymdrech i gydweithio a chydlynu'r ymdrechion i gefnogi busnesau yn sirol ac yn rhanbarthol.

3.14. Yn fuan wedi cychwyn y pandemig sefydlwyd strwythur o fewn y Cyngor i hwyluso'r dasg. Sefydlwyd tasglu rhyngadrannol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Adrannau Economi a Chymuned, Cyllid, Amgylchedd, Tai ac Eiddo a Cefnogaeth Corfforaethol. Dynodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned yn Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y maes a sefydlwyd rhaglen waith clir ynghyd ac asesiad risg i adnabod yr anghenion a chofnodi ein hymateb.

3.15. Roed y tasglu cefnogi busnesau yn ei dro yn adrodd i'r Bwrdd Adfywio oedd yn cydlynu'r ymdrech ehangach gan sicrhau fod y gefnogaeth i fusnesau yn gweddu gydag ymdrechion eraill y Cyngor, gan gynnwys,

cefnogi canol trefi i addasu ac, yn ddiweddarach, rheoli'r pwysau yn deillio o'r nifer ymwelwyr. Mae'r Bwrdd Adfywio yn cynnwys Penaethiaid Adrannau perthnasol a'r Prif Weithredwr ynghyd â nifer o Aelodau'r Cabinet gan gynnwys Yr Arweinydd.

3.16. Drwy gydol cyfnod cychwynnol y pandemig roedd y Cyngor hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr y gymuned fusnes gan gynnwys; Rhwydwaith Busnes Gwynedd, y Ffederasiwn Busnesau Bychain, Cymdeithasau Twristiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r Undebau amaeth. Roedd y cyfarfodydd yn ddull o dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag anghenion a phryderon ein busnesau ynghyd â rhaeadru gwybodaeth ynglŷn â gweithgaredd y Cyngor.

3.17. Yn rhanbarthol, ar gyfer cyfnod cychwynnol yr ymateb economaidd i'r pandemig o dan adain Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sefydlwyd cyfundrefn o gyfarfodydd wythnosol i ddod a prif swyddogion ynghyd i rannu gwybodaeth a chydlynu ymdrechion.

## 4. Gweithgaredd i gefnogi busnesau addasu yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

4.1. Gyda'r DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd yn swyddogol ar 31 Ionawr 2020, roedd gweithgaredd i geisio paratoi busnesau Gwynedd ar gyfer yr effeithiau gadael ar waith gan y Cyngor cyn dyfodiad pandemig y coronafeirws.

4.2. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ansicrwydd ynglŷn â gwir oblygiadau'r newid drwy gydol y cyfnod potio hyd at Ragfyr 2020 - ynghyd â dyfodiad argyfwng y pandemig - amharwyd ein hymdrechion yn sylweddol.

4.3. Er hyn, mae ymdrech barhaus wedi ei gynnal gan y Cyngor i raeadru gwybodaeth a hyrwyddo unrhyw gymorth sydd ar gael i fusnesau lleol. Cyflawnwyd hyn drwy:

- Sefydlu tudalen benodol ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/Brexit) i hwyluso mynediad busnesau lleol i wybodaeth berthnasol.
- Cyfeirio busnesau i wybodaeth, canllawiau a chymorth drwy law ein bwletinau rheolaidd a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Sefydlu Siop Gwynedd Caernarfon yn ganolfan gofrestredig ar weithwyr o'r Undeb Ewropeaidd gyflwyno dogfennau i gefnogi eu ceisiadau i barhau i fyw yn y DU
- Dylanwadau a hyrwyddo buddiannau busnesau Gwynedd wrth i gyfundrefnau newydd gael eu datblygu o fewn meysydd megis cymorthdaliadau i amaethwyr ac arian i'r dyfodol i gefnogi datblygu'r economi.

## 5. Blaenoriaethau'r Cyngor i gefnogi busnesau i adfer a datblygu.

5.1. Mae'n parhau'n gyfnod hynod ansicr i fusnesau a'r economi. Mae'r ymdrechion hyd yma i gefnogi ein busnesau wedi bod yn sylweddol, ond nid yw tystiolaeth ystadegol ynglŷn â pherfformiad yr economi leol yn 2020 a 2021ar gael hyd yma i alluogi dadansoddiad cymharol o berfformiad Gwynedd.

5.2. Roedd cyfnod prysur yr haf wedi bod yn gymorth i ystod eang o fusnesau'r sir yn arbennig yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth ond mae ansicrwydd a fydd yn ddigonol i gynnal mentrau drwy gydol y gaeaf ac mae'r haf hefyd wedi amlygu sawl her.

5.3. Y prif heriau a adroddir gan fusnesau yw:

- Diffyg argaeledd gweithwyr
- Heriau yn sicrhau cyflenwad nwyddau
- Cynnydd yng nghostau cyflenwadau a gorbenion
- Llif arian dros gyfnod y gaeaf
- Mynediad i gyllid i ddatblygu ac ehangu

5.4. Mae'r cyfnod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gweithredu'n lleol i gefnogi busnesau gan ysgogi gwerthfawrogiad o'r angen i gynnal a datblygu gallu awdurdodau lleol i weithredu yn y maes.

5.5. Mewn ymateb mae'r Adran Economi a Chymuned yn edrych i ail-flaenoriaethu a sefydlogi'r ddarpariaeth cefnogi busnes y Cyngor drwy:

- Prif-ffrydio ein hymdrechion i rannu gwybodaeth a chyfathrebu gyda busnesau ynghyd a chynyddu ein capasiti i ymgysylltu yn gyson gyda'r gymuned fusnes. I'r perwyl mae cais wedi ei gyflwyno drwy'r gyfundrefn bidiau corfforaethol i gynnal un swydd ac i greu swydd ychwanegol i gynyddu ein capasiti.
- Addasu ein hymdrechion o fewn y cynlluniau strategol Swyddi Gwerth Uwch ac Arloesi Gwynedd Wledig i sicrhau fod cefnogaeth i gynnal busnesau presennol ochr yn ochr â chefnogi busnesau i sefydlu a thyfu. Eto, mae cais wedi ei gyflwyno i gynnal dwy swydd i sicrhau ein gallu i gyflawni o fewn y meysydd hyn.
- Adeiladu ar yr arfer da o gydweithio ar draws Adrannau'r Cyngor i gefnogi busnesau.
- Gydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill i sicrhau adnoddau pellach i gefnogi busnesau i addasu a datblygu.
- Parhau i weithio gyda siroedd y Gogledd i wireddu cynlluniau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac i ddarparu cefnogaeth busnes ar y cyd sy'n ychwanegu gwerth i'r ddarpariaeth leol

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **21 Hydref 2021** |
| **TEITL YR EITEM** | Gagendor Lles a chyrhaeddiad, gan gynnwys:<br>• effaith covid ar addysg ein holl ddisgyblion<br>• pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant ein holl ddisgyblion |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Cemlyn Williams** |

**1. Strategaeth Adnewyddu a Diwygio: Cefnogi Lles a Chynnydd Dysgwyr (GwE)**

1.1. Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno adroddiad i'r aelodau graffu ar y canlynol:

- Strategaeth Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr;
- Ymweliadau gwaelodlin tymor yr Hydref i ddal cynnydd ac effaith;
- Gweithredu ac effaith rhaglen cyflymu'r dysgu.

1.2. Cefndir

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ddeunaw mis yn ôl. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd mwy arloesol o weithio.

1.3. Ystyriaethau

Gweler ynghlwm *'Strategaeth Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'* (Atodiad 1), sy'n gosod allan gyfeiriad strategol ein gwaith am y cyfnod nesaf. Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod y themâu a ganlyn i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n UauCD.

- Y Daith Ddiwygio / Gwireddu Cwricwlwm
- Ailgydio mewn dysgu (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau)
- Strategaeth i gefnogi rhieni / gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu
- Lles dysgwyr a lles ysgol gyfan
- Lles y gweithlu (GwE ac ysgolion)
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Y Gymraeg
- Datblygu Arweinyddiaeth
- Digidol
- Dysgu Proffesiynol

1.4. Yn ogystal, amlinellir sut y byddwn yn esblygu'r model rhanbarthol, y datblygiadau o ran y cynllun partneriaeth ysgolion, adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol, ynghyd â'r strwythurau a'r prosesau fydd ar waith i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion i ddatblygu system atebolrwydd gadarn, system sydd gan ran-ddeiliaid allweddol ffydd ynddi ac sydd yn dal bob partner yn gwbl atebol am ei rôl yn datblygu ein dysgwyr. Amlinellir y disgwyliadau system yng ngogledd Cymru yn glir a'r hyn rydym yn anelu i'w gyflawni erbyn mis Medi 2024.

Amlinellir yn Atodiad 2 grynodeb yn amlygu bwriadau tymor yr Hydref i gynnal ymweliadau gwaelodlin i ddal cynnydd ac effaith. Mae templed cofnodi'r ymweliad wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

Ceir crynodeb yn amlygu gweithredu ac effaith rhaglen cyflymu'r dysgu yn Atodiad 4.

1.5. Ymgynghori sydd wedi digwydd
Cynhaliwyd cyfarfod i rannu'r strategaeth gyda holl benaethiaid y rhanbarth. Ymgynghorwyd ymhellach â'r Fforymau Strategol Penaethiaid rhanbarthol, cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, y Tîm Llawn, y Bwrdd Rheoli a Chyd-bwyllgor GwE.

1.6. Atodiadau
Atodiad 1 - Strategaeth Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr
Atodiad 2 - Crynodeb yn amlygu bwriadau tymor yr Hydref i gynnal ymweliadau gwaelodlin i ddal cynnydd ac effaith
Atodiad 3 – Templed cofnodi ymweliad
Atodiad 4 - Crynodeb yn amlygu gweithredu ac effaith rhaglen cyflymu'r dysgu

## 2. STRATEGAETH ADDYSG DDIGIDOL

2.1. Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

2.2. Yn ystod cyfnod lle'r oedd nifer sylweddol o ddysgwyr adref, bu i ni ail bwrpasu dros 2500 o ddyfeisiadau Chromebook ar gyfer ei defnyddio o'r cartref. Yn ogystal bu i ni rannu 175 o ddyfeisiadau MiFi a oedd yn sicrhau mynediad i'r wê. Ni fu i ni brynu dyfeisiadau'n un swydd gwaith i ddiwallu'r angen o ddysgu o gartref gan y gallasai hyn ein dargyfeirio oddi wrth ein strategaeth. Bu i ddysgwyr o'r sectorau cynradd ac uwchradd fanteisio ar y cyfarpar a'r stoc o ddyfeisiadau a oedd eisoes yn ein hysgolion.

2.3. Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni ar ein strategaeth, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o ipads wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o Chromebooks wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi

yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

2.4. Dyma ddywed adroddiad thematig Estyn am waith yr Awdurdod ym maes dysgu digidol:
Cameo: Dysgu digidol fel etifeddiaeth o'r pandemig

*Mae'r awdurdod wedi cyflymu ei gynllun strategol i ddarparu gliniadur i bob disgybl ym mlynyddoedd 5-11, gyda'r dyraniad cyntaf i'w dosbarthu yn y gwanwyn ar gyfer y rhai yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r strategaeth hon yn cynnwys darparu gliniadur gwaith newydd i bob athro er mwyn hwyluso dysgu digidol. O ganlyniad, mae ysgolion yn gallu cynllunio ar gyfer dyfodol lle mae gan ddysgwyr fwy o fynediad at TGCh, gan sicrhau felly fod medrau digidol newydd a ddysgwyd yn ystod y cyfnodau clo wedi'u gwreiddio yn yr addysgu a'r dysgu at y dyfodol.*

2.5. Bellach mae'r dyfeisiadau y bu i ni ei ail bwrpasu a'u benthyg wedi eu dychwelyd i'r ysgolion. Mae'r gyfradd o ddyfais i blentyn yn y sector gynradd yn agos i uchelgais y strategaeth a phe byddai angen symud i ddysgu cyfunol fe fyddai'r adnoddau ar gael iddynt. Er ein bod wedi cychwyn ar y gwaith o baratoi'r dyfeisiadau uwchradd nid ydynt hyd yma wedi eu rhannu a'r disgyblion. Mae'r gwersi yn dilyn cyfnod y pandemig wedi ei dysgu ac mae'r arferion da'n parhau.

## 3. ADYaCh

3.1. *Mae'r cyfnodau clo ers Mawrth 2020 wedi creu heriau sylweddol i blant a phobl ifanc, ac i'r holl weithlu addysg. Mae ein hystyriaeth o blant a phobl ifanc gydag anghenion wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn.*

Mae'r Gwasanaeth ADY a Ch wedi adolygu'r model darparu mewn cyfnod byr iawn i ymateb i hyn dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf. Llaw yn llaw gyda'r cyfnod hwn mae'r ddyletswydd statudol i ddarparu yn unol â Deddf AAA (2002) wedi parhau, a'r gwaith trawsnewid ar gyfer y Ddeddfwriaeth newydd hefyd wedi parhau. Bu hefyd gydweithio cyson rhwng y Gwasanaeth ADY a Ch a Gwasanaethau Plant ac Asiantaethau Iechyd er mwyn cael cydlynedd gyda'r gwaith hwn. Bu i'r wefan dderbyn nifer uchel o drawiadau ('hits') yn ystod y cyfnod clo - Cynifer a 130,700 trawiad ym mis Ebrill 2020 o'i gymharu gyda oddeutu 10,000 cyn y cyfnod.

Mae'r modelau isod yn crynhoi'r ddarpariaeth sydd wedi ei gynnal yn ystod cyfnod clo 2020/2021:

Darpariaeth Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn 2020/21:




Mae ystod o hyfforddiant wedi ei gyflwyno gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol cyn (eisoes ar waith cyn y pandemig), yn ystod, ac ar ôl ar gyfer datblygu ymyraethau sydd yn cefnogi dysgwyr gyda datblygiad llesiant a Iechyd meddwl (e.e. ELSA, Tyfu Trwy'r Tymhorau, Meddwlgarwch). Mae hyn yn rhan o ddatblygu strategaethau ysgol gyfan ar gyfer Llesiant a Iechyd Meddwl positif. Rydym yn cydweithio gyda'r Cynllun Ysgolion Iach a gwasanaeth CAMHS er mwyn cydlynu yn strategol. Rydym hefyd yn gwneud defnydd o grantiau er mwyn ymestyn argaeledd Cwnsela Ysgol. Mae hyn yn ymateb i argymhelliad Estyn o fewn yr Adroddiad Thematig Mehefin 2021 o fod yn 'Sefydlu strategaethau i fonitro ac i fynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion'.

Mae cyfeiriadau Ysgolion am fewnbwn gyda sgiliau Cyfathrebu a Rhyngweithio wedi cynyddu, ac rydym yn targedu grantiau tuag at y maes hwn, yn ogystal â datblygu dull Meini Prawf newydd sydd hefyd yn rhoi arweiniad i Ysgolion ynglŷn a datblygu sgiliau yn y maes hwn. Mae cydweithio agos gyda'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd o fewn Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Mae'r gwaith Datrys anghydfod darpariaeth statudol gyda rhieni yn ystod y cyfnod clo wedi sicrhau nad oes apêl Tribiwnlys AAA wedi mynd ymlaen yn ystod y cyfnod er gwaethaf risgiau o gwmpas hyn.

## 4. ASTUDIAETHAU ACHOS

Er mwyn ceisio dod a'r profiad yn fyw i chi o'r modd y mae ysgolion wedi ac yn parhau i ymateb i'r pandemig tra'n parhau i ddarparu addysg a sicrhau lles y dysgwyr, dyma gyflwyno tri astudiaeth achos i chi gan dair ysgol yng Ngwynedd, sef:

- Ysgol Cefn Coch a Thalsarnau
- Ysgol Botwnnog
- Ysgol Pendalar

Byddwn yn ymhelaethu ymhellach ar brofiadau'r ac ymdrechion yr ysgolion hyn yn y pwyllgor ei hun.

**4.1 Ysgol Cefn Coch a Talsarnau**

*Mae Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau wedi bod yn cydweithio bellach ers dros bedair blynedd. Ysgol fechan llai na 50 o blant yw Ysgol Talsarnau oddeutu tair milltir oddi wrth Ysgol Cefn Coch ym Mhenrhyndeudraeth sydd hefo 170 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ddwy ysgol yn rhannu un pennaeth strategol ac mae gan y naill a'r llall bennaeth cynorthwyol sydd yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i lywio cyfeiriad strategol yr ysgolion ac mae staff y ddwy ysgol yn cyfarfod ar y cyd yn wythnosol i drafod cynlluniau cwricwlaidd ymysg agweddau rheolaethol eraill. Erbyn dechrau'r cyfnod clo roedd sylfeini'r cydweithio wedi eu sefydlu'n gadarn a hyn o fantais i ran-ddeiliaid y ddwy ysgol fel ei gilydd. Roedd yr Uwch Dîm yn gryfach efo dau bennaeth cynorthwyol i ysgwyddo'r cyfrifoldebau efo'r pennaeth strategol wrth wneud penderfyniadau anodd. Yn yr un modd roedd staff y ddwy ysgol yn gallu cefnogi a chynnal ei gilydd o ran yr addysgu yn ogystal ac agweddau llesiant staff.*

*Roedd hwn yn gyfnod digynsail a staff yn gorfod ymgyfarwyddo efo dulliau a thechnegau newydd o addysgu ar lwyfannau digidol a hynny dros nos yn llythrennol. Yn ffodus roedd gennym arbenigwyr ym maes Technoleg Gwybodaeth oedd yn gallu arwain staff y ddwy ysgol i ateb y gofyn. Golygai hyn nad oedd neb yn teimlo'n ynysig ar ei ben ei hun. Yn ogystal roeddynt yn rhannu'r gwaith paratoi a chreu adnoddau digidol oedd yn lleihau baich gwaith. Roeddem hefyd yn gwneud defnydd o'r adnoddau digidol oedd ar gael rhwng y ddwy ysgol i'w rhannu i'r plant oedd eu hangen. Roedd hwn yn ddatblygiad proffesiynol i'r holl staff. Byddai wedi bod yn sefyllfa bur wahanol a llawer mwy heriol i'r ysgol leiaf petai ar ei phen ei hun.*

*Mantais arall o gydweithio oedd ail bwrpasu a darparu clwb gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol. Trefnwyd un ganolfan ar gyfer y ddwy ysgol. Unwaith eto roedd hyn yn lleihau'r baich gwaith ac yn cynyddu nifer capasiti staff oedd ar gael i oruchwylio.*

*Elfen arall o gydweithio a gryfhawyd yn ystod y clo oedd cydweithio clwstwr a hynny dan arweiniad Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE. Trefnwyd cyfarfodydd wythnosol i sicrhau ein bod i gyd fel arweinyddion yn hyderus yn ein penderfyniadau. Yn yr un modd roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu gan yr Awdurdod Addysg i drafod heriau a datrysiadau. Darparwyd templedi o Asesiadau Risg oedd yn cael eu haddasu a'u diweddaru'n rheolaidd fel roedd y sefyllfa'n newid ac roedd hyn yn gaffaeliad mawr. Roedd yr ymdeimlad o undod ar draws yr Awdurdod a'r gefnogaeth a'r arweiniad yn gadarn a chlir. Mae'n braf nodi bod y gefnogaeth o du'r Awdurdod a GwE yn parhau felly heddiw a hynny yn sicr yn ein rhoi mewn sefyllfa gadarn i wynebu heriau'r cyfnod presennol.*

*Rhys Glyn, Pennaeth Ysgol Cefn Coch*

**4.2 Ysgol Botwnnog**

*Does dim amheuaeth fod effaith y pandemig yn bellgyrhaeddol ar gymdeithas drwyddi draw, ac yn sicr felly ar bobl ifanc ac ysgolion. Bu cau'r ysgolion ar fyr rybudd ar gyfer y clo cyntaf yn her ddigynsail i ysgolion wrth droi at ddulliau 'newydd' o weithredu – ac ymatebwyd i hynny yn sydyn ac yn effeithiol. Nid yn unig ar addysg y cafwyd effaith ond ar les ehangach y disgyblion wrth iddynt golli'r cyswllt wyneb-i-wyneb dyddiol gyda'u cyfoedion a staff yr ysgol. Bu raid i ysgolion sicrhau parhad addysg i ddisgyblion yn ogystal â chynnig cefnogaeth bellach i'r rhai hynny oedd ei angen.*

*Wrth ddychwelyd i'r ysgol ac at ddysgu 'arferol' rydym yn parhau i wynebu heriau lu ac yn cydweithio mwy nac erioed gydag asiantaethau eraill i gefnogi ein disgyblion wrth anelu at addysg mor 'normal' â phosibl.*

*Mae'r cyfnod nesaf yn un hynod bwysig i bob rhan o'n cymdeithas. Rydym yn awyddus i gael cymaint o ddisgyblion â phosibl yn yr ysgol er mwyn sicrhau'r gorau iddynt yn academaidd ac yn emosiynol. I'r perwyl yma, mae'n hanfodol fod y gefnogaeth i ysgolion a'r gwasanaethau eraill sydd yn cydweithio â ni i ymateb i anghenion ein pobl ifanc yn parhau i gael ei ddatblygu am flynyddoedd i ddod.*

*Dylan Minnice, Pennaeth Ysgol Botwnnog*

**4.3 Ysgol Pendalar**

***Cefndir***

*Mae Ysgol Pendalar, Caernarfon yn ysgol ddydd arbennig, ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 mlwydd oed. Mae ganddynt sbectrwm eang o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau corfforol a meddygol ac anhwylderau'r sbectrwm awtisig.*

***Rhwystrau'r Pandemig***

*Ym mis Mawrth 2020, roedd Estyn wedi trefnu i arolygu'r ysgol ond gohiriwyd hyn ar y funud olaf oherwydd cychwyn y cyfnod clo. Yn yr arolwg blaenorol ym mis Mai 2013, roedd 87 disgybl ar y gofrestr, ond erbyn heddiw mae yna 117 o ddisgyblion ac mae'r ysgol yn orlawn.*

*Mae llwyddo i ofalu am les plant a phobl ifanc yn anodd pan mae disgyblion dwys yn gorfod disgwyl eu tro am ofal personol am nad oes digon o ardaloedd toiledu na hoists ar gael. Mae'r diffyg cyfleusterau yn effeithio staff hefyd gyda llawer ohonynt yn eistedd yn eu ceir i fwyta'i cinio.*

*Mae llai o gefnogaeth ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd tu allan i'r ysgol oherwydd fod gwasanaethau 'iechyd a gofal cymdeithasol' yn dilyn canllawiau gweithredu gwahanol i'r ysgol arbennig.*

*Mae cynnydd wedi bod mewn lefelau dwysder anghenion disgyblion, ac efallai bod effaith y pandemig wedi ategu at hyn.*

***Effaith straen ar staff a gweithrediad yr ysgol***

*Mae cynnal lefelau staffio priodol yn her ddyddiol a hynny'n waeth yn yr ysgol arbennig yn dilyn y diweddariad canllawiau ddaeth i rym 11ed Hydref 2021.*

*Mae'r diffyg yn y lefelau staffio yn ei gwneud yn anodd iawn rhyddhau staff i bwrpas cynllunio a gweithredu newidiadau i'r trawsnewid ADY a Chwricwlwm i Gymru.*

*Mae amser prosesu gwiriadau DBS yn creu oediad cyn i staff newydd gychwyn a hyn yn ychwanegu straen at sefyllfa staffio'r ysgol.*

***Llwyddiannau***

*Cymorth uwch swyddogion Adran Addysg y Cyngor i wneud synnwyr o ddiweddariadau parhaus mewn canllawiau.*

*Y swyddog addysg mewn cyswllt rheolaidd gyda'r ysgol, yn glust ac yn gymorth i'r pennaeth gyda phenderfyniadau anodd sydd angen eu cyfiawnhau.*

*Mae GwE wedi parhau i gefnogi'r ysgol drwy ddarparu adnoddau e.e. CDY a chymorth gyda darparu ar gyfer y cwricwlwm. Hefyd mae GwE yn cydnabod fod cynllunio i weithredu'r newidiadau hyn yn anodd iawn i ysgolion ar hyn o bryd.*

*Mae gweithgarwch lles wedi bod yn flaenoriaeth ers cychwyn y pandemig, a'r ysgol wedi derbyn achrediad cenedlaethol 'Gwobr Lles i Ysgolion Arbennig' ym mis Gorffennaf.*

*Mae defnyddio app i gyfathrebu efo rhieni wedi bod yn allweddol i gynyddu'r sgwrs am barhau i ddysgu.*

*Mae sawl cynllun gyda phartneriaid allanol wedi cynyddu cyfleoedd lles a dysgu ym myd natur, ac mae Ysgol Pendalar yn cyfrannu at dargedau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.*

**Bethan Morris-Jones, Pennaeth Ysgol Pendalar**

## 5. GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD

Mae'r Gagendor Lles a Chyrhaeddiad wedi ei adnabod fel un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021-22, gyda ffocws ar ddau faes yn benodol, sef:

- Blynyddoedd Cynnar
- Ôl-16

5.1. Blynyddoedd Cynnar

Yn sicr, mae'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saernïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. O ganlyniad, rydym yn bwriadu cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes fydd ag anghenion Gwynedd yn ganolog iddo, gan ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r holl ran-ddeiliaid allweddol yn ystod y misoedd nesaf.

Mae maes 'Y Blynyddoedd Cynnar' yn pontio darpariaethau Addysg, Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Chwarae ac Iechyd. O ganlyniad mae nifer fawr o bartneriaid yn y maes hwn a cheir mwy nag un asiantaeth yn cynnig gweithdrefnau a chynlluniau gwahanol yma yng Ngwynedd.

Mae peth dyletswyddau statudol yn perthyn i'r Cyngor yn y maes e.e. Deddf Addysg (Canllaw Statudol Darpariaeth y Cyfnod Sylfaen), Deddf Gofal Plant, Mesur Plant a Theuluoedd; ac elfennau eraill yn eistedd gyda'r Bwrdd Iechyd (Rhaglen Plant Iach Cymru) a phartneriaid eraill (Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair, Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar ayb). Mae nifer fawr o

wasanaethau a darpariaethau yn y maes yn cael eu cefnogi a'u cydlynu gan gyrff cenedlaethol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru ac mae hyn ar adegau yn golygu nad ydy pawb yn tynnu i'r un cyfeiriad ac yn rhoi teuluoedd ac anghenion Gwynedd yn ganolog.

Mae effaith y pandemig yn ychwanegu at y cymhlethdodau sy'n wynebu teuluoedd sydd eisiau mynediad rhwydd i wasanaethau, ac i atebion syml i'w cwestiynau a'i ymholiadau, ac mae hyn yn peri cymhlethdod a heriau ar lefel strategol.

Yr ydym yn mynd i edrych ar gynnal asesiad digonolrwydd ein darpariaeth ar hyd a lled Gwynedd gan amlygu ardaloedd heb fynediad ar hyn o bryd. Yn ogystal byddwn yn edrych yn fanwl ar fodelau ariannu cynaliadwy, lleoliadau hwylus ac opsiynau amgen i ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig.

5.2. Ôl-16

Yn ystod y pandemig mae pryder fod y grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. I geisio deall y sefyllfa yn well rydym wrthi'n ceisio casglu'r holl dystiolaeth ynghyd i geisio cael gwir ddarlun o'r sefyllfa. Y bwriad wedyn ydy bod grŵp traws-adrannol sy'n eistedd o fewn y Cyngor ac sydd wedi bod yn cyfarfod i drafod y maes yma yn y gorffennol yn cymryd gofal o'r rhaglen waith a all fod yn deillio o ddarganfyddiadau y gwaith ymchwil.

## 6. ARGYMHELLION

6.1. Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni mewn ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad.

## STRATEGAETH ADNEWYDDU A DIWYGIO: CEFNOGI LLES A CHYNNYDD DYSGWYR

**CYD-DESTUN**

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda ddiwygio.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ddeunaw mis yn ôl. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn gallu dysgu yn effeithiol. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ystyrlon yn eu dysgu. Mae rhoi ffocws ar ddilyniant yn flaengar, gan bwysleisio'r hyn sydd ar ddysgwyr ei angen i gyflawni'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae hyn yn osgoi model ar sail diffyg, sy'n canolbwyntio ar 'ddal i fyny'. Mae trefniadau asesu priodol yn sail i'r dilyniant hwn, gan ein helpu i adnabod, gweld a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu asesu ffurfiannol a chrynodol wrth iddynt gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen efo'u cynlluniau presennol i weithredu'r cwricwlwm newydd efo blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn parhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Y tu hwnt i 2023, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru fesul blwyddyn, a dyfernir y cymwysterau cyntaf sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn academaidd 2026-27, fel y bwriadwyd. Bydd diwygio cymwysterau yn chwarae rhan greiddiol yn llwyddiant y cwricwlwm, a bydd GwE yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru dros y flwyddyn nesaf i helpu i siapio set o gymwysterau o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd ag athroniaeth y cwricwlwm newydd.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn credu'n gryf ei bod yn hynod bwysig bod arweinwyr a staff ym mhob sefydliad yn cael eu hannog a'u cefnogi i greu partneriaethau cryf ac effeithiol o fewn ac ar draws y system addysg. Mae ein dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio clwstwr/cynghrair i weithredu ar feysydd diwygio gweddnewidiol allweddol, megis datblygu'r cwricwlwm, ADY a'r Gymraeg. Fe'i defnyddiwyd yn effeithiol hefyd i rannu adnoddau ac arferion effeithiol yn ystod pandemig COVID-19. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i barhau â'r gwaith hwn ac i ddatblygu a gwreiddio rhaglenni partneriaeth strwythuredig a threfnus, seiliedig ar dystiolaeth. Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion ac UauCD i sicrhau bod ymgysylltu â chymheiriaid a chydweithio yn greiddiol wrth i ni fynd ati i ddatblygu system hunan wella gadarn, gynaliadwy ac effeithiol.

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth y Gweinidog, fel yr amlinellir yn ' *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026',* sef creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth efo'r chwe Awdurdod Lleol i sicrhau bod ysgolion ac UauCD wedi'u cefnogi'n llawn i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'r dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r ddogfen *'Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022 ',* sy'n nodi'r disgwyliadau ar ysgolion i ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd GwE yn cefnogi rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm o'r hydref ymlaen. Bydd ysgolion y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol i ddatblygu arferion effeithiol i ddatgloi potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a datblygu dylunio ac asesu cwricwlwm ysgol gyfan.

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol. Bydd pob ysgol a nodir yn ysgol sy'n destun pryder yn cael cynllun cefnogaeth 360 cyfannol yn nodi'n glir natur a dwyster y cymorth a roddir naill ai gan GwE neu'r gwasanaeth Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu. Amlinellir y broses hon yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng bob Awdurdod Lleol a'i

ysgolion. Bydd pob ysgol sy'n destun pryder yn rhan o weithio clwstwr/cynghrair a fydd hefyd yn cyfrannu tuag at eu taith wella.

Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, Estyn a Cymwysterau Cymru i ddylanwadu ar bolisi, Fframwaith newydd Estyn a diwygio cymwysterau i sicrhau ein bod yn cyfrannu at weithredu blaenoriaethau'r Gweinidog.

**THEMÂU**

Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod y themâu canlynol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n UauCD.

**Y Daith Ddiwygio / Gwireddu Cwricwlwm**

- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.
- Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol
- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol ac ymchwil weithredu.
- Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth ysgolion o egwyddorion allweddol y canllawiau asesu newydd.
- Sicrhau cymorth i ysgolion mewn perthynas â Dylunio'r Cwricwlwm ysgol gyfan ac o fewn MDaPh.

**Ailgydio mewn dysgu (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau) [RRRS]**

- Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lleihau effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad disgyblion yn eu darllen a'u hysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.
- Strategaeth addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd i helpu disgyblion i wella'u rhuglder a'u cynnydd mewn mathemateg.
- Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgolion a rhieni fel bod modd defnyddio'r ymyraethau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant.
- Parhau i ddatblygu a chynhyrchu cyfres o ddeunyddiau cymorth cyffredinol ar gyfer rhifedd a llythrennedd uwchradd

**Strategaeth i gefnogi rhieni / gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu**

- Datblygu pecyn cyfannol sydd yn cefnogi ac yn helpu rhieni a gofalwyr i drawsffurfio eu dealltwriaeth o'r dysgu, a'r hyn gallant ei wneud i helpu eu plentyn.
- Datblygu cwrs cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n rhoi iddynt yr holl adnoddau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i helpu eu plant i ddysgu gartref.
- Rhoi canllawiau ysgrifenedig sydd yn cynnwys strategaethau a thechnegau y gall rhieni / gofalwyr eu defnyddio i gefnogi eu plentyn i ddysgu.
- Darparu strategaethau, gweithgareddau a thechnegau ymarferol y gall rhieni a gofalwyr eu defnyddio i helpu eu plant i ddysgu

- Datblygu ac addasu adnoddau yn briodol i fodloni anghenion grwpiau penodol o rieni a gofalwyr.
- Adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau presennol yn llwyr gefnogi a bodloni anghenion lleol a rhanbarthol yn effeithiol.

**Lles dysgwyr a lles ysgol gyfan**

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion ar adnabod, cefnogi ac ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghymesur arnynt.
- Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.
- Datblygu dull llesiant ysgol gyfan, gan hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus yng Nghymru'.
- Cyd-greu adnoddau llesiant ysgol gyfan efo ysgolion ar draws y rhanbarth

**Lles y gweithlu (GwE ac ysgolion)**

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Cynnal lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun ei rôl broffesiynol
- Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.
- Defnyddio fframwaith hyfforddi (*coaching*) mewn sgyrsiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd i ddatgloi potensial ac annog unigolion i ddatblygu.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:

- Cefnogi'r broses o adolygu ansawdd darpariaeth ADY
- Datblygu cynnig dysgu proffesiynol sy'n bodloni anghenion y gweithlu.
- Parhau i gefnogi clystyrau i ddatblygu cynlluniau arloesol i gyflawni nodau trawsnewid ADY.
- Parhau i gefnogi gyda darparu'r rhaglen gymorth a hyfforddiant i ysgolion

**Y Gymraeg**

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol byddwn yn gweithredu *'Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026'* Llywodraeth Cymru:

- Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg trwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.
- Darparu cynnig proffesiynol ar gyfer yr Iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth.
- Cynnig dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf i wella sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg.

- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pob Awdurdod Lleol gyda'i flaenoriaethau CSCA.

**Datblygu arweinyddiaeth**

- Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arferion a chydweithio ar bob lefel er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.
- Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
- Parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i ddatblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol:
    - Arweinwyr Canol
    - Uwch Arweinwyr
    - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)
    - Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro
    - Penaethiaid Profiadol

**Digidol**


- Sicrhau bod dealltwriaeth ysgolion y rhanbarth o gadernid digidol yn gyfredol, a bod dysgu ac addysgu am faterion diogelwch digidol yn bwrpasol ac yn effeithiol.
- Datblygu arweinyddiaeth ddigidol effeithiol yn ysgolion y rhanbarth i gryfhau dulliau strategol o gynllunio gwelliant, rheoli newid a monitro effaith.
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i holl staff ysgolion i'w hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb, a sut i ddefnyddio'r adnoddau yn effeithiol i wella ansawdd y dysgu.

**Dysgu Proffesiynol**

- Darparu dysgu proffesiynol, cymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd.
- Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau, sy’n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora.

**ESBLYGU'R MODEL RHANBARTHOL**


Mae rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn dal i esblygu wrth i ni barhau i fodloni anghenion a disgwyliadau ein holl randdeiliaid. Bydd ein dull gweithredu yn cefnogi lles a chynnydd dysgwyr drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y system er mwyn galluogi adnewyddu a diwygio. Gyda'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn, bydd ymgynghorwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi Llywodraeth Cymru i adnewyddu addysg ar ôl y pandemig a sicrhau bod y daith ddiwygio yn aros ar drac.




Yn sail i'r ddwy agwedd graidd ar ein gwaith wrth symud ymlaen, sef y daith ddiwygio a gwella ysgol, y mae pum maes gwaith:

- Cydweithredu
- Data Cyfoethog i lywio Hunan Arfarnu
- Cymorth Dwys pan fydd angen
- Dysgu Proffesiynol
- Cyfathrebu

Bydd Swyddogaeth Graidd y gwaith yn cynnwys dull partneriaeth rhanbarthol, gydag ysgolion yn cydweithio ac ysgolion yn gweithio'n unigol. Rhydd hyn hyblygrwydd lleol o ran y model darparu.



Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fodloni gofynion a disgwyliadau rhanddeiliaid, bydd angen i'n model partneriaeth ysgol esblygu ymhellach. Gydag ysgolion, clystyrau a chynghreiriau ar wahanol bwyntiau ar y continwwm hunan wella, bydd angen defnyddio dull fwy gofalus.

Y prif ffocws yw galluogi ysgolion i wella trwy ddatblygu system hunan wella o safon uchel, sy'n sicrhau'r gorau i bob plentyn.

Bydd y trefniadau ar bob lefel yn drylwyr, cadarn a chydlynol. Yn sail i'r trefniadau hyn y mae'r egwyddor o annog a chefnogi ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gymryd perchenogaeth ac atebolrwydd cynyddol am eu taith wella.

Byddwn yn sicrhau bod y dull rhanbarthol ar gyfer partneriaeth ysgol yn:

- Deg: ble byddwn yn hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, a byth yn colli golwg ar y dysgwr.
- Cydlynol: ble bydd ysgolion a GwE yn gweithio gyda'i gilydd gyda dyletswyddau craidd, rolau a disgwyliadau a bennir yn lleol.
- Cymesur: ble byddwn yn sicrhau bod gennym ni fodel hylaw sy'n gwneud gwahaniaeth i bob ysgol. Bydd ein dull yn cefnogi mwy o ymreolaeth i'r ysgolion, y clystyrau a'r cynghreiriau hynny sydd â'r gallu i hunan wella, ar yr un pryd â chytuno ar becyn cymorth mwy cynhwysfawr a dwys i ysgolion sy'n wynebu heriau penodol ar adeg benodol, ac am gyfnod penodol.
- Ar y cyd: ble nad oes yr un ysgol yn gweld ei hunan fel ynys. Trwy weithio gyda'i gilydd mewn dull strwythuredig, gall ysgolion wella'n gynt ac yn fwy cynaliadwy. Bydd cydweithio â chymheiriaid ac ymgysylltu â chymheiriaid yn nodwedd ganolog o'n model. Bydd pob partner allweddol yn mynd ati i ddatblygu cyd-effeithiolrwydd yn seiliedig ar dryloywder, gonestrwydd, bod yn agored ac ymddiriedaeth uchel. Mae a wnelo â phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i greu capasiti yn y system drwy brosesau a gweithgareddau cyfoethogi ansawdd.
- Tryloyw: ble byddwn yn cydnabod ehanger profiadau dysgu ar draws y rhanbarth a gwerth ychwanegol ysgolion, arweinwyr, athrawon, staff cymorth ac ymgynghorwyr, sy'n gweithio gyda'i gilydd at ddiben cyffredin cytûn.

Wrth i ni symud ymlaen gyda chynllunio a chyflwyno'r daith ddiwygio, bydd ein dull partneriaeth ysgol yn creu hyblygrwydd i ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gytuno ar ddyletswyddau craidd ar gyfer:

- gwaith datblygiadol ar y cyd
- dulliau o gefnogi gwelliannau mewn ysgolion unigol o fewn eu clwstwr / cynghrair
- prosesau adrodd ac atebolrwydd

Rhoddir hyblygrwydd hefyd i glystyrau a chynghreiriau gytuno ar swyddogaeth graidd a chyfraniad GwE i'r tair agwedd a nodwyd uchod. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod ganddynt y gallu i gyflawni nifer o'r swyddogaethau craidd, darperir adnoddau i gefnogi gyda'r gwaith hwn a bydd cyfraniad GwE yn gymesur. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod angen i GwE gyflawni cyfran uwch o'r swyddogaethau craidd, bydd lefel yr adnoddau a neilltuir yn gymesur. Gallai cyfraniad GwE gynnwys:

- Arwain neu gymryd rhan mewn cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gyfoethogi ansawdd
- Arwain neu gyfrannu i waith datblygiadol
- Hyfforddi neu fentora grwpiau neu unigolion
- Hwyluso gweithgareddau cydweithredol clystyrau / cynghreiriau
- Arwain ar ddatblygiad proffesiynol ysgol gyfan neu glwstwr / cynghrair
- Darparu pecyn cymorth fwy dwys ar gyfer ysgolion unigol o fewn clwstwr / cynghrair
- Cyfraniadau rôl arbenigol
- Cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu
- Cyfeirio a rhannu arferion gorau

Diffinnir rolau a chyfraniadau o fewn 'cytundeb partneriaeth' clwstwr / cynghrair, a fydd yn cael ei adolygu a'i werthuso ar ddiwedd y flwyddyn (gweler y Ffeithlun isod).

**CYNLLUN PARTNERIAETH YSGOLION**

| Diben Craidd | Cyd-ddatblygu | | Cefnogi Gwelliant | | Atebolrwydd ac Adrodd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Be?* | *Sut?* | *Be?* | *Sut?* | *Be?* | *Sut?* |
| **Clwstwr** | | | | | | |
| **Ysgolion Unigol** | | | | | | |
| **GwE** | | | | | | |
| **DEILLIANNAU DISGWYLIEDIG SYDD WEDI EU HADNABOD GAN Y BARTNERIAETH** | | | | | | |

**ADNODD CYTUNEDIG GWE AR GYFER Y BARTNERIAETH**

**£xxxx**


Er mwyn cryfhau datblygiad y cwricwlwm newydd, fe sefydlir rhwydweithiau datblygu MDaPh yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr yn cydweithio i ddatgloi potensial bob MDaPh drwy fodelu, cynllunio a rhannu arferion cwricwlwm.

Bydd rhwydweithiau cydweithredol yn gweithio ar y meysydd a ganlyn:

1 Datgloi potensial un o'r MDaPh
   - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
   - Mathemateg a Rhifedd
   - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
   - Y Dyniaethau
   - Iechyd a Lles
   - Y Celfyddydau Mynegiannol

2 Asesu
3 Cynllunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan

Bydd ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cael cyfle i gydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid, yn cefnogi cynllunio cwricwlwm a datblygu MDaPh yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhaeadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu i ddatblygu modelau cynllunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd egwyddor is-reolaeth yn sicrhau cyd-destun lleol i'r gwaith hwn.




Fe sefydlir wyth rhwydwaith MDaPh lleol ym mhob Awdurdod Lleol, un ar gyfer bob un o'r meysydd a nodwyd uchod. Bydd unigolion o'r grwpiau lleol hyn yn cynrychioli'r ALl mewn wyth rhwydwaith MDaPh rhanbarthol, gan sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth. Bydd grŵp strategol rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALl, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith.

Bydd gan rwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDaPh effeithiol a fydd yn cefnogi ysgolion ar eu Taith Ddiwygio.

**Adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol**

Credwn yn gryf yma yng ngogledd Cymru y dylai adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol fod yn sbardun allweddol ar gyfer gwelliant parhaus mewn ysgolion wrth iddynt gynllunio ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd a'r diwygio cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion ac UauCD i wreiddio rhaglen o adolygu gan gymheiriaid ar sail y prosesau a ganlyn:

- ***Hunan adolygiad*** : dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda y mae'r ysgol yn adnabod ei hunan, a chael ei arwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwyr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o sefydliad sy'n dysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at wireddu'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar ei thaith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.
- ***Adolygiad gan gymheiriaid*** : mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau, a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu â'r ysgol. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.
- ***Cymorth Ysgol i Ysgol*** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad ei hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Pan fo staff yn berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu capasiti ymhellach a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r partneriaethau a ddatblygir felly fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

**Ysgolion sy'n Destun Pryder**

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol.

Bydd **Grŵp Amlasiantaethol** yn cyfarfod yn rheolaidd (yn fisol, neu fel bo'r angen) i:

- Adnabod yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o achosi pryder
- Cytuno â'r ysgol ar y cynllun cymorth 360 unigryw. Bydd cynlluniau yn nodi'n glir pa wasanaeth a fydd yn darparu cymorth ac adnoddau yn erbyn camau gweithredu penodol.
- Cytuno ar drefniadau monitro'r cynlluniau 360.
- Arfarnu effeithiolrwydd y cynlluniau cymorth 360 a gweithio efo ysgolion i fonitro cynnydd ac effaith
- Rhannu unrhyw arferion effeithiol o fewn ac ar draws awdurdodau lleol y rhanbarth
- Pan fo pryderon yn dwysáu, bydd y Grŵp Amlasiantaethol yn adrodd i'r Bwrdd Ansawdd fel y gall y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth wneud penderfyniad gwybodus ac amserol ynghylch defnyddio pwerau ymyrraeth statudol.

Bydd **Bwrdd Ansawdd yr ALl** yn cyfarfod bob hanner tymor, a'r Prif Swyddog Addysg fydd y Cadeirydd. Dylid cofnodi penderfyniadau gweithredu'r Bwrdd a'u rhannu â'r Grŵp Amlasiantaethol neu'r gwasanaeth cefnogi fel y bo'n berthnasol.

Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio fwyaf ar:


- Asesu cynnydd yr ysgolion hynny sy'n destun pryder a gafodd eu hadnabod gan Estyn neu brosesau lleol.
- Asesu ansawdd y cynllunio cymorth ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder a wneir gan y Grŵp Amlasiantaethol
- Sicrhau bod y Grŵp Amlasiantaethol yn cyflawni ei ddyletswyddau monitro yn effeithiol.
- Gweithredu'n briodol pan fydd y Grŵp Amlasiantaethol yn rhannu bod pryderon wedi'u huwchgyfeirio, ac yn benodol am allu arweinyddiaeth a llywodraethiant ysgol i wella ar gyflymder digonol.
- Ystyried defnyddio pwerau ymyrraeth statudol pan fo pryderon am gynnydd, neu gyflymder cynnydd
- Adnabod yr arferion gorau i'w rhannu o fewn ac ar draws awdurdodau lleol

Lle mae angen, gallai'r awdurdod lleol hefyd sefydlu **Bwrdd Gwella Carlam** i gefnogi ysgolion unigol ar eu taith wella. Bydd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, GwE, y pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol. Pwrpas y BGC fydd:

- Darparu cymorth ar gyfer gwella ysgolion
- Darparu fforwm her, mewnol ac allanol
- Adnabod unrhyw bryderon
- Adnabod unrhyw weithredu i'w flaenoriaethu
- Hysbysu'r Pennaeth Addysg ymhellach a oes angen i'r ALl ddefnyddio ei bwerau ymyrraeth

Ceir crynodeb isod o'r strwythurau a'r prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder:

**Strwythurau a phrosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi YAC.**



**Dyletswyddau Statudol ac Atebolrwydd**

Bydd Arweinydd Craidd GwE a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio mewn partneriaeth efo swyddogion Awdurdod Lleol i weithredu'r *Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol-Ysgol* . Arweinydd Craidd GwE ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant fydd yn monitro ac arfarnu safonau cyffredinol ac ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth, gan weithio mewn partneriaeth efo ysgolion a chlystyrau. Fodd bynnag, bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio efo ysgolion i esblygu'r system atebolrwydd bresennol er mwyn galluogi ysgolion a chlystyrau i gael mwy o ymreolaeth. Bydd adolygu gan gymheiriaid yn elfen allweddol wrth gefnogi ysgolion i arfarnu eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwelliant, a'u helpu i ganolbwyntio ar feysydd gwelliant penodol wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm newydd a'i ddarparu.

Wrth symud tuag at system sy'n hunan wella, bydd mwy o bwyslais ar atebolrwydd moesol a phroffesiynol. Bydd perthnasau atebolrwydd ysgol yn cynnwys y rheiny gyda disgyblion, rhieni, cyd-weithwyr a'r gymuned leol. Yr her i ni dros y blynyddoedd nesaf fydd creu diwylliant ble mae ysgolion yn teimlo bod ganddynt fwy o berchenogaeth ar atebolrwydd, a newid y syniad bod atebolrwydd yn seiliedig ar ddata ac arolygiad yn unig a'i fod yn cael ei weithredu gan rywun uwch eu pen.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion i ddatblygu system atebolrwydd gadarn, system sydd gan randdeiliaid allweddol ffydd ynddi ac sydd yn dal bob partner yn gwbl atebol am ei rôl yn datblygu ein dysgwyr i ddod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- Unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Disgwyliadau system yng ngogledd Cymru**

Erbyn mis Medi 2024:

- Bydd bob ysgol yn bodloni gofynion statudol *Cwricwlwm i Gymru,* a bydd gan bob ysgol berthynas gref efo'i chymuned ac yn datblygu ystod eang o sgiliau dysgwr a fydd yn eu gwneud yn barod ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

- Bydd cynllunio ar sail pedwar diben y cwricwlwm newydd yn darparu cynnig cytbwys i fodloni anghenion pob dysgwr.

- Bydd strategaeth sgiliau sylfaenol sydd yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sail i gwricwlwm bob ysgol.

- Bydd strategaeth i blant bregus i ddysgu yn weithredol, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, eu lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, a bydd y strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.

- Byddwn wedi cydweithio gyda ysgolion ac awdurdodau lleol i fabwysiadu model atebolrwydd newydd, a fydd yn cynnwys prosesau grymus i sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar bob lefel ar gyfer gwelliannau a datblygiadau ysgol rhanbarthol.

- Bydd strategaeth effeithiol ar waith ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder, gyda'r capasiti priodol i adnabod a mynd i'r afael ag angen.

- Bydd gwella addysgu wrth wraidd pob gwelliant.

- Bydd cydweithio aeddfed rhwng ysgolion mewn clystyrau a chynghreiriau ar draws y rhanbarth, a byddant yn cymryd cyd-berchnogaeth dros wella ysgolion ei gilydd i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.

- Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg grymus ar waith i lwyr gefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwella sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr a'r gweithlu.

- Bydd cynllun dysgu proffesiynol cadarn mewn lle sy'n bodloni anghenion arweinwyr a staff addysgu, a hynny er mwyn helpu ysgolion i weithredu bob agwedd ar y daith ddiwygio a galluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm newydd.

- Bydd GwE yn gweithredu'n effeithiol fel sefydliad sy'n dysgu, yn unol â'r saith dimensiwn 'gweithredu' fel y nodir gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD], a bydd gennym bartneriaethau cryf ac aeddfed gyda'n randdeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys strategaeth gyfathrebu glir.

**ADRODDIAD PWYLLGOR CRAFFU**

**DAL CYNNYDD AC EFFAITH - YMWELIAD GWAELODLIN HYDREF 2021**

Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddiffinio a chynllunio rhaglen gymorth fydd yn caniatau i ni gwrdd â'r disgwyliadau system sydd wedi'u pennu ar gyfer 2024, ynghyd â'r cerrig milltir penodedig ar hyd y daith, byddwn yn gweithio'n agos hefo ysgolion dros yr hanner tymor agoriadol i ddal cynnydd ac effaith y gweithredu sydd wedi bod hyd yma ac i sicrhau bod cynllun gwella priodol yn ei le ar gyfer pob sefydliad..

Bydd yr ymweliadau yn adeiladu ymhellach ar y gefnogaeth gyflwynwyd cyn yr haf wrth i ysgolion fynd ati i adnabod llwyddiannau ac agweddau oedd angen sylw pellach.

Yn ein hymwneud hefo arweinwyr ar draws yr ysgol byddwn yn saernio ffocws y trafodaethau ar flaenoriaethau'r ysgol a'r clwstwr wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Rhydd hynny gyfle i drafod a gwirio cynlluniau cychwynnol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm, bwriadau o ran parhau i wella pedagogiaeth, blaenoriaethau trawsnewid ADY ynghyd â sut y gall cyd-atebolrwydd ddatblygu oddi fewn i fodel cydweithio clwstwr.

Bydd cyfle yma hefyd i weld sut mae ysgolion wedi ymgysylltu ymhellach hefo'r arweiniad a'r deunyddiau cefnogol sydd wedi eu rhannu hefo nhw gan GwE trwy'r gweithdai hyfforddi ac i weld sut maen nhw'n ymgysylltu ac yn ymroi i waith y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol sydd yn weithredol ar draws y MDaPh ac ym meysydd dylunio'r cwricwlwm ac asesu.

Trwy wneud hyn byddwn mewn sefyllfa aeddfetach i sicrhau fod cefnogaeth addas a phriodol ar waith ar lefel ysgol, clwstwr ac awdurdod, boed hynny trwy raglenni dysgu proffesiynol, trwy gyfrwng yr amryfal fforymau a rhywdweithiau neu drwy gynlluniau cymorth penodol. Caiff yr ymweliadau eu defnyddio hefyd i gynaeafu gwybodaeth am yr arfer da sy'n datblygu ac sydd angen ei ddathlu a'i rannu'n ehangach.

Man cychwyn pob trafodaeth fydd arfarniad ac adnabyddiaeth yr ysgol ei hun o'r hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus, ynghyd â'r hyn y maent wedi'i adnabod fel yr agweddau sydd yn parhau i fod angen sylw. Bydd yr ymgysylltu a'r trafodaethau yn digwydd dros gyfres o ymweliadau ac yn cael ei weld fel rhan o broses yn hytrach na chyffyrddiad gloyn byw seiliedig ar un ymweliad yn unig. Nid proses o 'wneud rhywbeth' i ysgol fydd hon chwaith ond yn hytrach ymarfer diagnostig o arfarnu, adnabod a chynllunio fydd yn cael ei gynnal ar y cyd hefo'r

arweinwyr. Mae'n ymwneud â 'chyfoethogi ansawdd' yn hytrach na 'sicrhau ansawdd'. Caiff yr ymagwedd yma at y gwaith ei groesawu yn fawr gan benaethiaid ysgolion.

Yn y cynradd byddwn hefyd yn defnyddio'r ymgysylltu i wirio sut mae'r ysgolion yn dal a mesur cynnydd mewn meysydd megis llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, a chefnogaeth i ddysgwyr sy'n fregus i ddysgu.

Yn ein hymwneud hefo'r uwchradd, bydd ffocws ychwanegol ar weld be mae gwerthusiad yr ysgol o asesiadau canolfan 2021 yn ei ddweud. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021) cadarnhaodd y Gweinidog Addysg:

*'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.'*

Fodd bynnag, amlygodd hefyd y bydd yn ofynnol i bob ysgol ddefnyddio'r ystod wybodaeth sydd ar gael o brosesau eleni i gynnal hunanwerthusiad ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Byddwn felly yn defnyddio'r wybodaeth sydd gan ysgol am gyrhaeddiad ar lefel disgybl i ysgogi trafodaethau am ganlyniadau TGAU a Lefel A eleni. Gall y trafodaethau hynny gael eu sbarduno gan ymholiadau megis:

- pa dystiolaeth o ddysgu ac addysgu llynedd sydd yn dilysu eich graddau canolfan?
- pa wersi a ddysgwyd am wydnwch gweithdrefnau safoni a chymedroli yn yr ysgol? I ba raddau y bydd prosesau'n cael eu mireinio ymhellach?
- pa mor hyderus yw'r ysgol bod pob adran wedi nodi eu blaenoriaethau gweithredu 2021-22 yn gadarn ac yn bwrpasol? Pa gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu i gefnogi arweinwyr pwnc gyda'r gwaith hwn os oes rhai pryderon wedi codi?
- beth sydd wedi ei adnabod fel meysydd cryfderau allweddol? Pa gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu i rannu'r rhain ar draws yr ysgol?
- a oes unrhyw feysydd / pynciau lle mae angen mireinio cywirdeb gwaith tracio ac asesu? Pa gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu i gefnogi arweinwyr pwnc / athrawon gyda'r gwaith fel y gellir rhoi sylw effeithiol i leihau amrywiant yn yr ysgol?
- pa gynlluniau sydd i hybu cefnogaeth bellach i grwpiau bregus o ddisgyblion, gan gynnwys dysgwyr PYD?

- pa gynlluniau sydd ar waith i weithio ar y cyd ag ysgolion rhanbarthol eraill i gefnogi a chynorthwyo gwelliannau pellach? I ba raddau y bydd cydweithredu yn cynnwys cyfraniad arweinwyr canol a staff addysgu

**COFNOD YMWELIAD TYMOR YR HYDREF 2021**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | | **ALl** | |
| **Pennaeth** | | **YCG** | |
| **Adroddiad gan** | | **Dyddiad ymweliad** | |

**GRADDAU CANOLFAN 2021**

***Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021) cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.' Cadarnhaodd hefyd 'bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrio ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'***

**CWRICWLWM I GYMRU**

***'I ysgolion cynradd, cyflwynir y cwricwlwm ym mis Medi 2022. Bydd rhyddid i'r ysgolion uwchradd sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i Blwyddyn 7 wneud hynny, ond ni fydd hyn yn orfodol tan 2023, pryd y gellid ei gyflwyno i Blynyddoedd 7 a 8 gyda'i gilydd. Dylai ysgolion uwchradd ddechrau trafod eu cynlluniau ar gyfer 2022 yn fewnol ac efo'r consortia rhanbarthol a bydd proses ar gael maes o law i'r ysgolion hynny sy'n dymuno cyflwyno yn y flwyddyn honno.Yn y flwyddyn academaidd 2021/22, dylai pob ysgol uwchradd fod yn gwneud gwaith yn y tri chyfnod. Dylai ysgolion uwchradd sy'n bwriadu cyflwyno yn 2023 barhau â'r gwaith hwn, ymestyn arno a'i ddirwyn i ben yn 2022/23. Yn ystod yr amser hwn, dylent weithio'n agos iawn gyda'u hysgolion cynradd clwstwr i ddeall eu profiadau a natur cynnydd dysgwyr'.***

**Disgwyliadau erbyn diwedd yr Hydref 2021 :**

**Pob ysgol hefo cynllun clir yn amlygu gweithredu ar gyfer 2021-22 er mwyn cwrdd â gofynion statudol Medi 2022 [neu 2023 uwchradd]. Mae'r cynllun yn amlygu agweddau sydd yn cynnwys:**

- **Dysgu proffesiynol i gefnogi staff**
- **Defnydd o grantiau**
- **Treialu ac arfarnu dulliau o ddylunio'r cwricwlwm ar draws y 6 MDaPh**
- **Ymgysylltu ehangach hefo rhanddeiliaid**

**Mae gan bob ysgol gynllun sy'n nodi blaenoriaethau clir ar draws y clwstwr 3-16 lle mae meysydd clir ar gyfer cydweithredu a datblygu dull a rennir yn cael eu nodi.**

**Beth yw eich blaenoriaethau ysgol ar gyfer CiG yn ystod tymor yr Hydref?**

**Beth ydy eich blaenoriaethau clwstwr ar gyfer CiG yn ystod tymor yr Hydref?**

**Sut ydach chi'n ymgysylltu ymhellach â'r adnoddau o gynnig dysgu proffesiynol CiG?**

- **Arwain newid**
- **Datblygu gweledigaeth a rennir**
- **Sesiynau diwygio cwricwlwm 1, 2, 3**

**Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG a thim ehangach GwE wrth gefnogi y gwaith?**

**Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dyluniad cwricwlwm**

- **yn eich ysgol?**
- **ar draws eich clwstwr?**

| Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr? |
|---|
| |
| **ADY**<br><br>**Beth yw eich blaenoriaethau ysgol /clwstwr ar gyfer Trawsnewid ADY yn ystod tymor yr Hydref?** |
| |
| **DYSGU PROFFESIYNOL**<br><br>**Ydach chi wedi adnabod meysydd/agweddau ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol** |
| |
| **ATEBOLRWYDD**<br><br>**Sut dylai atebolrwydd edrych? Sut fyddwch chi'n mesur cynnydd ac effaith? Be fydd natur yr adrodd?** |
| |

| Argymhellion Gweithredu | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu sydd ei angen** | | **Cyfrifoldeb** | **Erbyn Pryd** |
| | | | |
| **Arwyddwyd** | | **Dyddiad** | |

**ADRODDIAD I BWYLLGOR CRAFFU GWYNEDD**

**21 HYDREF**

**RHAGLEN CYFLYMU'R DYSGU**

**Cefndir:**

Yn sgil y pandemig Covid mae'r Grant Rhaglen Dysgu Carlam wedi bod ar gael i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt fynd ati i gryfhau y gynhaliaeth a'r gefnogaeth i ddisgyblion. Fel adroddwyd i'r pwyllgor ym Mehefin bod pob ysgol wedi llunio cynlluniau addas ar gyfer y defnydd o'r arian hwn er mwyn ymateb i anghenion y dysgwyr dan eu gofal. Daliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau yma mewn dangosfwrdd rhanbarthol. Lle na ddefnyddiwyd y Dangosfwrdd mae'r ysgolion wedi cynllunio yn defnyddio'u templedi eu hunain sydd wedi eu hanfon i'r ymgynghorwyr cyswllt. Mae mynediad i'r cynlluniau gan ymgynghorwyr GwE a Swyddogion yr Awdurdod. Dilyswyd y Cynlluniau gan yr ymgynghorwyr cyswllt a lle oedd pryder am ansawdd a grymuster rhai cynlluniau, fe rannwyd hynny gyda swyddogion perthnasol yr Awdurdod a gyda'r ysgolion er mwyn iddynt allu ymateb i bryderon. Yr Awdurdod sydd â'r cyfrifoldeb o fonitro'r gwariant.

Mae'r cynlluniau yn cyd-fynd gydag amodau'r grant *(gweler manylion pellach am yr Amodau yn adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 10 Mehefin 2021)* ac yn adnabod recriwtio staff ychwanegol neu gynyddu amser staff cyfredol er mwyn cynnal rhaglenni ymyrraeth i adfer a chodi safonau – boed hynny ar sail athro neu gymhorthydd. Pan oedd y pandemig ar ei anterth roedd yn anodd i ychydig o ysgolion ddarganfod staff priodol yn lleol ac roedd cyfyngiadau eraill yn ei gwneud yn anodd i fod yn tynnu gweithwyr newydd i mewn. Mae'r un her yn parhau i wynebu rhai ysgolion.

Sicrhaodd GwE gefnogaeth i'r rhaglen cyflymu'r dysgu drwy rannu'r dystiolaeth a'r ymchwil i'r ymyraethau mwyaf effeithiol i ddisgyblion neu grwpiau fod yn 'dal i fyny' gyda'u dysgu. Cynhaliwyd nifer fawr o gyflwyniadau rhithiol i rannu ac egluro'r meddylfryd tu cefn i rai o'r ymyraethau yma. Rhannwyd llawer o adnoddau i gyd-fynd â'r cynlluniau drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE ac mae'n amlwg bod llawer o ysgolion wedi gwneud defnydd helaeth o'r rhain. Ar lefel ysgol unigol mae'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi bod wrth law i gynnig arweiniad pellach ac i fod yn rhannu arferion da. Yn ychwanegol yn yr uwchradd, dan arweiniad yr YCG pynciau craidd, mae cyfarfodydd rhwydwaith i bob Pennaeth Pwnc craidd wedi rhoi sylw i ymyraethau llythrennedd a rhifedd gan gynnwys rhannu strategaethau ac adnoddau y gall yr adrannau eu defnyddio neu addasu i'w dibenion. Gellir cael blas ar y math o adnoddau sydd wedi cael eu llunio gan YCG pwnc GwE i ysgolion drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.herio.cymru/items/accelerate-english-tier1.html. Mae ymweliadau dilynol neu gefnogaeth ychwanegol wedi bod ar gael i'r ysgolion hynny sydd wedi gofyn amdano drwy gyfrwng eu cynlluniau cymorth unigol.

Yn gyffredinol mae'r ysgolion wedi ymdopi yn dda iawn mewn blwyddyn a hanner hynod o anodd a blinedig iddynt. Mae'r penaethiaid a'r staff i gyd wedi arddangos dycnwch rhyfeddol ac wedi cydweithio, cynnal a chefnogi ei gilydd yn ardderchog. Mae lles y disgyblion wedi bod yn flaenoriaeth gan bawb ac mae ymyraethau i gyflymu'r dysgu wedi gallu digwydd.

Ers cychwyn yn ôl ym Medi mae heriau yn parhau mewn sawl ardal gyda chymaint o ddisgyblion a staff i ffwrdd neu yn ynysu. Mae'r ymyraethau fel rhan o'r rhaglen yma wedi ailgychwyn yn y rhan fwyaf o ysgolion ond mae monitro effaith gwariant y Rhaglen Cyflymu'r Dysgu ar lawr dosbarth yn parhau i gyflwyno sialensau. Mewn nifer o ysgolion llwyddwyd i fesur effaith yn uniongyrchol trwy

gyd-graffu neu gyd-arsylwi. Fodd bynnag, mewn sawl ysgol mae'r ymarfer wedi digwydd yn bennaf drwy drafodaethau gyda'r pennaeth a'u gallu hwythau i rannu data neu enghreifftiau penodol o effaith y rhaglenni gyda ni.

Drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion yr Awdurdod ac YCG GwE rhennir gwybodaeth am ysgolion unigol a hynny er mwyn targedu cymorth ychwanegol pan fo pryder neu i adnabod arfer da ar gyfer ei rannu.

Yn y cynradd, roedd bron pob ysgol, drwy drafod, anfon holiaduron a thrwy asesiadau mewnol wedi llwyddo i ddarganfod gwaelodlin i'w disgyblion pan ddaethant yn ôl ym Medi 2020. Roedd cynlluniau gwariant y rhaglen yn eu dangosfwrdd felly yn targedu yr unigolion neu grwpiau ble 'roedd y cyfnodau clo wedi effeithio fwyaf arnynt boed o ran lles neu gyrhaeddiad'. Lluniwyd grwpiau ymyrraeth ym mhob ysgol bron i roi cymorth adfer i'r disgyblion yma gyda'r prif ffocws ar wella lles ac ymdopi, llythrennedd gan gynnwys gwella llafaredd, darllen ac ysgrifennu ac i gynnal a chodi sgiliau rhifedd. Gwnaed ddefnydd da iawn hefyd gan lawer o ysgolion o'r arweiniad gan GwE i ystyried ymchwil i'r ymyraethau mwyaf effeithiol a thrwy hynny ddefnydd o lawer o adnoddau Dysgu Carlam ar safwe GwE.

Ymysg yr enghreifftiau o ddefnydd ac effaith y cyllid gellid nodi:

- Ysgolion yn llwyddo i helpu disgyblion ddod nol i fywyd ysgol, i geisio ymdopi gyda sefyllfaoedd anodd o gartref ac i fod yn fwy dygn yn eu gwaith.
- Defnyddiwyd yr arian i ryddhau cymorthyddion arbenigol o'u dosbarthiadau arferol i fod yn cynnal mwy o sesiynau ELSA (Cymorth Llythrennedd Emosiynol) a Talkabout (trafod hunanwerth a sgiliau cymdeithasol) gyda unigolion neu grwpiau o blant bregus ar draws yr ysgol. Arweiniodd hyn at fwy o ddisgyblion yn llwyddo i blethu nol i fywyd ysgol ac ail greu ffrindiau yn ogystal â bod yn fwy parod i ddysgu.
- Manteisiodd un ysgol ar fyfyrwyr cwrs meistr lleol oedd gartref o brifysgol ychydig ddyddiau'r wythnos i ddod i mewn i'r ysgol i fod yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion ar ailgodi sgiliau llafar a thrafod Cymraeg. Gyda chefndir gradd seicoleg a iaith raenus y myfyrwyr gwelodd yr ysgol wahaniaeth buan iawn yn safon iaith ac ymagwedd pob aelod o'r grwpiau yma.
- Manteisiodd ysgol arall ar hyfforddiant Therapi LEGO er mwyn cynnal sesiynau rheolaidd i grwpiau o ddisgyblion oedd wedi mynd yn fewnblyg a thawel wedi dychwelyd. Yn ôl asesiadau'r ysgol mae'r sesiynau wedi codi hunan hyder, hunan werth, sgiliau cydweithio a sgwrsio bron pob un o'r disgyblion yma.
- Mae pob disgybl oedran Derbyn, Bl 1 a 2 wedi colli canran fawr o'u hamser mewn ysgol dros y deunaw mis. Mae llawer o ysgolion yn nodi fod oediad yn sgiliau echddygol mân nifer o'r plant o'r oedran yma sy'n cael effaith ar eu gallu i afael mewn pensil, trin siswrn ayyb. Mae'r ysgolion yma felly wedi bod yn targedu'r sgiliau hyn drwy weithgareddau sy'n ddatblygiadol addas i gryfhau cyhyrau'r llaw megis chwarae gyda chlai, toes a blociau adeiladu. Mae hyn yn dechrau cael effaith bositif ar sgiliau'r plant i reoli pensil, creu marciau ac ysgrifennu'n annibynnol.
- O ran y medrau, bu bron pob ysgol yn defnyddio cyllid o'r rhaglen i dargedu grwpiau o ddisgyblion oedd wedi eu hadnabod fel eu bod wedi llithro yn eu llythrennedd a'u rhifedd, disgyblion yn aml iawn nad oedd mewn grwpiau ymyrraeth cyn y pandemig. Mae pob ysgol a sefydlodd waelodin pan ddaeth y plant yn ôl yn dangos bod canran uchel iawn o'r

disgyblion yma wedi gwneud cynnydd yn dilyn ymyraethau. Mewn un ysgol dargedodd ddarllen disgyblion B2 roedd 85% wedi gwneud cynnydd tuag at eu hoed darllen cronolegol o fewn tymor.
- Sgil effaith tymor hir y rhaglen a'r gweithredu yma ydi bod llawer o gymorthyddion ac athrawon wedi eu huwchsgilio ac wedi ennill hyder a phrofiad i fod yn cynnal ymyraethau effeithiol pellach gyda grwpiau newydd o ddisgyblion.

Mae pob ysgol wedi arfarnu eu darpariaeth mewn rhyw fodd drwy gydol y flwyddyn a thrwy hyn ddechrau dal effaith y rhaglen. Maent wedi defnyddio amryw o ddulliau megis trafodaethau a holiaduron disgyblion, asesiadau mwy ffurfiol a thrafodaethau helaeth ymysg y staff. Mae'r ysgolion i gyd wedi ystyried effaith eu darpariaeth ac wedi mesur cynnydd y disgyblion drwy sgyrsiau neu holiaduron lles, asesiadau lles fel PASS neu Boxhall a thrwy gynnal asesiadau cenedlaethol llythrennedd a rhifedd yn ogystal â phrofion safonol mewnol. Yn hwyr yn nhymor yr haf ac i mewn i eleni mae llawer o ysgolion wedi llwyddo i ail godi a chynnal sesiynau arfarnu mwy ffurfiol o'u darpariaeth megis craffu gwaith, taith ddysgu ac ychydig wedi arsylwi gwersi. Mae bron pob ysgol wedi dadansoddi eu darganfyddiadau arfarnu ac yn monitro tracio cynnydd disgyblion yn ofalus. Maent wedyn wedi addasu'r ymyraethau fel bo'r angen gan lunio ymyrraeth briodol neu addasu'r ddarpariaeth i ddisgyblion oedd wedi llithro, heb wneud cynnydd neu angen mwy o gefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi adrodd am y ddarpariaeth a'r cynnydd i'w llywodraethwyr.

O ran y rhaglen yma yn benodol felly, mae effaith tymor byr bositif i gynlluniau'r ysgolion gyda bron pob ysgol yn nodi bod yr ymyraethau wedi cyfrannu at godi neu adfer safonau. Mae llawer o'r cynlluniau yma fodd bynnag yn mynd i gymryd mwy o amser i ddangos yr effaith yn llawn ar rai o'r disgyblion mwyaf bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n parhau yn gynnar felly i weld effaith lawn tymor hir gwariant y rhaglen yma ar gyrhaeddiad.

Bydd y flwyddyn yma yn gadael effaith tymor hir ar lawer o'r plant a'u teuluoedd a bydd llawer o ysgolion felly yn buddsoddi mewn cymorth tu hwnt i'r rhaglen i ymateb i'r angen hir dymor.

Yn unol ag amodau'r grant, mae'r ysgolion uwchradd wedi targedu ymyrraeth ar gyfer carfanau o ddisgyblion penodol megis disgyblion sydd yn paratoi am arholiadau, plant bregus a difreintiedig, blwyddyn 7 ac unrhyw grwpiau penodol neu unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod angen cymorth ychwanegol ym meysydd llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd ddigidol, hyrwyddo sgiliau dysgu annibynnol a sicrhau cefnogaeth ychwanegol drwy hyfforddi.

Mae'r cynlluniau yn y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys penodi neu gynyddu amser cymorthyddion neu anogwyr dysgu ar gyfer sesiynau dal i fyny. Gwelwyd enghreifftiau amrywiol o sut mae'r ysgolion wedi defnyddio'r arian i gefnogi'r dysgu. Yn eu plith:

- cynnal gwersi llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion gan addasu amserlenni i sicrhau targedu ymyrraeth ychwanegol
- cynnal gwersi ôl-ysgol i gefnogi disgyblion i ddal i fyny gyda'u gwaith yn gyffredinol
- targedu ymyrraeth benodol i ddisgyblion yn y blynyddoedd arholiad oedd wedi eu hadnabod i dderbyn cefnogaeth ychwanegol.
- cefnogi lles drwy gynnal sesiynau cwnsela ychwanegol gan elusennau megis 'Joshua Tree' i ddisgyblion bregus sydd wedi eu heffeithio'n andwyol yn ystod y pandemig.
- goresgyn rhwystrau ymarferol i ddysgu i ddysgwyr unigol drwy ddarparu adnoddau megis llyfrau, gliniadur, cefnogaeth un i un.

Ers cychwyn y flwyddyn addysgol newydd ym mis Medi, y bwriad oedd i symud i drefn o fonitro oedd yn cynnwys cyd-graffu ac arsylwi gwersi gydag uwch dimau rheoli yn yr ysgolion gan arfarnu ansawdd gweithredu ar y cyd a dilysu barnau. Teg nodi bod y sefyllfa wedi bod yn heriol i ysgolion oherwydd cynifer yr achosion o Covid a hynny yn amharu ar staffio ac ymarferoldeb cynnal ymarferion craffu. Serch hyn, mae sawl ysgol uwchradd bellach wedi ail-gydio yn y gwaith hwn. Mewn ychydig o ysgolion sydd yn derbyn cefnogaeth ddwysach, mae'r YCG cyswllt wedi llwyddo i gyd-graffu ar waith gyda'r uwch dimau rheoli gan ddilysu barnau yr un pryd.  Ymhlith y llwyddiannau y mae ysgolion wedi eu hadnabod fel effaith gynnar i'r ymyraethau mae:

- gwell cymhelliant gan ddisgyblion
- dysgwyr yn gwneud cynnydd addysgol da gan eu bod yn cael adborth penodol a chadarnhaol mewn gwersi dal i fyny.
- hyder disgyblion yn cynyddu
- gwell ymwybyddiaeth o gywirdeb ieithyddol gan ddisgyblion
- disgyblion bregus yn fwy parod i fynychu'r ysgol oherwydd bod cefnogaeth wedi ei deilwro i'w hanghenion.
- disgyblion yn cael cefnogaeth a threulio amser mewn ethos gynhaliol yn gymorth i wella iechyd emosiynol dysgwyr.
- ysgol gyda gwell dealltwriaeth o bryderon dysgwyr ac mewn sefyllfa i ymateb i`r pryderon hynny. O ganlyniad, darpariaeth yn cael ei haddasu`n gyson i fod yn fwy effeithiol.
- ysgol yn datblygu'n gadarn i gyfeiriad hanfodion CIG.

Rhaglen Waith Ddrafft Craffu 2021/22

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

| **10/06/2021** |
|---|
| • Y Gymraeg ym myd Addysg gan gynnwys y Canolfannau Iaith<br>• Grantiau i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion (ar y cyd â GwE)<br>• Cinio ysgol am ddim |
| **21/10/2021** |
| • Gagendor Lles , gan gynnwys<br>• effaith covid ar addysg ein holl ddisgyblion<br>• pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant ein holl ddisgyblion (ar y cyd â GwE)<br>• Cefnogaeth i fusnesau (ymlaen o 08/02/22) |
| **09/12/2021** |
| • Lefel diweithdra a chefnogaeth nol i swyddi<br>• Adroddiad blynyddol Addysg<br>• Cinio ysgol |
| **08/02/2022** |
| • Fframwaith Adfywio (symud o 21/10/21)<br>• Cwricwlwm newydd i Gymru gan gynnwys rhoi sylw i addysg awyr agored |
| **31/03/2022** |
| • BUEGC / *NWEAB*<br>• Twristiaeth gynaliadwy |

Adolygwyd Hydref 2021